# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 17/06/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Datganiad am Bolisi'r Iaith Gymraeg
Statement: Welsh Language Policy Statement

Datganiad: Degawd o Gyni i Gymru? Y Pwysau Ariannol a fydd yn Wynebu'r GIG yng Nghymru tan 2025 a 2026—Adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield.
Statement: A Decade of Austerity for Wales? The Funding Pressures Facing the NHS in Wales to 2025-26—a Nuffield Trust Report

Datganiad: Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig
Statement: The Future of Glastir under the Rural Development Plan

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Twristiaeth
Statement: Update on the Tourism Strategy

Datganiad: Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf
Statement: Delivering Families First

Datganiad: Creu'r Amgylchiadau ar gyfer Twf Gwyrdd
Statement: Creating the Conditions for Green Growth

Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Tai (Cymru)
Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Housing (Wales) Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Salwch Meddwl

### Mental Ill Health

13:30

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau i bobl â salwch meddwl? OAQ(4)1734(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on services for people with mental ill health? OAQ(4)1734(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I refer the Member to the Minister for Health and Social Services's speech in the Plenary debate on mental health last week.

Gwnaf. Cyfeiriaf yr Aelod at araith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nadl y Cyfarfod Llawn ar iechyd meddwl yr wythnos diwethaf.

13:30 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Hafal's latest campaign reminds us that people with a serious mental illness have a life expectancy that is around 17 years lower than the life expectancy of people without. That is usually down to preventable physical health problems. How is the Welsh Government ensuring that people get the right support from their health professionals, and that care plans properly address the physical implications of mental ill health?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae ymgyrch ddiweddaraf Hafal yn ein hatgoffa bod gan bobl â salwch meddwl difrifol ddisgwyliad oes sydd oddeutu 17 mlynedd yn is na disgwyliad oes pobl hebddo. Fel rheol, mae hynny oherwydd problemau iechyd corfforol y gellir eu hatal. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol, a bod cynlluniau gofal yn mynd i'r afael â goblygiadau corfforol salwch meddwl yn briodol?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can say that we wholeheartedly support the Let's Get Physical! campaign, which the Minister actually launched last month, and, of course, particularly the way in which it is empowering individuals to take control of their own physical health, as well as their own mental health. There is much evidence that regular physical exercise can improve mental wellbeing in the wider population. In addition, we also support healthy lifestyles through a range of programmes, including Let's Walk Cymru and the national exercise referral scheme.

Wel, gallaf ddweud ein bod ni'n cefnogi'n llwyr yr ymgyrch Let's Get Physical!, a lansiwyd gan y Gweinidog ei hun fis diwethaf, ac, wrth gwrs, yn enwedig y ffordd y mae'n grymuso unigolion i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd corfforol eu hunain, yn ogystal â'u hiechyd meddwl eu hunain. Ceir llawer o dystiolaeth y gall ymarfer corff rheolaidd wella lles meddwl ymhlith y boblogaeth ehangach. Rydym ni hefyd yn cefnogi ffyrdd iach o fyw trwy amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys Dewch i Gerdded Cymru a'r cynllun atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol.

13:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am very pleased to hear that you support Hafal's campaign. Your Government has made a very clear commitment to ring-fence national health service expenditure on mental ill health. So, I was very disappointed to read, in the latest statistical release, that spending from 2011-12 to 2013 on mental health has actually fallen, from £641.8 million to £617.5 million, and has decreased also in percentage terms against the NHS budget, from 11.9% in 2011-12 to 11.4% in 2012-13. Given that you have made this very clear commitment as a Government—and it is a commitment on which we agree—why on earth are you not fulfilling it?

Brif Weinidog, rwy'n falch iawn o glywed eich bod yn cefnogi ymgyrch Hafal. Mae eich Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad eglur iawn i neilltuo gwariant gwasanaeth iechyd gwladol ar salwch meddwl. Felly, roeddwn i'n siomedig iawn o ddarllen, yn y datganiad ystadegol diweddaraf, bod gwariant o 2011-12 i 2013 ar iechyd meddwl wedi gostwng, o £641.8 miliwn i £617.5 miliwn, ac mae wedi gostwng hefyd o ran y canran o gyllideb y GIG , o 11.9% yn 2011-12 i 11.4% yn 2012-13. O gofio eich bod wedi gwneud hyn yn ymrwymiad eglur iawn fel Llywodraeth—ac mae'n ymrwymiad yr ydym ni'n cytuno arno—pam ar y ddaear nad ydych chi'n ei gyflawni?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have, of course, put in further investment, such as the extra money into dementia services, the money into child and adolescent mental health services, the money to run our veterans' mental health and wellbeing service, and, of course, the capital money that has gone into the residential units in Bridgend, and, indeed, in Abergele, as well as the new facilities for elderly mental health services at Wrexham Maelor, Llandough, and Glanrhyd hosptials. So, indeed, there has been extra spending on mental health, which may not be included in the figures that the Member has quoted.

Wel, rydym ni, wrth gwrs, wedi gwneud buddsoddiad pellach, fel yr arian ychwanegol i wasanaethau dementia, yr arian i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, yr arian i redeg ein gwasanaeth iechyd meddwl a lles cyn-filwyr ac, wrth gwrs, yr arian cyfalaf a wariwyd ar yr unedau preswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac, yn wir, yn Abergele, yn ogystal â'r cyfleusterau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yr henoed yn Ysbytai Maelor Wrecsam, Llandochau a Glan-rhyd. Felly, mewn gwirionedd, bu gwariant ychwanegol ar iechyd meddwl, efallai na fydd wedi ei gynnwys yn y ffigurau y mae'r Aelod wedi eu dyfynnu.

13:32 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, notwithstanding the commitments in 'Together for Mental Health', a number of constituents have raised with me concerns about the transition between child and adolescent mental health services and adult mental health services. What more can the Welsh Government do to make sure that that transition is managed appropriately, so that those very vulnerable young people receive the appropriate level of support throughout their healthcare pathway?

Brif Weinidog, er gwaethaf yr ymrwymiadau yn 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', mae nifer o etholwyr wedi codi pryderon gyda mi am y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod y cyfnod pontio yn cael ei reoli'n briodol, fel bod y bobl ifanc agored iawn i niwed hynny yn derbyn y lefel briodol o gefnogaeth trwy gydol eu llwybr gofal iechyd?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That transition is important, as we know. I know that officials have already met with key stakeholders, including local health boards, CAMHS, and adult services to look at this issue, as well as other issues. It is, of course, crucial to the management of the individual's condition that the step from CAMHS to adult mental services is as smooth as possible. One way of ensuring that that is smooth is to make sure that there is no inappropriate placement of young people on adult wards.

Mae'r cyfnod pontio hwnnw'n bwysig, fel y gwyddom. Gwn fod swyddogion eisoes wedi cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, CAMHS, a gwasanaethau i oedolion i ystyried y mater hwn, yn ogystal â materion eraill. Mae, wrth gwrs, yn hanfodol i'r rheolaeth o gyflwr yr unigolyn bod y cam o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion mor ddidrafferth â phosibl. Un ffordd o sicrhau bod hynny'n digwydd yw gwneud yn siŵr nad yw pobl ifanc yn cael eu lleoli'n amhriodol ar wardiau oedolion.

### Newid yn yr Hinsawdd

### Climate Change

13:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd? OAQ(4)1728(FM)*

*2. Will the Minister make a statement on the Climate Change Strategy for Wales? OAQ(4)1728(FM)*

**David Rees** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'i thargedau newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)1729(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on Welsh Government progress in meeting its climate change targets? OAQ(4)1729(FM)*

**Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Cymru wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)1733(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement about Wales's progress in addressing climate change? OAQ(4)1733(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi caniatáu i gwestiynau 2, 3 a 10 gael eu grwpio.

Presiding Officer, I understand that you have allowed questions 2, 3 and 10 to be grouped.

Rydym wedi datgan, wrth gwrs, yn ein hadroddiad blynyddol ein bod mo'yn cymryd camau cadarnhaol o ran gweithredu'r strategaeth, ond rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad ar adnewyddu'r strategaeth ar 8 Gorffennaf.

We have set out, of course, in our annual report that we wish to make positive progress in delivering the strategy, but we recognise that more needs to be done to ensure delivery against our targets. The Minister for Natural Resources and Food will be making a statement on the strategy refresh on 8 July.

13:34 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am yr ateb. Bydden i'n dadlau bod angen mwy na 'refresh' ar y strategaeth, oherwydd mae'r ystadegau a ryddhawyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi methu ei thargedau ar allyriadau, o safbwynt y sector cyhoeddus, wedi methu ar drafnidiaeth, wedi methu ar dai preswyl, wedi methu ar amaeth, ac wedi methu ar ddefnydd tir. Er bod yr allyriadau sydd i fod i gwympo yn mynd i lawr, i ddweud y gwir, mae rhai ohonynt yn mynd i fyny. Nawr, Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig lle nad oes targedau statudol ar newid yn yr hinsawdd. Mae Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi dweud y dylai fod gennym dargedau, ac mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi dweud y dylai fod gennym dargedau. Ydych chi'n teimlo ei bod yn amser i wneud hynny?

Thank you for that reply. I would argue that the strategy needs more than a refresh, because the statistics released last week show that the Welsh Government has failed to meet its targets on emissions, in terms of the public sector, failed in transport, failed in terms of residential homes, failed in agriculture, and failed in terms of land use. Although the emissions that are meant to fall are going down, to tell the truth, some of them are going up. Wales is now the only part of the UK where there is no statutory targets for climate change. The UK Committee on Climate Change has said that we should have targets, and the Climate Change Commission for Wales has said that we should have targets. Do you feel that it is time to do that?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gyda'r pwerau—rhaid inni gofio, wrth gwrs, bod Lloegr hefyd wedi gweld cynnydd mewn nwy carbon. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid oes gennym y 'tools' sydd gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel mae'r Aelod yn gwybod, rydym yn gryf o blaid gweld yr un pwerau fan hyn â'r hyn sydd ar gael yng ngweddill y Deyrnas Unedig er mwyn delio gyda'r mater hwn.

With the powers—we must remember, of course, that England has also seen an increase in carbon gasses. However, of course, we do not have the tools that England, Scotland and Northern Ireland have. As the Member knows, we are strongly in favour of seeing the same powers here as there are in the rest of the United Kingdom in order to deal with this matter.

13:35 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, on a more positive note, one of the major factors in climate change is energy generation. Yesterday, the Minister for Economy, Science and Transport opened a specific plant in my constituency, which I know you are aware of, which is providing those new and innovative approaches to looking at green energy. Can you tell me what concept the Welsh Government has taken on board in terms of buildings as power plants, which is what that is, to ensure that we can move forward with a far greener approach to energy regeneration in Wales?

Brif Weinidog, ar nodyn mwy cadarnhaol, un o'r prif ffactorau yn y newid yn yr hinsawdd yw cynhyrchu ynni. Ddoe, agorodd Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth waith penodol yn fy etholaeth i, y gwn eich bod yn ymwybodol ohono, sy'n darparu'r dulliau newydd ac arloesol hynny o edrych ar ynni gwyrdd. A allwch chi ddweud wrthyf pa gysyniad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei fabwysiadu o ran adeiladau fel gweithfeydd pŵer, fel yr hyn y cyfeiriais ato, er mwyn sicrhau y gallwn symud ymlaen gyda dull llawer mwy gwyrdd o adfywio ynni yng Nghymru?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do recognise that. By the end of 2012, we had more than 30,000 solar photovoltaic projects, with a total installed capacity of 121 MW. The vast majority of those projects are roof mounted on domestic and commercial properties. That is the equivalent to the electricity consumption of over 22,500 in Wales, with an annual saving of 41,000 tonnes of carbon dioxide. As the Member will know, the opening of the blast furnace at the steelworks in Port Talbot will have had an effect on carbon emissions, but, nevertheless, it has had a beneficial effect on the maintenance and long-term security of that plant.

Rydym ni yn cydnabod hynny. Erbyn diwedd 2012, roedd gennym fwy na 30,000 o brosiectau ffotofoltaidd solar, gyda chyfanswm capasiti a osodwyd o 121 MW. Mae mwyafrif llethol y prosiectau wedi eu gosod ar doeau adeiladau domestig a masnachol. Mae hynny'n cyfateb i ddefnydd o drydan mwy na 22,500 yng Nghymru, gydag arbediad blynyddol o 41,000 tunnell o garbon deuocsid. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, bydd agor y ffwrnais chwyth yn y gwaith dur ym Mhort Talbot wedi cael effaith ar allyriadau carbon, ond, serch hynny, mae wedi cael effaith fuddiol ar gynnal a chadw a diogelwch hirdymor y gwaith hwnnw.

13:36 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would the First Minister agree that encouraging fair trade in Wales is one of the ways to tackle climate change, as it helps to enable producers in developing countries to grow and develop their products in a sustainable way? I draw to his attention the fair trade for bananas that has been campaigned on in Wales. Would he also agree that we really need to look at climate change in a holistic, international way?

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno mai annog masnach deg yng Nghymru yw un o'r ffyrdd o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan ei fod yn helpu i alluogi cynhyrchwyr mewn gwledydd datblygol i dyfu a datblygu eu cynhyrchion mewn ffordd gynaliadwy? Tynnaf ei sylw at y fasnach deg ar gyfer bananas yr ymgyrchwyd drosti yng Nghymru. A fyddai hefyd yn cytuno bod wir angen i ni ystyried y newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gyfannol, ryngwladol?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. I saw this with my own eyes in Uganda, where much reliance has been placed on the planting of eucalyptus trees, because they grow quickly and can provide firewood, but they are shallow rooted and bad for the environment in the sense that they do not bind the soil together and can increase the risk of landslides. As part of the work that we have done, particularly working with projects such as the Size of Wales project, we have been able to provide trees that will bind the soil together as well as provide shade for coffee growers so that they can carry on growing the cash crops that they need. So, there is no doubt at all that through working with fair-trade producers, such as Gumutindo in Uganda, and through supporting schemes that make the environment more sustainable through planting the right trees, we can actually achieve the aims that we would all want to see.

Yn sicr. Gwelais hyn â'm llygaid fy hun yn Uganda, lle ceir llawer o ddibyniaeth ar blannu coed ewcalyptws, oherwydd eu bod yn tyfu'n gyflym ac yn gallu darparu coed tân, ond mae eu gwreiddiau'n fas ac yn niweidiol i'r amgylchedd yn yr ystyr nad ydynt yn rhwymo'r pridd at ei gilydd ac y gallant gynyddu'r perygl o dirlithriadau. Yn rhan o'r gwaith yr ydym ni wedi ei wneud, yn enwedig yn gweithio gyda phrosiectau fel prosiect Maint Cymru, rydym ni wedi gallu darparu coed a fydd yn rhwymo'r pridd at ei gilydd, yn ogystal â darparu cysgod i dyfwyr coffi fel y gallant barhau i dyfu'r cnydau arian parod y mae eu hangen arnynt. Felly, nid oes amheuaeth o gwbl, trwy weithio gyda chynhyrchwyr masnach deg, fel Gumutindo yn Uganda, a thrwy gefnogi cynlluniau sy'n gwneud yr amgylchedd yn fwy cynaliadwy trwy blannu'r coed cywir, y gallwn ni wir fodloni'r amcanion y byddai pob un ohonom yn dymuno eu gweld.

Senedd.tv
Fideo Video

13:37 **Russell George** Bywgraffiad Biography

There are concerns that politicians of all political persuasions are not making the impact of climate change tangible to the Welsh public on the doorstep so that they can understand those challenges, not just to our environment, but across sectors. What is the Welsh Government doing to translate these changes to the various sectors, so that they do become real and relevant to the Welsh public?

Ceir pryderon bod gwleidyddion o bob argyhoeddiad gwleidyddol nad ydynt yn cyfleu effaith y newid yn yr hinsawdd yn ddigon pendant i'r cyhoedd yng Nghymru ar garreg y drws fel y gallant ddeall yr heriau hynny, nid yn unig i'n hamgylchedd, ond ar draws sectorau. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i drosi'r newidiadau hyn i'r gwahanol sectorau, fel eu bod yn wir ac yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru?

Senedd.tv
Fideo Video

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, we are energy exporters. The more energy that we generate from existing plants, the more carbon emissions we will also generate. That is why there is a need to have wind power onshore and offshore. I know that this is controversial for the Member in his constituency, but, nevertheless, if we are serious about reducing carbon emissions, we have to take renewable energy seriously, whether that is onshore, offshore, or whether it is wind, tidal, or, indeed, any form of marine energy.

Rydym ni'n allforwyr ynni, wrth gwrs. Y mwyaf o ynni yr ydym ni'n ei gynhyrchu o weithfeydd sy'n bodoli eisoes, y mwyaf o allyriadau carbon y byddwn ni'n eu cynhyrchu hefyd. Dyna pam y mae angen cael ynni'r gwynt ar y tir ac ar y môr. Gwn fod hwn yn bwnc dadleuol i'r Aelod yn ei etholaeth ef, ond, serch hynny, os ydym ni o ddifrif am leihau allyriadau carbon, mae'n rhaid i ni gymryd ynni adnewyddadwy o ddifrif, boed hynny ar y tir, ar y môr, neu boed yn ynni'r gwynt, y llanw, neu , yn wir, unrhyw fath o ynni morol.

Senedd.tv
Fideo Video

13:38 **William Powell** Bywgraffiad Biography

A key component to any climate change mitigation strategy is surely how we source our fuel and generate our electricity, as you have just referenced. In that context, yesterday's Welsh Affairs Select Committee report into unconventional gas has recommended that there should be Welsh-specific guidance on fracking, and this endorses the position of my party, and indeed the Labour-led Welsh Local Government Association. Will you, First Minister, work with your colleague the Minister for Natural Resources and Food to consider again whether or not there should be a Welsh-specific technical advice note on fracking?

Un elfen allweddol o unrhyw strategaeth lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, heb os, yw sut yr ydym ni'n caffael ein tanwydd ac yn cynhyrchu ein trydan, fel yr ydych chi newydd gyfeirio ati. Yn y cyd-destun hwnnw, mae adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ddoe ar nwy anghonfensiynol wedi argymell y dylid cael canllawiau penodol i Gymru ar ffracio, ac mae hyn yn cadarnhau safbwynt fy mhlaid i, ac yn wir Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a arweinir gan y blaid Lafur. A wnewch chi, Brif Weinidog, weithio gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i ystyried eto pa a ddylai fod nodyn cyngor technegol penodol i Gymru ar ffracio?

Senedd.tv
Fideo Video

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are all things that we will keep under consideration. Where new technologies emerge, it is important that there is proper guidance in place in order to ensure that it can be used effectively and safely. Nevertheless, where there are emerging challenges that are identified with regard to technology such as fracking, we will look to see how guidance can be updated in order to deal with that new technology.

Mae'r rhain i gyd yn bethau y byddwn yn eu cadw dan ystyriaeth. Pan ddaw technolegau newydd i'r amlwg, mae'n bwysig bod canllawiau priodol ar waith er mwyn sicrhau y gellir eu defnyddio'n effeithiol ac yn ddiogel. Serch hynny, lle nodir heriau sy'n dod i'r amlwg o ran technoleg fel ffracio, byddwn yn edrych i weld sut y gellir diweddaru canllawiau er mwyn ymdrin â'r dechnoleg newydd honno.

Senedd.tv
Fideo Video

13:39 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

In your answer to the question from Llyr Huws Gruffydd, you claimed that you did not have the powers to be able to deal with climate change. However, in fact the areas listed by him included housing, which is devolved, transport, which is largely devolved, and agriculture, where you have devolved powers. It seems to me that you do have substantial powers that allow you to tackle climate change. Given the concern that is being expressed about the inability to meet the 2020 target, what are you doing to look at where you can make changes within your own competence—I am thinking particularly about the Nest and Arbed schemes, which have been described as being too narrow in their focus and delivery—in order to help achieve targets, particularly in relation to domestic households where there is a very real emissions issue?

Yn eich ateb i'r cwestiwn gan Llyr Huws Gruffydd, honnwyd gennych nad oedd y pwerau gennych chi i allu ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, mewn gwirionedd roedd y meysydd a restrwyd ganddo yn cynnwys materion tai, sydd wedi ei ddatganoli, cludiant, sydd wedi ei ddatganoli i raddau helaeth, ac amaethyddiaeth, lle mae gennych chi bwerau datganoledig. Mae'n ymddangos i mi bod gennych chi bwerau sylweddol sy'n eich galluogi i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. O ystyried y pryder sy'n cael ei fynegi ynglŷn â'r anallu i fodloni targed 2020, beth ydych chi'n ei wneud i edrych ar le y gallwch chi wneud newidiadau o fewn eich cymhwysedd eich hun—rwy'n meddwl yn benodol am gynlluniau Nyth ac Arbed, y dywedwyd eu bod yn rhy gul o ran eu pwyslais a'u darpariaeth—er mwyn helpu i gyrraedd targedau, yn enwedig o ran aelwydydd domestig lle ceir problem allyriadau wirioneddol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have, of course, in terms of housing, looked at meeting the targets with regard to greenhouse gas emissions, but we have tempered those targets, knowing the housing market as it is. I have no doubt that if we had moved forward with the original plans, then the party opposite and the Secretary of State would have been complaining that not enough houses were being built. So, we have had to forge a compromise given market conditions in that regard. Energy is by far the biggest sector when it comes to carbon emissions. It is a fact that we do not have in Wales the level of control that exists in England, Scotland or Northern Ireland. The situation is fundamentally and wholly wrong.

Rydym ni, wrth gwrs, o ran tai, wedi edrych ar fodloni'r targedau o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond rydym ni wedi gostwng y targedau hynny, o wybod bod y farchnad dai fel ag y mae hi. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, pe byddem ni wedi symud ymlaen gyda'r cynlluniau gwreiddiol, yna byddai'r blaid gyferbyn a'r Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn cwyno nad oedd digon o dai yn cael eu hadeiladu. Felly, rydym ni wedi gorfod creu cyfaddawd o ystyried amodau'r farchnad yn hynny o beth. Ynni yw'r sector mwyaf o bell ffordd pan ddaw i allyriadau carbon. Mae'n ffaith nad yw'r lefel o reolaeth gennym yng Nghymru sy'n bodoli yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r sefyllfa yn sylfaenol ac yn gwbl anghywir.

Senedd.tv
Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, a galwaf yn gyntaf y prynhawn yma ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
Fideo Video

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

On 5 June the Environment and Sustainability Committee wrote to the Minister for the Economy, Science and Transport with concerns that the Government consultation on the M4 may have breached European Union rules. The Minister has said that she will respond in due course and the committee has asked for a response by Friday. Will the First Minister tell us now whether or not he believes his Government's consultation was sufficient and in line with the EU rules?

Ar 5 Mehefin, ysgrifennodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyda phryderon y gallai ymgynghoriad y Llywodraeth ar yr M4 fod wedi torri rheolau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd hi'n ymateb maes o law ac mae'r pwyllgor wedi gofyn am ymateb erbyn dydd Gwener. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym nawr a yw'n credu bod ymgynghoriad ei Lywodraeth yn ddigonol ac yn unol â rheolau'r UE?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no reason to suggest otherwise.

Nid oes unrhyw reswm i awgrymu fel arall.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that he is confident that his preferred route and the process that he is conducting will withstand any possible legal challenges. There is no doubt that road projects are important. They are permanent. They affect people's livelihoods and work. This is true of the roads around Cardiff bay as well. His predecessor has made allegations relating to an alleged agreement between the BBC and the Welsh Government to relocate the BBC to Cardiff bay. He alleges that a £10 million road was built on that basis. The First Minister appears to deny that any such agreement existed. Why does the First Minister think that his predecessor is making such allegations?

Rwy'n gobeithio ei fod yn hyderus y bydd y llwybr y mae'n ei ffafrio a'r broses y mae'n ei dilyn yn gwrthsefyll unrhyw heriau cyfreithiol posibl. Nid oes amheuaeth bod prosiectau ffyrdd yn bwysig. Maen nhw'n barhaol. Maen nhw'n effeithio ar fywoliaeth a gwaith pobl. Mae hyn yn wir am y ffyrdd o gwmpas bae Caerdydd hefyd. Mae ei ragflaenydd wedi gwneud honiadau yn ymwneud â chytundeb honedig rhwng y BBC a Llywodraeth Cymru i symud y BBC i fae Caerdydd. Mae'n honni yr adeiladwyd ffordd gwerth £10 miliwn ar y sail honno. Mae'n ymddangos bod y Prif Weinidog yn gwadu bod unrhyw gytundeb o'r fath wedi bodoli. Pam mae'r Prif Weinidog yn meddwl bod ei ragflaenydd yn gwneud honiadau o'r fath?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

You will have to ask him that.

Bydd rhaid i chi ofyn hynny iddo fe.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, this whole debacle says an awful lot about your Government's approach. A consultation on a £1 billion M4 project is in serious question. There is confusion over the payment for rail electrification. There are allegations of a verbal agreement being the basis for building a £10 million road. Will the First Minister now undertake to review how this Government conducts itself when making decisions on major transport projects?

Brif Weinidog, mae'r holl lanast yma yn dweud llawer iawn am agwedd eich Llywodraeth. Ceir amheuon difrifol am ymgynghoriad ar brosiect M4 gwerth £1 biliwn. Ceir dryswch ynghylch y taliad ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd. Ceir honiadau o gytundeb llafar yn sail ar gyfer adeiladu ffordd gwerth £10 miliwn. A wnaiff y Prif Weinidog addo nawr i adolygu sut mae'r Llywodraeth hon yn ymddwyn wrth wneud penderfyniadau ar brosiectau trafnidiaeth mawr?

13:43

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have to say that her party was in Government when this alleged agreement was meant to have taken place. So, it is not exactly and entirely free of any association with it. I can say that there is no evidence to suggest that there was any such agreement, in any event. The next point I have to make—and I am sure that her own former Ministers will tell her this, because they were in Government at the time—is that there was no suggestion of any such agreement, and, indeed, somebody who was a special adviser in that Government—who now sits on her front benches—I am sure, will also advise her as to the situation at that time. I am sure that he can help in that regard. I cannot. I was not part of any such discussions, so, as far as I am aware, there were no such agreements.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod ei phlaid hi mewn Llywodraeth pan wnaethpwyd y cytundeb honedig hwn. Felly, nid yw'n union ac yn gwbl rydd o unrhyw gysylltiad ag ef. Gallaf ddweud nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu unrhyw gytundeb o'r fath, beth bynnag. Y pwynt nesaf y mae'n rhaid i mi ei wneud—ac rwy'n siŵr y bydd ei chyn-Weinidogion ei hun yn dweud hyn wrthi, gan eu bod nhw mewn Llywodraeth ar y pryd—yw nad oedd unrhyw awgrym o unrhyw gytundeb o'r fath, ac, yn wir, bydd rhywun a oedd yn ymgynghorydd arbennig yn y Llywodraeth honno—sydd bellach yn eistedd ar ei meinciau blaen hi—rwy'n siŵr, hefyd yn ei hysbysu am y sefyllfa ar yr adeg honno. Rwy'n siŵr y bydd yn gallu helpu yn hynny o beth. Nid wyf i'n gallu helpu. Nid oeddwn i'n rhan o unrhyw drafodaethau o'r fath, felly, cyn belled ag y gwn i, ni wnaed unrhyw gytundebau o'r fath.

Senedd.tv
Fideo Video

13:44

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Who is lying? [Interruption.]

Pwy sy'n dweud celwydd? [Torri ar draws.]

Senedd.tv
Fideo Video

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. [Interruption.] Thank you, Leighton Andrews. I ask Members to refrain from shouting from their chairs, and when they do, will they think very carefully about what they are saying. First Minister, have you finished?

Trefn. [Torri ar draws.] Diolch, Leighton Andrews. Gofynnaf i'r Aelodau ymatal rhag gweiddi o'u cadeiriau, a phan eu bod yn gwneud hynny, a wnân nhw feddwl yn ofalus iawn am yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Brif Weinidog, a ydych chi wedi gorffen?

Senedd.tv
Fideo Video

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not accept that anybody was lying. I have to say, Presiding Officer, that I am sure that her own colleagues will inform her of what was the case when they were in Government at the time. She says that things are in some way farcical. What I find farcical is that the Environment and Sustainability Committee is looking at the M4 at the moment, the Chair has sent a letter to the Minister, and we have a debate tomorrow prejudging the entire issue. That is a farce. It is incredible. It calls into question the committee's entire proceedings in that regard. Why on earth have committee proceedings when, half way through, a party makes its own mind up? That makes no sense at all. Far from it being the case that there is an issue with regard to the consultation itself, I would urge Members to let the Environment and Sustainability Committee do its job and then to let the Minister respond when all of the facts have been considered. That will not be the case tomorrow.

Nid wyf yn derbyn bod unrhyw un yn dweud celwydd. Mae'n rhaid i mi ddweud, Lywydd, fy mod i'n siŵr y bydd ei chydweithwyr ei hun yn rhoi gwybod iddi am yr hyn a ddigwyddodd pan yr oedden nhw mewn Llywodraeth ar y pryd. Mae hi'n dweud bod pethau'n chwerthinllyd mewn rhyw ffordd. Yn fy marn i, yr hyn sy'n chwerthinllyd yw bod Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn edrych ar yr M4 ar hyn o bryd, mae'r Cadeirydd wedi anfon llythyr at y Gweinidog, ac mae gennym ni ddadl yfory sy'n niweidio'r holl fater. Mae hynny'n ffars. Mae'n anhygoel. Mae'n cwestiynu holl drafodion y pwyllgor yn hynny o beth. Pam ar y ddaear cael trafodion pwyllgor pan, hanner ffordd drwyddynt, mae plaid yn gwneud ei phenderfyniad ei hun? Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Nid yw'n wir o gwbl bod problem o ran yr ymgynghoriad ei hun, a byddwn yn annog yr Aelodau i adael Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i wneud ei waith ac yna gadael i'r Gweinidog ymateb pan fydd yr holl ffeithiau wedi eu hystyried. Nid dyna fydd yn digwydd yfory.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
Fideo Video

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, Estyn has today said that Wales's pupils continue to lag behind their English counterparts with regard to English. Yesterday, your Minister for education published a document, 'Rewriting the future', in which he was forced to admit that when it comes to the performance of our poorest children—those who are on free school meals—in every region in England, the rate of improvement in educational attainment for those children outstrips that in Wales. In the north-east of England, the area of the country that is most similar to us, children who are on free school meals and who are 15 years old are a third more likely to have a decent qualification in England. What assessment has your Government made of why other parts of the UK education system have been able to see improvements for children on free school meals and why Welsh pupils continue to lag behind?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae Estyn wedi dweud heddiw bod disgyblion Cymru yn parhau i fod ar ôl eu cymheiriaid yn Lloegr o ran Saesneg. Ddoe, cyhoeddodd eich Gweinidog addysg ddogfen, 'Ailysgrifennu'r dyfodol', ac ynddo cafodd ei orfodi i gyfaddef, pan ddaw'n fater o berfformiad ein plant tlotaf—y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim—ym mhob rhanbarth yn Lloegr, mae'r gyfradd o welliant o ran cyrhaeddiad addysgol ar gyfer y plant hynny yn uwch na'r hyn yng Nghymru. Yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, yr ardal o'r wlad sydd debycaf i ni, mae plant sy'n cael prydau ysgol am ddim ac sy'n 15 mlwydd oed dair gwaith yn fwy tebygol o gael cymhwyster da yn Lloegr. Pa asesiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o pam mae rhannau eraill o system addysg y DU wedi gallu gweld gwelliannau i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim a pham mae disgyblion Cymru yn parhau i fod ar ei hôl hi?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First, the Estyn report says that the standard of teaching is generally good, that the situation is improving, but that there is a lack of consistency. This is an issue that we have recognised. The pupil deprivation grant will assist and is assisting pupils from poorer backgrounds, and the national literacy and numeracy framework will undoubtedly assist in allowing schools and teachers to benchmark the performance of their own pupils. Schools Challenge Cymru will assist the 40 schools that need to see improvements in their performance to come up to the level that we would expect. All of those things taken together will, I believe, mean that we will continue to see improvements in performance, not just in English but in other subjects as well.

Yn gyntaf, mae adroddiad Estyn yn dweud bod safon yr addysgu yn gyffredinol dda, bod y sefyllfa yn gwella, ond bod diffyg cysondeb. Mae hon yn broblem yr ydym ni wedi ei chydnabod. Bydd y grant amddifadedd disgyblion yn helpu ac mae yn helpu disgyblion o gefndiroedd tlotach, ac nid oes amheuaeth y bydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn helpu i alluogi ysgolion ac athrawon i feincnodi perfformiad eu disgyblion eu hunain. Bydd Her Ysgolion Cymru yn cynorthwyo'r 40 ysgol y mae angen iddynt wella eu perfformiad i gyrraedd y lefel y byddem yn ei ddisgwyl. Gyda'i gilydd, bydd yr holl bethau hynny, rwy'n credu, yn golygu y byddwn yn parhau i weld gwelliannau mewn perfformiad, nid dim ond yn y Saesneg ond mewn pynciau eraill hefyd.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am interested in your comments that those actions will lead to the levels of improvement that you expect. Let us look at what you are expecting, as published in your document yesterday. Your Minister for education has said that your target for achievement for our most disadvantaged 15-year-olds is lower than that in England. In fact, your target—what you expect to achieve—is less than two in five 15-year-olds on free school meals reaching a level 2 qualification, and you admit that that is below what is expected across the border in England. First Minister, do you truly expect and believe that our poorest students, our poorest children, cannot match or indeed outperform their English counterparts?

Mae gennyf ddiddordeb yn eich sylwadau y bydd y camau hynny yn arwain at y lefelau o welliant yr ydych chi'n eu disgwyl. Gadewch i ni edrych ar yr hyn yr ydych chi'n ei ddisgwyl, fel y cyhoeddwyd yn eich dogfen ddoe. Mae eich Gweinidog addysg wedi dweud bod eich targed ar gyfer cyflawniad ymhlith ein pobl ifanc 15 mlwydd oed mwyaf difreintiedig yn is nag yn Lloegr. Yn wir, mae eich targed—yr hyn yr ydych chi'n disgwyl ei gyflawni—yn llai na dau o bob pum disgybl 15 mlwydd oed sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd cymhwyster lefel 2, ac rydych chi'n cyfaddef bod hynny'n is na'r hyn a ddisgwylir ar draws y ffin yn Lloegr. Brif Weinidog, a ydych chi wir yn disgwyl ac yn credu na all ein myfyrwyr tlotaf, ein plant tlotaf, wneud cystal neu berfformio'n well, yn wir, na'u cymheiriaid yn Lloegr?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that they can. I think that England has problems with the fact that free schools are in chaos. The fact that money has been syphoned away from local authority schools in order to prop up free schools will cause greater inequity in the education system, and I do not believe that England will reach its targets. That said, it is important for us to see the continuation of improvement that we have already seen, and the measures that we have put in place and continue to put in place will ensure that that continues.

Rwy'n credu y gallant. Rwy'n meddwl bod gan Loegr broblemau gyda'r ffaith bod ysgolion rhydd mewn anhrefn. Bydd y ffaith fod arian wedi cael ei gymryd oddi wrth ysgolion awdurdodau lleol er mwyn talu am ysgolion rhydd yn achosi mwy o annhegwch yn y system addysg, ac nid wyf yn credu y bydd Lloegr yn cyrraedd ei thargedau. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig i ni weld y gwelliant yr ydym ni wedi ei weld eisoes yn parhau, a bydd y mesurau yr ydym ni wedi eu rhoi ar waith ac yn parhau i'w rhoi ar waith yn sicrhau bod hynny'n parhau.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you believe that they can, why have you signed off the target in this document that clearly states that what you are expecting is below what is achieved by English students? If you expect that they can, why have you agreed to this?

Os ydych chi'n credu eu bod yn gallu, pam ydych chi wedi cadarnhau'r targed yn y ddogfen hon sy'n nodi'n eglur bod yr hyn yr ydych chi'n ei ddisgwyl yn is na'r hyn a gyflawnir gan fyfyrwyr yn Lloegr? Os ydych chi'n disgwyl eu bod yn gallu, pam ydych chi wedi cytuno i hyn?

May I also ask you about the first section in your document, which relates to family and community engagement? You believe—it is in your document—that this is the key to addressing some of these inequalities. You say,

A gaf i hefyd ofyn i chi am y rhan gyntaf yn eich dogfen, sy'n ymwneud ag ymgysylltiad â theuluoedd a'r gymuned? Rydych chi'n credu—mae yn eich dogfen—mai dyma'r allwedd i fynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau hyn. Rydych chi'n dweud,

'Welsh Government has not clearly articulated expectations for schools in this regard, set out how they might achieve those expectations... We need to address this in a policy statement supported by practical guidance.'

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n eglur disgwyliadau gan ysgolion yn hyn o beth, gan nodi sut y gallent gyflawni'r disgwyliadau hynny... Mae angen i ni fynd i'r afael â hyn mewn datganiad polisi a gefnogir gan ganllawiau ymarferol.

When can Welsh schools and pupils on free school meals expect to see that policy statement and that guidance, because it is not in what you published yesterday?

Pryd y gall ysgolion a disgyblion Cymru sy'n cael prydau ysgol am ddim ddisgwyl gweld y datganiad polisi hwnnw a'r canllawiau hynny, oherwydd nid yw yn yr hyn a gyhoeddwyd gennych ddoe?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That guidance will be provided as quickly as possible. It is important that, where a problem has been identified, it is resolved quickly. However, I would direct the leader of the Liberal Democrats to schemes such as Communities First and Flying Start that have helped those on lower incomes and communities to improve their lot in life and to get qualifications, and, taken together with the education system, because you cannot take schools in isolation, I believe that we have in place a system that will improve the lives of many individuals and families.

Bydd y canllawiau yn cael eu darparu cyn gynted â phosibl. Mae'n bwysig, pan fo problem wedi ei nodi, ei bod yn cael ei datrys yn gyflym. Fodd bynnag, byddwn yn cyfeirio arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol at gynlluniau fel Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg sydd wedi helpu'r rhai sydd ar incymau is a chymunedau i wella eu sefyllfa mewn bywyd ac i gael cymwysterau, ac, o'u hystyried ar y cyd â'r system addysg, gan na allwch chi ystyried ysgolion ar wahân, rwy'n credu bod gennym ni system ar waith a fydd yn gwella bywydau nifer o unigolion a theuluoedd.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call on the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, you have a literacy and numeracy ambition of 65% of students reaching key stage 4 level 2 by 2015. The current A* to C grade figure is 52%. Will that ambition be achieved?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae gennych chi uchelgais llythrennedd a rhifedd o 65% o fyfyrwyr yn cyrraedd lefel 2 cyfnod allweddol 4 erbyn 2015. 52% yw'r ffigur graddau A* i C ar hyn o bryd. A fydd yr uchelgais hwnnw'n cael ei gyflawni?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is the aim.

Dyna'r nod.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

That is slightly different from saying whether the ambition will be achieved or not. When you read today's Estyn report, in particular, it highlights that despite the improving trends in standards of English

Mae hynny ychydig yn wahanol i ddweud pa un a fydd yr uchelgais yn cael ei gyflawni ai peidio. Pan ddarllenwch chi adroddiad Estyn heddiw, er y duedd well o ran safonau Saesneg, mae'n amlygu bod

'the rate of progress is still too slow'

'cyfradd y cynnydd yn isel o hyd'

for seven to 14-year-olds in Wales to catch up with other areas of the UK. It also touches on how

i blant saith i 14 mlwydd oed yng Nghymru i ddal i fyny ag ardaloedd eraill o'r DU. Mae hefyd yn nodi sut

'Assessment continues to be one of the weakest areas…in schools'.

'Mae asesu yn parhau i fod yn un o'r meysydd gwannaf... mewn ysgolion'.

When will Welsh students catch up with students from other parts of the UK? Will it be 2015 or 2016, or when? Just give us a year that we can aim for.

Pryd fydd myfyrwyr yng Nghymru yn dal i fyny gyda myfyrwyr o rannau eraill o'r DU? A fydd hyn yn 2015 neu 2016, neu ba bryd? Rhowch flwyddyn i ni y gallwn amcanu ati.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They are already catching up, and the leader of the opposition knows that we have a specific target for the next round of Programme for International Student Assessment results. I have to say that what will not help Welsh pupils are two things: first of all is the recreation of grammar schools, which I know that he has advocated and, secondly—

Maen nhw'n dal i fyny eisoes, ac mae arweinydd yr wrthblaid yn gwybod bod gennym darged penodol ar gyfer y rownd nesaf o ganlyniadau'r Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol. Mae'n rhaid i mi ddweud bod dau beth na fyddant yn helpu disgyblion yng Nghymru: y cyntaf yw ail-greu ysgolion gramadeg, y gwn ei fod wedi ei gefnogi ac, yn ail—

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

A very popular move.

Cam poblogaidd iawn.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—it depends on what figure you believe, a 12% to 20% cut in education funding. I do not think that either of those things will help Welsh pupils to continue to improve.

[Parhau.]—mae'n dibynnu ar ba ffigur yr ydych chi'n ei gredu, toriad o 12% i 20% mewn cyllid addysg. Nid wyf yn credu y bydd y naill na'r llall o'r rheini yn helpu disgyblion Cymru i barhau i wella.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was always told at school, 'Always read the question and give the answer to the question.' As usual, I asked you a specific point, First Minister, about what year we might be able to expect the Government to hit its target for raising standards within schools. I asked you in my opening question whether you would hit your own ambition of 65% of students hitting your target. Again, you could not give a specific answer. Last week, you tweeted, ahead of the conference that you spoke at, that it was your first conference speech on education since becoming First Minister. Not only have you taken your eye off the ball, but you do not even know where the net is to put the ball into. Why on earth can you not be more specific in addressing the challenges in Welsh education and give us the targets to hit? When will standards improve in Wales so that we can have parity with other parts of the United Kingdom and, eventually, overtake other parts of the United Kingdom so that our students are at the top of the league table, not, regrettably, at the bottom?

Dywedwyd wrthyf i bob amser yn yr ysgol, 'Cofiwch ddarllen y cwestiwn a rhoi ateb i'r cwestiwn.' Fel rheol, gofynnais bwynt penodol i chi, Brif Weinidog, am ba flwyddyn y gallem ni ddisgwyl i'r Llywodraeth gyrraedd ei tharged ar gyfer codi safonau mewn ysgolion. Gofynnais i chi yn fy nghwestiwn agoriadol pa un a fyddech chi'n cyflawni eich uchelgais eich hun o 65% o fyfyrwyr yn cyrraedd eich targed. Unwaith eto, ni allech chi roi ateb penodol. Yr wythnos diwethaf, fe wnaethoch chi drydar, cyn y gynhadledd i chi siarad ynddi, mai honno oedd eich araith cynhadledd gyntaf ar addysg ers i chi fod yn Brif Weinidog. Rydych chi nid yn unig wedi tynnu eich llygad oddi ar y bêl, ond nid ydych chi hyd yn oed yn gwybod lle mae'r rhwyd i roi'r bêl ynddi. Pam ar y ddaear na allwch chi fod yn fwy penodol wrth fynd i'r afael â'r heriau ym myd addysg Cymru a rhoi'r targedau i'w cyrraedd i ni? Pryd fydd safonau yn gwella yng Nghymru, fel y gallwn fod yn gydradd â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac, yn y pen draw, rhagori ar rannau eraill o'r Deyrnas Unedig fel bod ein myfyrwyr ar frig y tabl cynghrair, yn hytrach nag, yn anffodus, ar y gwaelod?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Standards are already improving. If you look at apprenticeships, we are way, way ahead, particularly when it comes to schemes like Jobs Growth Wales and, indeed, the Young Recruits programme, which was something that was agreed by us in Government and Plaid Cymru. We are way ahead of anything that exists under his party in England. In relation to PISA results, our target remains, and all our targets remain with regard to education. However, I have to say to the leader of the opposition that his party's plan to cut education spending by, let us agree, double figures will destroy the education system in Wales, as will his plan to reintroduce the 11-plus. That is not the way forward for the majority of Welsh pupils. It is an exceptionally expensive way to deliver education. Lots of new buildings would have to be built to do that. We will continue to invest in education, even as his party looks to siphon money out of it.

Mae safonau'n gwella eisoes. Os edrychwch chi ar brentisiaethau, rydym ni ymhell iawn ar y blaen, yn enwedig pan ddaw i gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru ac, yn wir, y rhaglen Recriwtiaid Newydd, sy'n rhywbeth a gytunwyd gennym ni yn y Llywodraeth a Phlaid Cymru. Rydym ni ymhell ar y blaen i unrhyw beth sy'n bodoli dan ei blaid ef yn Lloegr. O ran canlyniadau PISA, mae ein targed yn parhau, ac mae ein holl dargedau yn parhau o ran addysg. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid y bydd cynllun ei blaid i dorri gwariant ar addysg, gadewch i ni gytuno, o ffigurau dwbl, yn dinistrio'r system addysg yng Nghymru, fel y bydd ei gynllun i ailgyflwyno'r arholiad 11-plus. Nid dyna'r ffordd ymlaen i'r rhan fwyaf o ddisgyblion Cymru. Mae'n ffordd eithriadol o ddrud o ddarparu addysg. Byddai'n rhaid adeiladu llawer o adeiladau newydd i wneud hynny. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn addysg, hyd yn oed wrth i'w blaid ef dynnu arian oddi wrtho.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the agenda. Question 3 was grouped with questions 2 and 10, so we move to question 4.

Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar yr agenda. Grwpiwyd cwestiwn 3 gyda chwestiynau 2 a 10, felly symudwn at gwestiwn 4.

## Hosbisau

## Hospices

13:53 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa ymrwymiad a roddir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hosbisau yng Nghymru? OAQ(4)1724(FM)*

*4. What commitment is the Welsh Government giving to supporting hospices in Wales? OAQ(4)1724(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The delivering end-of-life care plan reaffirms the vital role of hospices in providing palliative care, and, of course, they will continue to receive funding from the Welsh Government and NHS Wales.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes yn cadarnhau swyddogaeth hanfodol hosbisau wrth ddarparu gofal lliniarol, ac, wrth gwrs, byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru.

13:54 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister. We know that the Welsh Government funding of hospices in Wales falls significantly short of funding compared with the United Kingdom and Scottish Governments' funding for hospices in England and Scotland. The service level agreement in Wales is for only 12 months. What direction will you be giving to health boards to increase direct funding in future and to provide a three-year budget, and not just 12 months of funding?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rydym ni'n gwybod bod cyllid Llywodraeth Cymru i hosbisau yng Nghymru yn llawer is na'r cyllid a ddarperir gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban i hosbisau yn Lloegr a'r Alban. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth yng Nghymru yn para am 12 mis yn unig. Pa gyfarwyddyd fyddwch chi'n ei roi i fyrddau iechyd i gynyddu cyllid uniongyrchol yn y dyfodol ac i ddarparu cyllideb tair blynedd, ac nid dim ond 12 mis o gyllid?

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

From the financial year 2015-16, hospice funding will be transferred to the local health boards, and that decision is supported by the end-of-life care implementation board and hospices themselves. That will result, of course, in stronger governance and accountability. As far as ring fencing is concerned, I am aware that a request was made for funding to be ring-fenced, and the Minister, indeed, has agreed this for three years.

O'r flwyddyn ariannol 2015-16, bydd cyllid hosbisau yn cael ei drosglwyddo i'r byrddau iechyd lleol, a chefnogir y penderfyniad hwnnw gan y bwrdd gweithredu gofal diwedd oes a hosbisau eu hunain. Bydd hynny'n arwain, wrth gwrs, at lywodraethu ac atebolrwydd cryfach. Cyn belled ag y mae clustnodi cyllid yn y cwestiwn, rwy'n ymwybodol bod cais wedi ei wneud i gyllid gael ei glustnodi, ac mae'r Gweinidog, mewn gwirionedd, wedi cytuno ar hyn am dair blynedd.

13:54 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is good news; thank you.

Mae hynny'n newyddion da; diolch i chi.

13:54 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You referred to the funding going to local health boards. In fact, certainly in north Wales and elsewhere, I believe, local hospices have been asked to pay inflation-linked increases to the cost that they pay to local health boards for services such as occupational therapy, but they are not receiving inflation-linked increases in the money that they receive from local health boards. In the case of north-east Wales, that has equated to a £50,000 annual cut in real terms for Nightingale House Hospice, for example. When and how will the Welsh Government be instructing or requiring health boards to talk to hospices about how it can help them to do more for less, and how the public pound can generate the best outcomes for the shared patients between the two bodies?

Cyfeiriasoch at y cyllid yn mynd i fyrddau iechyd lleol. Yn wir, yn sicr yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill, rwy'n credu, gofynnwyd i hosbisau lleol dalu codiadau'n gysylltiedig â chwyddiant i'r gost y maen nhw'n ei thalu i fyrddau iechyd lleol am wasanaethau fel therapi galwedigaethol, ond nid ydynt yn derbyn codiadau'n gysylltiedig â chwyddiant i'r arian maen nhw'n ei dderbyn gan fyrddau iechyd lleol. Yn achos gogledd-ddwyrain Cymru, mae hynny wedi cyfateb i doriad blynyddol o £50,000 mewn termau real ar gyfer Hosbis Tŷ'r Eos, er enghraifft. Pryd a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gorchymyn neu'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd siarad â hosbisau am sut y gall eu helpu i wneud mwy am lai, a sut y gall y bunt gyhoeddus gynhyrchu'r canlyniadau gorau i'r cleifion a rennir rhwng y ddau gorff?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I can say that direct funding to voluntary hospice providers in this financial year is to the tune of £2.848 million. The real investment is higher, actually, when taking into account the cost of funding medical posts in hospices, as consultant contracts are held within health boards. Of course, as I have already said, funding will be transferred to the LHBs, and there is that element of ring-fencing that I referred to earlier.

Gallaf ddweud mai £2.848 miliwn yw'r cyllid uniongyrchol i ddarparwyr hosbisau gwirfoddol yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gwir fuddsoddiad yn uwch, mewn gwirionedd, wrth gymryd i ystyriaeth y gost o ariannu swyddi meddygol mewn hosbisau, gan y cynhelir contractau ymgynghorwyr o fewn byrddau iechyd. Wrth gwrs, fel yr wyf eisoes wedi dweud, bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r BILlau, a cheir yr elfen honno o glustnodi cyllid y cyfeiriais ati'n gynharach.

## Prosiectau Seilwaith Mawr

## Large Infrastructure Projects

13:56 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa brosiectau seilwaith mawr sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle i ddangos bod Gogledd Cymru yn gyrchfan i fynd iddi? OAQ(4)1719(FM)*

*5. Will the First Minister outline what large infrastructure projects the Welsh Government has in place to showcase North Wales as a go-to destination? OAQ(4)1719(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are a number of projects that we are taking forward. The Porthmadog bypass, of course, is one such project, as is the Bontnewydd bypass; the Zipworld Titan experience at Llechwedd Slate Caverns; the maintenance on the A55; the roll-out of Superfast Cymru across the whole of Wales; the station improvements at Rhyl and Llandudno, under the Wales national stations improvement programme; and the dualling of a major part of the Wrexham to Chester railway line, due to start on site this month. Also, of course, there is the tourism infrastructure fund, which has helped much of the north; the coastal communities fund, where support was offered, for example, to the Anglesey Sea Salt Company and the Colwyn Bay Watersports community interest company; EU funding to the National Trust in Aberdaron; and further EU funding to the Eryri Centre of Excellence's One Big Adventure. Those are some examples of what investment has brought to the north.

Ceir nifer o brosiectau yr ydym ni'n bwrw ymlaen â nhw. Mae ffordd osgoi Porthmadog, wrth gwrs, yn un prosiect o'r fath, fel y mae ffordd osgoi Bontnewydd; profiad Zipworld Titan yn Chwarel Lechi Llechwedd; gwaith cynnal a chadw ar yr A55; cyflwyno Cyflymu Cymru ledled Cymru gyfan; y gwelliannau i orsafoedd y Rhyl a Llandudno, dan raglen genedlaethol gwella gorsafoedd Cymru; a deuoli rhan fawr o reilffordd Wrecsam i Gaer, y disgwylir iddo ddechrau ar y safle y mis hwn. Hefyd, wrth gwrs, ceir y gronfa seilwaith twristiaeth, sydd wedi helpu llawer o'r gogledd; y gronfa cymunedau arfordirol, lle y cynigiwyd cefnogaeth, er enghraifft, i gwmni Halen Môn a chwmni buddiant cymunedol Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn; cyllid yr UE i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Aberdaron; a rhagor o gyllid yr UE i Un Antur Fawr Canolfan Rhagoriaeth Eryri. Dyna rai enghreifftiau o'r hyn y mae buddsoddiad wedi ei gyflawni ar gyfer y gogledd.

13:57 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am very grateful for the list of projects in north Wales that you have ever spent money on, but your Government has spent £52 million on Cardiff Airport, £30 million on Pinewood Studios, invested £2 million so far on the circuit of Wales project with a potential £30 million to follow in terms of a loan, which is controversial to say the least. The common denominator to all of these projects is that they are based in south Wales. You are here to represent the whole of Wales. Can you explain why we are not witnessing a similar level of investment in north Wales that would shape the area's economy for decades to come?

Brif Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am y rhestr o brosiectau yng ngogledd Cymru yr ydych chi wedi gwario arian arnynt erioed, ond mae eich Llywodraeth wedi gwario £52 miliwn ar Faes Awyr Caerdydd, £30 miliwn ar Pinewood Studios, wedi buddsoddi £2 filiwn hyd yn hyn ym mhrosiect cylchffordd Cymru gyda £30 miliwn posibl i ddilyn o ran benthyciad, sy'n ddadleuol a dweud y lleiaf. Yr hyn sy'n gyffredin i bob un o'r prosiectau hyn yw eu bod wedi eu lleoli yn ne Cymru. Rydych chi yma i gynrychioli Cymru gyfan. A allwch chi esbonio pam nad ydym ni'n gweld lefel debyg o fuddsoddiad yng ngogledd Cymru a fyddai'n ffurfio economi'r ardal am ddegawdau i ddod?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say that that is the most parochial contribution that I have ever heard by any Member. Is she not aware of Airbus and the amount of support that Airbus has received, and the many thousands of people who work in Airbus, which is probably the largest single manufacturing plant in the whole of Wales? I have already given her a list of transport and tourism projects that are being supported. Is she now saying that her party's policy is that Pinewood should not come to Wales? Is she saying that we should not have provided support to Pinewood because it is in the south of Wales? Two thousand jobs should not have come to Wales according to the Conservative Party through their spokesperson. I remind her, as far as the airport is concerned, that Cardiff Airport keeps Anglesey Airport open. If Cardiff Airport was not there, Anglesey Airport would not be there either. So, it is not simply a question of Cardiff Airport and the jobs that come to Cardiff Airport, as there are also the hundreds of jobs at the British Airways maintenance base, which her party was cavalier about keeping. These are investments that improve the profile of the whole of Wales. If it is now the Conservative Party's policy that investments should be resisted in some parts of Wales because they are coming to the south, they should declare it now.

Mae'n rhaid i mi ddweud mai dyna'r cyfraniad mwyaf plwyfol yr wyf i erioed wedi ei glywed gan unrhyw Aelod. Onid yw hi'n ymwybodol o Airbus a faint o gymorth y mae Airbus wedi ei dderbyn, a'r miloedd lawer o bobl sy'n gweithio yn Airbus, sef y ffatri weithgynhyrchu fwyaf yng Nghymru gyfan mae'n debyg? Rwyf eisoes wedi rhoi rhestr o brosiectau trafnidiaeth a thwristiaeth sy'n cael eu cefnogi iddi hi. A yw hi yn awr yn dweud mai polisi ei phlaid hi yw na ddylai Pinewood ddod i Gymru? Ydy hi'n dweud na ddylem ni fod wedi rhoi cefnogaeth i Pinewood oherwydd ei fod yn y de? Ni ddylai dwy fil o swyddi fod wedi dod i Gymru yn ôl y Blaid Geidwadol drwy eu llefarydd. Rwy'n ei hatgoffa, cyn belled ag y mae'r maes awyr yn y cwestiwn, bod Maes Awyr Caerdydd yn cadw Maes Awyr Ynys Môn ar agor. Pe na byddai Maes Awyr Caerdydd yno, ni fyddai Maes Awyr Ynys Môn yno ychwaith. Felly, nid yw'n gwestiwn syml o Faes Awyr Caerdydd a'r swyddi sy'n dod i Faes Awyr Caerdydd, ond mae'r cannoedd o swyddi yng nghanolfan cynnal a chadw British Airways hefyd, nad oedd ei phlaid hi yn malio dim yn eu cylch. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau sy'n gwella proffil Cymru gyfan. Os mai polisi'r Blaid Geidwadol bellach yw y dylai buddsoddiadau gael eu gwrthwynebu mewn rhai rhannau o Gymru oherwydd eu bod yn dod i'r de, yna dylent ddatgan hynny nawr.

13:59 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae nifer o brosiectau cyfalaf i fuddsoddi mewn isadeiledd yn y gogledd y gallem fod yn gwneud ceisiadau amdanynt mewn blynyddoedd i ddod: er mwyn gwella safon y rheilffordd ar gyfer nwyddau, ac ati, yn y gogledd; croesiad arall ar draws afon Menai; buddsoddiad mewn isadeiledd ym mhorthladd Caergybi, er enghraifft. Mae'r rhain yn brosiectau mawr iawn. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod peryglon gwirioneddol mewn buddsoddi gormod mewn un prosiect trafnidiaeth yn un rhan o Gymru, lle bynnag y bo hwnnw, gan glymu pwerau benthyg y Cynulliad am flynyddoedd i ddod, ac y gallai hynny beryglu ein gallu i fuddsoddi mewn prosiectau trafnidiaeth mewn rhannau eraill o Gymru? Rwy'n sôn, wrth gwrs, am yr M4 yn y de-ddwyrain, y mae angen iddo ddigwydd. Mae perygl y gallai hwn glymu arian buddsoddi am flynyddoedd i ddod, o fynd am y prosiect drud.

There are a number of capital infrastructure investment projects in north Wales that we could be bidding for in ensuing years; for example, to improve the quality of the railway for freight and so forth in north Wales; another crossing on the Menai straits; and investment in infrastructure at Holyhead. These are major projects. Would the First Minister agree with me that there are serious risks in investing too much in a single transport project in one part of Wales, wherever that may be, and tying the Assembly's borrowing powers for years to come, and that that could put at risk our ability to invest in infrastructure projects in other parts of Wales? I am talking in particular about the M4 in the south-east, which needs to happen. However, there is a risk that going for the more expensive project could tie investment funds for years to come.

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae dewisiadau i'w gwneud, wrth gwrs. Fodd bynnag, un o'r prosiectau cyfalaf mwyaf yw prosiect Wylfa B, yn Ynys Môn. Nid prosiect Llywodraeth Cymru yw'r prosiect hwnnw, wrth gwrs, ond mae'n brosiect sy'n mynd i ddenu llawer o swyddi i'r ardal, ac sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Dylem gofio hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud ym mhorthladd Caergybi. Yr hyn sy'n bwysig—ac mae'n rhaid imi fod yn ofalus ynghylch yr hyn rwy'n ei ddweud am yr M4—yw bod unrhyw ffordd o ddatrys y broblem sy'n bodoli ar hyn o bryd yn un cynaliadwy, ac nid yn rhywbeth y bydd yn rhaid ei ailystyried mewn pump neu 10 mlynedd. Mae'n rhaid gwneud hyn yn iawn, os ei wneud o gwbl. Nid yw hynny'n golygu na fydd unrhyw fuddsoddi mewn rhannau eraill o Gymru—mae ffyrdd osgoi Porthmadog a Llandysul, rhwng Ceredigion a sir Gâr, yn enghreifftiau o hynny, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer Bontnewydd. Felly, ni fyddai'n iawn i ddweud—ac nid dyna a ddywedodd yr Aelod—na fydd buddsoddi mewn unrhyw ran arall o Gymru os byddwn yn buddsoddi yn yr M4. Nid yw hynny'n iawn, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu gan y buddsoddiad yn ffordd osgoi Bontnewydd.

There are choices to be made, of course. However, one of the biggest capital projects is the Wylfa B project, in Anglesey. That is not a Welsh Government project, of course, but it is a project that will attract a lot of jobs to the area, and is doing so at present. We should also remember the work that has been done at the port of Holyhead. What is important—I have to be careful what I say about the M4—is that any way of resolving the problem that exists at present is sustainable, and not something that will have to be reconsidered five or 10 years hence. This must be done properly, if at all. That does not mean that there will be no investment in other parts of Wales—the bypasses at Porthmadog and Llandysul, between Ceredigion and Carmarthenshire, are examples of that, along with the plans for Bontnewydd. Therefore, it would not be right to say—and that is not what the Member said—that there will be no investment in any other part of Wales if we invest in the M4. That is not right, and that is being reflected by the investment in the Bontnewydd bypass.

## Digwyddiadau Chwaraeon Rhyngwladol

## International Sporting Events

14:01 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol? OAQ(4)1720(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on efforts to promote Wales as a host for international sporting events? OAQ(4)1720(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We remain committed to working with UK and international sports federations, as well as our own, to ensure that more sporting events are held in Wales. Global events recently attracted include the Rugby League World Cup, the Senior Open Championship, the Rugby World Cup, the Ashes, the World Half Marathon Championships and the Volvo Ocean Race.

Gwnaf. Rydym ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda ffederasiynau chwaraeon y DU a rhyngwladol, yn ogystal â rhai ein hunain, er mwyn sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau chwaraeon yn cael eu cynnal yng Nghymru. Mae digwyddiadau byd-eang a ddenwyd yn ddiweddar yn cynnwys Cwpan Rygbi'r Gynghrair y Byd, y Bencampwriaeth Golff Agored i Chwaraewyr Hŷn, Cwpan Rygbi'r Byd, Cyfres y Lludw, Pencampwriaethau Hanner Marathon y Byd a'r Volvo Ocean Race.

14:01 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will probably be aware, as I am, that currently there is a football World Cup tournament on. Next year, the Rugby World Cup takes place, of course, with England hosting. While some games will be played at the Millennium Stadium, does the First Minister agree that it is high time that Wales is able to host its own Rugby World Cup tournament? If he does agree, what steps should be taken to lobby for this?

Mae'n debyg y byddwch yn ymwybodol, fel yr wyf innau, bod cystadleuaeth Cwpan pêl-droed y Byd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Y flwyddyn nesaf, cynhelir Cwpan Rygbi'r Byd gan Loegr, wrth gwrs. Er y bydd rhai gemau yn cael eu chwarae yn Stadiwm y Mileniwm, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn hen bryd i Gymru allu cynnal ei chystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd ei hun? Os yw'n cytuno, pa gamau y dylid eu cymryd i lobïo ar gyfer hyn?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think that Brazil is hosting the football World Cup at the moment. We have hosted the Rugby World Cup; we did it in 1999, and the final was held at the Millennium Stadium. Of course, we look forward with some trepidation, I suppose, at this very moment in time, to the Rugby World Cup in 2015, in terms of playing but not in terms of hosting the games at the Millennium Stadium next year. The Millennium Stadium has been very successful. It hosted games in 2007. It will host games again in 2015. Of course, we were the hosts of the Rugby World Cup in 1999.

Wel, rwy'n credu mai Brasil sy'n cynnal Cwpan pêl-droed y Byd ar hyn o bryd. Rydym ni wedi cynnal Cwpan Rygbi'r Byd; gwnaethom ni hynny yn 1999, a chynhaliwyd y rownd derfynol yn Stadiwm y Mileniwm. Wrth gwrs, rydym yn edrych ymlaen gyda rhywfaint o anesmwythder, am wn i, ar hyn o bryd, at Gwpan Rygbi'r Byd yn 2015, o ran chwarae, ond nid o ran cynnal gemau yn Stadiwm y Mileniwm y flwyddyn nesaf. Mae Stadiwm y Mileniwm wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cynhaliwyd gemau yno yn 2007. Cynhelir gemau yno eto yn 2015. Wrth gwrs, ni gynhaliodd Cwpan Rygbi'r Byd ym 1999.

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, pan wnaeth swydd Efrog gais am y Tour de France, gofynnais gwestiwn ichi yma yn y Senedd a dywedoch eich bod yn edrych i mewn i ymgais gan Gymru i gael rhyw fath o ymwneud gyda'r hyn sy'n digwydd ym myd seiclo. Gyda thîm seiclo cryfaf Cymru erioed yn mynd i Gemau'r Gymanwlad, a chydag o leiaf 10 o'r prif 'sportives' wedi gwerthu allan, a ydych yn credu ei bod yn bryd i Lywodraeth Cymru roi seiclo ar frig agenda chwaraeon Cymru?

First Minister, when Yorkshire made a bid for the Tour de France, I asked you a question here in the Senedd and you said that you were looking into a bid so that Wales could become involved with what is happening in the world of cycling. With Wales's strongest cycling team ever going to the Commonwealth Games, and with at least 10 of the top sportives being sold out, do you think that it is time for the Welsh Government to put cycling at the top of the Welsh sporting agenda?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Credaf fod hynny'n iawn. Rwyf am ailystyried y sefyllfa ynglŷn â'r Tour de France, yn ogystal â'r Giro d'Italia. Gwelais yr effaith a gafodd y digwyddiad hwnnw yn Iwerddon, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon, lle chwaraeodd nifer o bobl ran yn y gystadleuaeth. Aeth y beiciau heibio i dŷ fy mam yng nghyfraith. Felly, roedd hwnnw'n ddigwyddiad a chwaraeodd ran allweddol ym Melffast. Mewn perthynas â seiclo, mae'r Tour of Britain eleni yn dod i Gymru. Rydym hefyd wedi cael sawl digwyddiad seiclo yn y gorffennol. Mae'n bwysig cofio bod llawer o'r pethau hyn wedi bod yn y gogledd a'r de—wedi'u cynnal dros Gymru gyfan. Ni chynhaliwyd y digwyddiadau hyn yn y de neu mewn un stadiwm yn unig. Rydym wedi gweld yr hyn sydd wedi digwydd ym Mharc Eirias ym Mae Colwyn, a'r hyn sydd wedi digwydd gyda Wales Rally GB, y Tour of Britain a'r 'top of the world sailing championship'. Mae'r pethau hynny i gyd wedi bod yn y gogledd eleni.

I think that that is right. I want to revisit the situation as regards the Tour de France, and also the Giro d'Italia. I saw the impact of that event in Ireland, particularly in Northern Ireland, where many people played a part in the competition. The bikes went past my mother-in-law's house. Therefore, that was an event that played a key role in Belfast. In relation to cycling, the Tour of Britain this year is coming to Wales. We have also had a number of cycling event in the past. It is important to remember that many of these things have been in north and south Wales—they have been held all over Wales. These events did not take place only in south Wales or only in one stadium. We have seen what has happened at Eirias Park in Colwyn Bay, and what has happened with the Wales Rally GB, the Tour of Britain and the top of the world sailing championship. Those things have all been in north Wales this year.

14:04 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you will be aware that there are question marks about Qatar's hosting of the World Cup in 2022 because of corruption allegations and because it now appears to be the only one of nine applicants to be vulnerable to terrorist attacks. If that bid falls though, would you be prepared to talk to the UK Government and the other national Governments in the UK to try to put forward the UK as a potential fallback host for 2022?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod marciau cwestiwn ynghylch Qatar yn cynnal Cwpan y Byd yn 2022 oherwydd honiadau o lygredigaeth ac oherwydd ei fod bellach yn ymddangos i fod yr unig un o'r naw ymgeisydd sy'n agored i ymosodiadau terfysgol. Os bydd y cais hwnnw'n methu, a fyddech chi'n barod i siarad â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau cenedlaethol eraill yn y DU i geisio cynnig y DU fel cynhaliwr wrth gefn posibl ar gyfer 2022?

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I can honestly say that I played no part in those discusisons, with regard to Qatar. [Laughter.] With regard to the UK, the difficulty has always been that England sees itslef as big enough to host it on its own. It has the stadia, and there has been no interest at all from the FA in the past to have a joint bid with other nations. We are too small to host it; Scotland is too small to host it. Even if Wales, Scotland, Northern Ireland and the Republic tried to host it, I suspect that we still would not have enough stadia between us. The Republic does, but they are all Gaelic Athletic Association stadiums—the bigger ones—and there are issues surrounding that. We are happy to work with anybody in terms of hosting the football World Cup. It would help us to qualify; there is no doubt about that. [Laughter.] I am confident that we will do that the next time round anyway, given the team that we have, given the fact that we performed very well against Holland, and given Spain's abject performance at the end of last week. We will, of course, work with any other national sporting organisation elsewhere to jointly host any major sporting event, though I suspect that England would take the view that it is big enough to do it on its own.

Gallaf ddweud yn onest na chymerais i unrhyw ran yn y trafodaethau hynny, o ran Qatar. [Chwerthin.] O ran y DU, yr anhawster a fu erioed yw bod Lloegr yn ystyried ei hun yn ddigon mawr i'w chynnal ar ei ben ei hun. Mae'r stadia ganddi, ac ni fu unrhyw ddiddordeb o gwbl gan yr FA yn y gorffennol i gael cais ar y cyd â gwledydd eraill. Rydym ni'n rhy fach i'w chynnal; mae'r Alban yn rhy fach i'w chynnal. Hyd yn oed pe byddai Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth yn ceisio ei chynnal, rwy'n amau na fyddai gennym ddigon o stadia rhyngom ni o hyd. Mae gan y Weriniaeth, ond maen nhw i gyd yn stadia Cymdeithas Athletau Gaeleg—y rhai mwy—ac mae problemau yn gysylltiedig â hynny. Rydym ni'n hapus i weithio gydag unrhyw un o ran cynnal Cwpan pêl-droed y Byd. Byddai'n ein helpu i gyrraedd y rowndiau terfynol; nid oes amheuaeth am hynny. [Chwerthin.] Rwy'n hyderus y byddwn yn gwneud hynny y tro nesaf beth bynnag, o ystyried y tîm sydd gennym, o ystyried y ffaith i ni berfformio'n dda iawn yn erbyn yr Iseldiroedd, ac o ystyried perfformiad truenus Sbaen ddiwedd yr wythnos diwethaf. Byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gydag unrhyw sefydliad chwaraeon cenedlaethol arall mewn lleoedd eraill i gynnal unrhyw ddigwyddiad chwaraeon mawr ar y cyd, er fy mod yn amau y byddai Lloegr o'r farn ei bod yn ddigon mawr i wneud hynny ar ei phen ei hun.

### Cydraddoldeb o ran Cyflogau

### Pay Equality

14:05 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*7. Pa asesiad a wnaeth y Prif Weinidog o'r cynnydd tuag at gydraddoldeb o ran cyflogau yng Nghymru? OAQ(4)1722(FM)*

*7. What assessment has the First Minister made on progress towards pay equality in Wales? OAQ(4)1722(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We will include an assessment on progress on pay equality as part of the Welsh Ministers' report on the public sector equality duty later this year. We are supporting the 'Women Adding Value to the Economy' project to better understand the causes of gender pay inequality in Wales.

Byddwn yn cynnwys asesiad ar gynnydd ar gydraddoldeb cyflog yn rhan o adroddiad Gweinidogion Cymru ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ddiweddarach eleni. Rydym ni'n cefnogi'r prosiect 'Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi' i ddeall yn well yr hyn sy'n achosi anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru.

14:06 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, you will be aware that Labour's Equality Act 2010 introduced mandatory pay monitoring and that this was basically to remove the growing gap in pay between men and women. Of course, the coalition Government has now abandoned that completely, despite the fact that it was a Lib Dem promise in its manifesto. Do you agree with me, First Minister, that this abandonment yet again shows that Lib Dem promises are not worth the paper they are written on?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Deddf Cydraddoldeb 2010 y blaid Lafur wedi cyflwyno monitro cyflog gorfodol ac mai nod hyn yn y bôn oedd cael gwared ar y bwlch cynyddol rhwng cyflogau dynion a menywod. Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth glymblaid bellach wedi rhoi'r gorau'n llwyr i hynny, er gwaethaf y ffaith ei fod yn addewid ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, bod yr achos hwn o roi'r gorau iddi yn dangos unwaith eto nad yw addewidion y Democratiaid Rhyddfrydol werth y papur y maen nhw wedi eu hysgrifennu arno?

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, their list of abandoned promises does tend to get longer and longer, but it is important, of course, that we are now 44 years from the first Equal Pay Act 1970, and still we do not have equal pay and anything that moves away from closing the gender gap in pay is something to be deprecated. It is a shame that the UK Government does not seem to be as committed as it should be to ensuring that there is proper equal pay between men and women.

Wel, mae eu rhestr o addewidion a dorrwyd yn tueddu i dyfu'n fwy ac yn fwy, ond mae'n bwysig, wrth gwrs, bod 44 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers Deddf Cyflog Cyfartal gyntaf 1970, ac rydym yn dal i fod heb gyflog cyfartal o hyd ac mae unrhyw beth sy'n symud i ffwrdd oddi wrth cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn rhywbeth na ddylid ei gymeradwyo. Mae'n drueni nad yw'n ymddangos bod Llywodraeth y DU mor ymrwymedig ag y dylai fod i sicrhau bod cyflog cyfartal gwirioneddol rhwng dynion a menywod.

14:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae 'Meddyliwch, Gweithredwch, Adroddwch' yn bolisi i'r Deyrnas Unedig sy'n gofyn i gwmnïau nodi, casglu ac ystyried y data perthnasol ar faterion cydraddoldeb o ran rhyw ar draws eu gweithredoedd, ac yna gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hynny, ac wedyn adrodd—mater pwysig, sy'n fwy na monitro—ar gynnydd ac arfer gorau. Gyda mwy o gyfleoedd gwaith i fenywod yn y sector preifat yng Nghymru, a fyddech yn annog busnesau yma i ymrwymo i'r polisi hwn?

'Think, Act, Report' is an United Kingdom policy that asks companies to identify, gather and consider the relevant data on gender equality issues across their activities, take steps to tackle those issues, and then report—an important issue, which is more than monitoring—on progress and best practice. With more job opportunities for women in the private sector in Wales, would you encourage businesses here to commit to this policy?

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bwysig dros ben, wrth gwrs, bod y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn sicrhau bod cyfleoedd i fenywod, i sicrhau eu bod yn gallu codi mewn unrhyw fath o gorff i'r safleoedd hŷn. Nid felly y mae hi ar hyn o bryd. Rydym yn gwybod ynglŷn â'r byd busnes yng Nghymru, a'r sector cyhoeddus, mai dynion sydd flaenllaw yn y sector—nid oes digon o fenywod yn y rhannau uchaf o'r sectorau hynny. Felly, mae unrhyw beth sy'n helpu i sicrhau bod mwy o gydraddoldeb yn y dyfodol yn rhywbeth y byddem yn ei gefnogi, wrth gwrs, ond mae'n rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud mwy i sicrhau nad yw'r bwlch sydd yno ar hyn o bryd yn mynd yn fwy yn y dyfodol.

It is extremely important, of course, that the private and public sectors ensure that there are opportunities for women, to ensure that they are able to rise to senior positions in any type of organisation. That is not the case at present. We know that men dominate the world of business and the public sector in Wales—there are insufficient women in the highest echelons of those sectors. Therefore, anything that helps to ensure greater equality in the future is something that we would support, of course, but the United Kingdom Government must do more to ensure that the gap that exists at present does not widen in the future.

14:08 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Gofynnaf gwestiwn ychydig yn fwy anodd nag un Mick Antoniw, gobeithio. Mae'r gwasanaeth gofal, fel rydych yn dweud, yn llawn merched yn gweithio, ac wrth gwrs, mae'n sector lle, yn draddodiadol, mae cyflogau yn isel iawn—fel arfer, dim ond yr isafswm cyflog sy'n cael ei dalu. Hefyd, mae'n faes sy'n llawn contractau dim oriau. Rydych wedi cyfeirio at ddyletswydd y Llywodraeth yn Llundain; a yw'r pwerau gan y Llywodraeth yng Nghymru i ddylanwadu ar y sefyllfa anffodus hon, sydd, wrth gwrs, yn tanseilio gallu merched i ennill cyflog teg?

I will ask a question that is a little more difficult than Mick Antoniw's question, I hope. The care services, as you say, are full of women, and of course, it is a sector where, traditionally, wages are very low—typically, only the minimum wage is paid. Also, it is an area where there is an abundance of zero-hour contracts. You have referred to the duty of the Government in London; does the Welsh Government have the powers to influence this unfortunate situation, which, of course, undermines the ability of women to earn a fair wage?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rhywfaint, ond ddim digon. Mae'n glir nad oes gennym y pwerau dros gyflogaeth. Gobeithio, yn y flwyddyn nesaf, y byddwn yn gweld Llywodraeth yn San Steffan a fydd yn delio, er enghraifft, â chytundebau sero oriau er mwyn sicrhau bod mwy o degwch yn y sector hwnnw.

It has some, but not enough. It is clear that we do not have powers for employment. Hopefully, next year, we will see a Westminster Government that will tackle zero-hour contracts, for example, in order to ensure more equity in that sector.

## Henebion

## Ancient Monuments

14:09 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn henebion yng Nghymru rhag cael eu difrodi? OAQ(4)1727(FM)*

*8. What steps is the Welsh Government taking to protect ancient monuments in Wales from being damaged? OAQ(4)1727(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is statutory protection for ancient monuments in Wales, and regular inspections of them are conducted. The heritage Bill, through legislative changes and guidance and policy interventions, will improve the protection of the Welsh historic environment and support its sustainable management.

Ceir amddiffyniad statudol i henebion yng Nghymru, a chynhelir archwiliadau rheolaidd ohonynt. Bydd y Bil treftadaeth, trwy newidiadau a chanllawiau deddfwriaethol a pholisi ymyraethau, yn gwella'r amddiffyniad o amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn cefnogi ei reoli mewn modd cynaliadwy.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I was brought up within a stone's throw of Offa's Dyke—quite recently, when you look at its history. You will have been as horrified as I was to hear of the recent incident in which a section of the dyke was damaged in north-east Wales after earthworks were dug out. The police decided ther were unable to prosecute, because of insufficient evidence of a criminal act. First Minister, it would appear that, under present laws, a defence of ignorance applies in a case such as this. Can we be sure that the legislation proposed in the heritage Bill will be enough to stop similar cultural outrages happening again?

Diolch i chi am hynna. Cefais fy magu o fewn tafliad carreg i Glawdd Offa—yn gymharol ddiweddar, pan edrychwch chi ar ei hanes. Byddwch wedi dychryn cymaint ag y gwnes innau o glywed am y digwyddiad diweddar pryd y difrodwyd rhan o'r clawdd yn y gogledd-ddwyrain ar ôl i wrthgloddiau gael eu cloddio. Penderfynodd yr heddlu nad oeddent yn gallu erlyn, oherwydd diffyg tystiolaeth ddigonol o weithred droseddol. Brif Weinidog, mae'n ymddangos, dan ddeddfau presennol, bod amddiffyniad o anwybodaeth yn berthnasol mewn achos fel hwn. A allwn ni fod yn sicr y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn y Bil treftadaeth yn ddigon i atal sarhad diwylliannol tebyg rhag digwydd eto?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, that is something that we are looking at as part of the heritage Bill. It became clear in the thinking, before the heritage Bill was first produced, that there was a need to strengthen legislation. There was a need to make sure that owners, particularly of listed buildings, looked after those buildings, rather than let them fall into disrepair. The heritage Bill will address how we can remove the defence of ignorance in the future.

Ie, mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried yn rhan o'r Bil treftadaeth. Daeth yn amlwg wrth feddwl, cyn llunio'r Bil treftadaeth am y tro cyntaf, bod angen cryfhau'r ddeddfwriaeth. Roedd angen gwneud yn siŵr bod perchnogion, yn enwedig perchnogion adeiladau rhestredig, yn gofalu am yr adeiladau hynny, yn hytrach na gadael iddyn nhw ddirywio i gyflwr gwael. Bydd y Bil treftadaeth yn mynd i'r afael â sut y gallwn ni gael gwared ar yr amddiffyniad o anwybodaeth yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi bod yn ymgyrchu i ddiogelu cofebion rhyfel ers amser bellach. Un o fy nodau personol yw cynnig deddfwriaeth i ddiogelu cofebion rhyfel ar draws Cymru. Un o fy amcanion yw bod Llywodraeth Cymru yn cynnal rhestr o gofebion rhyfel fel bod gennym ddata penodol sy'n manylu ar nifer y cofebion rhyfel yng Nghymru a'u lleoliadau. A wnewch ymrwymo i edrych ar fater cofebion rhyfel ac a ydych yn fodlon ystyried, fel Llywodraeth, fy nghynnig i greu rhestr fanwl er mwyn nodi yn gywir lleoliadau a nifer y cofebion rhyfel ar draws Cymru?

First Minister, you will be aware that I have been campaigning to safeguard war memorials for some time now. One of my personal objectives is to propose legislation to safeguard and protect war memorials across Wales. One of my aims is that the Welsh Government should maintain a register of war memorials so that we have specific data on the number and location of war memorials in Wales. Will you commit to looking at the issue of war memorials, and are you willing to consider, as a Government, my proposal to create a detailed register to accurately note the location and number of war memorials across Wales?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n bwysig dros ben. Rydym wedi dechrau gwneud hynny'n barod. Un o'r pethau a ddywedais sawl mis yn ôl oedd bod eisiau ystyried cronfa er mwyn sicrhau bod arian ar gael i gofebion ar draws Cymru. Roedd yn amlwg ar y pryd bod rhai a oedd wedi cael eu rhestru—felly roedd rhestr o'r rheini—ond nid oedd rhestr gyflawn o bob cofeb yng Nghymru. Gwn fod cymunedau lleol, yn enwedig cynghorau cymuned, yn tueddu i edrych i ar ôl y cofebion hyn, ond mae'n wir i ddweud nad oes rhestr gyflawn, fel y dylai fod. Mae hwn yn rhywbeth rydym wedi bod yn ei ystyried er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gwybod lle maen nhw, yn gyntaf, a beth yw eu cyflwr, er mwyn sicrhau bod arian ar gael, yn enwedig yn y flwyddyn hon, i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn y ffordd y byddai'r cyhoedd yn erfyn.

That is very important. We have begun to do so already. One thing that I said several months ago was that there was a need to consider a fund to ensure that funding is available for memorials across Wales. It became apparent at the time that some were listed—so there was a list of those—but it was not a comprehensive list of all memorials in Wales. I know that local communities, particularly community councils, tend to maintain these memorials, but it is true to say that there is no comprehensive list, as there should be. This is something that we have been considering, in order to ensure that we all know where they are, first, and in what condition, in order to ensure that funds are available, particularly this year, so that they are maintained in the way that the public would expect.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, un peth yw cynnal a chadw'r henebion a'r cofebion hyn, ond eu pwysigrwydd yw eu bod yn adrodd hanes—hanes ein treftadaeth a'n hanes fel cenedl. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yr hanes hwnnw yn cael ei gyfleu i genedlaethau ifanc yn ein hysgolion, fel bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o dreftadaeth a hanes Cymru?

First Minister, it is one thing to preserve and maintain these memorials, but their importance is that they tell a story—the history of our heritage and our history as a nation. What is the Welsh Government doing to ensure that that history is conveyed to younger generations in our schools, so that children and young people are aware of the heritage and history of Wales?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n credu bod hynny'n digwydd. Mae cestyll yn enghraifft. Mae llawer o fuddsoddiad wedi'i roi i mewn i gestyll—Caernarfon a Chonwy yn ddau ohonynt. Mae Cadw yn gwneud gwaith da o sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hanes Cymru, yn enwedig y ffaith bod gennym dros 800 o gestyll. Yn ystod y flwyddyn hon, fel dywedais yn gynharach, mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried nifer y cofebion sydd gennym, er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da, fel y byddai pobl yn erfyn.

I think that that happens. Castles are an example. A great deal of investment has been put into castles—Caernarfon and Conwy castles being just two of them. Cadw is doing a good job of ensuring that people are aware of the history of Wales, particularly that we have over 800 castles. During this year, as I said earlier, it is very important that we consider the number of war memorials that we have, in order to ensure that they are in good condition, as people would expect.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynlluniau Strategol ar gyfer Addysg Gymraeg

## Strategic Plans for Welsh Education

14:13 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau strategol ar gyfer addysg Gymraeg? OAQ(4)1731(FM)*

*9. Will the First Minister provide the latest information regarding strategic plans for Welsh education? OAQ(4)1731(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno eu cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyo, neu fel arall, gan Weinidogion Cymru. Felly, mae pob un i mewn.

All local authorities have submitted their Welsh in education strategic plans to Welsh Government for approval, or otherwise, by Welsh Ministers. Therefore, all are in.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, dywedwyd yn ystod cyfarfod efo Rhieni dros Addysg Gymraeg bod pum cyngor wedi derbyn ymateb Llywodraeth Cymru i'w cynlluniau ac mai dim ond un a oedd yn dderbyniol. A allwch ddweud erbyn pa fis y bydd gan holl gynghorau Cymru gynllun addysg sy'n weithredol ar lawr gwlad?

First Minister, last week, during a meeting with 'Rhieni dros Addysg Gymraeg' it was said that five councils had received a response from Welsh Government to their plans and that only one had been acceptable. Can you tell us by which month all councils will have Welsh in education strategic plans that are operational on the ground?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n dibynnu pa mor effeithiol ydynt ar hyn o bryd. Os nad ydynt yn ddigon effeithiol, ni fyddant yn cael eu caniatáu. Mae yna rai sydd wedi gorfod ailystyried eu cynlluniau. Gobeithio y byddant yn edrych ar beth yw'r arfer da mewn awdurdodau eraill ac y byddwn yn gweld pob cynllun yn cael ei ganiatáu cyn gynted ag sy'n bosibl.

It depends on how effective they are at present. If they are not effective enough, they will not be approved. Some have had to reconsider their plans. I hope that they will see good practice in other authorities and that we will see all plans approved as soon as possible.

14:15 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when I went to school—it is safe to say that it was pre-devolution—I was not fortunate enough to receive the level of Welsh available to today's children. In fact, Gowerton Boys' Grammar School, which I attended, is now a Welsh-medium school—a significant improvement in the aim to safeguard the language in the Gower area.

Brif Weinidog, pan oeddwn i'n mynd i'r ysgol—mae'n ddiogel dweud bod hynny cyn datganoli—nid oeddwn yn ddigon ffodus i dderbyn y lefel o Gymraeg sydd ar gael i blant heddiw. Yn wir, mae Ysgol Ramadeg Bechgyn Tre-gŵyr, lle yr es i, yn ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn hyn—gwelliant sylweddol o ran y nod o ddiogelu'r iaith yn ardal Gŵyr.

My specific question is: with the huge step forward in Welsh in our national curriculum and with the investment in Welsh-medium education, why are we seeing a backward movement in the number of Welsh speakers? In fact, the number of people who speak Welsh has fallen in the past 10 years; according to the 2011 census, there has been a two percentage point drop from 21% to 19% in the proportion of Welsh speakers. Why do you think that this is happening, and what plans do you have to address it?

Fy nghwestiwn penodol yw hyn: yn dilyn y cam mawr ymlaen yn y Gymraeg yn ein cwricwlwm cenedlaethol a'r buddsoddiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg, pam ydym ni'n gweld cam yn ôl o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg? Yn wir, mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng yn ystod y 10 mlynedd diwethaf; yn ôl cyfrifiad 2011, bu gostyngiad o ddau bwynt canran o 21% i 19% yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg. Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd, a pha gynlluniau sydd gennych chi i roi sylw iddo?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is the question that we have been trying to address, and which I hope to address later on this afternoon as part of the Welsh language policy statement. There are, I think, a number of reasons for that. It is clear that some of the number have left Wales and are not counted in the census this time around. It may well be, for example, that some who have gone to Welsh-medium schools no longer count themselves as Welsh speakers because they no longer practice the language and feel that they no longer have a sufficient level of fluency.

Dyna'r cwestiwn yr ydym ni wedi bod yn ceisio ei ateb, ac rwy'n gobeithio ei ateb yn ddiweddarach y prynhawn yma yn rhan o'r datganiad polisi iaith Gymraeg. Ceir nifer o resymau am hynny, rwy'n credu. Mae'n amlwg bod rhai o'r nifer wedi gadael Cymru ac nad ydynt yn cael eu cyfrif yn y cyfrifiad y tro hwn. Gall fod yn wir, er enghraifft, bod yna rai sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt bellach yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg gan nad ydynt yn defnyddio'r iaith erbyn hyn a'u bod yn teimlo nad ydynt yn ddigon rhugl.

We know that the census is difficult, in the sense that it asks the bald question, 'Are you a Welsh speaker or not?'. Of course, there are different gradations of Welsh speakers. Sometimes, people who are, in reality, fluent do not feel confident enough to put themselves down as being fluent. Indeed, I suspect that what happens in some parts of Wales is that people who are less fluent in more anglicised parts of Wales put themselves down as Welsh speakers in a way that they would not if they were in areas where they heard Welsh every day and felt that their language was not good enough.

Rydym yn gwybod bod y cyfrifiad yn anodd, yn yr ystyr ei fod yn gofyn y cwestiwn moel, 'A ydych chi'n siaradwr Cymraeg neu beidio?'. Wrth gwrs, ceir gwahanol raddiadau o siaradwyr Cymraeg. Weithiau, nid yw pobl sydd, mewn gwirionedd, yn rhugl yn teimlo'n ddigon hyderus i nodi eu bod yn rhugl. Yn wir, rwy'n amau mai'r hyn sy'n digwydd mewn rhai rhannau o Gymru yw bod pobl sy'n llai rhugl mewn rhannau mwy Seisnigaidd o Gymru yn rhoi eu hunain i lawr fel siaradwyr Cymraeg mewn ffordd na fyddent pe byddent mewn ardaloedd lle'r oeddent yn clywed y Gymraeg bob dydd ac yn teimlo nad oedd eu hiaith yn ddigon da.

It is very difficult to understand why this happens, but we have to grasp this. The policy statement this afternoon will, I hope, go some way toward doing that.

Mae'n anodd iawn deall pam mae hyn yn digwydd, ond mae'n rhaid i ni ddeall hyn. Bydd y datganiad polisi y prynhawn yma, rwy'n gobeithio, yn gwneud cryn dipyn tuag at wneud hynny.

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at y datganiad yn nes ymlaen, Brif Weinidog, a byddwch siŵr o fod yn cytuno bod addysg yn greiddiol i waith y Llywodraeth yn y maes hwn. Mae gennych gynllun strategol addysg cyfrwng Cymraeg sy'n gosod targed o 30% o blant saith oed yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2020. Fodd bynnag, os craffwch ar y cynlluniau strategol fel maen nhw wedi'u cyflwyno hyd yma, mae'n amhosibl gweld a yw'r cynlluniau'n ddigonol i gyrraedd y nod hwnnw, achos dim ond pump ohonyn nhw sy'n sôn yn benodol, er enghraifft, am ysgolion newydd. A fyddwch, felly, pan rydych yn edrych ar y cynlluniau hyn, yn sicrhau eu bod yn mynd i'ch helpu, fel Llywodraeth, i gyrraedd eich targed yn 2020?

We look forward with some anticipation to your statement later on, First Minister, and I am sure that you would agree that education is at the heart of the Government's work in this area. You do have a strategic plan for Welsh-medium education that sets a target of 30% of seven-year-olds being educated through the medium of Welsh by 2020. However, if you look at the strategic plans as they have been brought forward to date, it is impossible to see whether they are adequate to attain that target because only five of them make any mention of new schools, for example. When you look at these plans, will you ensure that they will assist you in Government in actually attaining your target in 2020?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bydd yn rhaid iddyn nhw. Y nod yw, wrth gwrs, fod pob un o'r cynlluniau hynny yn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd y targed hwnnw. Wrth gwrs, cyn bod pob un o'r cynlluniau hynny'n cael eu caniatáu, byddwn yn erfyn iddynt helpu'r Llywodraeth i gyrraedd y targed hwnnw.

They will have to. The aim, of course, is that each one of those plans will assist the Government in attaining that target. Of course, before all those plans are approved, we would expect them to assist the Government in attaining that target.

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

I call the Minister, Lesley Griffiths.

14:18

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have three changes to report to this week's business. After this business statement, the First Minister will make an oral statement on the Welsh language policy statement. The Minister for Health and Social Services will then a make a statement on 'A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26', which is a Nuffield Trust report. Finally, the Business Committee has agreed to postpone tomorrow's short debate. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gen i dri newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad busnes hwn, bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad llafar ar ddatganiad polisi'r iaith Gymraeg. Wedyn, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar 'A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS i'n Wales to 2025/26', sy'n adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ohirio dadl fer yfory. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:18 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the role of the University of South Wales is now well acknowledged in promoting opportunities for women to access technical and non-traditional jobs. This will be acknowledged this July when Christine Atkinson will receive the Queen's award for enterprise promotion. The university also promotes the European convergence-funded women adding value to the economy, or WAVE, project. How can these be more widely promoted?

Weinidog, mae gwaith Prifysgol De Cymru o ran hyrwyddo cyfleoedd i fenywod gael mynediad at swyddi technegol a swyddi nad ydynt yn rhai traddodiadol yn cael ei gydnabod yn eang bellach. Bydd hyn yn cael ei gydnabod ym mis Gorffennaf eleni pan fydd Christine Atkinson yn derbyn gwobr y Frenhines am hyrwyddo menter. Mae'r brifysgol hefyd yn hyrwyddo'r prosiect menywod yn ychwanegu gwerth at yr economi, neu WAVE, a ariennir gan gronfeydd cydgyfeirio Ewrop. Sut y gellir hyrwyddo'r rhain yn ehangach?

14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I think that the Minister for Economy, Science and Transport is doing a great deal of work around this. It is very good to see the university doing this work, but, just last week, the Minister announced that the Chief Scientific Adviser for Wales, Professor Julie Williams, will set up a task and finish group of influential and senior women in science to look at encouraging and widening opportunities for women in science, which is, of course, vital to our economic interests.

Rwy'n credu bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud llawer iawn o waith ynglŷn â hyn. Mae'n dda iawn gweld y brifysgol yn gwneud y gwaith hwn, ond, dim ond yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, yr Athro Julie Williams, yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o fenywod dylanwadol ac uwch ym myd gwyddoniaeth i edrych ar annog ac ehangu cyfleoedd i fenywod ym myd gwyddoniaeth, sydd, wrth gwrs, yn hanfodol i'n buddiannau economaidd.

14:19 **Christine Chapman** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Minister, at the last meeting of the cross-party women in the economy group, which I chair, we discussed the gender imbalance found in leadership positions in Wales. Witnesses from the public and private sectors stressed the importance of women's leadership networks and effective mentoring in promoting change and helping women to come forward. Could we have a statement, Minister, from the Welsh Government on how it can help the development of these in Wales, and also how to break down the barriers preventing women from progressing?

Weinidog, yng nghyfarfod diwethaf y grŵp trawsbleidiol menywod yn yr economi, yr wyf i'n ei gadeirio, buom yn trafod yr anghydbwysedd rhwng y rhywiau a welir mewn swyddi arweinyddiaeth yng Nghymru. Pwysleisiodd tystion o'r sectorau cyhoeddus a phreifat bwysigrwydd rhwydweithiau arweinyddiaeth menywod a mentora effeithiol wrth hybu newid a helpu menywod i amlygu eu hunain. A allem ni gael datganiad, Weinidog, gan Lywodraeth Cymru ar sut y byddai'n gallu helpu i ddatblygu'r rhain yng Nghymru, a hefyd sut i gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal menywod rhag symud ymlaen?

14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

That follows on from my answer to William Graham about the work that the Minister for Economy, Science and Transport is doing. There is a great deal of work being done across the Government at the moment. You will be aware of the work being done by Jeff Cuthbert, the Minister for Communities and Tackling Poverty, the Presiding Officer and me with regard to increasing diversity in local government. We are also working with key organisations such as Chwarae Teg to increase the number of women accessing business support in Wales and encouraging women to start up in business through Business Wales. Therefore, a great deal of work is being undertaken right across Government.

Mae hynny'n dilyn ymlaen o'm hateb i William Graham am y gwaith y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ei wneud. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar draws y Llywodraeth ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y Llywydd a minnau o ran cynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda sefydliadau allweddol fel Chwarae Teg i gynyddu nifer y menywod sy'n manteisio ar gymorth busnes yng Nghymru ac i annog menywod i ddechrau busnes drwy Busnes Cymru. Felly, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar draws y Llywodraeth.

14:20 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Minister, according to a freedom of information request made by a constituent of mine, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board paid out around £25 million in damages between January 2012 and March this year. I want to understand whether these figures are reflective of what other health boards face. Aneurin Bevan Local Health Board paid out just over £11 million between 2011 and 2013. Could we have a debate in Government time to find out what Ministers and officials are doing, working with LHBs, to manage down these figures and, in so doing, using our NHS resources efficiently?

Weinidog, yn ôl cais rhyddid gwybodaeth a wnaed gan un o'm hetholwyr i, talodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg tua £25 miliwn mewn iawndal rhwng Ionawr 2012 a mis Mawrth eleni. Hoffwn ddeall pa un a yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu yr hyn y mae byrddau iechyd eraill yn ei wynebu. Talodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ychydig dros £11 miliwn rhwng 2011 a 2013. A allem ni gael dadl yn amser y Llywodraeth i ddarganfod yr hyn y mae Gweinidogion a swyddogion yn ei wneud, gan weithio gyda BILlau, i ostwng y ffigurau hyn a, thrwy wneud hynny, defnyddio ein hadnoddau GIG yn effeithlon?

14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I do not have the figures to hand for all the health boards, but you do raise an important point. I will ask the Minister for Health and Social Services to write to you on the issue.

Nid yw'r ffigurau ar gyfer yr holl fyrddau iechyd gennyf wrth law, ond rydych chi yn codi pwynt pwysig. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch ar y mater.

14:21 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I wonder whether you could ask your Minister for Natural Resources and Food whether he is prepared to make a statement on farm-gate beef prices. Prices recently have dropped from about 380p per kilogram dead weight to 310p per kilogram dead weight. For the uninitiated, that is about £250, on average, per beast as sold. That is a significant instability in the beef farming industry. It would also be helpful to know whether the Minister will be attending the Department for Environment, Food and Rural Affairs' beef summit, which is to be held in the early summer, and whether he has any intention to discuss this when he attends the Royal Welsh Show, which is only a few weeks away.

Weinidog, tybed a allech chi ofyn i'ch Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a yw'n barod i wneud datganiad ar brisiau cig eidion gât y fferm. Yn ddiweddar, mae prisiau wedi gostwng o tua 380c y cilogram mewn pwysau llawn i 310c y cilogram mewn pwysau llawn. I'r rhai anghyfarwydd, mae hynny tua £250, ar gyfartaledd, fesul anifail a werthir. Mae hynny'n golygu ansefydlogrwydd sylweddol yn y diwydiant ffermio cig eidion. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael gwybod a fydd y Gweinidog yn bresennol yn uwchgynhadledd cig eidion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sydd i'w chynnal ddechrau'r haf, a pha un a oes ganddo unrhyw fwriad o drafod hyn pan fydd yn mynd i Sioe Frenhinol Cymru, sydd ond ychydig wythnosau i ffwrdd.

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister did address this issue in his oral questions last Wednesday, in quite a lot of detail. I understand that he will be discussing the issue at the Royal Welsh Show.

Trafododd y Gweinidog y mater hwn yn ei gwestiynau llafar ddydd Mercher diwethaf, mewn cryn dipyn o fanylder. Rwy'n deall y bydd yn trafod y mater yn Sioe Frenhinol Cymru.

14:22 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call for two Welsh Government statements. The first is on fathers and parenting. The Scottish Parliament's Equal Opportunities Committee has produced a report on fathers and parenting, which recommends that more can be done to support the idea of fathers being involved in child-rearing as the norm and that all organisations and companies working with parents and children should ensure that work is aimed at both parents. Last week, Families Need Fathers Both Parents Matter hosted an event, co-sponsored by me, in the Assembly, called 'What dad means to me', where we heard from Professor Gordon Harold, who was appointed a professor of psychology at Cardiff University in 2008 and who now holds a chair in psychology in the University of Sussex. He told us that the evidence shows that robust father-child relationships matter for child development and that programmes that promote positive father-child relationships pay significant dividends in the long term. We also heard an excellent presentation from Labour MP David Lammy, who said that there should be couple-parenting programmes, and a real drive to engage new fathers with children and help them to develop father-child relationships. He said that 86% of all young men asked responded that they wanted to be in their child's life.

Galwaf am ddau ddatganiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyntaf ar dadau a rhianta. Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Senedd yr Alban wedi cynhyrchu adroddiad ar dadau a rhianta, sy'n argymell y gellid gwneud mwy i gefnogi'r syniad o dadau yn cymryd rhan yn y gwaith o fagu plant fel y norm ac y dylai pob sefydliad a chwmni sy'n gweithio gyda rhieni a phlant sicrhau bod gwaith yn berthnasol i'r ddau riant. Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd digwyddiad gan Families Need Fathers Both Parents Matter, wedi ei noddi ar y cyd gennyf i, yn y Cynulliad, o'r enw 'What dad means to me', pryd y clywsom gan yr Athro Gordon Harold, a benodwyd yn athro seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2008 ac sydd erbyn hyn yn athro seicoleg ym Mhrifysgol Sussex. Dywedodd wrthym fod y dystiolaeth yn dangos bod perthynas tad-plentyn gadarn yn bwysig ar gyfer datblygiad plant a bod rhaglenni sy'n hyrwyddo perthynas tad-plentyn cadarnhaol yn talu ar eu canfed yn y tymor hir. Clywsom hefyd gyflwyniad ardderchog gan yr AS Llafur David Lammy, a ddywedodd y dylai fod rhaglenni cyplau-rhianta, ac ymgyrch wirioneddol i ymgysylltu tadau newydd â phlant ac y dylid eu helpu i ddatblygu perthynas tad-plentyn. Dywedodd bod 86% o'r holl ddynion ifanc a holwyd wedi ymateb eu bod eisiau bod yn rhan o fywyd eu plentyn.

Secondly, and finally, I ask for a Welsh Government statement on employment outcomes for young people with autistic spectrum conditions, following the Welsh Government's social research paper of that name, although it is still using the term 'disorders' rather than 'conditions'. That said, the Welsh Government is aware that many young people with autistic spectrum disorders face difficulties with transition to employment from school, college or university, but reported employment rates for young people with autistic spectrum conditions, three to nine months after leaving formal education in Wales, are significantly below those for the general population at 16 and 18, and on leaving further and higher education. In fact, the figure is 0% for school leavers aged 18, despite, as they said, the fact that almost all of the young people wanted to work and showed great motivation and determination to achieve their employment goals in the face of multiple barriers.

Yn ail, ac yn olaf, gofynnaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar ganlyniadau cyflogaeth i bobl ifanc â chyflyrau'r sbectrwm awtistig, yn dilyn papur ymchwil cymdeithasol Llywodraeth Cymru o'r un enw, er ei bod yn dal i ddefnyddio'r term 'anhwylderau' yn hytrach na 'chyflyrau'. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o bobl ifanc ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn wynebu anawsterau o ran symud i gyflogaeth o'r ysgol, y coleg neu'r brifysgol, ond dywedodd bod cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau'r sbectrwm awtistig, rhwng tri a naw mis ar ôl gadael addysg ffurfiol yng Nghymru, yn sylweddol is na'r rhai ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol yn 16 a 18 oed, ac ar ôl gadael addysg bellach ac addysg uwch. Mewn gwirionedd, 0% yw'r ffigur ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol yn 18 oed, er gwaethaf, fel y dywedodd, y ffaith fod bron pob un o'r bobl ifanc eisiau gweithio ac yn dangos brwdfrydedd a phenderfyniad sylweddol i gyrraedd eu hamcanion cyflogaeth yn wyneb rhwystrau lluosog.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not see the need to have Government statements on either of those issues. I was aware of the group that I think you were involved in organising last week in the Assembly, which I know there was cross-party attendance at. You will be aware of the work going on with employers to encourage not just autistic young people, but people with special needs into employment.

Nid wyf yn gweld bod angen datganiadau gan y Llywodraeth ar y naill na'r llall o'r materion hynny. Roeddwn yn ymwybodol o'r grŵp yr wyf yn credu eich bod wedi bod yn rhan o'i drefnu yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad, a gwn fod presenoldeb trawsbleidiol ynddo. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo gyda chyflogwyr i annog nid yn unig pobl ifanc awtistig, ond pobl ag anghenion arbennig i mewn i gyflogaeth.

14:25 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe wnaeth cyngor amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd bleidleisio dros gynnig dadleuol yn ddiweddar iawn a allai weld cnydau GM yn cael eu plannu yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig mor gynnar â'r flwyddyn nesaf. Mae gennym ni yng Nghymru record clir o wrthwynebu cnydau GM a dim ond wythnos diwethaf roeddwn yn lansiad cynllun gweithredu diwydiant bwyd a diod Cymru, a lansiwyd ar ddydd Iau, a oedd yn tanlinellu nodweddion pwysig y sector bwyd a'r ddelwedd sydd gan Gymru o fod yn lle iach, yn lle glân ac yn lle gwyrdd pan ddaw i gynhyrchu bwyd—rhywbeth a fyddai, yn fy marn i, yn gallu cael ei danseilio petai cnydau GM yn cael eu cyflwyno yma yng Nghymru. A gaf ofyn ichi felly i sicrhau bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad cynnar a fydd, gobeithio, yn ategu ymrwymiad Cymru ac, yn wir, Llywodraeth Cymru, i Gymru di-GM?

The environment council of the European Union voted for a contentious motion recently that could see genetically modified crops being planted in Wales and in the UK as early as next year. We in Wales have a clear record of opposing GM crops and, just last week, I attended the launch of the action plan for the food and drink industry in Wales, which was launched on Thursday, which underlined the important features of the food sector and the image that Wales has of being a green, clean and healthy place when it comes to food production—something that, in my opinion, could be undermined if GM crops were to be introduced here in Wales. May I ask you therefore to ensure that the Minister for Natural Resources and Food makes an early statement that will, hopefully, endorse and highlight Wales's commitment, and that of the Welsh Government, to a GM-free Wales?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. Under the EU legislation proposals, the Welsh Government would remain the competent authority and would have the final say on whether GM crops were banned in Wales. The Minister is maintaining a precautionary approach to GM-crop cultivation in Wales, while obviously having to adhere to the UK and EU legislative framework.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Dan gynigion deddfwriaeth yr UE, Llywodraeth Cymru fyddai'r awdurdod cymwys o hyd a hi fyddai â'r gair olaf ynghylch pa un a fyddai cnydau GM yn cael eu gwahardd yng Nghymru. Mae'r Gweinidog yn parhau â dull rhagofalus o ymdrin ag amaethu cnydau GM yng Nghymru, ac yn amlwg yn gorfod cydymffurfio â fframwaith deddfwriaethol y DU a'r UE ar yr un pryd.

14:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, further to Bethan Jenkins's question, the response to freedom of information requests relating to ABMU indicates that, between January 2012 and March 2014, ABMU paid out on average £655,000 each month in compensation. That is a huge amount of money coming out of the NHS because of problems, negligence or other issues arising from what has happened in that particular health board. May I ask whether we can have a statement not just on this, but on similar payments in the other health boards in Wales, so that we can get a proper picture of where we stand in terms of the money being paid out in compensation across Wales over this period?

Weinidog, yn dilyn cwestiwn Bethan Jenkins, mae'r ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ymwneud â PABM yn dangos bod PABM, rhwng Ionawr 2012 a Mawrth 2014, wedi talu o £655,000 ar gyfartaledd, mewn iawndal bob mis. Mae hynny'n llawer iawn o arian yn dod allan o'r GIG oherwydd problemau, esgeulustod neu faterion eraill sy'n codi o'r hyn sydd wedi digwydd yn y bwrdd iechyd penodol hwnnw. A gaf i ofyn a allwn ni gael datganiad nid yn unig ar hyn, ond ar daliadau tebyg yn y byrddau iechyd eraill yng Nghymru, fel y gallwn gael darlun cywir o ble yr ydym ni'n sefyll o ran yr arian sy'n cael ei dalu mewn iawndal ar draws Cymru yn ystod y cyfnod hwn?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Minister for Health and Social Services is in the Chamber and will have heard what you have said. As I said, I would ask him to write to Bethan Jenkins. If there is anything that he wants to share with Assembly Members, I am sure that he will be happy to do so.

Wel, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Siambr a bydd wedi clywed yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud. Fel y dywedais, byddaf yn gofyn iddo ysgrifennu at Bethan Jenkins. Os oes unrhyw beth yr hoffai ei rannu gydag Aelodau'r Cynulliad, rwy'n siŵr y bydd yn hapus i wneud hynny.

14:27 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have a statement from the Minister for health on continuing care claims? In the last Assembly and the early part of this Assembly, this is something that many Members' minds were focused on because Powys health board, which was the host authority that dealt with these claims, was snowed under in dealing with them. I understand that the Welsh Government has set a stop date of 30 June for new claims to be lodged. I would be very keen, as I am sure other Members who have expressed an interest in this field would be, to know how the backlog has been dealt with to date, the level of legal aid money that has gone out to pay legal firms and, above all, the compensation pot to date that has been delivered back to people who have paid for continuing care claims. There is a comprehensive package of questions there, and I very much hope that the Minister will be able to bring forward a statement to catch all those questions.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog iechyd ar hawliadau gofal parhaus? Yn y Cynulliad diwethaf ac ar ddechrau'r Cynulliad hwn, mae hyn yn rhywbeth yr oedd meddyliau llawer o Aelodau yn canolbwyntio arno gan fod bwrdd iechyd Powys, sef yr awdurdod cynnal a oedd yn ymdrin â'r hawliadau hyn, wedi cael ei lethu wrth ymdrin â nhw. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad terfyn o 30 Mehefin ar gyfer cyflwyno ceisiadau newydd. Byddwn yn awyddus iawn, fel yr wyf yn siŵr y byddai Aelodau eraill sydd wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn, i gael gwybod sut yr ymdriniwyd â'r ôl-groniad hyd yn hyn, lefel yr arian cymorth cyfreithiol sydd wedi mynd allan i dalu cwmnïau cyfreithiol ac, yn anad dim, y pot iawndal sydd wedi cael ei dalu yn ôl hyd yma i bobl sydd wedi talu am hawliadau gofal parhaus. Ceir pecyn cynhwysfawr o gwestiynau yna, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog yn gallu cyflwyno datganiad i ateb yr holl gwestiynau hynny.

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, the Minister for Health and Social Services will make a statement on that.

Bydd, fe fydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar hynny.

14:28

# Datganiad: Datganiad am Bolisi'r Iaith Gymraeg

# Statement: Welsh Language Policy Y Statement

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

I call on the First Minister, Carwyn Jones.

14:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Does dim gwadu bod hwn yn gyfnod tyngedfennol i'r Gymraeg. Bydd y degawd nesaf yn dangos a ydym wedi llwyddo i ymateb i ganlyniadau cyfrifiad 2011 a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg. Mae 'Iaith fyw: iaith byw—Strategaeth y Gymraeg 2012-17' eisoes ar waith. Bwriad y ddogfen 'Bwrw Mlaen' yw sôn am yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno dros y tair blynedd hollbwysig nesaf er mwyn gwireddu ein strategaeth.

There is no denying that this is a crucial time for the Welsh language. The next decade will demonstrate whether we have succeeded in responding to the census results of 2011 and strengthened the situation of the Welsh language. 'A Living Language: A language for living—Welsh Language Strategy 2012-17' is well under way. The purpose of the document 'Moving Forward' is to include what we will be concentrating on during the next important three years in order to achieve our strategy.

Fy mwriad wrth gyhoeddi 'Bwrw Mlaen' yw gosod yr her o normaleiddio'r Gymraeg, fel ei bod yn dod yn elfen naturiol o fywydau bob dydd pawb. Rwy'n gosod yr her hynny i ni fel Llywodraeth, i lywodraeth leol, i'r sector cyhoeddus yn ehangach, i fusnesau, i'r trydydd sector ac i bawb sy'n siarad, dysgu neu'n cefnogi'r Gymraeg. Un o'n hamcanion yn hynny o beth yw bwrw ati i ledaenu ein gwaith o newid ymddygiad ieithyddol, gan ddwyn ar dechnegau newid ymddygiad cydnabyddiedig o feysydd eraill.

My purpose in publishing 'Moving Forward' is to set the challenge of reaching a situation where the use of Welsh is normalised through daily life. I put that challenge to us as a Government, to local authorities, to the wider public sector, to businesses, to the third sector and to everyone who speaks, learns or supports the Welsh language. One of our objectives in that is to go ahead with our work of changing language behaviour, incorporating recognised behavioural change techniques from other areas.

Rwy'n cydnabod bod tyfu'r Gymraeg yn mynd law yn llaw â datblygu economaidd, ac mae 'Bwrw Mlaen' yn nodi ein buddsoddiad ychwanegol o hyd at £400,000 mewn rhaglenni penodol i gefnogi hynny. Bydd hynny'n cynnwys prosiectau peilot yn nyffryn Teifi i gefnogi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg.

I acknowledge that growing the use of the Welsh language goes hand-in-hand with economic development, and 'Moving Forward' notes our increased investment of up to £400,000 in specific programmes to support that. That will include pilot projects in the Teifi valley in order to support businesses that use the Welsh language.

Rydym hefyd yn cynyddu ein buddsoddiad ariannol yn y cyrff sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, gydag £1.2 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros ddwy flynedd—£400,000 yn ychwanegol eleni, gan gynyddu i £800,000 o 2015-16 ymlaen. Bydd y buddsoddiad hwnnw'n cynnwys creu cronfa er mwyn hybu arloesi yn yr ardaloedd canrannau uchel ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd strategol, datblygu gwaith ein partneriaid sy'n hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, gan gynnwys £750,000 i ddatblygu gwaith y mentrau iaith, cryfhau'r gwaith o gefnogi arferion iaith pobl ifanc er mwyn cynyddu eu hyder a'u geirfa i allu defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, a darparu hyfforddiant a datblygu proffesiynol i weithwyr yn y maes cynllunio ieithyddol.

We are also increasing our financial investment in the bodies that promote the use of Welsh in the community, with £1.2 million being invested over two years—an increase of £400,000 this year, increasing to £800,000 from 2015-16 onwards. That investment will include creating a fund in order to promote innovation in the areas of high percentages of Welsh speakers and other areas of strategic importance, develop the work of our partners that promote the use of the language in the community, including £750,000 to develop the work of the 'mentrau iaith', strengthen the work of supporting the lifestyle of young people in order to increase their confidence and their vocabulary to be able to use the language socially, and provide training and professional development to workers in the field of language planning.

Rwyf hefyd am i sefydliadau gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y Gymraeg, a chynllunio'n well ac yn fwy strategol, gan fuddsoddi yn nefnydd yr iaith o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Disgwyliaf i arweinwyr o bob sector gymryd mwy o gyfrifoldeb am y Gymraeg. Bydd y safonau hybu a gaiff eu gwneud maes o law ar ein cyfer ni fel Gweinidogion, awdurdodau lleol, a'r parciau cenedlaethol, yn helpu yn hynny o beth, ac felly hefyd ein cynigion ar gyfer Bil cenedlaethau'r dyfodol, a fydd yn rhoi iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth wraidd y diffiniad o Gymru gynaliadwy.

I also want organisations to take greater responsibility for the Welsh language, to plan better and more strategically, and to invest in the use of the language within their areas of responsibility. I expect leaders of all sectors to take more responsibility for the Welsh language. The promotion standards that will soon be imposed on us as Ministers, local authorities, and the national parks, will be of assistance in this, together with our future generations Bill, which will put a thriving Welsh language at the heart of the definition of a sustainable Wales.

O ran y maes cynllunio, rydym heddiw'n cyhoeddi canllawiau i gefnogi nodyn cyngor technegol 20, a fydd yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio ymhellach. Byddaf yn ysgrifennu at awdurdodau cynllunio i nodi disgwyliad y Llywodraeth eu bod yn ystyried y Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu, a byddwn yn parhau i archwilio pob cam ymarferol i gryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio.

In terms of planning, today we publish guidance to support technical advice note 20, which will assist planning authorities further. I will write to planning authorities noting the Government's expectation that they consider the Welsh language when preparing development plans, and we will continue to explore every practical step to strengthen the language in the planning system.

Ym myd busnes, mae angen i fusnesau weld bod gwerth i'r Gymraeg. Canfu'r arolwg diweddar ar anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector bod ond 4% o gyflogwyr yn y sectorau hynny wedi ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth ar faterion a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn y gweithle yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf. O safbwynt y Gymraeg, nid yw hyn yn ddigon da, ac mae lle i wneud mwy i ddarbwyllo busnesau o werth y Gymraeg a'u cyfeirio at y llu o gymorth sydd ar gael iddynt gynyddu eu defnydd o'r iaith. Byddwn yn dechrau drwy dargedu trefi penodol sy'n gwasanaethu'r cymunedau Cymraeg—cymunedau Cymraeg y gogledd a'r de-orllewin.

In the business world, businesses need to see that there is a value to the language. The recent survey on Welsh language skills needs in eight sectors found that only 4% of employers in those sectors had tried to seek advice, information or assistance on matters to do with the Welsh language in the workplace during the last two to three years. In terms of the Welsh language, this is not good enough, and there is scope to do more to persuade businesses of the value of the language and to direct them to the range of assistance that is available to them to increase their Welsh language usage. We will begin by targeting specific towns that service the Welsh language communities—the Welsh language communities of north Wales and the south-west.

I raddau helaeth, mae'r seilwaith eisoes yn ei le. Yn sgîl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan yr iaith statws swyddogol yng Nghymru, yn ogystal â fframwaith deddfwriaethol. Bydd y safonau arfaethedig cyntaf yn adeiladu ar hyn ac yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, y parciau cenedlaethol, a Gweinidogion Cymru, i hybu'r Gymraeg. Bydd y safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar yr iaith, a bydd y comisiynydd a'r tribiwnlys yn helpu i weithredu a gorfodi'r safonau a darparu apeliadau mewn modd cadarn, teg a thryloyw.

To a certain degree, the infrastructure is already in place. Following the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the language has official status in Wales, as well as a legislative framework. The proposed first standards will build on this and place a duty on local authorities, the national parks, and Welsh Ministers, to promote the language. The standards will also make it a requirement that organisations assess the impact of their decisions on the language, and the commissioner and the tribunal will help to execute and enforce the standards and provide appeals in a way that is fair, strong and transparent.

O ran y system addysg, mae gwaith eisoes yn digwydd i weithredu argymhellion yr adolygiad o faes Cymraeg i oedolion yn unol â'r cyfeiriad a nodwyd yn ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad. Rwyf hefyd, ynghyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, eisoes wedi datgan bod angen newid y drefn o ddysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion Cymru—pa un a ydynt yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg—yn cael cefnogaeth i siarad y Gymraeg yn hyderus.

In terms of the education system, work is already under way to implement the recommendations in the Welsh for adults review in accordance with the direction noted in the response of the Government to the report. I have, as well as the Minister for Education and Skills, already declared that the approach of teaching and learning Welsh in English-medium schools needs to change in order to ensure that all the pupils of Wales—whether they attend a Welsh-medium school or an English-medium school—get the support to speak Welsh with confidence.

Roedd hon yn broses anodd gan fod cymaint o wybodaeth ac argymhellion i'w pwyso a'u mesur. Rwy'n erfyn arnom ni i gyd i ymateb i'r heriau sydd yn 'Bwrw Mlaen' i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg. Mae'r heriau hynny yn anodd a chymhleth. Byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd newydd o'u datrys ar sail tystiolaeth newydd ac am gadw'r drws ar agor i syniadau newydd. Rwyf felly yn gofyn i chi fel Aelodau, sefydliadau sydd â diddordeb, ac aelodau o'r cyhoedd, ystyried y ddogfen ac i anfon eich sylwadau atom. Byddwn yn cyhoeddi dogfen derfynol yn ystod yr Eisteddfod—yr Eisteddfodd Genedlaethol, hynny yw, wrth gwrs—felly edrychaf ymlaen at dderbyn unrhyw awgrymiadau o fewn y mis nesaf a chyn 11 Gorffennaf.

This was a difficult process as there was so much information and recommendations to evaluate. I urge us all to respond to the challenges included in 'Moving Forward' to strengthen the position of the Welsh language. Those challenges are difficult and complex. We will continue to consider new ways of resolving them on the basis of new evidence and will keep the door open to new ideas. I therefore ask you as Members, organisations that have an interest, and members of the public, to consider the document and to send your comments to me. We will publish a final version during the Eisteddfod—the National Eisteddfod, that is, of course—and I therefore look forward to receiving any suggestions within the next month and before 11 July.

Rydym ni fel Llywodraeth yn derbyn ein rhan ni yn y sialens ac yn edrych i'n partneriaid ar draws Cymru i ddilyn ein harweiniad ni. Ni ddylai unrhyw un sydd wir yn becso am ddyfodol yr iaith gredu mai mater i'r Llywodraeth yn unig yw e. Mae deddfwriaeth a rheoleiddio yn bwysig, ond rydym angen mwy na hyn. Rydym angen ymroddiad, syniadau newydd ac egni o bob tu. Dyma'r amser felly i weithredu.

We as a Government accept our part in the challenge and we look to our partners across Wales to follow our lead. No-one who cares about the language should believe its future is a matter for Government alone. Legislation and regulation matter, but we need more besides. We need commitment, new ideas and energy from all quarters. Now, therefore, is the time to deliver.

14:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am eich datganiad. Gwnawn ei ystyried. Rydych yn iawn ei bod yn her i normaleiddio'r Gymraeg a'i helpu i fod yn elfen naturiol ym mywydau pob dydd pawb. Rwy'n gweld pwyslais yn eich datganiad ar ardaloedd lle mae canrannau uchel o siaradwyr yn barod, ac rwy'n deall pam, yn dilyn y cyfrifiad. Rwyf hefyd wedi dweud cyn hyn nad ydwyf yn gweld cystadleuaeth rhwng ardaloedd felly ac ardaloedd lle nad oes llawer o Gymraeg y tu fas i'r ystafell ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n glir i mi sut mae'r datganiad hwn yn parhau â nod gwreiddiol a sylfaenol y cyn Weinidog, sef mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd a chymunedau ar draws Gymru, gan gynnwys rhai difreintiedig a di-Gymraeg. Felly, hoffwn ofyn pam nad wyf yn gweld dim byd am y cyfle i gyflwyno'r Gymraeg drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg, er enghraifft. A ydych wedi ystyried hynny? Beth sydd wedi digwydd i glymblaid yr annisgwyl, a oedd yn syniad poblogaidd gyda'r cyn Weinidog?

Thank you, First Minister, for your statement. We will consider it. You are right: it is a challenge to normalise the Welsh language and to help it to become a natural aspect of people's everyday lives. I see an emphasis in your statement on areas where there are high percentages of Welsh speakers already, and I understand why, given the census results. I have also said previously that I do not see this as a competition between such areas and areas where there is not much Welsh spoken outside of the classroom. However, it is not clear to me how this statement drives forward the original and fundamental aim of the former Minister, which was to see more use of the Welsh language in families and communities throughout Wales, including disadvantaged and non-Welsh-speaking communities. So, I would like to ask you why we see nothing on the opportunity to introduce the Welsh language through Flying Start, for example. Have you considered that? What has happened to the coalition of the unexpected, which was a popular concept of the former Minister?

Nid wyf yn gweld hefyd eich syniadau am y gweithlu addysg. Os hoffech weld mwy o ddefnydd ffurfiol neu achlysurol o'r iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, rhaid i ni gyd wynebu hyn rwy'n credu. Felly, ydych chi wedi trafod pa ffordd i symud hynny ymlaen gyda'r Gweinidog addysg?

I also do not see any ideas on the education workforce. If you want to see more occasional or formal use of the Welsh language in English-medium schools, then we all have to face this issue, I think. So, have you discussed in what way we can progress this with the Minister for education?

Mae'r cwestiwn o werth yr iaith ym myd hanes yn un hanfodol ond anodd; rwy'n derbyn hynny. Felly, pryd ydych yn mynd i asesu effaith y cynlluniau hyn a'r rhai sydd yn bodoli ar hyn o bryd? A ydych yn hyderus bod adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn mynd i'ch helpu gyda'r gweithrediad lleol ar hyn?

On the question of the value of the language in history, I accept that that is difficult, but crucial. So, when will you assess the impact of these plans and the plans already in place? Are you confident that the report of the task and finish group established by the Minister for the economy will assist you with taking action at a local level on this?

Ynglŷn â TAN 20, diolch am y canllaw ymarferol; rwyf newydd ei dderbyn ond nid wyf wedi ei ddarllen eto. Fodd bynnag, a gawn fynd yn ôl yn glou i ymateb i ddatganiad cwpwl o wythnosau yn ôl, pan ddywedoch chi ynghylch y dyletswydd—nid disgwyliad, ond dyletswydd—perthnasol i'r Gymraeg, eich bod yn chwilio am rhywbeth ymarferol? Rwy'n gweld hefyd eich bod yn dal i archwilio pob cam ymarferol i gryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio. Pam ydy hi'n ymarferol i gael dyletswydd sylw priodol o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn awr anghenion pob mewn oed, ond nid i siaradwyr Cymraeg presennol ac yn y dyfodol?

On TAN 20, I thank you for the practical guidance; I have received that, although I have not had an opportunity to read it yet. However, may we return very swiftly to respond to a statement made a few weeks ago, when you said, in terms of the duty—not an expectation, but a duty—in relation to the Welsh language, that you are seeking a practical approach? I also see that you are still looking at all practical steps to strengthen the position of the Welsh language in the planning system. Why is it practicable to have a due regard duty for the United Nations Convention on the Rights of the Child, and now the needs of older people, but not for current Welsh speakers and the Welsh speakers of the future?

I ddiweddu, Lywydd, nid wyf yn gweld manylion yn y datganiad hwn am sut i ddarganfod gwariant ar yr iaith drwy linellau cyllideb. A oes rhywbeth newydd gyda chi i oleuo parhad ar hyn os gwelwch yn dda?

To conclude, Presiding Officer, I see no details in this statement on how to identify expenditure on the language through budget lines. Do you have anything new to say that can enlighten us on this issue, please?

14:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n rhaid i mi gyfeirio'r Aelod tuag at y ddogfen ei hunan, 'Bwrw Mlaen', sy'n rhoi llawer mwy o gig ar yr asgwrn na'r datganiad llafar y prynhawn yma, gan fod 'limit' o ran yr hyn y mae datganiad yn gallu ei ddweud. Fodd bynnag, a gaf ddweud ei bod hi'n bwysig dros ben sicrhau bod mwy o ddefnydd o'r iaith yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg? Heb y galon, nid oes corff. Rhaid sicrhau bod pobl yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd traddodiadol hynny; os nad ydyn nhw yn gwneud hynny, mae'n fwy anodd i sicrhau bod pobl yn defnyddio'r iaith yn yr ardaloedd mwy Saesneg eu hiaith. Mae'r ddogfen ei hunan, 'Bwrw Mlaen', yn sôn am y ffaith bod rhaid i ni rhoi mwy o hyder i siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fas i'r dosbarth a thu fas i'r aelwyd er mwyn sicrhau bod pobl yn gweld y Gymraeg fel iaith naturiol i gyfathrebu mewn ffordd nad sy'n wir dros Gymru gyfan ar hyn o bryd.

I droi at yr economi, mae un bennod o'r ddogfen ei hun yn siarad am yr economi a'r hyn a allai'r economi ei wneud i gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg. Rwyf wedi sôn, wrth gwrs, y prynhawn yma am yr arian ychwanegol sydd ar gael i ariannu prosiectau newydd, sef y prosiectau peilot fydd yn digwydd yn nyffryn Teifi. Felly, mae mwy o arian wedi cael ei fuddsoddi, fel yr wyf wedi ei ddatgan heddiw, er mwyn anelu at hynny.

O ran safonau, soniais am safonau, ac mae'n bwysig dros ben bod y safonau yn cael eu creu gan y comisiynydd. Rwy'n edrych ymlaen at weld y safonau hynny er mwyn sicrhau bod y rhain yn rhan o'r broses o normaleiddio'r iaith, achos os y cawn safonau sy'n ymwneud â'r sector cyhoeddus—nid dim ond y sector cyhoeddus, ond y sector cyhoeddus yn enwedig—mae'n ei gwneud yn llawer yn rhwyddach i normaleiddio'r defnydd o'r iaith mewn cyrff cyhoeddus. Un o'r pethau rwyf wedi sylwi arno ef dros y 15 mlynedd diwethaf—nid wyf wedi bod yn Weinidog am 15 mlynedd, ond am 14 mlynedd—yw'r ffaith bod mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio nawr yn fewnol yn Llywodraeth Cymru nag erioed o'r blaen. Roedd Cymraeg yn y swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, bach o Gymraeg yn Llandrindod, llawer yng Nghaernarfon, a bach iawn o Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio yng Nghaerdydd. Mae mwy a mwy o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn awr—mwy nag erioed o'r blaen. Mae hynny'r rhywbeth i'w groesawu. Felly, mae'r iaith Gymraeg yn cael—nid yw hi'n broses sydd, efallai, wedi gorffen yn hollol eto—ei normaleiddio fel iaith weinyddol yn Llywodraeth Cymru.

I must refer the Member to the document itself, 'Moving Forward', which puts a great deal more flesh on the bones than the oral statement this afternoon, because there is a limit as to what the statement can say. However, may I say that it is very important to ensure that there is greater use of the language in the more traditionally Welsh-speaking areas? Without the heart, you do not have a body. We must ensure that people use the Welsh language in those traditional areas; if they do not do so, it is more difficult to ensure that people use Welsh in the more Anglicised areas. The document itself, 'Moving Forward', mentions that we must give Welsh-speakers the confidence to use the Welsh language outside the classroom and outside the home in order to ensure that people see Welsh as a natural language of communication in a way that is not true across the whole of Wales at present.

Turning to the economy, one section of the document covers the economy and what the economy can do to strengthen the position of the Welsh language. I have already mentioned, of course, the additional funding that is available to fund new projects, namely the pilot projects that will be taking place in the Teifi valley. So, more money has been invested, as I have stated today, in order to do that.

As regards the standards, I mentioned the standards, and it is exceptionally important that those standards are created by the commissioner. We look forward to seeing those standards in order to ensure that they are part of the process of normalising the language, because if we get standards that relate to the public sector—not just the public sector, but the public sector in particular—it makes it much easier to normalise the use of the language in public bodies. One of the things that I have noticed over the past 15 years—I have not been Minister for 15 years, but for 14 years—is that more Welsh is now being used within Welsh Government than ever before. There was Welsh in the offices in Carmarthen, some Welsh in Llandrindod, a lot in Caernarvon, and a very little Welsh was used in Cardiff. There are an increasing number of Welsh speakers now working in the Government in Cardiff—more than ever before. That is to be welcomed. So, the Welsh language—it is not a process that is finished as yet, perhaps—is being normalised as a language of administration within the Welsh Government.

14:41 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Roeddwn yn falch iawn o dderbyn yr adroddiad heddiw, Brif Weinidog. Fodd bynnag, rwyf am fynd yn ôl i'r rhaglen lywodraethu er mwyn llongyfarch y Llywodraeth, achos mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi bod yn cynyddu'n raddol er 1999, gyda chyfran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg ar y lefel uchaf erioed, sef 22.4%. Rwy'n cofio rhai blynyddoedd yn ôl—nid wyf yn gwybod beth yw'r ffigurau nawr—yn ardal Pontypridd, a diolch i gyngor Rhondda Cynon Taf am hynny, roedd 25% o blant cynradd Pontypridd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n derbyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud: efallai nad yw'r bobl yn ein hysgolion uwchradd a chynradd yn defnyddio digon o'r Gymraeg y tu fas i'r ysgol, ond, tua bythefnos yn ôl, roeddwn yng Nghapel Soar, Merthyr, lle mae canolfan Gymraeg, sy'n dilyn, rwy'n credu, y patrwm ym Mhontypridd. Rydym eisiau mwy a mwy o hynny. A ydych yn cytuno â mi taw tu fas i'r ysgol y mae'r pwyslais nawr, a'n bod ni'n sicrhau bod yr holl ddiwydiannau yng Nghymru yn sylweddoli pa mor bwysig yw defnyddio'r Gymraeg? Os ydynt am werthu ac allforio mae'n bwysig eu bod yn defnyddio'r Gymraeg er mwyn dangos i bawb bod pethau'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru sy'n werth eu prynu.

I was very pleased to receive the report today, First Minister. However, I want to return to the programme for government in order to congratulate the Government, because the use of the Welsh language in primary and secondary schools has been increasing gradually since 1999, with the percentage of pupils being assessed in Welsh at its highest level ever, namely 22.4%. I recall, some years ago—I do not know what the current figures are—that, in the Pontypridd area, thanks to Rhondda Cynon Taf council, 25% of primary school children in Pontypridd were educated through the medium of Welsh. I accept what you say: people in our secondary and primary schools perhaps do not make enough use of the Welsh language outside of school, but, a fortnight or so ago, I was in Merthyr in Soar Chapel, where there is a Welsh language centre, following, I think, the pattern established in Pontypridd. We need to see more and more of that. Would you agree with me that it is outwith the classroom that the emphasis should be placed now, and that we should ensure that all industries in Wales realise how it important it is to use the Welsh language? If they want to sell and export, it is important that they use the Welsh language to demonstrate to everyone that Welsh produce is worth while and worth buying.

Yr ail beth yr oeddwn am ei godi gyda chi oedd hyn: roeddech yn sôn am Gymraeg ail iaith yn gynharach, ac rwy'n cytuno â'r ffaith eich bod yn mynd i gael gwared â'r cwrs byr o ran dystysgrif Cymraeg ail iaith. Y rheswm am hyn yw bod adroddiad Estyn tua dwy flynedd yn ôl yn dweud bod y plant yn ein hysgolion Saesneg ond yn cael hanner awr yr wythnos o Gymraeg ail iaith—gwastraff amser llwyr. Felly, a ydych yn cytuno â mi ein bod yn gallu gwella'r safon yn yr ysgolion Saesneg, achos rwy'n credu bod hynny'n bwysig er mwyn bod pob plentyn yng Nghymru yn cael addysg sy'n pwysleisio bod y Gymraeg yn bwysig i ni fel cenedl?

The second thing that I wanted to raise with you is this: you mentioned Welsh as a second language earlier, and I agree with the fact that you are going to get rid of the shorter Welsh second language GCSE course. That is because an Estyn report of some two years ago stated that the children in our English-medium schools had only half an hour a week of second language Welsh—a complete waste of time. So, do you agree with me that we can improve the quality in our English-medium schools, because I think that that is crucial in order to ensure that every child in Wales is given an education that emphasises the importance of the Welsh language to us as a nation?

14:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf ddiolch i'r Aelod am yr hyn a ddywedodd ef? Mae'n bwysig dros ben ein bod yn sicrhau bod busnes yn gweld mwy o werth yn y Gymraeg. Wrth gwrs, rydym wedi gweld y dystiolaeth sydd o'n blaenau ar hyn o bryd. Byddech yn meddwl ei fod yn rhywbeth synhwyrol i fusnesau, yn enwedig mewn ardal lle mae llawer o Gymraeg yn cael ei siarad, eu bod nhw o leiaf yn cael arwydd yn Gymraeg neu o leiaf yn ddwyieithog—nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd mewn sawl rhan o Gymru—a hefyd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ganddynt. Mae hynny'n rhywbeth sy'n rhoi gwasanaeth i bobl sy'n siarad Cymraeg, ac mae'n gwneud synnwyr busnes hefyd. Felly, un rhan o 'Bwrw Mlaen' yw sicrhau bod busnesau hefyd yn gweld mwy o werth yn y Gymraeg nag efallai sy'n wir ar hyn o bryd.

May I thank the Member for his words? It is exceptionally important that we ensure that business sees greater value in the Welsh language. Of course, we have seen the evidence that is before us now. You would think that it would just make sense to businesses, particularly in areas where a great deal of Welsh is spoken, that they should at least have a sign in Welsh or at least a bilingual sign—that is not true in lots of places in Wales—and also ensure that they have services available in Welsh. That provides a service to Welsh speakers, and it also makes good business sense. So, one part of 'Moving Forward' is to ensure that businesses also see greater value in the Welsh language than perhaps is the case at present.

I droi at Gymraeg ail iaith, mae'n amlwg nad yw'r dystysgrif fer wedi gweithio. Ni all unrhyw un ddweud ein bod wedi creu siaradwyr Cymraeg hyderus mewn ysgolion Saesneg ac weithiau mewn ysgolion Cymraeg hefyd. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ystyried. Mae'n bosibl ei wneud; rwyf wedi ei weld yn cael ei wneud. Rwyf wedi bod i Ysgol Gyfun Treorci, sy'n ysgol Saesneg ar hyn o bryd gyda thipyn bach o Gymraeg, ac wedi siarad â phlant 16 oed yn Gymraeg a rheini'n rhugl—mor rhugl â phlant ysgolion Cymraeg. Felly, mae'n gallu cael ei wneud mewn ysgolion Saesneg. Yr her yw sicrhau bod y gwaith da hwnnw'n cael ei rolio allan dros Gymru'n gyfan gwbl. Felly, mae'n bwysig nad ydym yn meddwl bod y Gymraeg yn rhywbeth y gallwn anghofio amdano ar ôl 14 oed—fel sydd wedi digwydd gyda'r dystysgrif fer—er mwyn sicrhau bod pobl yn gweld gwerth y Gymraeg a bod pawb yn cael yr un cyfle i ddysgu'r Gymraeg, yn enwedig yn yr ysgolion sy'n gyfan gwbl Saesneg.

Turning to Welsh as a second language, it is evident that the short certificate has not worked. Nobody can say that we have created confident Welsh speakers in the English schools and sometimes in the Welsh schools too. That is something that we need to consider. It is possible to do it; I have seen it being done. I have been to Treorchy Comprehensive School, which is an English school at present with a bit of Welsh, and I have spoken to 16-year-olds in Welsh and they are fluent—as fluent as the pupils in Welsh schools. Therefore, it can be done in English schools. The challenge is to ensure that that good work is being rolled out across the whole of Wales. Therefore, it is important that we do not think that the Welsh language is something that can be forgotten after the age of 14—as has happened with the short certificate—in order to ensure that people see the value of the Welsh language and everyone gets the same opportunity to learn Welsh, especially in the English-medium schools.

14:46 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog, am y datganiad yr ydym wedi aros mor hir amdano. Mae'n hir wedi'r gwanwyn erbyn hyn, ond dyma'r datganiad beth bynnag. Cefais fy nghyhuddo yr wythnos diwethaf gan ei Weinidog addysg o fod yn sinig, felly gadewch imi fod yn sinig ar y dechrau trwy ddweud fy mod yn siomedig bod y datganiad heddiw yn arwain at ymgynghoriad drafft pellach ar y materion hyn. Byddwn i'n meddwl ein bod ni, fel y mae'r Gweinidog yn ei ddweud ei hunan, yn barod am weithredu pellach. Hefyd, er bod y Prif Weinidog wedi dweud y gwelwn gig ar ei syniadau heddiw, nid wyf yn meddwl bod llawer o gig yma ychwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi gydnabod bod mwy o gnawd nag yr ydym wedi ei weld o'r blaen, ac mae siâp yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ystyried ei wneud yn dechrau ymddangos. Mae'r siâp hwnnw, er mor aneglur ydyw ar hyn o bryd, yn dechrau ymddangos fel un addawol, ond mae tipyn mwy o waith i'w wneud.

Thank you, First Minister, for the statement that we have waited so long for. We are well past the spring now, but this is the statement anyway. I was accused last week by his Minister for education of being a cynic, so let me be a cynic at the outset by saying that I am disappointed that today's statement leads to a further draft consultation on these issues. I would have thought, as the Minister himself said, that we would have been ready for further action now. Also, although the First Minister has said that we will see some flesh on the bones of his ideas today, I do not think that there is much flesh here either. However, I must acknowledge that there is more than we have seen in the past, and the shape of what the First Minister is considering is starting to emerge. The shape of it, although it is very vague at present, is beginning to appear to be promising, but there is a lot more work to be done.

Hoffwn droi at fanylion y datganiad a pheth o'r hyn sydd wedi bod yn y datganiad polisi drafft heddiw, sydd, fel y dywedais, ddim angen ymgynghoriad pellach, a normaleiddio yn gyntaf oll. Rwy'n falch bod y Prif Weinidog yn sôn am normaleiddio'r Gymraeg, ond mae'n rhaid imi ddweud wrtho fod angen mwy ar hynny na jest ychydig o bobl yn Aberystwyth neu Gyffordd Llandudno yn siarad Cymraeg. Mae angen normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y Llywodraeth, ond hefyd mae'n rhaid galluogi hynny i ddigwydd mewn llywodraeth leol, fel bod awdurdodau lleol yng Nghymru'n gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel mae Gwynedd wedi dangos hyd yma.

I would like to turn to the details of the statement and some of the details that we have seen in the draft policy statement today, which, as I said, does not need further consultation, and normalisation first of all. I am pleased that the First Minister is talking about normalisation, but I have to tell him that we need more than just a few people in Aberystwyth or Llandudno Junction speaking Welsh. We need to normalise the use of the Welsh language within Government, but we must also enable that to happen within local government, so that local authorities in Wales are able to operate through the medium of Welsh, as Gwynedd has demonstrated is possible to date.

Mae patrwm gan y Llywodraeth. Mae gennych, Brif Weinidog, ffordd o wneud hyn, eisoes. Mae'r ffordd rydych chi wedi llwyddo i gael yr holl Lywodraeth, y cwangos a'r cyrff a ariannwyd gan y Llywodraeth i ymateb i'ch agenda amddifadedd a dileu tlodi yn dempled ac yn esiampl o sut y gallwch gael yr holl Lywodraeth yn gweithio i'r perwyl polisi hwn. Byddwn i'n awgrymu i chi mai dyna yw'r hyn sydd angen i chi ei ystyried o ran normaleiddio'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy eang gan y Llywodraeth. Rwy'n meddwl fod gennych chi, yn eich dwylo, ffordd o wneud hyn. Yr hyn sydd angen yn awr yw gwneud hynny ar draws y Llywodraeth. Pan wnaethom gael gwared ar y bwrdd iaith a sefydlu comisiynydd, pan aeth y gwaith o hyrwyddo i'r Llywodraeth, dyna oedd y syniad, sef bod holl nerth breichiau'r Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg.

There is a pattern within Government. First Minister, you have a means of doing this already. The way that you have succeeded in getting all of Government, the quangos and the bodies funded by Government to respond to your deprivation and poverty eradication agenda is a template and an example of how you can get the whole of Government working towards a single policy objective. I would suggest to you that that is what you should consider in terms of normalising the use of the Welsh language and promoting it more widely in Government. I think that you have, in your hands, the template for doing this. What needs to be done now is to implement that across Government. When we got rid of the language board and established a commissioner, with the promotion work going into Government, that was the whole idea, that is, that the power of Government should be behind the promotion of the Welsh language.

Rwy'n croesawu'r cyswllt rydych chi wedi ei wneud yn y datganiad heddiw ynglŷn â'r economi. Mae'n hynod bwysig bod gan y Gymraeg statws a lle y tu hwnt i ysgol ac addysg, neu gapel ac ati yn y dyddiau a fu. Felly, mae'r ffocws ar yr economi yn mynd i fod yn hollbwysig. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn sôn yn y datganiad ynglŷn â dyffryn Teifi, ond mae hefyd yn wir fod adroddiad Rhodri Llwyd Morgan, ynglŷn â'r iaith a'r economi, wedi sôn yn benodol am ganolfannau twf. Roedd ef yn awgrymu Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor/Menai. Mae rhywle fel dyffryn Teifi yn fwy tebyg i'r ardaloedd twf lleol rydym wedi eu gweld ym Mhowys, er enghraifft. Roedd yn awgrymu defnyddio'r holl sgiliau i gefnogi'r Gymraeg. Hoffwn glywed ychydig mwy gennych heddiw ynglŷn â'r ffordd rydych chi'n mynd i weithredu ar argymhellion mwy trwyadl y grŵp hwnnw.

I welcome the link that you have made in today's statement with the economy. It is extremely important that the Welsh language has status and a role outwith schools and education, or, in the days gone by, the chapel and so on. Therefore, the focus on the economy is going to be crucial. Of course, I welcome the fact that you mention in the statement the Teifi valley, but it is also true that the Rhodri Llwyd Morgan report, about the language and the economy, mentioned specifically these growth areas. He suggested Carmarthen, Aberystwyth and Bangor/Menai. Somewhere like the Teifi valley would be more like the local growth areas that we have seen in Powys, for example. He suggested using all the skills to support the Welsh language. I would like to hear a little more from you today about how you are going to implement the more thorough recommendations of that group.

Gan ein bod ar yr economi, mae sgiliau yn hollbwysig fan hyn. Roeddech chi'n sôn am yr adroddiad rydych chi wedi'i dderbyn ar feysydd sgiliau'r Gymraeg, a'r hyn a oedd yn galonogol yn yr adroddiad hwnnw—i beidio â bod yn sinig am unwaith—oedd yr awydd gan gyflogwyr, pe bai help ar gael, i hyrwyddo sgiliau ymysg eu gweithwyr. Yn benodol, mae arnom angen gweld mwy o sgiliau galwedigaethol yn ein colegau ar gael yn y Gymraeg ac yn arwain, yn y pen draw, at brentisiaethau yn y Gymraeg hefyd.

While we are discussing the economy, skills are crucially important here. You were talking about the report that you have received on Welsh language skills, and what was encouraging in that report—let me not be a cynic for once—was the desire among employers, if help were available, to promote Welsh-language skills among their staff. Specifically, we need to see more vocational skills in our colleges delivered through the medium of Welsh, which would lead to apprenticeships through the medium of Welsh also.

Yn y cyd-destun hwnnw, rydych chi'n sôn yn eich datganiad heddiw am ddau swm o arian—£400,000 ar gyfer datblygu economaidd ac £1.2 miliwn ar gyfer datblygu cymunedol. A fedrwch chi jest gadarnhau bod y rhain yn symiau cwbl newydd, ychwanegol i'r gyllideb sydd gennych?

In that context, you mention in your statement today two sums of money—£400,000 for economic development and £1.2 million for community development. Can you just confirm that these are completely new, additional sums of money to the budget that you have?

Wedyn, a throi at yr £1.2 miliwn sydd ar gael ar gyfer y gymuned, a fedrwch chi jest roi ychydig mwy o fanylion ynglŷn â beth yr ydych chi'n golygu wrth 'hybu arloesi'? A oes enghraifft gennych chi o beth mae hynny'n ei olygu o ran datblygu'r Gymraeg yn y gymuned? Tra ein bod ni'n croesawu'r gefnogaeth ychwanegol—os mai dyna beth yw ef; fe gewch chi gadarnhau hynny—o £0.75 miliwn tuag at y mentrau iaith, nid ydych chi wedi sôn am yr argymhelliad rydych chi wedi ei dderbyn ynglŷn â chorff cenedlaethol i gydlynu gwaith y mentrau iaith. Beth yw eich bwriad o ran hynny? Mae mentrau iaith yn bwysig, ond os ydynt yn mynd o'i le o gwbl, y ffordd maen nhw'n gallu mynd o'i le yw gwneud pethau ar lefel braidd ar wasgar yn lleol, heb fod yn rhan o fframwaith cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, ac felly mae angen gweld hynny.

Then, turning to the £1.2 million available for the community, can you just give us a little more detail as to what you mean by 'promoting innovation'? Do you have an example of what that could mean in terms of developing the Welsh language in the community? While we welcome the additional support—if that is what it is; you can confirm that—of £0.75 million for the 'mentrau iaith', you have not mentioned the recommendation that you received regarding a national body to co-ordinate the activities of the 'mentrau iaith'. What is in your intention in that area? The 'mentrau iaith' are important, but if they do fall down, then the way that that happens is that they work on a dispersed local level, without being part of a national framework that promotes the Welsh language, and therefore we do need to see that development.

O safbwynt pobl ifanc, mae'n beth da eich bod chi wedi sôn amdanynt, ond eto byddwn ni eisiau gweld manylion am sut yr ydych chi'n mynd i ddefnyddio hwn. Mae'n rhaid, yn iaith 'sociolinguistics', codi bri'r parth lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ymysg pobl ifanc. Mae hynny'n cynnwys cefnogi diwylliant pobl ifanc. Mae aps yn cael eu datblygu rhywfaint ar hyn o bryd, rwy'n gwybod, ond gellid hyd yn oed cefnogi pethau fel y sin cerddoriaeth Cymraeg a llawer o bethau mwy dychmygus eraill yn y fan honno.

In terms of young people, it is positive that you have mentioned them, but again I would want to see details of how you are going to use this. In the language of sociolinguistics, we have to actually raise the status of the zones where the Welsh language is used by young people. That includes supporting youth culture. Apps are being developed at present, I know, but we need to support things such as the Welsh-language music scene and many other more imaginative things in that area.

Rydych chi'n sôn am ddeddfwriaeth, ac mae'n rhaid gofyn, felly, gan eich bod chi'n sôn am y safonau, Brif Weinidog, pryd welwn ni'r Llywodraeth yn cyhoeddi'r amserlen ar gyfer cylchoedd 2 a 3 y safonau? Rydym ni ond yn trafod yn y fan hon y safonau ar gyfer awdurdodau lleol a chithau fel Llywodraeth. Mae'n rhaid symud nawr tuag at safonau ar gyfer y gwasanaeth iechyd a safonau sy'n dechrau cyffwrdd â chyfleusterau megis trafnidiaeth ac ati. Felly, pryd welwn ni'r amserlen ar gyfer cylchoedd nesaf y safonau?

You are talking about legislation, and must ask, therefore, that you are talking about the standards, First Minister, when will we see the Government publishing its timetable for rounds 2 and 3 of the standards? We are only discussing here the standards for local authorities and for you as a Government. We must now move towards standards for the health service and standards that start to touch on facilities such as transport and so on. Therefore, when will we see the timetable for the next rounds of the standards?

Wrth gwrs, gyda'r Bil cynllunio a TAN 20 a'r canllawiau newydd sydd wedi eu cyhoeddi heddiw—nid wyf wedi cael cyfle i edrych arnynt eto—byddwch chi'n ymwybodol iawn fod nifer o bobl yn teimlo bod eisiau i'r Gymraeg fod yn rhan statudol o'r Bil cynllunio newydd arfaethedig fel ei bod wedyn yn treiddio drwy'r holl ganllawiau sy'n dilyn y Bil cynllunio. Rwy'n awgrymu bod hynny yn un cam ymarferol bach y medrwch ei gymryd heddiw i gryfhau'r Gymraeg yn y broses gynllunio.

Of course, with the planning Bill and TAN 20 and the new guidance published today—I have not had a chance to look at that yet—you will be very much aware that many people feel that the Welsh language needs to be a statutory part of the proposed new planning Bill so that it then permeates through all the guidance that emerges from the planning Bill. I suggest that that is one small practical step that you can take today to strengthen the Welsh language in the planning process.

Dyma'r maes olaf, os caf i, Lywydd—rydym wedi bod yn aros am flwyddyn am y datganiad hwn. Y maes olaf yw addysg. Nid yw hwn, i ryw raddau, yn eich datganiad heddiw, ond, o'r hyn rwyf wedi ei weld, mae yn y datganiad polisi drafft. Rwy'n mynd yn ôl at y cwestiwn a godais adeg y cwestiynau i chi. Mae'n rhaid i'r cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg presennol ddangos eu bod nhw'n cyrraedd y targed o 30% o blant 7 mlwydd oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2020. Mae'n hynod bwysig ein bod ni'n gweld hynny yn rhywbeth eglur iawn. Polisi Plaid Cymru erbyn hyn, yn sicr, yw y dylai'r cyfnod sylfaen fod ar gael yn Gymraeg i bawb yng Nghymru, a byddem ni eisiau gweld rhywfaint o symudiad at hynny. Wrth gydnabod eich bod yn dileu'r broses ail iaith y bûm i mor ffodus ag elwa ohoni, byddwn i'n licio clywed mwy am yr hyn sy'n dod yn ei lle, a beth sy'n mynd i ddod yn ei lle ar gyfer oedolion hefyd, achos mae addysgu Cymraeg i oedolion yn rhywbeth sydd wedi cael ei esgeuluso o ran polisi cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf.

This is the final area, if I may, Presiding Officer—we have been waiting for a year for this statement. The final area is education. This is not necessarily contained within your statement today, but, from what I have seen, it is contained within the draft policy statement. I am going to return to the question that I raised at the time of the questions to you. The Welsh in education strategic plans must demonstrate that they are achieving the target of 30% of 7-year-olds in Welsh-medium education by 2020. It is extremely important that we see that as something that is very clear. Certainly, Plaid Cymru's policy by now is that the foundation phase should be available through the medium of Welsh to everyone in Wales, and we would want to see some movement towards that. While recognising that you are abolishing the Welsh as a second language process that I benefitted from, I would like to hear more about what will replace it, and what will replace it for adults too, because the teaching of Welsh to adults is something that has been neglected in terms of public policy over recent years.

Wrth gloi, felly, mae'n rhaid imi ddweud bod y datganiad hwn yn dechrau siapio. Mae'n dechrau dangos cynnydd. Rydym ni wedi aros yn rhy hir amdano, ond dyna ddigon am hynny. Mae'n rhaid trin y Gymraeg fel y byddem ni'n trin unrhyw beth arall sydd mewn perygl o ddiflannu oddi ar wyneb Cymru, boed hynny'n gynefin prin neu'n rhywogaeth brin neu beth bynnag. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r holl arfau sydd gennych fel Llywodraeth, nid yn unig i gadw'r Gymraeg ond i hybu, hyrwyddo ac adfer y Gymraeg mewn mannau hefyd. Er eich bod chi wedi sôn am nifer o bethau addawol heddiw, byddwn ni'n dal i ddisgwyl mwy o weithredu pendant yn y meysydd hyn gan y Llywodraeth.

In conclusion, therefore, I have to say that this statement is starting to take shape. It is starting to show some progress. We have waited too long for it, but that is enough about that. We must treat the Welsh language as we would treat anything else that is at risk of disappearing off the face of Wales, be that an endangered habitat or a rare species or whatever. You must use all of the tools available to you as a Government, not only to protect the Welsh language but to promote, promote and revive the Welsh language in some areas too. Although you have mentioned a number of promising things today, we still expect more decisive action in these areas by the Government.

14:54

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? A gaf i ddweud ar y dechrau mai £1.6 miliwn yw'r cyfanswm o ran yr arian? O hynny, mae £1.2 miliwn yn dod o ail-flaenoriaethu rhannau eraill o'r gyllideb, ac mae £400,000 yn newydd. Felly, dyna le mae'r arian yn dod. Hoffwn ddweud hynny'n glir ar y dechrau.

May I thank the Member for his comments? May I say at the outset that the total is £1.6 million in terms of the funding? Of that, £1.2 million comes from the reprioritisation of other parts of the budget, and the £400,000 is new money. So, that is where the funding is coming from. I would like to say that clearly at the beginning.

Ynglŷn â'r economi ac ynglŷn â dyffryn Teifi, gwnaf i jest roi ambell i enghraifft o fel y byddwn i'n erfyn i'r arian gael ei ddefnyddio. Bydd y cynllun peilot yn nyffryn Teifi yn asesu beth yw'r gweithredu ar hyn o bryd ac yn asesu beth yw'r problemau sy'n rhwystro pobl rhag sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Felly, bydd 'surgeries' cefnogaeth busnes drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod busnesau yn defnyddio'r iaith Gymraeg i'r eithaf i gefnogi'r hyn maen nhw'n ei wneud.

On the economy and on the Teifi valley, I will just give some examples of how I would want this funding to be used. The pilot scheme in the Teifi valley will assess the current practice on the ground and will then assess the problems that are barriers to people receiving services through the medium of Welsh. So, business support surgeries through the medium of Welsh will be held in order to ensure the optimum use of the Welsh language by businesses in order to support what they are doing.

Rydym hefyd eisiau ystyried cronfa gymorth i fusnesau bach a chanolig fel y gallant ddefnyddio'r iaith Gymraeg, er enghraifft i'w helpu i ddefnyddio neu greu adnoddau marchnata, arwyddion, ac i'w helpu i werthu pethau, megis trwy greu safleoedd gwe dwyieithog. Felly, mae sawl ffordd y gallai'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio.

We also want to consider a support fund for small and medium-sized enterprises so that they can use the Welsh language, for example to help them to use or create marketing resources, signage, and also to help them to market their products, for example through creating bilingual websites. There are a number of ways, therefore, in which that funding can be used.

O ran y mentrau iaith, rwyf wedi cymryd y safbwynt bod y mentrau iaith yn hollbwysig i'r dyfodol, felly mae'n rhaid cael mwy o adnoddau iddynt hwy. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod mentrau iaith yn dysgu oddi wrth ei gilydd. Rwy'n cael trafodaethau manwl gyda'r mentrau iaith, ac felly rwy'n ddigon hapus i drafod gyda nhw sut y gallant ddelifro yn effeithiol yn y dyfodol, ac a oes angen ailedrych ar strwythurau yn y dyfodol fel y gallant weithredu prosiectau sy'n fwy na'r rheini y gallant eu gweithredu nawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben i sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael iddynt hwy er mwyn cryfhau eu gwasanaethau. Mae hefyd yn werth dweud nad dim ond mentrau iaith sydd â'r cyfrifoldeb o hybu'r iaith Gymraeg. Ni all y cynghorau sir osgoi eu cyfrifoldebau. Felly, byddwn yn edrych i weld y cynghorau sir yn gweithio gyda'r mentrau iaith er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwaith y mentrau iaith, a hefyd yn cefnogi'r Gymraeg yn eu ffyrdd eu hunain i ategu at waith y mentrau iaith.

As regards the 'mentrau iaith', I have taken the stance that the 'mentrau iaith' are crucial for the future, therefore we must seek more resources for them. It is important, of course, that the 'mentrau iaith' learn from each other. I have detailed discussions with the 'mentrau iaith', and therefore I am quite happy to discuss with them how they can deliver effectively in the future, and whether they need to reassess their structures in the future in order to implement projects that are larger than those they are involved with at the present time. However, it is very important to ensure that more resources are available to them to strengthen their activities. It is also worth saying that it is not just the 'mentrau iaith' that have the responsibility to promote the Welsh language. The county councils cannot evade their responsibilities. Therefore, we will be looking to the county councils to collaborate with the 'mentrau iaith' in order to ensure that they support the work of the 'mentrau iaith', and also support the Welsh language in their own ways in order to complement the work of the 'mentrau iaith'.

O ran amserlen y safonau, nid yw'r sefyllfa wedi newid. Rydym yn gobeithio gweld y safonau erbyn yr hydref. Nid oes newid wedi bod o ran yr amserlen ar gyfer hynny.

As regards the timetable for the standards, the situation remains unchanged. We hope to see the standards in place by the autumn. There has no change in the timetable for that.

O ran cynllunio, mae TAN 20, ac rwyf hefyd wedi sôn am y llythyr. Hoffwn ail-bwysleisio'r hyn a ddywedais yn gynharach: rwy'n ddigon parod i drafod camau ymarferol i helpu'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio, ond un o'r pethau rwyf am eu hosgoi yw cael sefyllfa lle ceir rhywbeth ar wyneb Bil sydd ddim yn meddwl unrhyw beth—rhywbeth sydd â rhyw fath o nod, ond rhywbeth sydd ddim yn ymarferol yn y ffordd y mae'n cael ei weithredu. Felly, wrth gofio hynny, rydym, wrth gwrs, yn agored i gael unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r ffordd y gallwn gryfhau'r iaith Gymraeg trwy'r system gynllunio mewn ffordd ymarferol. Un peth a godwyd, wrth gwrs, yw a ddylid cael rhyw fath o asesiad impact o bob cais cynllunio yng Nghymru. Byddai hynny, yn fy marn i, yn ormodol. Nid wyf yn credu y byddai pobl yn dadlau mai fel yna y dylai pethau fod, ond rhaid ffeindio rhyw ffordd ymarferol sy'n cadw nod yr hyn y mae pobl am ei weld mewn ffordd ymarferol. Felly, mae dadl i'w chael ar hynny.

As regards planning, there is TAN 20, and I have also mentioned the letter. I would like to re-emphasise what I said earlier: I am willing to discuss practical steps to assist the Welsh language in the planning system, but one of the things that I want to avoid is having a situation where there is something on the face of a Bill that is meaningless—something that has some kind of aim, but is not practical in the way that it is implemented. So, bearing that in mind, we are, of course, open to any discussion as regards how we can strengthen the Welsh language through the planning system in a practical manner. One of the things that have been mentioned, of course, is whether there should be some kind of impact assessment on every planning application in Wales. I think that that would be excessive. I do not believe that people would argue that that is how things should be, but we must find some kind of practical means that retains the aim of what people would wish to see in a practical way. So, there is a debate to be had on that.

O ran addysg, rydym yn aros i weld adroddiad yr Athro Donaldson, sy'n edrych ar y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Unwaith y bydd hynny drosodd, bydd hi'n bosibl inni ystyried y cwricwlwm a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y cwricwlwm, wrth gofio yr hyn rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, sef y ffaith nad wyf yn credu bod y ffordd y mae'r Gymraeg wedi cael ei dysgu dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi bod yn effeithiol. Roedd y nod yna, ond ni allwn ddweud bod mwy o Gymry Cymraeg hyderus wedi cael eu creu. Felly, rhaid inni ailystyried y system, a bydd hynny'n dod fel rhan o'r ymateb a fydd yn dod o'r Llywodraeth yn dilyn adroddiad yr Athro Donaldson. Wrth gwrs, byddwn yn edrych at gael system sy'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn creu nid dim ond pobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ond pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg.

As regards education, we are awaiting the report of Professor Donaldson, which is looking at the curriculum as a whole. Once that is published, it will be possible for us to consider the curriculum and the importance of the Welsh language in the curriculum, bearing in mind what I have said before, namely that I do not believe that the way in which the Welsh language has been taught over the past 20 years has been effective. The aim was true, but we cannot say that more confident Welsh speakers have been created. So, we need to consider that system again. It will be part of the response from the Government post Professor Donaldson's report. Of course, we will be looking to have a system that is more effective in order to ensure that we create not only people who can speak Welsh, but people who use the language.

14:58 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am y datganiad, Brif Weinidog. Rwy'n derbyn nad cyfrifoldeb y Llywodraeth yn unig yw hybu a thyfu'r iaith Gymraeg. Rwyf hefyd yn derbyn bod cyfle inni ymateb ymhellach, fel Aelodau ac fel mudiadau, erbyn 11 Gorffennaf. Wrth ddweud hynny, rwyf am ofyn i chi a oes perygl bod y strategaeth hon—. Rwy'n derbyn, fel y dywedodd Simon Thomas, bod mwy o gig ar yr esgyrn erbyn hyn, ond a yw'r strategaeth hon yn un rhy amddiffynnol? Roeddech yn sôn am ardaloedd traddodiadol yr iaith. Fel un o'r gogledd-ddwyrain, os oeddech yn y gogledd-ddwyrain ryw hanner canrif yn ôl, fe fyddech, wrth gwrs, wedi gweld pentrefi ac ardaloedd ger Wrecsam, megis Rhos, Dyffryn Ceiriog a Choed-poeth, lle'r oedd mwy na 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Erbyn hyn, mae hynny wedi gostwng. Rwy'n derbyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud, sef bod yn rhaid cryfhau'r ardaloedd traddodiadol, ond mae angen inni hefyd wir ystyried y sefyllfa mewn rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys y gogledd-ddwyrain a rhannau o'r Cymoedd, lle gwelwyd dirywiad dros yr hanner canrif diwethaf. Credaf fod perygl eich bod jest yn edrych ar y gogledd, y gogledd-orllewin a'r de-orllewin fel rhyw fath o gadarnleoedd i'r Gymraeg. Os ydym wir o'r farn mai iaith i bawb yw'r iaith Gymraeg, mae'n rhaid inni ystyried yr ardaloedd hynny yn y dwyrain lle mae diffyg polisïau dros yr hanner canrif diwethaf wedi creu sefyllfa lle mae sefyllfa'r Gymraeg braidd yn fregus.

Thank you for your statement, First Minister. I accept that the responsibility for promoting and developing the Welsh language does not rest exclusively with the Government. I also accept that there is an opportunity for us to respond further, as Members and organisations, by 11 July. In saying that, I want to ask you whether there is a risk that this strategy—. I accept, as Simon Thomas said, that there is now more flesh on the bones, but is this strategy too defensive in nature? You mentioned traditionally Welsh-speaking areas. As one from the north-east, I can say that, if you had been in the north-east some 50 years ago, you would, of course, have seen villages and areas near Wrexham, such as Rhos, Dyffryn Ceiriog and Coed-poeth, where more than 50% of the population were Welsh speakers. That has now reduced. I accept what you say, namely that we must strengthen the traditional heartlands, but there is also a need for us to consider the situation in other parts of Wales, including the north-east, and in parts of the south Wales Valleys, where there has been a decline over the past half a century. I think that there is a risk that you are concentrating on the north, the north-west and the south-west, as heartlands for the Welsh language. If we truly believe that the Welsh language is a language for everyone, then we must take account of those areas in the east where the absence of policy over the past half a century has created a situation where the position of the Welsh language is vulnerable.

Mae'r ddogfen a gawsom am tua 1.30 p.m. y prynhawn yma, sef 'Bwrw Mlaen', yn sôn bod strategaethau ar y gweill eisoes gan nifer o gynghorau—naill ai eu bod wedi derbyn y strategaethau hynny neu eu bod yn llunio strategaethau newydd—er mwyn ymateb i gyfrifiad 2011. Nid wyf yn ymwybodol o un cyngor, heblaw Cyngor Sir Ddinbych yn y gogledd, lle mae'r strategaethau hynny'n bodoli. Felly, faint o'r cynghorau, erbyn hyn, sy'n gweithredu strategaethau yn y lle cyntaf?

The document that we received at around 1.30 p.m. today, 'Moving Forward', refers to the fact that a number of councils have strategies in the pipeline—strategies that have been adopted or are currently being drawn up—to respond to the results of the 2011 census. I am not aware of any council, with the exception of Denbighshire County Council in north Wales, where those strategies are in place. Therefore, how many councils are now implementing their strategies?

Rydych wedi dweud bod £0.75 miliwn o arian ychwanegol ar gael i'r mentrau iaith. Mae'r arian sydd ar gael i'r mentrau iaith yn canlyn patrwm hanesyddol, lle mae'r rhai a oedd ar flaen y gad yn elwa'n eithaf da o arian y Llywodraeth. Fodd bynnag, o ran mentrau eraill—gan gynnwys rhai yn y canolbarth ac yn y gogledd-ddwyrain—bach iawn o arian sydd ar gael er mwyn i'r mentrau iaith hynny hyrwyddo'r Gymraeg. A roddwyd unrhyw ystyriaeth hyd yma i sut y bydd y £0.75 miliwn hynny'n cael ei ddosbarthu, a hynny er mwyn creu sefyllfa lle mae'r holl fentrau yn gweithredu yn yr un modd?

You have said that there is an additional £0.75 million for the 'mentrau iaith'. The funding available to the 'mentrau iaith' follows a historic pattern, where those that were in the vanguard have benefited relatively well from Government funding. However, in terms of other initiatives—including some in mid Wales and north-east Wales—very little funding is available to those 'mentrau iaith' to promote the Welsh language. Has any thought been given to date to how that £ 0.75 million is to be allocated, in order to create a situation where all the 'mentrau iaith' can work to the same pattern?

Dywedasoch hefyd fod cyfrifoldeb ar fudiadau i ymateb i'ch strategaeth heddiw. Credaf ei bod yn bryd, erbyn hyn, i ofyn a yw Llywodraeth Cymru yn barod i ddweud wrth y mudiadau hynny sy'n cael arian cyhoeddus gan y Llywodraeth fod yr arian hwnnw mewn perygl os nad ydynt yn barod i weithredu yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rwy'n siŵr eich bod yn cofio imi ddweud, rhyw chwe mis yn ôl, mai dim ond pump allan o 44 o gyrff chwaraeon yng Nghymru sydd hyd yn oed yn cydnabod yr iaith Gymraeg ar eu gwefannau. Credaf fod yn rhaid inni gael amserlen benodol i'r mudiadau hynny dderbyn y ffaith bod yr iaith Gymraeg yn bodoli hyd yn oed.

You also said that there is a responsibility on organisations to respond to your strategy today. I think that it is now time to ask whether the Welsh Government is willing to tell those organisations that receive public money from the Government that if they are not willing to operate through the medium of Welsh and to promote the Welsh language, that public funding will be at risk. I am sure that you will recall me saying, some six months ago, that only five of 44 sports organisations in Wales even acknowledge the Welsh language on their websites. I believe that we must have a specific timetable for those organisations to accept the fact that the Welsh language exists.

Nid wyf yn mynd i sôn am yr economi gan fod Simon Thomas wedi delio â hynny, ond rwyf yn meddwl ein bod yn colli cyfle. Rwy'n derbyn eich bod chi wedi cyhoeddi TAN 20 newydd, neu ganllawiau fel rhan o TAN 20, heddiw. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hefyd yn sôn am y ffaith bod yn rhaid i lywodraeth leol ystyried yr iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu. Serch hynny, erbyn mis Mawrth eleni, roedd 14 o'r cynghorau hynny eisoes wedi mabwysiadu eu cynlluniau lleol. Edrychwch ar fy rhanbarth i yn y gogledd. Rydych chi, fel Llywodraeth, yn dweud nad oes angen i'r cynghorau ailystyried y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r cynlluniau lleol hynny hyd nes y cynhelir yr adolygiad cyntaf, ond mae'r ddogfen hefyd yn sôn am y ffaith nad oes gofyn iddynt wneud adolygiad hyd nes y byddant bedair blynedd i mewn i'r broses. Felly, ni fydd yn rhaid i Wrecsam ystyried yr iaith Gymraeg tan fis Rhagfyr 2020. Ni fydd yn rhaid i Gyngor Gwynedd ystyried yr iaith Gymraeg tan fis Mai 2020. Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys yr iaith Gymraeg yn ei gynllun lleol tan fis Chwefror 2022. Mae cwestiynau'n codi ynghylch yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i'r cynghorau hynny sydd wedi derbyn eu cynlluniau lleol heb ystyried yn union beth yw'r sefyllfa o ran yr iaith Gymraeg.

I am not going to mention the economy because Simon Thomas dealt with that issue, but I believe that we are missing an opportunity here. I accept that you have published a new TAN 20, or guidance as part of TAN 20, today. However, the document also mentions that local government has to take account of the Welsh language when preparing local development plans. However, by March this year, 14 of those councils had already adopted their local development plans. Look at my region of north Wales. You, as a Government, are saying that there is no need for the councils to reconsider the relationship between the Welsh language and those LDPs until the first review period, but the document also mentions that they will not need to undertake a review until four years into the process. Therefore, Wrexham, for example, will not have to take account of the Welsh language until December 2020. Even Gwynedd Council will not have to take account of the Welsh language until May 2020. Flintshire County Council will not have to include the Welsh language in its LDP until February 2022. So, questions do arise as to what will happen in terms of those councils that have already adopted their LDPs without having taken account of the position of the Welsh language.

Gofynnodd Simon Thomas pryd y gallwn ni ddisgwyl cyhoeddiad am yr amserlen ynglŷn â rhannau 2 a 3 o'r safonau. Rwy'n derbyn eich bod wedi dweud bod rhan 1 ar y gweill ac y byddwn mewn sefyllfa lle mae rhan 1 ar waith erbyn mis Hydref. Ond, mae gwir gwestiynau ynglŷn â lle'r ydym ni o ran rhannau 2 a 3, o achos, yn bendant yn y gogledd, roedd yr adroddiad yr wythnos diwethaf yn dweud bod y bwrdd iechyd yno, i ryw raddau, yn diystyru'r iaith Gymraeg o ran cynllun ei weithlu. Yn bendant, yn fy ardal i, os oes arnoch eisiau gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg gan yr awdurdod iechyd lleol, nid oes gennych obaith. Felly, rwy'n croesawu'r ffaith ein bod yn camu ymlaen. Rwy'n meddwl, hwyrach, fod yn rhaid inni fod yn eithaf radical am y sefyllfa, ac, os yw'r Llywodraeth yn barod i drafod â'r pleidiau eraill er mwyn creu rhyw gonsensws i symud i'r camau a'r meysydd mwy radical hynny, byddwn i, ar ran fy mhlaid ac ar ran y grŵp yma, yn dweud ein bod yn ddigon parod i wneud hynny.

Simon Thomas asked when we can expect an announcement on the timetable on rounds 2 and 3 of the standards. I accept that you have said that round 1 is in the pipeline and we are going to find ourselves in a situation where round 1 will be in place by October. But, there are real questions as to where we are in terms of rounds 2 and 3, because, certainly in north Wales, last week's report did state that the health board in north Wales, to a certain extent, was discounting the Welsh language in terms of its workforce planning. Certainly, in my area, if you want a Welsh-medium service in the local health authority, you have no hope. Therefore, I welcome the fact that we are making progress. I think, perhaps, that we must be quite radical in terms of the situation, and, if the Government is willing to discuss with other parties to create some consensus in order to take us forward into those more radical areas, I, on behalf of my own party and group, would say that we would be more than willing to do that.

15:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i'r Aelod am ei syniadau. Nid wyf yn credu bod y ddogfen ei hunan yn amddiffynnol, ac nid wyf yn credu ein bod wedi rhoi gormod o bwyslais ar yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg achos, wrth gwrs, mae'r ddogfen ei hun yn siarad am yr eisiau i newid ymddygiad yn y Gymraeg, ac mae hynny'n wir am ardaloedd yn y dwyrain ac ardaloedd yn y gorllewin. Mae'n wir hefyd o ran y ffaith bod yn rhaid inni bwysleisio'r Gymraeg fel ail iaith, ac nid yn yr ardaloedd mwy Saesneg eu hiaith yn unig, ond drwy Gymru gyfan. Felly, nid yw'n canolbwyntio'n ormodol, yn fy marn i, ar yr hyn a elwir yn fro Gymraeg. Wrth ddweud hynny, fodd bynnag, mae'n rhaid wrth ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol, neu fe fyddwn ni yn yr un sefyllfa â'r Wyddeleg, lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio fel iaith bob dydd mewn nifer fach iawn o bentrefi, a'r rheini heb fod yn rhan o ardal fawr—maen nhw dros y lle i gyd mewn gwahanol rannau yn Iwerddon. Ni all neb ddweud bod y Wyddeleg yn iaith greiddiol yn y rhan fwyaf o'r wlad honno—nid oes, er enghraifft, ysgolion Gwyddeleg yn yr un niferoedd yn Iwerddon â'r hyn sy'n wir am ysgolion Cymraeg yng Nghymru. Felly, mae'n rhaid inni osgoi sefyllfa lle nad oes gennym ddigon o ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd. Fel y dywedais, heb y galon, nid oes corff.

I thank the Member for his ideas. I do not believe that the document itself is defensive, and I do not believe that we have placed excessive emphasis on the traditionally Welsh-speaking areas because, of course, the document itself states the need for behaviour change as regards the Welsh language, and that is just as true for areas in the east as in the west. It is also the case with regard to the fact that we must emphasise Welsh as a second language, and not just in the anglicised areas, but throughout the whole of Wales. Therefore, I do not believe that it is focusing excessively on what is called the 'fro Gymraeg'—the Welsh heartland. In saying that, however, there must be areas where Welsh is the community language, or we will be in the same position as the Irish language, where the language is used on a daily basis in very few villages, and those are not part of a block—they are very dispersed in various areas in Ireland. Nobody can say that the Irish language is a core language in the majority of the country—for example, the Irish-language schools in Ireland are not in the same league in terms of number as the Welsh-language schools in Wales. Therefore, we must avoid a situation where we do not have enough areas where the Welsh language is used on a daily basis. As I said, without the heart, there is no body.

O ran ymateb y cynghorau, mae sir Gâr wedi ateb—rydym yn gwybod hynny, gan iddi ateb mewn ffordd amlbleidiol, ac mae sir Gâr yn hanfodol bwysig i ddyfodol yr iaith Gymraeg. Nid wyf yn beirniadu Gwynedd na Cheredigion, oherwydd eu hanes cryf nhw yn cefnogi'r iaith Gymraeg, yn enwedig Gwynedd. Mae Ynys Môn yr un peth, a Cheredigion, gyda'r hyn a elwir yn system drochi—mae 'trochi' yn meddwl rhywbeth tra gwahanol yn sir Gâr—sef system lle mae plant yn cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg mewn amser byr, byr. Pan oeddwn yn Eisteddfod yr Urdd, cwrddais â merch a oedd wedi dod yn rhugl yn y Gymraeg o fewn tri mis. Felly, mae'r system yn gweithio'n dda dros ben.

As regards the response of the councils, Carmarthenshire has responded—we know that, as it responded in a multi-party manner, and Carmarthenshire is vitally important to the future of the Welsh language. I am not criticising Gwynedd or Ceredigion, because of their strong track record of supporting the language, particularly Gwynedd. Anglesey is the same, and so is Ceredigion, with the so-called immersion process—the word in Welsh means something quite different in Carmarthenshire. Immersion is a process where children are given the opportunity to learn the language in a very short time. When I was at the Urdd Eisteddfod, I met a girl who had become fluent in Welsh within three months. Therefore, the system is working in a fantastic way.

Ynglŷn ag ariannu'r mentrau iaith, mae peth trafod wedi digwydd, ond bydd yn rhaid ystyried prosiectau yn awr er mwyn gweld yr arian yn cael ei hala yn y ffordd fwyaf effeithiol, a bydd hynny'n parhau yn y dyfodol.

As regards funding for the 'mentrau iaith', there has been some discussion, but we will now have to consider projects in order to see the money being spent in the most effective way, and that will continue in the future.

Ynglŷn â safonau, mae'n bwysig dros ben cael rhan gyntaf y safonau ar waith erbyn yr hydref, a symud ymlaen wedyn gyda'r ddwy ran arall cyn gynted â phosibl.

As regards standards, it is extremely important to get the first round of standards in place by the autumn, and then move on with the other two rounds as soon as possible.

Ynglŷn â'r 'LDPs', o'r hyn rwy'n ei gofio, nid oes LDP gan Wrecsam na sir y Fflint eto. Felly, byddant yn gorfod ystyried hyn pan fydd yr LDP ei hunan yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol. Wrth gwrs, fel y soniais i rai misoedd yn ôl, mae system, os cofiaf, ar gyfer adolygu ar waith i sicrhau y bydd cynlluniau yn rhoi sylw i TAN 20 yn y dyfodol.

As regards the LDPs, from what I remember, Wrexham and Flintshire do not have an LDP at present. Therefore, they will have to consider this when the LDP itself is developed in the future. Of course, as I mentioned a few months ago, if I recall, there is a review system in place to ensure that the plans address TAN 20 in the future.

Fel y dywedais, rydym yn agored hefyd i'r syniad o ystyried ym mha ffyrdd eraill y gallwn sicrhau bod y system gynllunio'n helpu'r iaith Gymraeg, gan gofio'r ffaith nad y system gynllunio yn unig sy'n gallu gwneud hynny. Mae ffyrdd eraill y mae'n rhaid inni eu hystyried, sef yr hyn sy'n digwydd gyda'r dreth gyngor o ran ail dai, a'r hyn sy'n digwydd o ran yr economi—rydym yn gwybod, os yw pobl ifanc yn gadael, eu bod nhw'n mynd â'r Gymraeg gyda nhw. Dyna pam mae 'Bwrw Mlaen', yn fy marn i, yn gyfan gwbl am y ffordd yr ydym yn ystyried yr iaith Gymraeg a'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i'w hybu yn y dyfodol.

As I said, we are also open to the idea of considering in what other ways we can ensure that the planning system helps the language, bearing in mind the fact that it is not only the planning system that can do so. There are other things that we must consider, such as council tax on second homes, and what happens with the economy—we know that, if young people leave, they take the language with them. That is why 'Moving Forward', in my opinion, is totally about how we consider the Welsh language and what must be done to promote it in the future.

15:09

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf innau roi croeso gochelgar i'r datganiad? Rwy'n cytuno â'ch gosodiad tua diwedd eich datganiad, sef na ddylai unrhyw un sy'n becso am ddyfodol yr iaith gredu mai mater i'r Llywodraeth yn unig ydyw. Mae hynny'n berffaith gywir. Ond, mae'n rhaid i'r Llywodraeth arwain ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth gael ei gweld yn arwain. Nid wyf yn siŵr bod y cyfeiriad yn ddigon clir yma, sef cyfeiriad a fyddai'n chwyldroi'r sefyllfa bresennol.

May I give a cautious welcome to the statement? I agree with what you said towards the end of your statement, that no-one who is concerned about the future of the language should believe that it is a matter for the Government alone. That is entirely correct. However, the Government must lead and the Government must be seen to lead. I am not sure that the direction of travel is clear enough here in order to turn the current situation around.

Mae gennyf un sylw a dau neu dri o gwestiynau. O ran maes addysg, rwy'n pryderu'n fawr am y distawrwydd ynglŷn â'r cyfnod sylfaen. Rwy'n credu, os ydym am chwyldroi'r sefyllfa, fod yn rhaid i ni gyflwyno'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen honno ac mae'n rhaid i ni felly baratoi gweithlu ar gyfer hynny. Rydych yn cyfeirio at gyrff y bydd ganddynt ddyletswyddau i hyrwyddo'r Gymraeg, ac yna'n dweud y bydd y safonau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar yr iaith. Pa sefydliadau yw'r rheini? A ydynt y tu allan i'r awdurdodau lleol, y parciau a'r Gweinidogion? Os felly, pa rai fyddant?

I have one comment and two or three questions. In terms of education, I am very concerned about the silence on the foundation phase. I think that, if we are to turn the situation around, we must introduce the Welsh language as part of that programme and we must, therefore, prepare a workforce to deliver that. You refer to the organisations that will have duties to promote the Welsh language, and then say that the standards will require organisations to assess the impact of their policy decisions on the language. Which organisations are those? Are they outwith the local authorities, the parks and Welsh Ministers? If so, which ones are they?

Gofynnaf i chi hefyd ateb y cwestiwn a ofynnodd Simon Thomas ynglŷn â chanolfannau twf, sef yr argymhelliad a wnaeth y gweithgor ar yr economi a'r iaith. A ydych yn mynd i weithredu ar hyn neu a ydych wedi gwrthod yr argymhelliad?

I also ask you to answer the question asked by Simon Thomas on growth areas, namely the recommendation made by the working group on the Welsh language and the economy. Are you going to act on this or have you rejected that recommendation?

Yn olaf, o ran y cynllunio, rydych yn dweud eich bod yn archwilio pob cam ymarferol i gryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio. A allwch chi ddweud wrthym beth yn union yw'r camau ymarferol hynny? Barn swyddogion cynllunio yr wyf wedi trafod â hwy yw ei bod yn anodd iawn gweithredu'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg heb fod cyfeiriad penodol ar wyneb y Bil cynllunio ynglŷn â hynny. Gallwch fanylu wedyn ynglŷn â'r math o ymyrraeth y gallwch ei wneud o dan y Bil cynllunio. Rwy'n derbyn nad yw'n rhwydd, ond, heb hynny, rwy'n credu y bydd yn anodd iawn i awdurdodau wneud dim byd y tu hwnt i'r cynllun lleol ei hun. Mae cyfyngiadau ar hynny, wrth gwrs.

Finally, in terms of planning, you say that you will explore all practical steps to strengthen the Welsh language in the planning system. Can you tell us exactly what those practical steps are? The view of planning officers with whom I have had discussions is that it is very difficult to act positively in favour of the Welsh language without specific reference in that respect on the face of the planning Bill. You can then go into detail about the kind of interventions that you can make under the planning Bill. I accept that it is not easy, but without that I think that it will be very difficult for authorities to do anything over and abouve the local plan itself. There are limitations on that, of course.

15:12

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n rhaid i mi ddweud bod Cyngor Gwynedd wedi croesawu TAN 20. Wrth ddweud hynny, os gallwn ni gryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio mewn unrhyw ffordd, fe allwn ni ystyried hynny. Un o'r problemau yw, os cewch system lle mae asesiad impact ar gyfer ystâd o 10 o dai, fod 'incentive' i ddatblygwyr wneud dau gais am bump o dai. Ym mha ffordd y gellir osgoi hynny, pan fydd pobl yn trio mynd y tu ôl i'r rheolau? Rhaid ystyried ym mha ffordd y gellir gwneud hynny'n ymarferol.

I must say that Gwynedd Council has welcomed TAN 20. In saying that, if we can strengthen the Welsh language in the planning system in any way, we can take that into account. One of the problems is that, if you have a system that includes an impact assessment for an estate of 10 houses, there is an incentive for developers to submit two applications of five houses. How can that be avoided, when people are trying to find loopholes? You have to consider how that can be done in practice.

O ran statws yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio, nid oes amheuaeth am hynny. O ran statws yr iaith Gymraeg yn y Bil cenedlaethau'r dyfodol, mae'n bwysig dros ben pwysleisio hynny. Un o'r pethau y mae pobl wedi gofyn amdano yw bod y Gymraeg yn rhan o ddatblygu cynaliadwy, ac mae'n rhan o'r Bil hwnnw. Felly, bydd y Gymraeg yn hanfodol o bwysig a chanolog i hynny.

In terms of the status of the Welsh language in the planning system, there is no doubt about that. In terms of the status of the Welsh language in the future generations Bill, it is extremely important to stress that. One thing that people have asked for is that the language is part of sustainable development, and it is part of that Bill. Therefore, the language will be vitally important and central to that.

O ran y cyfnod sylfaen, mae'n bwysig dros ben bod plant yn cael profiad o'r Gymraeg mor gynnar â phosibl. Mae problemau a heriau o ran sicrhau bod digon yn gallu dysgu drwy'r iaith Gymraeg, rhywbeth na ellir ei ddatrys dros nos. Un o'r problemau, i fod yn hollol onest, dros yr 20 mlynedd diwethaf, yw bod nod ers y 1990au i sicrhau bod plant yn cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg hyd at 16 pan nad oedd gweithlu yno i wneud hynny, yn enwedig gweithlu â digon o sgiliau i ddysgu'r Gymraeg i safon uchel i bobl ifanc.

As regards the foundation phase, it is very important that children experience the Welsh language as early as possible. There are problems and challenges in ensuring sufficient numbers of teachers able to teach through the medium of Welsh—that cannot be resolved overnight. One of the problems, to be absolutely honest, over the last 20 years, is that the goal since the 1990s has been to ensure that children have the opportunity to learn Welsh up to the age of 16 when the workforce was not there to do that, especially with sufficient skills to teach the language to a high standard to young people.

O ran y sefydliadau, rydym yn rhan 1 y safonau ar gyfer y sefydliadau hynny—y Llywodraeth, llywodraeth leol a pharciau cenedlaethol. O ran y sefydliadau eraill, byddant yn dod o dan ail ran a thrydedd ran y safonau. Felly, bydd pethau'n cael eu hehangu bryd hynny. Nid ydym yn osgoi canolfannau twf. Mae'r prosiect yn nyffryn Teifi yn rhan o hynny. Mae sôn wedi bod am Aberystwyth a Bangor, ond mae dyffryn Teifi hefyd yn bwysig. Bydd prosiect peilot dyffryn Teifi yn ein helpu i weld ym mha ffordd y gallwn ni ddatblygu neu ehangu'r prosiect peilot i rannau eraill o Gymru yn y dyfodol.

In terms of organisations, we on round one of the standards—for Government, local government and national parks. In terms of other organisations, they will come under round two and three of the standards. Therefore, things will be expanded at that time. We are not avoiding growth areas. The project in the Teifi valley is part of that. Mention has been made of Aberystwyth and Bangor, but the Teifi valley is also important. The Teifi valley pilot project will help us to see how we can develop or expand the pilot project to other parts of Wales in the future.

15:14

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel un o gyn-gadeiryddion bwrdd yr iaith, o barchus goffadwriaeth, mae'n dda gen i groesawu'r datganiad, yn arbennig gosodiad clir y Prif Weinidog bod gan yr iaith statws swyddogol yng Nghymru, yn ogystal â fframwaith deddfwriaethol. Bydd y Prif Weinidog yn cofio'r trafodaethau yn ystod cyfnod y Llywodraeth o'r blaen ynglŷn â'r defnydd o'r gair 'swyddogol' a phwysigrwydd y gair hwnnw fel term sy'n gosod statws penodol, a bod gennym, wrth gwrs, yn ddiwrthwynebiad yn y Cynulliad hwn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Rwy'n meddwl, felly, fod arfer y term 'swyddogol' mewn deddfwriaeth at y dyfodol yn bwysig.

As a former chair of the dearly departed language board, I am pleased to welcome the statement, particularly the First Minister's clear statement that the language has official status in Wales, official status in Wales, as well as a legislative framework. The First Minister will recall the discussions during the previous Government regarding the use of the word 'official' and the importance of that as a term that gives a particular status, and that we have, of course, unanimously in this Assembly the National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012. I think, therefore, that using the word 'official' in legislation for the future is important.

Yr ail bwynt—dyma'r cwestiwn yr wyf eisiau ei godi—yw'r profiad a gefais wrth sylweddoli bod mentrau iaith yn bwysicach, ar ôl sôn am bwysigrwydd fframwaith deddfwriaethol, na fframweithiau deddfwriaethol, oherwydd eu bod yn gosod datblygiad ieithyddol a'r posibilrwydd o newid iaith yng nghanol bywyd cymuned. Byddwn yn pwysleisio, felly, fod angen inni gael ateb buan i'r adroddiad ardderchog a wnaed ynglŷn ag ad-drefnu mentrau iaith a'u gwneud yn gryfach yn eu gweithgareddau. Wrth gwrs, fel un sy'n byw yn sir Conwy, byddwn yn dweud y byddwn yn hapus iawn yn gweld Menter Iaith Conwy yn cymryd y wlad drosodd, ond stori arall yw honno.

The second point—this is the question that I want to raise—is my experience in realising that the 'mentrau iaith' were more important, having spoken about the importance of a legislative framework, than legislative frameworks, because they set language development and the possibility of language change at the heart of community life. I would urge, therefore, that we should have an early response to the excellent report on the reorganisation of the 'mentrau iaith', making them stronger in their activities. Of course, as someone who lives in the county of Conwy, I would say that I would be very happy to see Menter Iaith Conwy taking the country over, but that is another story.

15:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Rwy'n credu mai beth sydd wedi digwydd gyda'r iaith Gymraeg yw bod y gad ynglŷn â statws a deddfwriaeth mwy neu lai wedi'i hennill. O gofio lle'r oedd yr iaith Gymraeg yn yr 1960au—heb statws o gwbl—ac o gofio'r brwydrau ar y pryd er mwyn sicrhau bod hawl gan bobl i ddefnyddio'u hiaith eu hunain yn eu hardaloedd eu hunain, mae ffordd bell wedi'i theithio ers hynny.

I thank the Member for his comments. I believe that what has happened with the language is that the battle regarding status and legislation is more or less won. Bearing in mind where the language used to be in the 1960s—without any status—and bearing in mind the battles at the time to ensure that people had a right to use their own language in their own areas, we have come a very long way since then.

Wrth gwrs, beth sydd ddim wedi'i ennill yw defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cymunedau. Yr hyn roeddem am ei wneud gyda'r ddogfen hon oedd sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar hynny. Nid ydym yn dweud nad yw statws yn bwysig—mae statws yn bwysig, ac rydym yn gwybod hynny drwy'r gwaith sydd wedi'i wneud ar statws. Ond, nid oes pwynt cael yr iaith Gymraeg fel iaith swyddogol heb fod gennym yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol. Ceisio edrych ar y cydbwysedd yr ydym wedi'i wneud gyda'r ddogfen hon, ac rydym, wrth gwrs, yn edrych ymlaen yn awr at weithredu gyda'r mentrau iaith.

Of course, what has not been won is the use of the language in communities. What we wanted to do with this document was to focus on that. We are not saying that status is not important—status is important, and we know that through the work that has been done on status. However, there is no point in having the language as an official language without having the Welsh language as a community language. We are trying to strike that balance in this document, and we, of course, now look forward to working with the 'mentrau iaith'.

Rwyf wedi sylwi bod y mentrau iaith wedi bod yn hanfodol bwysig mewn sawl rhan o Gymru. Un enghraifft yw Menter Aman Tawe; byddai'r iaith wedi dirywio'n waeth heb y fenter honno. Mae sawl enghraifft arall dros Gymru gyfan. Rwy'n gweld Menter Bro Ogwr yn fy ardal i, lle mae gweithgareddau'n cael eu cynnal gan y fenter honno ac, mae'n rhaid i mi ddweud, gan yr Urdd, i roi profiad i blant o'r Gymraeg y tu fas i'r dosbarth. Yr her nesaf yw sicrhau bod yr arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau bod y mentrau iaith yn gallu cario ymlaen gyda'r gwaith da y maent wedi'i wneud hyd yn hyn.

I have noticed that the 'mentrau iaith' have been vitally important in many parts of Wales. One example is Menter Aman Tawe; the language would have deteriorated even more without that 'menter'. There are many other examples across Wales. I see Menter Bro Ogwr in my own area, where activities are held by that 'menter' and, I have to say, by the Urdd, to give children experience of the language outside the classroom. The next challenge is to ensure that the additional money is used in the most effective way to ensure that the 'mentrau iaith' are able to carry on with the good work that they have done to date.

15:18 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, a gaf i, hefyd, estyn croeso gofalus i'r datganiad hwn, a chroesawu'n arbennig eich pwyslais ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg, beth bynnag am statws? Os mai'r unig statws rydym yn ei roi i'r iaith Gymraeg yw iaith i gyfieithu iddi, yna iaith israddol fydd hi yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn normaleiddio'r iaith, fel rydych wedi'i ddweud.

First Minister, may I, too, extended a cautious welcome to this statement, and welcome in particular your emphasis on the use of the Welsh language, regardless of status? If the only status that we give to the Welsh language is as a language for translation, then it will be an inferior language in Wales. It is important that we normalise the language, as you have said.

Y cwestiwn y byddwn am ei ofyn ichi yw: a ydych wedi ystyried yr angen am flaenoriaethu? Mae'n ymddangos i mi fod eich datganiad yn ddatganiad cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan. Onid yw ystadegau cyfrifiad 2011 yn dweud bod angen ichi flaenoriaethu'n benodol y de orllewin—rydych wedi dweud hynny mewn ymateb i gwestiwn gan Aled Roberts—a sir Gaerfyrddin yn benodol? Os yw'r frwydr yn cael ei cholli yn sir Gaerfyrddin, caiff ei cholli ar draws Cymru gyfan. A ydych yn barod i flaenoriaethu yn eich gweithgareddau fel Llywodraeth?

The question that I would want to ask you is: have you considered the need for prioritisation? It appears to me that your statement is a general statement for the whole of Wales. Do the 2011 census statistics not tell us that you need to prioritise south-west Wales specifically—you have said so in response to a question from Aled Roberts—and Carmarthenshire in particular? If the battle is lost in Carmarthenshire, it will be lost across the whole of Wales. Are you prepared to prioritise your activities as a Government?

Rydych yn sôn am y gweithgor sydd wedi'i sefydlu gan Gyngor Sir Gâr. Mae'n bwysig ei fod yn drawsbleidiol a bod cefnogaeth iddo. Mae 73 o argymhellion; os cânt eu gweithredu, bydd y ddogfen honno yn chwyldroadol, ond gadewch inni gofio mai'r cyngor sir sy'n darparu llawer iawn o'r gwasanaethau hynny. Beth mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i flaenoriaethu'r angen i wynebu'r dirwyiad yn yr iaith Gymraeg yn sir Gaerfyrddin a de-orllewin Cymru, ac i sicrhau ein bod yn normaleiddio'r iaith drwy Gymru gyfan?

You have mentioned the working group established by Carmarthenshire County Council. It is important that it is cross-party and that there is support for it. There are 73 recommendations; if implemented, that document will be revolutionary, but let us remember that it is the county council that provides much of those services. What is the Welsh Government going to do to prioritise the need to face the decline in the Welsh language in Carmarthenshire and south-west Wales, and to ensure that we normalise the language throughout the whole of Wales?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:19.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:19.*

15:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda Chyngor Sir Gâr. Rwy'n falch dros ben fod Cyngor Sir Gâr wedi gwneud hyn. Rydym i gyd yn gwybod, wrth gwrs, nad yw'r iaith, yn hanesyddol yn sir Gâr, wedi cael cefnogaeth pob plaid, ac mae'n beth braf gweld bod cefnogaeth i'r iaith gan bob plaid yn y sir honno bellach. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig dros ben ein bod yn sylweddoli bod yr iaith yn cryfhau yn y sir. Mae gan y cyngor sir gyfrifoldeb a dyletswydd i hybu'r iaith Gymraeg yn yr ardal, ac rwy'n falch dros ben ei fod wedi gwneud hynny ac wedi cynnig gymaint o argymhellion.

We will do so by working with Carmarthenshire County Council. I am delighted that Carmarthenshire County Council has done this. We all know, of course, that historically in Carmarthenshire, the language has not received the support of all parties, and it is good to see that there is now cross-party support for the language in that county. In doing so, it is very important that we realise that the language is strengthened in the county. The county council has a responsibility and a duty to promote the language in the area, and I am delighted that it has done that and has made so many recommendations.

Ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud yn y de-orllewin—a rhan o sir Gâr—yn nyffryn Teifi mae prosiect peilot i sicrhau bod busnesau yn nyffryn Teifi yn defnyddio'r Gymraeg a'n bod yn gallu hybu'r Gymraeg yn yr ardal honno. Ynglŷn â chanolbwyntio ar un rhan o Gymru sy'n draddodiadol yn rhan o'r fro Gymraeg, dyffryn Teifi yw'r man rydym wedi ei ddewis ar gyfer y prosiect peilot. Wedyn, gallwn weld sut y mae'r prosiect wedi gweithio a beth y gallwn ei ddysgu. Gallwn wedyn edrych ar drefi fel Aberystwyth a Bangor, a threfi eraill fel Caerfyrddin, efallai, yn y dyfodol i weld ym mha ffordd y gall prosiect o'r fath gael ei ehangu ar draws Cymru.

As regards what we are doing in south-west Wales—and part of Carmarthenshire—in the Teifi valley there is a pilot project to ensure that businesses there use the Welsh language and that we are able to promote the language in that area. As regards focusing on one part of Wales that is traditionally a Welsh-speaking area, the Teifi valley is the place that we have chosen for the pilot project. We will then see how the project has worked and what we can learn from it. We can then look at towns like Aberystwyth and Bangor, and other towns such as Carmarthen, perhaps, in the future to see how such a project can be extended across Wales.

15:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Thank you, First Minister.

15:21

## Datganiad: Degawd o Gyni i Gymru? Y Pwysau Ariannol a fydd yn Wynebu'r GIG yng Nghymru tan 2025 a 2026—Adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield.

## Statement: A Decade of Austerity for Wales? The Funding Pressures Facing the NHS in Wales to 2025-26—a Nuffield Trust Report

Senedd.tv
Fideo Video

**Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Heddiw, mae'r Nuffield Trust wedi cyhoeddi canfyddiadau ei astudiaeth ar ddegawd o galedi yng Nghymru ynghylch cyllido'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru hyd at 2025-26. Cyhoeddodd y Nuffield Trust waith tebyg yn 2012, yn edrych ar y galw parhaus a'r pwysau cyllidol sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Croesawaf yr astudiaeth drylwyr ac annibynnol hon y gofynnodd Lywodraeth i'r Nuffield Trust ei chynnal ym mis Mawrth 2013. Mae'n rhoi dadansoddiad manwl i ni o'r galw a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac effaith ein strategaethau i ymdrin â nhw.

Today, the Nuffield Trust has published the findings of its study on a decade of austerity in Wales on the funding of the health service in Wales up to 2025-26. The Nuffield Trust published similar work in 2012 looking at the continuous demand and fiscal pressures facing the health service in England. I welcome this thorough and independent study, which the Welsh Government asked the Nuffield Trust to undertake in March 2013. It provides a detailed analysis of the demands and pressures on the health service in Wales and the impact of our strategies to manage them.

Mae'r astudiaeth yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn yr oes hon o galedi, fel pob system gofal iechyd ledled y byd, yn ymateb i sawl her—costau cynyddol, cynnydd mewn galw, poblogaeth sy'n heneiddio, a mwy o bobl yn dioddef cyflyrau cronig. Mae'n dangos heb amheuaeth fod y gwasanaethau iechyd yng Nghymru wedi ymateb i'r oes hon o galedi drwy wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn sylweddol wrth ymateb i'r pwysau o ran cyllid a galw. Drwy wneud hynny, mae'r adroddiad wedi dod i gasgliad allweddol, sef y bydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn parhau i fod yn fforddiadwy yn y dyfodol.

The study recognises that the health service in Wales, in this age of austerity, like all healthcare systems throughout the world, is responding to several challenges—increasing costs, increasing demand, an ageing population, and increasing numbers of people suffering chronic conditions. It unequivocally shows that health services in Wales have responded to this age of austerity by improving efficiency and productivity significantly in response to the pressures of funding and demand. By doing so, the report has come to a key conclusion, namely that the health service in Wales will continue to be affordable in the future.

Among the efficiency gains it identifies, the report shows that there has been a reduction in the length of stay for patients admitted to hospital in an emergency in Wales. In-patient stays have fallen, on average, from 10.4 days to 9.5 days. More patients are having surgery on a day-case basis, without having to be admitted to hospital overnight. During the period looked at by Nuffield, day cases rose by nearly 3% a year. In 2012-13, for the first time, more than half of patients receiving treatment in the Welsh NHS were day cases. Day-case surgery has benefits for individual patients—it is more convenient and allows people to return home quickly to recover, and it helps to manage the demand on hospital services.

Un o'r enillion effeithlonrwydd y mae'r adroddiad yn eu nodi yw bod hyd arhosiad cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty mewn argyfwng yng Nghymru wedi gostwng. Mae'r amser y mae cleifion mewnol yn ei dreulio yn yr ysbyty wedi gostwng, ar gyfartaledd, o 10.4 diwrnod i 9.5 diwrnod. Mae mwy o gleifion yn cael llawdriniaethau fel achosion dydd, heb orfod cael eu derbyn i'r ysbyty dros nos. Yn ystod y cyfnod yr edrychodd Nuffield arno, cododd nifer yr achosion dydd bron i 3% y flwyddyn. Yn 2012-13, am y tro cyntaf, roedd mwy na hanner y cleifion a gafodd driniaeth yn y GIG yng Nghymru'n achosion dydd. Mae llawdriniaeth ddydd yn cynnig manteision i gleifion—mae'n fwy cyfleus ac mae'n golygu y gall pobl fynd adref yn gyflym i wella, ac mae'n helpu i reoli'r pwysau ar wasanaethau'r ysbyty.

The Nuffield report also explains the success of the Welsh NHS in recent years in maintaining the independence of people with chronic conditions by providing care and support in the community rather than in hospitals. Despite the rising number of people with a chronic condition, the study reports that the number of admissions to hospital associated with chronic conditions in 2011-12 and 2012-13 has stabilised, and emergency admissions have reduced.

Mae adroddiad Nuffield hefyd yn egluro llwyddiant y GIG yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cadw annibyniaeth pobl â chyflyrau cronig drwy ddarparu gofal a chymorth yn y gymuned yn hytrach nag mewn ysbytai. Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y bobl sydd â chyflwr cronig, mae'r astudiaeth yn nodi bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag amodau cronig yn 2011-12 a 2012-13 wedi sefydlogi, a bod nifer y derbyniadau brys wedi gostwng.

The Welsh Government has invested heavily in programmes to help people stay healthier for longer and manage their chronic conditions, and it is good to see their impact demonstrated in the report's findings. Programmes like the Wyn campaign in Cardiff, Wrexham Frailty and Western Bay in Swansea are making and will continue to make a vital contribution to reducing hospital admissions now and in the future.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth mewn rhaglenni i helpu pobl i aros yn iach yn hwy a rheoli eu cyflyrau cronig, ac mae'n braf gweld eu heffeithiau yng nghanfyddiadau'r adroddiad. Mae rhaglenni fel ymgyrch Wyn yng Nghaerdydd, Eiddilwch Wrecsam a Bae'r Gorllewin yn Abertawe yn gwneud cyfraniad hollbwysig i leihau derbyniadau i ysbytai yn awr ac yn y dyfodol, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Without taking action to manage demand on NHS services, the Nuffield report says that we would have faced a funding gap of £1.2 billion by 2016. However, the successes of the improvements just identified and other actions taken by health boards and the Welsh Government have, along with a fall in the price of prescription medicines and pay restraint, led the Nuffield Trust to conclude that the gap can be reduced by more than £1 billion, to £221 million in the final year of this Assembly.

Pe na baem wedi cymryd camau i reoli'r pwysau ar wasanaethau'r GIG, mae adroddiad Nuffield yn dweud y byddem yn wynebu bwlch ariannu o £1.2 biliwn erbyn 2016. Fodd bynnag, oherwydd llwyddiant y gwelliannau sydd newydd eu nodi a chamau gweithredu eraill gan fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru, ynghyd â gostyngiad ym mhris meddyginiaethau presgripsiwn a chyfyngiadau tâl, daeth Ymddiriedolaeth Nuffield i'r casgliad y gellir lleihau'r bwlch fwy na £1 biliwn, i £221 miliwn ym mlwyddyn olaf y Cynulliad hwn.

The report then projects its findings further into the future. It demonstrates the additional potential for further long-term savings that the NHS can make as it continues to reform and reshape services, concentrating highly specialised services while providing more care in communities closer to people's homes and preventing people from being admitted to hospital for routine treatment. The report assumes that pay increases return to their long-term trend growth of a 2% real terms increase per annum and that prescription costs show no further reductions. If the NHS shares in the projected real-terms growth in the UK economy and makes the efficiency and productivity gains that Nuffield identifies as achievable, the NHS remains affordable not just for the rest of this Assembly term but well into the future.

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ragamcanu ei ganfyddiadau ymhellach i'r dyfodol. Mae'n dangos y potensial ychwanegol ar gyfer arbedion hirdymor pellach y gall y GIG eu gwneud wrth iddo barhau i ddiwygio ac ail-lunio gwasanaethau, gan ganoli gwasanaethau arbenigol iawn a darparu mwy o ofal mewn cymunedau ar yr un pryd yn agosach at gartrefi pobl ac atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty am fân driniaethau. Mae'r adroddiad yn tybio y bydd codiadau cyflog yn dychwelyd i'w twf tuedd hirdymor o gynnydd 2% mewn termau real y flwyddyn ac na fydd costau presgripsiwn yn gostwng ymhellach. Os yw'r GIG yn rhannu'r twf mewn termau real a ragwelir yn economi'r DU ac yn gwneud yr enillion effeithlonrwydd a chynhyrchiant y mae Nuffield yn dweud eu bod yn bosibl, bydd y GIG yn parhau i fod yn fforddiadwy nid yn unig am weddill tymor y Cynulliad hwn, ond ymhell i'r dyfodol.

The overwhelming message from this report, then, is the need to continue to take action to address the demand and the financial challenges ahead. It is clear that pressures will come from a variety of sources, some of which will be influenced by decisions taken outside Wales, including the UK fiscal outlook and policy decisions made by the UK Government. The further the report proceeds into the future, the more uncertain its conclusions inevitably become. However, they demonstrate the urgent relevance to Wales of a Government in Westminster that is dedicated to renewed investment in public services rather than continued reductions in funding. Whatever the future, the NHS must continue to change the way it provides health services, ending the over-reliance on hospitals and providing more care in the community, closer to people's homes. That care needs to integrate the contributions of both health and social services to promote reablement and underpin independence.

Y brif neges o'r adroddiad hwn, felly, yw bod angen parhau i gymryd camau i ymdrin â'r galw a'r heriau ariannol sydd o'n blaenau. Mae'n amlwg y daw pwysau o amryw o ffynonellau, a rhai ohonynt y bydd penderfyniadau a wneir y tu allan i Gymru'n dylanwadu arnynt, gan gynnwys penderfyniadau Llywodraeth y DU am ragolygon a pholisïau ariannol y DU. Po bellaf i'r dyfodol yr aiff yr adroddiad, y mwyaf ansicr, yn anochel, y bydd ei gasgliadau. Fodd bynnag, maent yn dangos pa mor bwysig i Gymru yw Llywodraeth yn San Steffan sy'n ymroddedig i fuddsoddi o'r newydd mewn gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na pharhau i leihau cyllid. Beth bynnag a ddigwydd yn y dyfodol, rhaid i'r GIG barhau i newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau iechyd, gan roi terfyn ar yr orddibyniaeth ar ysbytai a darparu mwy o ofal yn y gymuned, yn agosach at gartrefi pobl. Mae angen i'r gofal hwnnw integreiddio cyfraniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i hybu ailalluogi ac ategu annibyniaeth.

The Minister for Finance and I will now work together to determine what more we can do to support new models of service delivery that strengthen the care and support provided in local communities. We will also work together over the summer on the challenges laid out in this report. We will build on the real successes of the NHS in recent years so that we can go on meeting the challenges outlined in the Nuffield report and secure the long-term sustainability of the health service in Wales.

Bydd y Gweinidog Cyllid a minnau yn awr yn gweithio gyda'n gilydd i benderfynu beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi modelau newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n cryfhau'r gofal a'r cymorth a ddarperir mewn cymunedau lleol. Byddwn hefyd yn cydweithio dros yr haf ar yr heriau a nodir yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau gwirioneddol y GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y gallwn barhau i fodloni'r heriau a amlinellwyd yn adroddiad Nuffield a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

15:28 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I do, indeed, on behalf of the Welsh Conservatives, welcome the publication of the Nuffield Trust's report. I have listened very carefully to what you have said, Minister, but no matter how much gloss you try to paint over this report, it makes for eye-watering reading, and it shows very clearly that the chickens are coming home to roost in terms of the lack of priority that you have given to the Welsh NHS in recent years in terms of its funding. Let us remind ourselves of the key finding—the first glaringly obvious key finding that is quoted in the report that has not, of course, been quoted by the Minister: it predicts a funding gap of £2.5 billion by 2025-26. It estimates the gap—the best case scenario gap, which of course was actually quoted by the Minister—of £221 million by 2015-16, which is within the life cycle of this Welsh Government. It talks about 3.2% annual spending pressures, increasing the cost base of the NHS here on an annual basis, and, of course, it makes some very, very relevant reference to the pressures on our primary care workforce. It quotes the fact that there are fewer whole-time equivalent GPs in Wales, per 1,000 people, than in either England or Scotland, and that we will need around 2.5 million more GP appointments in our system by 2025-26, and 4.2 million more patient appointments for nurses in primary care. I think, Minister, frankly, that to simply pat yourself on the back, and say, 'We need to do more of what we've already been doing', is not good enough. It is quite clear that there are some more fundamental issues that need to be addressed, when you look at what the report actually says.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Yr wyf, yn wir, ar ran Ceidwadwyr Cymru, yn croesawu cyhoeddi adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield. Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, Weinidog, ond waeth faint o sglein y ceisiwch ei baentio dros yr adroddiad hwn, mae'n anghyfforddus iawn i'w ddarllen, ac mae'n dangos yn glir iawn mai yn awr yr ydym yn talu am y diffyg blaenoriaeth yr ydych wedi'i rhoi i'r GIG yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran ei gyllid. Gadewch inni ein hatgoffa ein hunain o'r canfyddiad allweddol—wrth gwrs, nid yw'r Gweinidog wedi dyfynnu'r canfyddiad allweddol amlwg iawn cyntaf a nodir yn yr adroddiad: mae'n rhagweld bwlch ariannu o £2.5 biliwn erbyn 2025-26. Mae'n amcangyfrif y bwlch—y sefyllfa orau bosibl, a'r un y gwnaeth y Gweinidog ei ddyfynnu, wrth gwrs—o £221 miliwn erbyn 2015-16, sydd o fewn tymor y Llywodraeth Cymru hon. Mae'n sôn am bwysau gwariant blynyddol o 3.2%, cynyddu sail costau'r GIG yma'n flynyddol, ac, wrth gwrs, mae'n cyfeirio'n berthnasol iawn, iawn at y pwysau ar ein gweithlu gofal sylfaenol. Mae'n dyfynnu'r ffaith bod llai o feddygon teulu cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru, i bob 1,000 o bobl, nag yn Lloegr na'r Alban, ac y bydd arnom angen tua 2.5 miliwn yn fwy o apwyntiadau â meddygon teulu yn ein system erbyn 2025-26, a 4.2 miliwn yn fwy o apwyntiadau â chleifion i nyrsys mewn gofal sylfaenol. A dweud y gwir, Weinidog, nid wyf yn meddwl ei bod yn ddigon da eich curo eich hun ar eich cefn a dweud, 'Mae angen inni wneud mwy o'r hyn yr ydym eisoes wedi bod yn ei wneud'. Mae'n amlwg bod angen rhoi sylw i faterion mwy sylfaenol, pan edrychwch ar yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud mewn gwirionedd.

Now, I have some questions for you, Minister, quite naturally. I offer these questions in the spirit of wanting to be able to co-operate with you about the challenges that the Welsh NHS faces, and on a genuine basis of wanting to work with the Welsh Government, as a responsible opposition, to address these challenges.

Yn awr, y mae gennyf rai cwestiynau ichi, Weinidog, yn eithaf naturiol. Rwyf yn cynnig y cwestiynau hyn mewn ysbryd o fod eisiau gallu cydweithio â chi ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru, ac ar sail wirioneddol o fod eisiau gweithio gyda Llywodraeth Cymru, fel gwrthblaid gyfrifol, i ymateb i'r heriau hyn.

Now, there is clearly an immediate, pending crisis in the current financial year. Many local health boards in Wales are now on a three-year budgetary cycle, although some are still on an annual budgetary cycle. One, for example, in north Wales, has suggested that it is likely to be £35 million, potentially, in the red at the end of the current financial year. So, I accept that you are going to do some work over the summer period, with the Minister for Finance—that is very welcome indeed—but what assurances can you give Members today that the immediate crisis, in the current financial year, will be met? Are you also able to confirm that, in terms of the best-case scenario that the Nuffield Trust has identified of a funding gap of £221 million, the Welsh Government is able to reprioritise its budgets in order to make available that sum, as a minimum, before 2015-16?

Yn awr, y mae'n amlwg bod argyfwng yn ein hwynebu yn y flwyddyn ariannol hon. Mae llawer o fyrddau iechyd lleol yng Nghymru bellach ar gylch cyllidebol tair blynedd, er bod rhai'n dal i fod ar gylch cyllidebol blynyddol. Mae un, er enghraifft, yn y gogledd, wedi awgrymu ei bod yn debygol y bydd £35 miliwn, o bosibl, yn y coch ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Felly, rwyf yn derbyn eich bod yn mynd i wneud rhywfaint o waith dros gyfnod yr haf, gyda'r Gweinidog Cyllid—rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn—ond pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Aelodau heddiw y gallwch ymdopi â'r argyfwng hwn, yn y flwyddyn ariannol bresennol? A allwch hefyd gadarnhau, o ran y sefyllfa orau y mae Ymddiriedolaeth Nuffield wedi ei nodi, sef bwlch cyllido o £221 miliwn, y gall Llywodraeth Cymru ailflaenoriaethu ei chyllidebau er mwyn sicrhau bod y swm hwnnw, o leiaf, ar gael cyn 2015-16?

Given the huge challenges that primary care is clearly going to face—you have already indicated that you want to shift more of the emphasis, in terms of care, into the primary and community care field, and I completely agree with you on that—clearly, there are going to be capacity issues for the primary care workforce, not least GPs, and nurses in GP practices. What are you going to do to make sure that you have effective plans in place, and when will you publish those plans, so that we can scrutinise them as a National Assembly?

Ac ystyried yr heriau aruthrol y mae'n amlwg y bydd gofal sylfaenol yn eu hwynebu—rydych eisoes wedi dweud yr hoffech symud mwy o'r pwyslais, o ran gofal, i ofal sylfaenol a chymunedol, a chytunaf yn llwyr â chi ar hynny—yn amlwg, bydd materion capasiti ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol, yn enwedig meddygon teulu, a nyrsys mewn meddygfeydd. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i wneud yn siŵr bod gennych gynlluniau effeithiol ar waith, a phryd y byddwch yn cyhoeddi'r cynlluniau hynny, fel y gallwn ni yn y Cynulliad Cenedlaethol graffu arnynt?

You have talked in your statement—and I welcome this—about the need to work towards a true integration of health and social care. Let me tell you that you have a partner in us if that is what you want to be able to deliver, and we will work with you to deliver that. May I ask, Minister, whether you will allow for a meaningful contribution from all Members of this Assembly, and members of other political parties, to be able to help shape that future of integrated health and social care, in order that we can get it right, and in order that we can take local authorities, if necessary, with us towards that true goal?

Rydych wedi dweud yn eich datganiad—ac rwyf yn croesawu hyn—fod angen gweithio tuag at integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn wirioneddol. Gadewch imi ddweud wrthych y byddwn ni'n bartner ichi os dyna'r hyn yr hoffech allu ei gyflawni, ac y gweithiwn gyda chi i gyflawni hynny. A gaf fi ofyn, Weinidog, a wnewch chi ganiatáu cyfraniad ystyrlon gan bob Aelod o'r Cynulliad hwn, a chan aelodau o bleidiau gwleidyddol eraill, er mwyn gallu helpu i lywio'r dyfodol hwnnw i iechyd a gofal cymdeithasol integredig, er mwyn inni ei wneud yn iawn, ac fel y gallwn fynd ag awdurdodau lleol gyda ni, pe bai angen, tuag at y gwir nod hwnnw?

There are clearly huge challenges ahead. My party wants to work with you to deliver against those challenges. However, fundamentally, Minister, it is going to take more than a bit of gloss and concentrating on some very specific, positive changes, which I acknowledge have taken place in the NHS in recent years. We have to think ahead, we have to plan ahead effectively, and, fundamentally, there has to be a much bigger shift in the prioritisation of Welsh Government resources, so that the NHS can get the cash that it needs to be able to deliver the high-quality care that the people of Wales deserve.

Mae'n amlwg bod heriau aruthrol o'n blaenau. Mae fy mhlaid yn awyddus i weithio gyda chi i ymateb i'r heriau hynny. Fodd bynnag, yn y bôn, Weinidog, mae'n mynd i gymryd mwy nag ychydig o sglein a chanolbwyntio ar rai newidiadau penodol, cadarnhaol iawn, yr wyf yn cydnabod eu bod wedi digwydd yn y GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhaid inni feddwl ymlaen, rhaid inni gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol, ac, yn y bôn, rhaid sicrhau newid mwy o lawer yn y ffordd y caiff adnoddau Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu, fel y gall y GIG gael yr arian sydd ei angen arno i allu darparu'r gofal o safon uchel y mae pobl Cymru'n ei haeddu.

15:34

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Darren Millar for those comments. The fundamental issue that he refers to, and which this report exposes, is the impact on public services in Wales of the cuts being made by his administration in Westminster, and passed down to Wales. That is what the fundamental problem is here: we have a Westminster Government that believes in shrinking the state, which believes in doing less through the public realm, and passes less money down to us in order to be able to do it. That is the fundamental problem here.

Diolch i Darren Millar am y sylwadau hynny. Y mater sylfaenol y mae'n cyfeirio ato, ac y mae'r adroddiad hwn yn ei ddatgelu, yw'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i'r toriadau y mae ei weinyddiaeth ef yn eu gwneud yn San Steffan, ac yn eu trosglwyddo i lawr i Gymru. Dyna yw'r broblem sylfaenol yma: mae gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n credu mewn crebachu'r wladwriaeth, sy'n credu mewn gwneud llai drwy'r parth cyhoeddus, ac sy'n trosglwyddo llai o arian i lawr i ni er mwyn gallu gwneud hynny. Dyna'r broblem sylfaenol yma.

However, let me turn to his more constructive set of questions. Let me tell you first of all that there is no immediate crisis. If ever there was a word over-used in this Assembly in relation to the health service, that surely must be it. There are issues that we will work through in terms of the Welsh health budget, both this year and next. I set out in my statement the work that I will be doing with the Minister for Finance over this summer, and we will take the messages of this report seriously in doing so.

Fodd bynnag, gadewch imi droi at ei gyfres fwy adeiladol o gwestiynau. Gadewch imi ddweud wrthych yn gyntaf oll nad oes argyfwng yn ein hwynebu ar unwaith. Os cafodd gair erioed ei orddefnyddio yn y Cynulliad hwn wrth sôn am y gwasanaeth iechyd, dyna ydyw yn bendant. Byddwn yn gweithio ar rai materion o ran cyllideb iechyd Cymru, eleni a'r flwyddyn nesaf. Nodais yn fy natganiad y gwaith y byddaf yn ei wneud gyda'r Gweinidog Cyllid yn ystod yr haf hwn, a byddwn yn cymryd negeseuon yr adroddiad hwn o ddifrif wrth wneud hynny.

Of course, Darren Millar is absolutely right to point to the central importance of primary care, if we are going to be able to go on providing a health service of the sort that we need into the future. The report provides some very striking figures in terms of the growth in appointments in primary care, both for GPs and practice nurses in recent years, and says that that growth will need to continue in the future. That will depend, I believe, on a remodelling of the primary care workforce—a point that I think that Darren also alluded to. We will need to draw on a wider group of professional possibilities in the future, including contributions, for example, from clinical pharmacists, in order to broaden the base of the primary care workforce, making sure that GPs are able to spend their time with patients that GPs themselves need to be able to see. You will see the emergence of those plans in the three-year plans that LHBs are now required to provide—plans that integrate service planning, workforce planning and financial planning, for the first time, into a holistic plan.

Wrth gwrs, mae Darren Millar yn gwbl gywir i dynnu sylw at bwysigrwydd canolog gofal sylfaenol, er mwyn inni allu parhau i ddarparu gwasanaeth iechyd o'r math y mae ei angen arnom yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn darparu rhai ffigurau trawiadol iawn o ran y twf yn nifer yr apwyntiadau mewn gofal sylfaenol, ar gyfer meddygon teulu ac ar gyfer nyrsys practis yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn dweud y bydd angen i'r twf hwnnw barhau yn y dyfodol. Bydd hynny'n dibynnu, rwyf yn credu, ar ailfodelu'r gweithlu gofal sylfaenol—pwynt yr wyf yn meddwl bod Darren hefyd wedi cyfeirio ato. Bydd angen inni alw ar grŵp ehangach o bosibiliadau proffesiynol yn y dyfodol, gan gynnwys cyfraniadau, er enghraifft, gan fferyllwyr clinigol, er mwyn ehangu sail y gweithlu gofal sylfaenol, gan sicrhau bod meddygon teulu'n gallu treulio eu hamser gyda chleifion y mae ar y meddygon teulu eu hunain angen gallu eu gweld. Byddwch yn gweld y cynlluniau hynny'n dod i'r amlwg yn y cynlluniau tair blynedd y mae yn awr yn ofynnol i'r byrddau iechyd lleol eu darparu—cynlluniau sy'n integreiddio cynllunio gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu a chynllunio ariannol, am y tro cyntaf, mewn cynllun cyfannol.

I am very grateful for what Darren Millar said about the integration agenda. Of course, I am very pleased to hear all meaningful contributions from all Members. The integration fund that the Deputy Minister has referred to in recent weeks in this Chamber was a fund drawn up as a result of budget negotiations between three parties in this Assembly, showing exactly that sort of meaningful contribution. I am very happy to discuss with all Members here how we can make a success of that agenda, and therefore go on providing the sort of health service that this report enables us to go on doing.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am yr hyn a ddywedodd Darren Millar ynglŷn â'r agenda integreiddio. Wrth gwrs, rwyf yn falch iawn o glywed pob cyfraniad ystyrlon gan bob Aelod. Roedd y gronfa integreiddio y cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog ati yn yr wythnosau diwethaf yn y Siambr hon yn gronfa a luniwyd o ganlyniad i drafodaethau ar y gyllideb rhwng tair plaid yn y Cynulliad hwn, sy'n dangos yn union y math hwnnw o gyfraniad ystyrlon. Rwyf yn hapus iawn i drafod â'r holl Aelodau yma sut y gallwn wneud yr agenda honno'n llwyddiant, ac felly barhau i ddarparu'r math o wasanaeth iechyd y mae'r adroddiad hwn yn ein galluogi i barhau i'w ddarparu.

15:37 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement today. I recognise that the Welsh Government has done a great deal already to make spending within the NHS more efficient against the difficult backdrop of the ever-reducing budgets being handed down from the UK Government. The report recognises that staff pay is one of the driving pressures on the NHS in Wales. I wonder whether the Minister sees any scope for making this area of spend more effective over time. I accept what he has just said about remodelling primary care; that is certainly a big part of that.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwyf yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud llawer iawn i sicrhau bod gwariant o fewn y GIG yn fwy effeithlon yng nghyd-destun anodd y cyllidebau sy'n crebachu o hyd a drosglwyddir i lawr gan Lywodraeth y DU. Mae'r adroddiad yn cydnabod mai cyflogau staff yw un o'r prif bwysau ar y GIG yng Nghymru. Tybed a all y Gweinidog weld unrhyw gyfle i wneud y maes gwariant hwn yn fwy effeithiol dros amser? Rwyf yn derbyn yr hyn y mae newydd ei ddweud am ailfodelu gofal sylfaenol; mae hynny'n sicr yn rhan fawr o hynny.

The Minister will be aware of my long-standing concern about staff sickness levels and absence rates in the NHS. Although I am pleased that these rates are now coming down, they are still remarkably high. So, I would be keen to know whether there is scope for further progress on this.

Bydd y Gweinidog yn gwybod am fy mhryder hirhoedlog ynghylch lefelau salwch staff a chyfraddau absenoldeb yn y GIG. Er fy mod yn falch bod y cyfraddau hyn yn awr yn gostwng, maent yn dal i fod yn hynod o uchel. Felly, byddwn yn awyddus i gael gwybod a yw cynnydd pellach yn bosibl yn hyn o beth.

I wonder whether any work has been done, or has been planned, in terms of mapping the competencies of staff in the NHS in order to ensure that we are making the most of the skills that we have in the workforce and that people are working at the upper limit of what is most appropriate for their skills, expertise and experience, especially in those specialities that the report specifically discusses. We discussed the potential of this in the cross-party group on mental health earlier today, with regard to people working in the field of psychological therapy. It seems to me that there is scope here to explore it more widely across the NHS to make spend more effective and to ensure that we are getting the most for our money in terms of the staff that we employ, which would also create an environment where people would feel more valued and able to use their full skills and so on.

Tybed a oes unrhyw waith wedi ei wneud, neu ar y gweill, o ran mapio cymwyseddau staff yn y GIG er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r sgiliau sydd gennym yn y gweithlu a bod pobl yn gweithio ar derfyn uchaf yr hyn sydd fwyaf priodol ar gyfer eu sgiliau, eu harbenigedd a'u profiad, yn enwedig yn yr arbenigeddau hynny y mae'r adroddiad yn eu trafod yn benodol? Buom yn trafod potensial hyn yn y grŵp trawsbleidiol ar iechyd meddwl yn gynharach heddiw, o ran pobl sy'n gweithio ym maes therapi seicolegol. Mae'n ymddangos i mi fod lle yma i archwilio hyn yn fwy eang ar draws y GIG i wneud gwariant yn fwy effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am ein harian o ran y staff yr ydym yn eu cyflogi, a fyddai hefyd yn creu amgylchedd lle byddai pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy a'u bod yn gallu defnyddio eu sgiliau llawn ac yn y blaen.

On another note, perhaps the most important questions are these ones. The first is how certain can we really be about what the report says. After all, these are predictions based on assumptions and I imagine that there will be many factors that will come into play that could alter the various trajectories over time. The report looks ahead to 2025-26. You have referred to the need to ensure that the health service gets its fair share of money as and when a meaningful recovery comes. How will the Welsh Government seek to ensure that this happens?

Ar nodyn arall, efallai mai'r rhain yw'r cwestiynau pwysicaf. Y cyntaf yw pa mor sicr y gallwn fod mewn gwirionedd am yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud. Wedi'r cyfan, rhagfynegiadau yw'r rhain yn seiliedig ar dybiaethau ac rwyf yn dychmygu y bydd llawer o ffactorau'n dod i'r amlwg a allai newid y gwahanol ragamcanion dros amser. Mae'r adroddiad yn edrych ymlaen at 2025-26. Rydych wedi cyfeirio at y ffaith bod angen sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn cael ei gyfran deg o arian pan ddaw adferiad ystyrlon. Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau bod hyn yn digwydd?

15:39

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Rebecca Evans for those questions. The first set was all to do with staff costs. Staff costs make up 65% of the NHS budget and, inevitably, we have to look at that budget in planning for the future. One of the reasons why the report is able to say that the £1.2 billion gap that would have existed by the end of this Assembly has been reduced by over £1 billion is because of the impact of pay restraint in the public sector over recent years. Nuffield says that we cannot expect that to continue indefinitely and that, beyond this Assembly term, we must plan on the basis that real terms increases in the pay bill will resume at their long-term trend level of 2% per annum. It assumes that there is to be no catch-up in the loss that there has been in staff pay as a result of restraint in recent years.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiynau hynny. Roedd y set gyntaf i gyd yn ymwneud â chostau staff. Mae costau staff yn 65% o gyllideb y GIG ac, yn anochel, rhaid inni edrych ar y gyllideb honno wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Un o'r rhesymau pam y mae'r adroddiad yn gallu dweud bod y bwlch o £1.2 biliwn a fyddai wedi bod erbyn diwedd y Cynulliad hwn wedi gostwng dros £1 biliwn yw oherwydd effaith cyfyngiadau tâl yn y sector cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Dywed Nuffield na allwn ddisgwyl i hynny barhau am gyfnod amhenodol a bod yn rhaid inni, y tu hwnt i dymor y Cynulliad hwn, gynllunio ar y sail y bydd y cynyddiadau mewn termau real yn y bil cyflogau'n dychwelyd i lefel eu tuedd hirdymor o 2% y flwyddyn. Mae'n tybio na fydd dim dal i fyny yn y golled a fu yng nghyflogau staff o ganlyniad i gyfyngiadau yn y blynyddoedd diwethaf.

That is why sickness levels are so important to us. Sickness levels dropped in the NHS over this winter. That is both against the long-term trend of rising sick levels and against the fact that sickness almost always goes up in the winter rather than down. So, that is a significant achievement. However, Rebecca Evans is certainly right to say that there is more that we can and must do to extract more efficiency there.

Dyna pam y mae lefelau salwch mor bwysig inni. Gostyngodd lefelau salwch yn y GIG dros y gaeaf hwn. Mae hynny'n groes i'r duedd hirdymor lle gwelir lefelau salwch yn codi a hefyd yn groes i'r ffaith bod salwch bron bob amser yn mynd i fyny yn y gaeaf yn hytrach nag i lawr. Felly, mae hynny'n gyflawniad sylweddol. Fodd bynnag, mae Rebecca Evans yn sicr yn gywir wrth ddweud y gallwn wneud mwy, a bod rhaid inni wneud mwy, i sicrhau mwy o effeithlonrwydd yno.

The point that she made about ensuring that staff operate at the top of their clinical competence is extremely important. No consultant should be routinely seeing people who could equally, clinically and competently be seen, for example, by a registrar, a GP with special interest or, indeed, an advanced practitioner nurse. 'Only do what only you can do' is the phrase that is used in circles that deal with these things. It is a principle that I want to see applied in the Welsh NHS.

Mae'r pwynt a wnaeth am sicrhau bod staff yn gweithredu ar derfyn uchaf eu cymhwysedd clinigol yn hynod o bwysig. Ni ddylai dim un ymgynghorydd fod yn gweld pobl yn rheolaidd pan allai cofrestrydd, meddyg teulu â diddordeb arbennig neu, yn wir, uwch-ymarferydd nyrsio, er enghraifft, wneud y gwaith hwnnw'n glinigol ac yn gymwys. 'Dim ond gwneud y gwaith na all neb arall ei wneud' yw'r ymadrodd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cylchoedd sy'n ymdrin â'r pethau hyn. Mae'n egwyddor yr hoffwn ei gweld yn cael ei defnyddio yn y GIG yng Nghymru.

I now turn to Rebecca's final two points. How certain are the assumptions made here? Over the next couple of years, I think the report is very reliable indeed as a practical guide. Once you move beyond that into the future, inevitably, it becomes less certain. Had Nuffield written the report in 2006, would it have anticipated the world-wide crash of 2008? I do not suppose so at all. There will be things that will happen between now and 2025 that none of us are able to anticipate today. Some of those things may be to our very significant advantage. What if they were to be a breakthrough in the treatment of dementia or diabetes? Both of those are predicted and neither of which has yet occurred, but if either were to occur, it would have a massive impact on health spending. Inevitably, the report becomes more indicative than specific as it goes further on.

Trof yn awr at ddau bwynt olaf Rebecca. Pa mor sicr yw'r tybiaethau a wneir yma? Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rwyf yn meddwl bod yr adroddiad yn ddibynadwy iawn fel canllaw ymarferol. Unwaith y symudwch y tu hwnt i hynny ac i'r dyfodol, yn anochel, mae'n llai sicr. Pe bai Nuffield wedi ysgrifennu'r adroddiad yn 2006, a fyddai wedi rhagweld y cwymp byd-eang yn 2008? Nid wyf yn meddwl y byddai o gwbl. Bydd pethau'n digwydd rhwng nawr a 2025 na all neb ohonom eu rhagweld heddiw. Efallai y bydd rhai o'r pethau hynny o fantais sylweddol iawn inni. Beth pe bai datblygiad pwysig o ran trin dementia neu ddiabetes? Mae sôn am y ddau beth hyn ac nid yw'r un o'r ddau wedi digwydd hyd yma, ond pe bai'r naill neu'r llall yn digwydd, byddai'n cael effaith aruthrol ar wariant ar iechyd. Yn anochel, mae'r adroddiad yn mynd yn fwy dangosol na phenodol wrth iddo fynd ymhellach ymlaen.

Rebecca's final point is the very important one. There are three scenarios that the report sets out for the period beyond this Assembly term: one is flat cash—in other words, continuing reductions in real terms; one is where the NHS budget increases every year in line with inflation, but there is no real growth; and the third is one in which the NHS shares in the growth in the British economy that the Office for Budget Responsibility is now predicting. It predicts it at 2.2% a year. Nuffield says that the public service could also grow at that rate. Health spending for 65 years grew at 4% in real terms every year, so it is half of what has been achieved for almost the whole of the NHS's life. If that is possible, Nuffield says, the gap in 2025 will be £1.1 billion and £900,000 of that can be eroded by achievable efficiencies. That is why I say that this report says that the NHS can go on being achievable in the long run. However, that depends on having a Government at Westminster that believes that as the economy grows, so public services should have their share of that growth.

Pwynt olaf Rebecca yw'r un pwysig iawn. Mae'r adroddiad yn nodi tair sefyllfa ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i dymor y Cynulliad hwn: un lle mae arian gwastad—mewn geiriau eraill, parhau â gostyngiadau mewn termau real; un lle mae cyllideb y GIG yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant, ond nid oes twf gwirioneddol; a'r trydydd lle mae'r GIG yn rhannu'r twf yn economi Prydain y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bellach yn ei ddarogan. Mae'n rhagweld twf o 2.2% y flwyddyn. Mae Nuffield yn dweud y gallai'r gwasanaeth cyhoeddus hefyd dyfu ar y gyfradd honno. Tyfodd gwariant ar iechyd 4% mewn termau real bob blwyddyn am 65 mlynedd, felly mae'n hanner yr hyn sydd wedi ei gyflawni dros oes gyfan y GIG bron. Os yw hynny'n bosibl, mae Nuffield yn dweud, bydd y bwlch yn 2025 yn £1.1 biliwn a gellir dileu £900,000 o hynny drwy wneud arbedion posibl. Dyna pam yr wyf yn dweud bod yr adroddiad hwn yn dweud y gall y GIG barhau i fod yn ddichonadwy yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu ar Lywodraeth yn San Steffan sy'n credu, wrth i'r economi dyfu, y dylai gwasanaethau cyhoeddus gael eu cyfran o'r twf hwnnw.

15:44 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae adroddiad o'r math hwn gan Nuffield yn ddefnyddiol heddiw. Mae'n rhoi rhyw fath o 'scope' i ni o faint y pwysau ariannol a fydd ar yr NHS yn y dyfodol. Yr hyn sy'n fy nharo gyntaf, er hynny, yw'r hyn nad ydyw i'w weld yn yr adroddiad heddiw. Nid oes unrhyw asesiad o'r pwysau ariannol posibl ar awdurdodau lleol o ran gofal cymdeithasol, er bod yr adroddiad, wrth gwrs, yn nodi bod y pwysau ariannol yn dod yn sylweddol o'r boblogaeth hŷn honno sydd â chyflyrau cymhleth. Rydym yn gwbl ymwybodol bod gofynion helaeth ar awdurdodau lleol yn ogystal ag ar ofal henoed yn y categorïau hyn. Rwy'n gweld o'ch datganiad eich bod yn gwneud un cyfeiriad at integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol. Byddai Plaid Cymru eisiau gweithio gyda chi—yn wir, mae'n siŵr y byddai eisiau symud ynghynt ac ymhellach na chi fel Llywodraeth—ar yr integreiddiad hwn. Mae'r 'integrated care fund' yn fan cychwyn pwysig o ran hynny o beth.

A report such as this one drawn up by Nuffield is very useful as it gives us some sort of scope of the scale of the financial pressures on the NHS for the future. What strikes me first, however, is what is not included in the report today. There is no assessment of the possible financial pressures on local authorities in terms of social care, although the report of course does note that the financial pressures derive significantly from the older population that have very complex conditions. We are very much aware that there are significant demands placed on local authorities as well in terms of caring for the elderly in these categories. I see from your statement that you make one reference to integrating health and social care. Plaid Cymru would want to work with you, and would probably want to move more swiftly and further than you as a Government would, on this integration. The integrated care fund is an important starting point in that regard.

Fodd bynnag, wrth ystyried heddiw mai ond asesiad o'r pwysau ar yr NHS sydd o'n blaenau—rwy'n derbyn efallai mai dyna'r hyn oedd wedi ei gomisiynu—wrth edrych ymlaen, a gaf ofyn ichi ystyried, yn y gwaith yr ydych yn ei wneud gyda'r Gweinidog Cyllid, comisiynu neu wneud rhyw asesiad Llywodraeth o oblygiadau'r fath o faterion sydd wedi codi yn adroddiad Nuffield i awdurdodau lleol a gofal cymdeithasol hefyd?

However, given today that it is just an assessment of the pressures on the NHS that is before us—I accept that that is perhaps what was commissioned--in looking to the future, may I ask you to consider, in the work that you are doing with the Minister for the Finance, commissioning or carrying out some Government assessment of the implications of the kind of issues that were raised in the Nuffield report for local authorities and social care also?

Mae'n amlwg o'r adroddiad hefyd bod y pwysau demograffig ar eu hamlycaf yn yr ardaloedd gwledig—ardaloedd fel Powys, a Cheredigion hefyd. Mae'r rhain hefyd yn awdurdodau lleol sy'n wynebu'n arferol y canrannau mwyaf o doriadau o dan y fformiwlâu presennol. Felly, yn eich gwaith gyda'r Gweinidog Cyllid, efallai y gallwch feddwl yn awr ar gyfer y dyfodol—y 10 mlynedd nesaf o ofal cymdeithasol a gofal iechyd—a yw'r fformiwlâu cyllidol sydd gennych ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r pwysau cynyddol sydd, o ran y ddemograffeg sy'n newid, ar y gwasanaethau yn y gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

It is also clear from the report that the demographic pressures are most apparent in rural areas—areas such as Powys, and Ceredigion too. These are also the local authorities that habitually face the highest percentage cuts under the current formulas. So, in your work with the Minister for Finance, perhaps you could consider now for the future—the next 10 years of social care and healthcare—whether the funding formulas that you currently have in place truly reflect the increasing pressures, in terms of the changing demographics, on the services in various areas of Wales.

Mae newidiadau technolegol meddygol yn arwyddocaol iawn o ran sut y maent yn gwneud yr NHS yn fwy effeithlon yn ariannol ac maent wedi chwarae rhan allweddol iawn wrth leihau'r amser mae unigolyn yn aros mewn ysbyty—yn enwedig y newidiadau mewn llawdriniaethau. Mae buddsoddi ymlaen llaw, felly—buddsoddi cynnar—yn rhan o sicrhau effeithlonrwydd dros gyfnod o 10 mlynedd, ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at hynny. Yn benodol iawn, mae angen sicrhau buddsoddi cynnar mewn hyfforddi gweithlu fydd yn cwrdd ag anghenion y 10 mlynedd nesaf—buddsoddi mewn GPs a nyrsys cymunedol, a buddsoddi yn y 'shift' o'r sector aciwt i'r sector yn y gymuned. Mae'n rhaid i chi, fel Llywodraeth, arwain ar y newid hwnnw a chymryd o ddifrif rhai o'r materion ynglŷn â'r ffaith bod y nifer o GPs sydd gennym yng Nghymru yn llai na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl yn ôl y boblogaeth, ac edrych yn awr ar gynllunio'r gweithlu er mwyn cwrdd â heriau'r 10 mlynedd nesaf.

Changes in medical technology are very significant in terms of the way that they make the NHS more efficient financially and they have played a crucial role in reducing the time that individuals have to stay in hospital—particularly surgical changes. Initial upfront investment, therefore—early investment—is part of ensuring efficiency over a period of 10 years, and the report makes reference to that. Very specifically, we need to ensure early investment in training the workforce that will meet the needs of the next 10 years—investment in GPs and community nurses, and investment in the shift from the acute sector into the community sector. You, as a Government, have to lead that change and take seriously some of the issues in relation to the fact that the number of GPs that we have in Wales is smaller than we would expect according to the population level, and now plan the workforce in order to meet the challenges of the next decade.

Mae 44% o gyllideb y gwasanaeth iechyd yn y sector aciwt, ac felly un ffordd o leihau cynnydd mewn costau dros y ddegawd nesaf, sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad, yw lleihau'r nifer o bobl, yn enwedig yr henoed gyda chyflyrau cymhleth, sy'n mynd i mewn i ysbyty. Mae'n bosibl safio £0.5 biliwn drwy wneud hynny, felly byddwn i'n licio clywed, ar ryw adeg, er efallai nid heddiw, am eich cynlluniau manwl o ran sut mae gofyn i fyrddau iechyd symud y balans hwnnw o'r sector aciwt, a gwneud hynny nid dim ond drwy symud y balans o'r sector aciwt ond drwy fuddsoddi o ddifrif mewn gwasanaethau cymunedol.

Now 44% of the health service budget is in the acute sector, and therefore one means of reducing an increase in costs over the next decade, which is outlined in the report, is to reduce the number of people, particularly older people with complex conditions, who have to go into hospital. We could save £0.5 billion by doing that, so I would like to hear, at some point, although perhaps not today, about your detailed plans in terms of how we can ask the health boards to shift that balance from the acute sector, and to do so not only by shifting the balance from the acute sector but through investing seriously in community services.

15:48

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr i Elin Jones am y sylwadau hynny. Rwy'n cydnabod ac yn cytuno â'r hyn y mae wedi ei ddweud am wasanaethau cymdeithasol a'r cyswllt rhwng yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned a'r hyn sy'n digwydd yn y maes iechyd. Mae Elin Jones wedi ehangu ar yr agenda sydd gennyf i siarad â'r Gweinidog Cyllid yn ei gylch, ond, wrth gwrs, rwy'n hollol hapus i siarad â hi am yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud yn y maes hwnnw.

I thank Elin Jones for those comments. I recognise and agree with what she has said about social services and the link between what happens in the community and what happens in the health service. Elin Jones has added to the agenda that I have to talk to the Minister for Finance about, but, of course, I am happy to talk to her about what we can do in that area.

Mae Elin Jones wedi rhoi ei bys ar un peth diddorol iawn yn yr adroddiad, sef yr hyn y mae'n ei ddweud am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd ym Mhowys, ac yn cefn gwlad Cymru hefyd, erbyn 2025. Bydd yn rhaid inni feddwl am y ffigurau sydd yn yr adroddiad a meddwl am yr hyn y bydd yn rhaid inni ei wneud er mwyn ymateb i'r sefyllfa honno.

Elin Jones has put her finger on a very interesting point in the report, which is what it says about what is going to happen in Powys, and in rural Wales also, by 2025. We will have to think about the figures in the report and think about what we will have to do to respond to this situation.

I was very struck, when I read the report, and I think that Elin Jones made these points towards the end, at the echoes you find in this report of the Wanless review of more than a decade ago in terms of preventative spending, the need for individual citizens to be fully engaged in their own health, and thinking of all of the things that they can contribute to all of this, and the need to shift resource and activity from the acute sector and into primary and community services. The only thing that I think that I would say to Elin is that that cannot be an agenda for Government alone. If we have learned anything over that decade, it is just how difficult it is to persuade the public that the health service is not the hospital, that the health service is a service not a building, and that it is very possible to do more and to do better when we move services out of buildings that the public has become very attached to and very familiar with and provide those services in a different way.

Fe'm trawyd, wrth ddarllen yr adroddiad, ac rwyf yn meddwl bod Elin Jones wedi gwneud y pwyntiau hyn tua'r diwedd, gan yr adleisiau sydd yn yr adroddiad hwn o adolygiad Wanless dros ddegawd yn ôl o ran gwariant ataliol, yr angen i ddinasyddion unigol ymgysylltu'n llawn â'u hiechyd eu hunain, a meddwl am yr holl bethau y gallant gyfrannu at hyn oll, a'r angen i symud adnoddau a gweithgarwch o'r sector acíwt ac i mewn i wasanaethau sylfaenol a chymunedol. Yr unig beth yr wyf yn meddwl y byddwn yn ei ddweud wrth Elin yw na all hynny fod yn agenda ar gyfer Llywodraeth yn unig. Os ydym wedi dysgu rhywbeth dros y degawd hwnnw, rydym wedi dysgu pa mor anodd yw hi i ddwyn perswâd ar y cyhoedd nad yr ysbyty yw'r gwasanaeth iechyd, mai gwasanaeth yw'r gwasanaeth iechyd ac nid adeilad, a'i bod yn bosibl iawn gwneud mwy a gwneud yn well drwy symud gwasanaethau allan o adeiladau y mae'r cyhoedd wedi dod yn hoff iawn ohonynt ac yn gyfarwydd iawn â hwy, a darparu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd wahanol.

The debates that we have had in the Chamber have not always helped in conveying that message to people. If we are to succeed in the future in doing it, in the way that Nuffield gives us a very clear pointer to doing, then there will be a job of work for us all. It will definitely be a job for Government, definitely a job for health boards, and definitely a job for clinicians, but also for other influential voices in community leadership in other parts of this Chamber to help us to make that argument and to put that case to members of the public in such a way that they will understand as well the benefits that are there for them if we can make this work.

Nid yw'r dadleuon yr ydym wedi'u cael yn y Siambr bob amser wedi helpu i gyfleu'r neges honno i bobl. Os ydym am lwyddo i wneud hynny yn y dyfodol, yn y ffordd y mae Nuffield yn cyfeirio ati'n glir iawn, mae gennym i gyd waith i'w wneud. Bydd yn bendant yn waith i'r Llywodraeth, yn bendant yn waith i fyrddau iechyd, ac yn bendant yn waith i glinigwyr, ond bydd angen hefyd i leisiau dylanwadol arweinwyr cymunedol eraill mewn rhannau eraill o'r Siambr hon ein helpu i gyflwyno'r ddadl ac i gyflwyno'r achos hwnnw i'r cyhoedd fel y gallant hefyd ddeall y buddion sydd ar gael iddynt os gallwn wneud i hyn weithio.

15:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I begin by thanking the Minister for his statement this afternoon and for the publication of what is a very interesting report? This document and its sister document, which relates to the English NHS, are, I think, a real wake-up call for anybody who has a role to play or an influence on the future direction of healthcare policy across the UK. The issues around ageing and greater life expectancy for those with complex conditions are to be celebrated, but we are kidding ourselves if we think that we can solve these issues with a bit of political knockabout across this Chamber. There are some very big issues that we as politicians need to be thoughtful about in how we begin to approach them, and I think that there are real questions that we here, or people who will come after us in this Chamber, as well as MPs in Westminster, will have to really think hard about in terms of what we can expect the NHS to deliver in the medium and long term. We have to think very carefully about other forms of rationing in terms of how long people will have to wait to access these services. We already have discussions and people within the Minister's own party talking about paying for services at the point of delivery. I, personally, am totally against that. I think that what people care about and fundamentally believe the most about in terms of our NHS is that it is free at the point of delivery. We have active discussions going on about increases in national insurance contributions to be ring-fenced to address some of these challenges of paying for the NHS in the future.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac am gyhoeddi'r adroddiad diddorol iawn hwn? Mae'r ddogfen hon a'i chwaer ddogfen, sy'n ymwneud â'r GIG yn Lloegr, yn fy marn i, yn agoriad llygad go iawn i unrhyw un sydd â rhan i'w chwarae neu ddylanwad ar gyfeiriad polisi gofal iechyd ledled y DU yn y dyfodol. Dylid dathlu'r materion sy'n ymwneud â heneiddio a disgwyliad oes hwy i bobl â chyflyrau cymhleth, ond rydym yn ein twyllo ein hunain os credwn y gallwn ddatrys y materion hyn gydag ychydig o ymrafael gwleidyddol ar draws y Siambr hon. Mae rhai materion mawr iawn y mae angen i ni fel gwleidyddion eu hystyried o ran y ffordd yr ydym yn dechrau ymdrin â hwy, ac rwyf yn meddwl y bydd yn rhaid i ni yma, neu bobl a ddaw ar ein holau yn y Siambr hon, yn ogystal ag Aelodau Seneddol yn San Steffan, feddwl yn galed iawn am gwestiynau gwirioneddol ynglŷn â'r hyn y gallwn ddisgwyl i'r GIG ei gyflawni yn y tymor canolig a'r tymor hir. Rhaid inni feddwl yn ofalus iawn am fathau eraill o ddogni o ran pa mor hir y bydd yn rhaid i bobl aros i gael y gwasanaethau hyn. Rydym eisoes yn cael trafodaethau ac mae pobl o fewn plaid y Gweinidog ei hun yn sôn am dalu am wasanaethau yn y man darparu. Rwyf fi yn llwyr yn erbyn hynny. Credaf mai'r hyn y mae pobl yn poeni amdano, ac yn y bôn yn credu ynddo fwyaf, ynghylch ein GIG yw ei fod yn rhad ac am ddim yn y man darparu. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau gweithredol am neilltuo cynyddiadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol i ymdrin â rhai o'r heriau hyn ynghylch talu am y GIG yn y dyfodol.

The Minister's jibes about the coalition Government I would take slightly more seriously if there were any serious analysis of what Alistair Darling had proposed prior to the general election and the most recent comments by Ed Balls or Chris Leslie, the shadow Chief Secretary to the Treasury, who recently spelt out his approach to balancing the books and his approach to public spending. The Minister cannot get away from the fact that his colleagues in London are not promising to put right all the cuts; they are not promising an open cheque book. Therefore, there are big, fundamental questions here that transcend, I think, political knockabout. These are, fundamentally, about how we pay for a service that is highly valued and is needed the most by the poorest in our society, and how we make it a good, consistent and quality service across the UK.

Byddwn yn cymryd sylwadau gwawdiol y Gweinidog am y Llywodraeth glymblaid ychydig yn fwy o ddifrif pe bai unrhyw ddadansoddiad difrifol o'r hyn a gynigiodd Alistair Darling cyn yr etholiad cyffredinol ac o'r sylwadau mwyaf diweddar gan Ed Balls neu Chris Leslie, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn yr wrthblaid, a amlinellodd yn ddiweddar ei ymagwedd at fantoli'r cyfrifon a'i ymagwedd at wariant cyhoeddus. Ni all y Gweinidog ddianc rhag y ffaith nad yw ei gydweithwyr yn Llundain yn addo unioni'r holl doriadau; nid ydynt yn addo llyfr sieciau agored. Felly, mae cwestiynau mawr, sylfaenol yma sy'n drech, rwyf yn meddwl, nag ymrafael gwleidyddol. Mae'r rhain, yn y bôn, yn ymwneud â sut yr ydym yn talu am wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr ac sydd ei angen fwyaf ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas, a sut yr ydym yn ei wneud yn wasanaeth da, cyson a safonol ledled y DU.

The productivity challenges—and I welcome very much the evidence in this report that demonstrates that productivity in the Welsh NHS is improving—that we are facing are different and difficult because we have an unprecedented period of restraint in funding for the NHS, not just in Wales, but also in England; it is a different set of figures, but it is still restraint in funding. In addition, it has been longer lasting and, potentially, will continue. That is also coinciding with major potential reorganisation within the Welsh NHS. It is difficult to keep your eye on the ball when some of these big changes are happening. However, we have demonstrated previously in the Welsh NHS that it can be done. Efficiency figures in England also demonstrate, I think, that there is more to be achieved. We cannot just say, 'That's it; we've done it'; there is more to be achieved. So, may I ask the Minister, given what the report states about length of stay—acknowledging that lengths of stay in Wales are going down, it is still an outlier if you look at it compared to other parts of the NHS in the UK—whether he could outline what his thinking is on how we can drive lengths of stay down even further?

Mae'r heriau o ran cynhyrchiant—ac rwyf yn croesawu'n fawr y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn sy'n dangos bod cynhyrchiant yn y GIG yng Nghymru yn gwella—yr ydym yn eu hwynebu'n wahanol ac yn anodd oherwydd mae gennym gyfnod digynsail o gyfyngu ar gyllid i'r GIG, nid yn unig yng Nghymru, ond yn Lloegr hefyd; mae'n set wahanol o ffigurau, ond mae'n dal i fod yn gyfyngu ar gyllid. Hefyd, mae wedi para'n hwy ac, o bosibl, bydd yn parhau. Mae hynny hefyd yn cyd-daro ag ad-drefnu mawr posibl o fewn y GIG yng Nghymru. Mae'n anodd cadw eich llygad ar y bêl pan fo rhai o'r newidiadau mawr hyn yn digwydd. Fodd bynnag, rydym wedi dangos o'r blaen yn y GIG yng Nghymru y gellir gwneud hynny. Mae ffigurau effeithlonrwydd yn Lloegr hefyd yn dangos, rwyf yn credu, fod mwy i'w gyflawni. Ni allwn ddweud, 'Dyna ni; rydym wedi ei wneud e'; mae mwy i'w gyflawni. Felly, a gaf fi ofyn i'r Gweinidog, ac ystyried yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddatgan am hyd arosiadau—gan gydnabod bod hyd arosiadau yng Nghymru'n mynd i lawr, mae'n dal i fod yn ystadegyn anarferol os edrychwch arno o gymharu â rhannau eraill o'r GIG yn y DU—a wnaiff amlinellu'r hyn y mae'n ei feddwl am sut y gallwn leihau hyd arosiadau ymhellach eto?

Darren Millar mentioned the quotation about access to GPs. The report does state that we have fewer whole-time equivalent GPs per 1,000 population, and highlights that as a potential area for driving efficiency as we treat more people in primary care, which is more cost-effective than doing so in secondary care. I wonder whether the Minister could outline when we could expect a major policy statement from the Government with regard to primary care services.

Soniodd Darren Millar am y dyfyniad am fynediad at feddygon teulu. Mae'r adroddiad yn datgan bod gennym lai o feddygon teulu cyfwerth ag amser llawn i bob 1,000 o'r boblogaeth, ac mae'n tynnu sylw at hynny fel maes lle gellid cynyddu effeithlonrwydd wrth inni drin mwy o bobl mewn gofal sylfaenol, sy'n fwy cost-effeithiol na gwneud hynny mewn gofal eilaidd. Tybed a allai'r Gweinidog amlinellu pryd y gallem ddisgwyl datganiad polisi pwysig gan y Llywodraeth am wasanaethau gofal sylfaenol.

The issue of regional variations, I think, are stark. They are very stark in this report, as we see the impact of an ageing population on demand, as opposed to just a general rise in population figures overall. I suspect, Minister, that we could close every single community hospital in Powys and we would still have an organisation that would have a major, major budget problem. Those budget problems do not arise out of the services that we deliver ourselves within Powys. They arise out of the services that we have to purchase on behalf of Powys patients from other parts of the Welsh NHS. I think that we do have to look at how money flows through the Welsh NHS, and what that means for the sustainability of an organisation like Powys LHB going into the future, and I wonder whether you have any comments to make as to whether you are actively reviewing how money flows through the Welsh NHS.

Mae amrywiadau rhanbarthol, yn fy marn i, yn amlwg iawn. Maent yn amlwg iawn yn yr adroddiad hwn, wrth inni weld effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y galw, yn hytrach na dim ond cynnydd cyffredinol yn ffigurau'r boblogaeth yn gyffredinol. Credaf, Weinidog, y gallem gau pob ysbyty cymuned ym Mhowys ac y byddai gennym yn dal i fod sefydliad â phroblem fawr, fawr o ran ei gyllideb. Nid yw'r problemau cyllidebol hynny'n deillio o'r gwasanaethau a ddarperir gennym ein hunain ym Mhowys. Maent yn deillio o'r gwasanaethau y mae'n rhaid inni eu prynu ar ran cleifion Powys o rannau eraill o'r GIG yng Nghymru. Rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni edrych ar sut y mae arian yn llifo drwy'r GIG yng Nghymru, a'r hyn y bydd hynny'n ei olygu i gynaliadwyedd sefydliad fel Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn y dyfodol, a tybed a oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch a ydych yn mynd ati i adolygu sut y mae arian yn llifo drwy'r GIG yng Nghymru.

One of the areas identified in the report for possible savings is harm reduction. Given the questions that we heard earlier about figures being paid out by one health board in terms of harm inflicted by that health board, what can we do to reduce harm within the NHS and save in that way? The easy answer, of course, is just to chuck more money into the Welsh NHS pot. That is easily done, but what assessment have you made of doing that in terms of the impact on other services? That is the big question that we have: we can put more money in, but it has to come from somewhere else. Potentially, that comes from social services budgets, education budgets, housing budgets, arts budgets, planning budgets—all of the things that potentially have an impact on health. Cuts in those areas can just drive more people into the NHS and result in more cost to that particular service. So, my question is: what work is the Government undertaking to assess what impact cuts in other areas to fund increases in the health budget may have on the health of the nation going forward?

Un o'r meysydd a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer arbedion posibl yw lleihau niwed. Ac ystyried y cwestiynau a glywsom yn gynharach am ffigurau'n cael eu talu gan un bwrdd iechyd o ran niwed a achoswyd gan y bwrdd iechyd hwnnw, beth y gallwn ei wneud i leihau niwed o fewn y GIG ac arbed yn y ffordd honno? Yr ateb hawdd, wrth gwrs, yw taflu mwy o arian i mewn i bair y GIG yng Nghymru. Mae'n hawdd gwneud hynny, ond pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o effaith gwneud hynny ar wasanaethau eraill? Dyna'r cwestiwn mawr inni: gallwn roi mwy o arian i mewn, ond rhaid iddo ddod o rywle arall. Gallai ddod o gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, cyllidebau addysg, cyllidebau tai, cyllidebau'r celfyddydau, cyllidebau cynllunio—yr holl bethau a all gael effaith ar iechyd. Gall toriadau yn y meysydd hynny yrru mwy o bobl i mewn i'r GIG ac arwain at fwy o gost i'r gwasanaeth penodol hwnnw. Felly, fy nghwestiwn yw: pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i asesu pa effaith y gallai toriadau mewn meysydd eraill i ariannu cynnydd yn y gyllideb iechyd ei chael ar iechyd y genedl yn y dyfodol?

15:58

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for what was a very thoughtful contribution. I am going to try to deal with some of the specific questions that she raised at the end, and then come back to a couple of more general points that she made. The report is, as she said, closely associated with the report that Nuffield did into the English NHS some 18 months ago. The strains and stresses that we face in Wales are not unique to us. The King's Fund last month published its estimate of the financial state of the English NHS. Professor John Appleby, its chief economist, said that:

Diolch i Kirsty Williams am gyfraniad meddylgar iawn. Ceisiaf ateb rhai o'r cwestiynau penodol a godwyd ganddi ar y diwedd, ac yna dof yn ôl at rai o'i phwyntiau mwy cyffredinol. Mae cysylltiad agos, fel y dywedodd, rhwng yr adroddiad a'r adroddiad a wnaeth Nuffield ar y GIG yn Lloegr tua 18 mis yn ôl. Nid yw'r straen a'r pwysau sy'n ein hwynebu yng Nghymru'n unigryw i ni. Y mis diwethaf, cyhoeddodd y King's Fund eu hamcangyfrif o gyflwr ariannol y GIG yn Lloegr. Dywedodd yr Athro John Appleby, eu prif economegydd:

'It is now a question of when, not if, the English NHS runs out of money.'

Mae bellach yn fater o pryd, nid os, y daw arian y GIG yn Lloegr i ben.

So, it is stark wherever we are. There is some good news in the Nuffield report for Wales in that it states that we face a 3.2% annual efficiency challenge, while, in England, the efficiency challenge is 3.9% every year because its population is growing faster than ours. It is as simple as that, but it does mean that the hill is steeper for them than it is even for us.

Felly, mae'n llwm ym mhle bynnag yr ydym. Mae rhywfaint o newyddion da yn adroddiad Nuffield i Gymru gan ei fod yn dweud ein bod yn wynebu her effeithlonrwydd flynyddol o 3.2%, ac, yn Lloegr, mae'r her effeithlonrwydd yn 3.9% y flwyddyn oherwydd bod ei phoblogaeth yn tyfu'n gynt na'n poblogaeth ni. Mae mor syml â hynny, ond mae'n golygu bod y bryn hyd yn oed yn fwy serth iddynt hwy nag ydyw i ni.

The productivity challenge is real, but Nuffield's projection to 2025 assumes a 1.5% annual productivity gain in the Welsh NHS, then points out that that is 0.5% lower than the Office for Budget Responsibility is assuming for the economy as a whole and lower than what has been achieved in the NHS in the past two years. So, it takes a relatively cautious approach to what can be achieved through efficiency gains. There is more that we can do to reduce length of stay. There are practical things that the NHS does: admitting people on the day of operations, rather than admitting them the day before, and making sure that everything that is needed before an operation is done on an outpatient basis. There are huge regional variations within Wales—not just the ones that Elin Jones and Kirsty Williams referred to. There is a very interesting set of figures published by Public Health Wales in the last two weeks that shows regional variation in the level of procedures being carried out. Your chances of hanging on to your tonsils in Ynys Môn, I can tell you, are considerably less than in any other part of Wales. Tonsils are removed in Ynys Môn at more than twice the rate of any other part of Wales. That cannot be because tonsils on the island are particularly difficult, can it? [Laughter.] It can just mean regional variation in the way that best practice is not uniformly achieved right across Wales. There is certainly more that we can do there.

Mae'r her o ran cynhyrchiant yn un wirioneddol, ond mae rhagamcan Nuffield hyd at 2025 yn tybio y bydd y GIG yng Nghymru'n ennill 1.5% o gynhyrchiant yn flynyddol, ac yna'n nodi bod hynny 0.5% yn is nag y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei dybio ar gyfer yr economi yn ei chyfanrwydd ac yn is na'r hyn a gyflawnwyd yn y GIG yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Felly, mae'n dangos agwedd gymharol ofalus at yr hyn y gellir ei gyflawni drwy enillion effeithlonrwydd. Gallwn wneud mwy i leihau hyd arosiadau. Mae'r GIG yn gwneud pethau ymarferol: derbyn pobl ar ddiwrnod llawdriniaeth, yn hytrach na'u derbyn y diwrnod cynt, a gwneud yn siŵr bod popeth sydd ei angen cyn llawdriniaeth yn cael ei wneud ar sail cleifion allanol. Mae amrywiadau rhanbarthol enfawr yng Nghymru—nid dim ond y rhai y cyfeiriodd Elin Jones a Kirsty Williams atynt. Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfres ddiddorol iawn o ffigurau yn ystod y pythefnos diwethaf sy'n dangos amrywiad rhanbarthol yn nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu cynnal. Mae eich siawns o gadw eich tonsiliau yn Ynys Môn, gallaf ddweud wrthych, gryn dipyn yn llai nag yn unrhyw ran arall o Gymru. Caiff tonsiliau eu tynnu yn Ynys Môn dros ddwywaith yn amlach nag yn unrhyw ran arall o Gymru. Ni all hynny fod oherwydd bod tonsiliau ar yr ynys yn arbennig o anodd, oni all? [Chwerthin.] Yr unig beth y gall ei olygu yw amrywiad rhanbarthol yn y modd na chaiff arfer gorau ei gyflawni'n unffurf ar draws Cymru. Yn sicr, gallwn wneud mwy yn hynny o beth.

Powys is, in many ways, a special case. It is a special case for these reasons too. The Williams commission report is the basis on which, in Government, we will be looking to see how we can resolve some of the issues that Kirsty Williams has mentioned this afternoon. We are doing work on the distribution formula in the Welsh NHS. I met recently with the chief medical officer and others for an extended session in which we looked in detail at some of the work that we need to set in train to look at the way in which funding is distributed in the Welsh NHS. I heard the Minister for Finance gulp when Kirsty Williams said that finding more money for the Welsh NHS was easily done. It does not seem like that in Government. However, we know from this report that there is a job of looking to see how the gaps that the report identifies can be bridged, and that is the work that we will be doing over the summer.

Mae Powys, mewn llawer o ffyrdd, yn achos arbennig. Mae'n achos arbennig am y rhesymau hyn hefyd. Adroddiad comisiwn Williams yw'r sail y byddwn ni, yn y Llywodraeth, yn ei defnyddio i weld sut y gallwn ddatrys rhai o'r materion y mae Kirsty Williams wedi sôn amdanynt y prynhawn yma. Rydym yn gwneud gwaith ar y fformiwla ddosbarthu yn y GIG yng Nghymru. Cyfarfûm yn ddiweddar â'r prif swyddog meddygol ac eraill mewn sesiwn estynedig lle buom yn edrych yn fanwl ar rywfaint o'r gwaith y mae angen inni ei ddechrau i edrych ar sut y caiff arian ei ddosbarthu yn y GIG yng Nghymru. Clywais y Gweinidog Cyllid yn llowcio pan ddywedodd Kirsty Williams ei bod yn hawdd dod o hyd i fwy o arian i'r GIG yng Nghymru. Nid yw'n ymddangos felly yn y Llywodraeth. Fodd bynnag, gwyddom o'r adroddiad hwn fod gwaith i'w wneud i weld sut y gellir pontio'r bylchau y mae'r adroddiad yn eu nodi, a dyna'r gwaith y byddwn yn ei wneud dros yr haf.

16:02

## Datganiad: Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig

## Statement: The Future of Glastir under the Rural Development Plan

Senedd.tv
Fideo Video

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I have today published analysis of the feedback from the recent consultation on the future of Glastir under the next rural development programme and my decisions on the way forward. The full report is available on the Welsh Government website. In the coming weeks, I will make a statement on the broader measures that we intend to pursue under the new RDP. The next rural development programme provides a critical opportunity to support an approach to land management in Wales that addresses all three pillars of sustainability. I have already taken the decisions to ensure that there will be increased funding available under the next programme—the largest and most ambitious in our history. A significant proportion of the new budget will be allocated to sustainable land management schemes. Glastir will continue to be the primary delivery model for agri-environment, forestry and climate measures under the next RDP. It has a fundamental role to play within our overall approach to the strategic management of our natural resources.

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r adborth o'r ymgynghoriad diweddar ar ddyfodol Glastir o dan y rhaglen datblygu gwledig nesaf a'm penderfyniadau am y ffordd ymlaen. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn yr wythnosau nesaf, byddaf yn gwneud datganiad am y mesurau ehangach yr ydym yn bwriadu mynd ar eu trywydd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Mae'r rhaglen datblygu gwledig nesaf yn cynnig cyfle allweddol i gefnogi ymagwedd at reoli tir yng Nghymru sy'n rhoi sylw i bob un o'r tair colofn cynaliadwyedd. Rwyf eisoes wedi penderfynu sicrhau y bydd mwy o gyllid ar gael o dan y rhaglen nesaf—y fwyaf a'r fwyaf uchelgeisiol yn ein hanes. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb newydd yn cael ei dyrannu i gynlluniau rheoli tir cynaliadwy. Glastir fydd y prif fodel cyflwyno o hyd ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol, coedwigaeth a hinsawdd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Mae ganddo ran sylfaenol i'w chwarae yn ein hymagwedd gyffredinol tuag at reoli ein hadnoddau naturiol yn strategol.

Since my stocktake of Glastir in 2012, the scheme has continued to grow in popularity. In total, we now have more than 5,350 individual farm businesses participating in Glastir—far more than any previous agri-environment scheme here. The Glastir entry scheme has over 4,200 participants; there are over 1,000 in the Glastir advanced scheme; and the Glastir commons scheme now covers approximately 110,000 ha, or 63%, of common land in Wales. In the last year, we also saw an uplift in applications for the Glastir woodland creation scheme, with over 200 new contracts signed. The further development of Glastir under the next RDP is therefore of significance to us all, and is reflected in the comprehensive and enthusiastic response to the consultation on the Glastir scheme's future, which I launched in January of this year. In total, 148 responses were received from a wide range of interested parties. I would like to place on record my thanks to all those who took the time to consider the consultation proposals and who set out their views. I have carefully considered all the responses received and have made a number of decisions for the future.

Ers imi bwyso a mesur Glastir yn 2012, mae'r cynllun wedi parhau i ddod yn fwyfwy poblogaidd. Yn gyfan gwbl, mae gennym bellach fwy na 5,350 o fusnesau fferm unigol sy'n cymryd rhan yn Glastir—llawer mwy nag unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol blaenorol yma. Mae dros 4,200 yn cymryd rhan yng nghynllun mynediad Glastir; mae dros 1,000 yn y cynllun Glastir uwch; ac mae'r cynllun comin Glastir bellach yn cwmpasu tua 110,000 ha, neu 63%, o dir comin yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau ar gyfer cynllun creu coetiroedd Glastir, ac mae dros 200 o gontractau newydd wedi'u llofnodi. Felly mae datblygu Glastir ymhellach o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf o bwys i ni i gyd, ac adlewyrchir hynny yn yr ymateb cynhwysfawr a brwdfrydig i'r ymgynghoriad ar ddyfodol cynllun Glastir, a lansiais ym mis Ionawr eleni. Yn gyfan gwbl, daeth 148 o ymatebion i law oddi wrth ystod eang o bartïon â diddordeb. Hoffwn gofnodi fy niolch i bawb a roddodd o'u hamser i ystyried y cynigion ymgynghori ac a roddodd eu barn. Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a ddaeth i law ac wedi gwneud nifer o benderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

The report that I have published today outlines the views received, as well as the Welsh Government's response. It is set in the context of our vision for a thriving natural environment and strong rural economies and communities. The Welsh Government has legal obligations to deliver environmental outcomes, as well as to have high aspirations to protect and enhance our natural resources. In order to deliver these ambitions, I need to ensure that the resources available are utilised to deliver the best value for the Welsh taxpayer. To this end, during the next RDP, I intend to increase the funding allocation to the advanced and woodland elements of Glastir. Glastir advanced is a pioneering and widely respected approach to targeting RDP money to where it can deliver to best effect, using an integrated ecosystems approach. It is a break from, and an improvement on, the traditional approach to agri-environment schemes. Glastir, in its latest form, is designed to maximise the potential to work powerfully in tandem with other measures, such as the new nature action zones that I announced last month, and be compatible with our plans to lever more private funding into the delivery of ecosystems services.

Mae'r adroddiad yr wyf wedi ei gyhoeddi heddiw yn amlinellu'r sylwadau a ddaeth i law, yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru. Mae wedi ei osod yng nghyd-destun ein gweledigaeth ar gyfer amgylchedd naturiol sy'n ffynnu ac economïau a chymunedau gwledig cryf. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau cyfreithiol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol, yn ogystal â sicrhau dyheadau uchel i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, mae angen imi sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio i ddarparu'r gwerth gorau i drethdalwyr Cymru. I'r perwyl hwnnw, yn ystod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf, rwyf yn bwriadu cynyddu'r dyraniad cyllid i elfennau uwch a choetir Glastir. Mae Glastir uwch yn ddull arloesol ac uchel ei barch o dargedu arian y Cynllun Datblygu Gwledig lle y gall gael yr effaith fwyaf, gan ddefnyddio dull ecosystemau integredig. Mae'n gwbl wahanol i'r ymagwedd draddodiadol at gynlluniau amaeth- amgylcheddol, ac yn welliant. Bwriedir i Glastir, yn ei ffurf ddiweddaraf, wneud y gorau o'r potensial i weithio'n rymus ar y cyd â mesurau eraill, megis y parthau gweithredu natur newydd a gyhoeddais y mis diwethaf, a bod yn gydnaws â'n cynlluniau i ysgogi mwy o arian preifat i gyflwyno gwasanaethau ecosystemau.

New, stand-alone small grant and habitat network components will be introduced to the Glastir scheme, which will be available in 2016 for farmers wishing to undertake environmental works on only part of their farms. These new additions will complement the current support tool and give greater freedom for land managers to undertake specific on-farm actions or to co-operate with others to deliver joined-up environmental services. It remains critical to meeting our climate change objectives that we further increase woodland planting and the extent to which existing woodlands are brought under active management. I cannot, of course, overlook the potential impact of Phytophthera ramorum and other tree diseases on our existing woodland resource. I am therefore proposing to fund the monitoring of disease spread and re-stocking through the new Glastir, ensuring that both woodland planting and sustainable woodland management can continue.

Bydd cydrannau grantiau bach a rhwydweithiau cynefinoedd newydd, annibynnol yn cael eu cyflwyno i'r cynllun Glastir, a fydd ar gael yn 2016 i ffermwyr sydd am wneud gwaith amgylcheddol ar ddim ond rhan o'u ffermydd. Bydd yr ychwanegiadau newydd hyn yn ategu'r offeryn cefnogi presennol ac yn rhoi mwy o ryddid i reolwyr tir i gymryd camau penodol ar y fferm neu i gyd-weithio ag eraill i ddarparu gwasanaethau amgylcheddol cydgysylltiedig. Mae'n dal i fod yn hollbwysig er mwyn cyflawni ein hamcanion newid yn yr hinsawdd ein bod yn parhau i blannu mwy o goetir a chynyddu'r graddau y mae coetiroedd presennol yn cael eu dwyn o dan reolaeth weithredol. Ni allaf, wrth gwrs, anwybyddu effaith bosibl Phytophthera ramorum a chlefydau eraill ar goed ar ein hadnodd coetir presennol. Rwyf felly'n bwriadu ariannu'r gwaith o fonitro lledaeniad clefydau ac ailstocio drwy Glastir newydd, gan sicrhau y gall plannu coetiroedd a rheoli coetiroedd yn gynaliadwy barhau.

A new sustainable production grant within the wider RDP will also be open to all farm businesses, replacing the Glastir efficiency grant. This will be the key capital investment scheme for farmers under the next programme. My ambition for Welsh agriculture is very clear: we need to move forward and stimulate on-farm investment to increase resource efficiency, enhance technical performance, and develop businesses. I will say more about this in a few weeks' time.

Bydd grant cynhyrchu cynaliadwy newydd o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig ehangach hefyd yn agored i bob busnes fferm, ac yn disodli grant effeithlonrwydd Glastir. Hwn fydd y cynllun buddsoddi cyfalaf allweddol ar gyfer ffermwyr o dan y rhaglen nesaf. Mae fy uchelgais ar gyfer amaethyddiaeth Cymru yn glir iawn: mae angen inni symud ymlaen a symbylu buddsoddi ar y fferm er mwyn gwneud adnoddau'n fwy effeithlon, gwella perfformiad technegol, a datblygu busnesau. Byddaf yn dweud mwy am hyn ymhen ychydig wythnosau.

The proposals outlined in the report will form part of our formal RDP proposals to the European Commission, and will be subject to its approval before they can be launched. Together with the other investment vehicles that I will propose under the wider RDP, these new Glastir arrangements will play a vital role in unlocking the potential for green growth in Wales, and in ensuring that our natural resources are managed sustainably for generations to come.

Bydd y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad yn rhan o'n cynigion ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Gwledig i'r Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn amodol ar ei gymeradwyaeth cyn y gellir eu lansio. Ynghyd â'r cyfryngau buddsoddi eraill y byddaf yn eu cynnig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ehangach, bydd y trefniadau Glastir newydd yn chwarae rhan hanfodol o safbwynt rhyddhau potensial ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru, a sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy am genedlaethau i ddod.

16:07 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his statement and for the consultation analysis document that was issued this morning—I clearly have not had time to read it in any detail yet.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am y ddogfen ymgynghori a dadansoddi a gyhoeddwyd y bore yma—wrth gwrs, nid wyf wedi cael amser i'w darllen yn fanwl eto.

Glastir will remain the primary mechanism for the delivery of your long-term forestry and agri-environment policies under the next RDP. You have also stated that it must additionally be the principal driver to achieve other Government priorities, including green growth, enhancing resilience and diversity in tackling poverty. Therefore, it is absolutely critical that you and your officials have learnt the lessons from the scheme's past weaknesses, because there is no getting away from the fact that when the scheme was initially devised and rolled out, the application process was too long and complex, communications between Welsh Government and Welsh farmers were poor, and that there was too much Government interference, which gave way to a number of ambiguities and inconsistencies. It is vital that the new five-year successor scheme establishes stronger connections with the agriculture sector, so that there is a more comprehensive buy-in regarding what is to be expected in terms of participation and what needs to be achieved in terms of Government objectives. Therefore, Minister, it would be helpful to understand what lessons you have learnt regarding communicating Welsh Government objectives to the beneficiaries of Glastir, so that you will be able to quickly break down the perception barriers.

Glastir fydd y prif fecanwaith o hyd ar gyfer cyflwyno eich polisïau coedwigaeth ac amaeth-amgylcheddol tymor hir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Rydych hefyd wedi dweud y bydd yn rhaid iddo hefyd fod yn brif sbardun i gyflawni blaenoriaethau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys twf gwyrdd, gwella cydnerthedd ac amrywiaeth wrth drechu tlodi. Felly, mae'n gwbl hanfodol eich bod chi a'ch swyddogion wedi dysgu'r gwersi o wendidau'r cynllun yn y gorffennol, oherwydd nid oes dianc rhag y ffaith bod y broses ymgeisio, pan gafodd y cynllun ei lunio a'i gyflwyno yn y lle cyntaf, yn rhy hir a chymhleth, bod y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a ffermwyr Cymru yn wael, a bod gormod o ymyrraeth gan y Llywodraeth, a oedd yn peri llawer o amwysedd ac anghysondebau. Mae'n hanfodol bod y cynllun pum mlynedd newydd hwn yn meithrin cysylltiadau cryfach â'r sector amaethyddiaeth, er mwyn sicrhau bod ymrwymiad mwy cynhwysfawr o ran yr hyn sydd i'w ddisgwyl o ran cyfranogi a'r hyn y mae angen ei gyflawni o ran amcanion y Llywodraeth . Felly, Weinidog, byddai'n ddefnyddiol deall pa wersi a ddysgwyd gennych ynghylch cyfleu amcanion Llywodraeth Cymru i fuddiolwyr Glastir, er mwyn ichi allu goresgyn y rhwystrau o ran canfyddiad yn gyflym.

I was also interested to hear your announcement regarding increasing the funding allocation to the advanced and woodland elements of Glastir. Could you set out the budget allocations and what they will look like in relation to this additional investment?

Roedd yn ddiddorol hefyd clywed eich cyhoeddiad ynghylch cynyddu'r dyraniad cyllid i elfennau uwch a choetir Glastir. A wnewch chi nodi dyraniadau'r gyllideb a sut y byddant yn edrych mewn perthynas â'r buddsoddiad ychwanegol hwn?

There is, Minister, as you will be aware, the debate on how limiting the successor programme should be. The NFU, for example, believes that if the new scheme is to achieve the greatest position success, it should not be limiting or constraining as a scheme, but should be open to all farmers and landowners in Wales, irrespective of farm enterprise or type, and that the budget provision should match that objective. However, there are also those existing contract holders who will have made a conscious choice to participate in the advanced scheme and may have already started to implement land-management changes who may have cause for concern if there was a wholesale move to open up elements of the new Glastir scheme. Can you tell me how strongly this debate was played out in the consultation process and how you intend to balance these two competing views in the new scheme?

Weinidog, fel y gwyddoch, mae trafodaeth ynghylch pa mor gyfyngol y dylai'r rhaglen olynol fod. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, er enghraifft, o'r farn na ddylai'r cynllun newydd, os yw am sicrhau'r llwyddiant mwyaf, fod yn gyfyngol nac yn gaethiwus, ond y dylai fod yn agored i bob ffermwr a thirfeddiannwr yng Nghymru, waeth beth fo'r fenter neu'r math o fferm, ac y dylai darpariaeth y gyllideb gyd-fynd â'r amcan hwnnw. Fodd bynnag, mae hefyd y deiliaid contractau presennol hynny a fydd wedi gwneud dewis bwriadol i gymryd rhan yn y cynllun uwch ac a fydd eisoes efallai wedi dechrau gweithredu newidiadau rheoli tir a allai fod â lle i bryderu pe bai symudiad ar raddfa eang i agor elfennau o'r cynllun Glastir newydd. A allwch chi ddweud wrthyf pa mor gryf oedd y ddadl honno yn y broses ymgynghori a sut yr ydych yn bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau safbwynt gwahanol iawn hyn yn y cynllun newydd?

There are concerns that there may be further Government interference at other stages of the programme cycle to limit other aspects of the scheme. Can you outline what monitoring processes will be put in place to identify short-term changes as well as long-term trends? I know that concerns were raised about some of the biodiversity aspects of Glastir and whether or not objective outcomes will be achieved with some of the measures. I am interested to learn about the detail of these new, stand-alone small grant and habitat network components and wonder whether the Minister can flesh out some more details on the aspects contained within them.

Mae pryderon y gallai fod ymyrraeth bellach gan y Llywodraeth ar adegau eraill yng nghylch y rhaglen i gyfyngu ar agweddau eraill ar y cynllun. A wnewch chi amlinellu pa brosesau monitro fydd yn cael eu rhoi ar waith i nodi newidiadau tymor byr yn ogystal â thueddiadau tymor hir? Gwn fod pryderon wedi eu codi am rai agweddau ar Glastir yn ymwneud â bioamrywiaeth ac a fydd canlyniadau amcanion yn cael eu cyflawni ai peidio o ran rhai o'r mesurau. Byddai’n dda gennyf gael gwybod am fanylion y cydrannau grantiau bach a rhwydweithiau cynefinoedd newydd, annibynnol a tybed a all y Gweinidog roi mwy o fanylion am yr agweddau sydd ynddynt.

In relation to moorland, there has been a general welcome of the Government’s recognition regarding undergrazing in the uplands and adopting a more flexible, seasonal approach to prevent that from happening. You will be aware that I raised the issue with your colleague the Minister for business last week regarding the categorisation of moorland and the concerns that have been expressed that the mapping process that took place in 1992 was inaccurate. I understand that that is part of pillar 1, but there are obvious overlapping implications to any additional targeted payments made within the advanced scheme for environmental goods and ecosystems services. I would welcome any comment from you on that.

O ran rhostir, bu croeso cyffredinol i gydnabyddiaeth y Llywodraeth ynghylch tanbori yn yr ucheldiroedd a mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg, dymhorol i atal hynny rhag digwydd. Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi'r mater â'ch cydweithiwr, y Gweinidog busnes yr wythnos diwethaf ynghylch categoreiddio rhostir a'r pryderon a fynegwyd bod y broses fapio a gynhaliwyd ym 1992 yn anghywir. Rwyf yn deall bod hynny'n rhan o golofn 1, ond mae goblygiadau amlwg sy’n gorgyffwrdd i unrhyw daliadau ychwanegol wedi'u targedu yn y cynllun uwch ar gyfer nwyddau amgylcheddol a gwasanaethau ecosystemau. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gennych ar hynny.

In relation to online payments, I saw somewhere in your document that you hope to have online transitions in place by 2016. That does seem a little optimistic. I wonder whether you can comment on that. Finally, the forestry element of Glastir will be vital. The environment committee has received evidence over the last few weeks about the need to radically expand the forestry industry in Wales as we are not growing enough trees, either for long-term stability for the timber industry or to ensure our long-term carbon and water storage. The traffic-lights planning system for woodland was controversial and ineffective, so could you give us some idea about how the planning process might be reformed?

O ran taliadau ar-lein, gwelais yn rhywle yn eich dogfen eich bod yn gobeithio sicrhau bod trawsnewidiadau ar-lein ar waith erbyn 2016. Mae hynny'n ymddangos braidd yn optimistaidd. Tybed a allech sôn am hynny. Yn olaf, bydd elfen goedwigaeth Glastir yn hanfodol. Mae pwyllgor yr amgylchedd wedi derbyn tystiolaeth dros yr ychydig wythnosau diwethaf am yr angen i ehangu'r diwydiant coedwigaeth yn sylweddol yng Nghymru, gan nad ydym yn tyfu digon o goed ar gyfer sefydlogrwydd hirdymor y diwydiant pren nac i sicrhau ein storfeydd carbon a dŵr yn y tymor hir. Mae'r system gynllunio goleuadau traffig ar gyfer coetiroedd yn ddadleuol ac yn aneffeithiol, felly a allwch roi rhyw syniad inni ynghylch sut y gallai'r broses gynllunio gael ei diwygio?

16:13

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In answering the questions—. I welcome the Conservative spokesperson’s general welcome for the announcement that I have made today. The Conservative spokesperson started his remarks by looking back over Glastir and its introduction. He will remember, as will other Members, that I addressed all of those issues as part of my stocktake in 2012. I accepted many of the points that have been made again this afternoon in that stocktake. I took actions in order to address all the issues and weaknesses that he has raised this afternoon, including communications and the perception barriers, which the Member rightly concludes did create difficulties for Glastir at that time.

Wrth ateb y cwestiynau—. Rwyf yn croesawu croeso cyffredinol llefarydd y Ceidwadwyr i’r cyhoeddiad yr wyf wedi'i wneud heddiw. Dechreuodd llefarydd y Ceidwadwyr ei sylwadau drwy edrych yn ôl dros Glastir a'r broses o’i gyflwyno. Bydd yn cofio, fel y bydd Aelodau eraill, fy mod wedi rhoi sylw i'r holl faterion hynny wrth bwyso a mesur yn 2012. Derbyniais lawer o'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud eto y prynhawn yma yn y gwaith pwyso a mesur hwnnw. Cymerais gamau i fynd i'r afael â'r holl faterion a’r gwendidau a gododd y prynhawn yma, gan gynnwys cyfathrebu a'r rhwystrau o ran canfyddiad, y mae'r Aelod yn dweud yn briodol iddynt greu anawsterau i Glastir ar y pryd.

I would, however, disagree that those issues are as pertinent today as they were then. To look at the numbers, to look at the amount of people who are now taking part in Glastir, and the interest in the scheme, one would assume that many of those issues have been addressed successfully. Certainly, the fact that, for example, 63% of all common land in Wales is now sustainably managed for the very first time is a very real achievement of this scheme and of the principles that underpin and underline the scheme. I hope that those weaknesses have been addressed. My feeling is that they have been by now.

Er hynny, byddwn yn anghytuno bod y materion hynny mor berthnasol heddiw ag yr oeddent bryd hynny. O edrych ar y niferoedd, o edrych ar faint o bobl sydd bellach yn cymryd rhan yn Glastir, a'r diddordeb yn y cynllun, byddai rhywun yn tybio bod llawer o'r materion hynny wedi cael sylw’n llwyddiannus. Yn sicr, mae'r ffaith, er enghraifft, fod 63% o'r holl dir comin yng Nghymru bellach yn cael ei reoli'n gynaliadwy am y tro cyntaf yn llwyddiant gwirioneddol i’r cynllun hwn ac i'r egwyddorion sy'n ategu ac yn tanlinellu’r cynllun. Rwyf yn gobeithio bod y gwendidau hynny wedi cael sylw. Fy nheimlad yw eu bod wedi cael sylw erbyn hyn.

In terms of budget allocations, Members will be aware that I will be making a further statement on the rural development plan on 8 July in the Chamber. I will make a more detailed statement on budget allocations at that time. However, Members will also remember that, when I was a Deputy Minister looking at the RDP, I did say that we would look at around 60% provision of funding for Glastir for the land-management schemes. We will deliver on that commitment. Within that 60%, we looked at having a balance between the different elements. It is my view that the entry scheme should not move far beyond 20% of the total scheme budget and there should be a clear priority given to Glastir advanced. At the moment, that is taking up around 45% of total budget allocations, and I would probably like to see that move up a little in terms of where we are actually spending the money, so that at least half of that money is going into the uplands, where we can deliver the best environmental and economic benefits.

O ran dyraniadau’r gyllideb, bydd yr Aelodau'n ymwybodol y byddaf yn gwneud datganiad pellach ar y cynllun datblygu gwledig ar 8 Gorffennaf yn y Siambr. Byddaf yn gwneud datganiad mwy manwl ar ddyraniadau’r cyllidebau bryd hynny. Fodd bynnag, bydd yr Aelodau hefyd yn cofio, pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog yn edrych ar y Cynllun Datblygu Gwledig, y dywedais y byddem yn edrych ar ddarparu tua 60% o gyllid Glastir ar gyfer y cynlluniau rheoli tir. Byddwn yn cadw at yr ymrwymiad hwnnw. O fewn y 60%, buom yn edrych ar sicrhau cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau. Yn fy marn i, ni ddylai'r cynllun mynediad symud ymhell y tu hwnt i 20% o gyfanswm cyllideb y cynllun a dylid rhoi blaenoriaeth glir i Glastir uwch. Ar hyn o bryd, mae hynny’n cymryd tua 45% o gyfanswm dyraniadau’r gyllideb, ac mae'n debyg y byddwn yn hoffi gweld hynny’n symud i fyny ychydig o ran lle’r ydym mewn gwirionedd yn gwario'r arian, fel bod o leiaf hanner yr arian yn mynd i mewn i’r ucheldir, lle y gallwn sicrhau'r buddion amgylcheddol ac economaidd gorau.

I am aware of what has been said and, clearly, the document that we published this morning emphasised that people wanted to have an entry scheme that is available to everyone. Clearly, you have also opposed the measures that I have put in place to enable us to pay for the sorts of schemes that we have today, so I think that it is a little rich to, on the one hand, oppose the budgetary measures that we have put in place to deliver the scheme and then ask for additional budget resources to enable everybody to participate in it. I am not sure that you can have your cake and eat it on this occasion, I am afraid, Russell.

Rwyf yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi cael ei ddweud ac, yn amlwg, roedd y ddogfen a gyhoeddasom y bore yma’n pwysleisio bod ar bobl eisiau cynllun mynediad sydd ar gael i bawb. Yn amlwg, rydych hefyd wedi gwrthwynebu'r camau yr wyf wedi'u rhoi ar waith i'n galluogi i dalu am y mathau o gynlluniau sydd gennym heddiw, felly rwyf yn meddwl ei bod braidd yn annheg, ar y naill law, gwrthwynebu mesurau cyllidebol yr ydym wedi eu rhoi ar waith i gyflawni'r cynllun a gofyn wedyn am adnoddau ychwanegol yn y gyllideb er mwyn i bawb allu cymryd rhan ynddo. Nid wyf yn siŵr y gallwch ei chael hi bob ffordd ar yr achlysur hwn, mae arnaf ofn, Russell.

We do not have the budget provision to enable everyone to participate in this scheme—we never have and we never will, and that is the hard reality of it. It may well be, given the success and popularity of the scheme at the moment, that we will have to prioritise people for entry level in future. That will be done on the basis of the environmental benefits that each individual applicant can deliver. Certainly, we will be looking at ensuring that the entry-level scheme is available for people who wish to participate.

Nid oes gennym ddarpariaeth yn y gyllideb er mwyn i bawb allu cymryd rhan yn y cynllun—nid yw hynny erioed wedi bod gennym ac ni fydd byth, a dyna'r gwirionedd caled. Mae'n ddigon posibl, o ystyried llwyddiant a phoblogrwydd y cynllun ar hyn o bryd, y bydd yn rhaid inni flaenoriaethu pobl ar gyfer lefel mynediad yn y dyfodol. Bydd hynny'n cael ei wneud ar sail y buddion amgylcheddol y gall pob ymgeisydd unigol eu cyflawni. Yn sicr, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cynllun lefel mynediad ar gael i bobl sy'n dymuno cymryd rhan.

I agree with the points that you made on monitoring; we need to ensure that we are able to demonstrate the success of this scheme. You will be aware that we have increased significantly the budgets available for monitoring over the last few years. I expect us to have a robust monitoring scheme in place that will deliver exactly the sort of management tools that you require.

Rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaethoch ynghylch monitro; mae angen inni sicrhau ein bod yn gallu dangos llwyddiant y cynllun hwn. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cynyddu'n sylweddol y cyllidebau sydd ar gael ar gyfer monitro yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwyf yn disgwyl y bydd gennym gynllun monitro cadarn ar waith a fydd yn darparu’r union fath o offer rheoli sydd eu hangen arnoch.

In asking questions on the moorland issue, you pointed out that it is a pillar 1 issue rather than a pillar 2 issue, so I hope that you will be reassured that we are addressing this. I will say, Deputy Presiding Officer, that it is my intention to make a statement on this matter before the summer recess; I know that Members across the Chamber have raised this at different times with me. I think that it is a significant issue; it is an issue where I and officials have spent a great deal of time analysing the matters that have been raised. I will provide a very full response to Members before the summer recess, and it is my intention to do that via a written statement.

Wrth ofyn cwestiynau am rostir, dywedasoch ei fod yn fater colofn 1 yn hytrach nag yn fater colofn 2, felly rwyf yn gobeithio y byddwch yn dawel eich meddwl ein bod yn mynd i'r afael a hyn. Dywedaf, Ddirprwy Lywydd, ei bod yn fwriad gennyf wneud datganiad ar y mater hwn cyn toriad yr haf; gwn fod Aelodau ar draws y Siambr wedi codi hyn ar wahanol adegau gyda mi. Credaf ei fod yn fater o bwys; mae'n fater lle'r wyf i a fy swyddogion wedi treulio llawer iawn o amser yn dadansoddi'r materion a godwyd. Byddaf yn darparu ymateb llawn iawn i'r Aelodau cyn toriad yr haf, ac mae'n fwriad gennyf wneud hynny trwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig.

In terms of being fully online by 2016, we have already made a statement on pillar 1. It seems to be the right thing to do to move toward an online system, which is far easier, of course, in delivering Glastir by 2016, and for this, as well. I am aware of the work that the Environment and Sustainability Committee is currently undertaking on forestry. I very much welcome that work and I look forward to discussing and debating with you the conclusions of that work.

O ran bod yn gwbl ar-lein erbyn 2016, rydym eisoes wedi gwneud datganiad ar golofn 1. Mae'n ymddangos mai'r peth iawn i'w wneud yw symud tuag at system ar-lein, sy'n haws o lawer, wrth gwrs, wrth gyflwyno Glastir erbyn 2016, ac ar gyfer hyn, yn ogystal. Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei wneud ar hyn o bryd ar goedwigaeth. Rwyf yn croesawu'r gwaith yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at drafod a dadlau ynghylch casgliadau'r gwaith hwnnw gyda chi.

16:18

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Mae rhywun yn teimlo bod Glastir wedi bod mewn rhyw gyflwr o esblygiad parhaol yn awr ers tipyn o gyfnod a bod newidiadau'n cael eu cyflwyno bob hyn a hyn. Mae hynny, wrth gwrs, wedi creu dryswch, wedi creu ychydig o ddrwgdeimlad hefyd, ac, yn sicr, wedi creu ansicrwydd ymhlith y sector. Rwy'n gweld, felly, y diwygiadau hyn sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Glastir nesaf, os liciwch chi, fel cyfle i dynnu llinell o dan hynny i gyd, a'u bod yn ddatganiad clir mai fel hyn y bydd hi.

Thank you, Minister, for your statement. One feels that Glastir has been in a state of continual evolution for a lengthy period of time, with changes introduced periodically. That has, of course, created confusion and a little bad feeling, and it has most certainly created uncertainty among the sector. I see, therefore, the reforms proposed for the next round of Glastir, if you like, as an opportunity to draw a line under all of that and give a clear statement that this is how things will be.

Mae ffermydd, fel pob busnes, wrth gwrs, angen cysondeb a sicrwydd er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer yr hirdymor. Hefyd, mae angen sicrwydd o ymyriad tymor hir i gael y budd amgylcheddol gorau o fuddsoddiadau o'r fath. Mae angen ychydig yn fwy o amser i mi allu pori drwy'r argymhellion mewn manylder, ond rwy'n teimlo bod yr hyn sydd gennym yn mynd peth o'r ffordd, yn sicr, at gyflawni hynny.

Farms, like all other businesses, of course, need consistency and certainty so that they can plan for the long term. Also, there needs to be an assurance of long-term intervention to get the best environmental benefit from such investments. A little more time is needed for me to be able to take in the recommendations in detail, but I feel that what we have will go some way, certainly, to achieving that.

Fodd bynnag, mae elfennau o ansicrwydd yn dal i ddod drwyddo yn y ddogfen yr ydych wedi ei chyhoeddi heddiw. Rydych yn sôn am gadw'r lefel sylfaenol ar agor am nawr. Rwy'n deall pam, ond, eto, mae'r cwestiwn hwnnw yn mynd i fod yn aros. Rydych yn sôn am yr angen i lunio criteria blaenoriaethu ar ddechrau'r rhaglen nesaf a'u cyflwyno ar ryw bwynt. Eto, efallai y bydd rhai pobl yn oedi oherwydd hynny. Efallai y daw cynllun benthyg o dan y grant cynhyrchu cynaliadwy.

However, elements of uncertainty can still be seen in the document that you have published today. You talk about keeping the basic level open for now. I understand why, but, again, that question will remain. You talk about the need to formulate prioritisation criteria at the start of the next programme and to introduce those at some point. Again, that might give some people pause for thought. Also, we might see a borrowing scheme coming under the sustainable production grant.

Mae'r cyhoeddiad yr ydych wedi'i roi ger ein bron heddiw yn ateb nifer o'r cwestiynau, ond rwy'n meddwl ei fod yn codi ambell un arall hefyd. Felly, y cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yn sgîl hynny yw: sut y gallwch sicrhau i fudd-ddeiliaid y rhaglen hon fod yr hyn yr ydych yn ei roi ger ein bron heddiw yn mynd i gynnig y sicrwydd a'r sefydlogrwydd hynny a fydd yn eu perswadio i brynu i mewn i'r rhaglen ac i weld y rhaglen fel rhywbeth y maent am fod yn rhan ohoni?

The statement that you have made today answers many of the questions, but I think that it raises a few, too. Therefore, the question that I would like to ask in the light of that is this: how can you give assurances to the programme's stakeholders that what you are putting forward today will provide that certainty and stability that will persuade them to buy into the programme and to see it as a programme in which they want to participate?

Ar gynffon hynny, hoffwn ichi ymhelaethu ychydig ar sut ydych yn gweld sefyllfa'r rhai sydd eisoes wedi ymrwymo i'r rhaglen yng ngoleuni'r ffaith bod diwygio yn mynd i ddigwydd eto. A ydych yn gweld y bydd cyfle i ddiwygio rhai o'r ymrwymiadau y mae rhai pobl wedi'u gwneud yn barod yng ngoleuni'r newidiadau hyn, yn enwedig rhai o'r bobl sydd wedi mynd i mewn i'r lefel mynediad gyda'r bwriad o fynd ymlaen i'r lefel uwch ac efallai yn ffeindio yn awr y gallent fod wedi mynd yn syth i mewn i'r lefel uwch?

On the back of that, I would like you to elaborate a little on how you see the position of those who are already committed to the programme in the light of the fact that there are to be reforms once again. Do you anticipate that there will be an opportunity to reform some of the commitments that people have signed up to in the light of these changes, particularly some of those people who have gone in at the entry level with the intention of going on to the advanced level and who are now finding that they could have gone straight in at the advanced level?

Mae nifer o bethau i'w croesawu yn y datganiad, ac mae'n deg i ddweud hynny. Er enghraifft, mae'r hyblygrwydd tymhorol o ran lefelau pori ar yr ucheldir yn un peth, ac rydych am ganiatáu cynlluniau rhan-fferm, sy'n rhywbeth y mae nifer wedi galw amdano—er, rwy'n nodi eich bod yn dal yn mynd i fynnu cydymffurfio â'r cod fferm gyfan, hyd yn oed yn yr achosion hynny. Efallai y gallech ymhelaethu ar y rhesymeg y tu ôl i hynny.

It is fair to say that there are a number of things in the statement that are to be welcomed. For example, there is the seasonal flexibility in terms of grazing levels on the uplands, and there is the fact that you want to allow part-farm schemes, which is something that many people have called for—although, I note that you are still going to insist on compliance with the whole-farm code, even in those cases. Perhaps you could elaborate on the rationale behind that.

Bydd cyflwyno mwy o dargedau yn y rhaglen efallai'n cyfyngu ar bwy sy'n gallu ymgeisio neu ba ardaloedd sydd yn mynd i fod yn gymwys. Rwy'n deall y rhesymeg o ran sicrhau y gwerth amgylcheddol gorau am lefel gyfyngedig o fuddsoddiad posibl, ond bydd hyn efallai yn rhedeg yn groes i'r graen o ran rhai o'ch sylwadau blaenorol chi ynglŷn â sicrhau bod arian sydd wedi trosglwyddo o biler 1 i biler 2 yn dod yn ôl i amaethwyr, os ydych yn cyfyngu ar yr amaethwyr fydd yn gallu cael mynediad at hynny. Felly, a wnewch chi sicrhau, wrth symud i'r cyfeiriad hwnnw—oherwydd mae'n amlwg mai dyna yw'r cyfeiriad teithio yn yr achos hwn—fod yr opsiynau eraill yn y cynllun datblygu gwledig yn glir i bawb ar yr un pryd, fel bod ffermwyr na fydd yn gallu mynd ymlaen gyda rhai o'r ceisiadau y byddent yn dymuno eu gwneud yn gallu gweld y fwydlen ehangach o opsiynau sydd ar gael i gryfhau eu busnesau a chreu diwydiant mwy cyhyrog.

Introducing more targets in the programme could mean restrictions in terms of those who can apply or which areas will qualify. I understand the rationale in terms of ensuring the best environmental value for the limited level of potential investment, but this could go against the grain of some of your previous comments about ensuring that funds transferred from pillar 1 to pillar 2 are returned to farmers, if you restrict the farmers who will have access to that. Therefore, will you ensure, in moving in that direction—because that is clearly the direction of travel in this case—that the other options in the rural development plan are made clear to everyone at the same time, so that farmers who perhaps will not be able to proceed with some of the applications that they would have wished to make can see the broader menu of options available to strengthen their businesses and to create a more robust industry.

Mae'n rhaid i unrhyw eglurder a chysondeb cyfathrebu dreiddio reit lawr i'r ffas lo ac i bob swyddog ac ymgynghorydd sydd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r cyhoedd a'r rhaglen hon. Rwyf wedi codi ambell achos drwy ohebiaeth gyda chi lle mae diffyg eglurder a thryloywder o ran pam mae rhai o'r gofynion penodol wedi creu trafferthion. Er enghraifft, o ran pyst ffensio a'r angen am fath penodol o byst ffensio a pham mae hynny'n cael ei fynnu, nid oes atebion wedi bod yn dod yn ôl. Nid yw hynny'n helpu i greu hyder ac i hwyluso'r lefel o gydweithrediad a fydd yn sicrhau bod cynllun Glastir yn llwyddo fel rydym ni i gyd am ei weld yn llwyddo. Felly, mae cyfathrebu yn y rhaglen newydd yn allweddol. Mae cwestiwn wedi ei ofyn ynglŷn â pha wersi yr ydych chi wedi eu dysgu, felly efallai y gofynnaf beth rydych yn credu y gallwch ei wneud yn wahanol y tro hwn i wneud yn siŵr bod y negeseuon hyn yn barod i bobl pan fyddant yn dod i ofyn amdanynt.

Any clarity and consistency in terms of communication must permeate right down to the coalface and to every Welsh Government officer and consultant dealing with the public and the programme. I have raised a few cases in correspondence with you where there is a lack of clarity and transparency with respect to why some of the specific requirements have created difficulties. For example, in terms of fencing posts and the need for a particular type of fencing post and why there is an insistence in that regard, no responses have been forthcoming. That does not inspire confidence and does not facilitate the level of collaboration that will ensure that Glastir will succeed in the manner in which we all want to see it succeeding. So, the communication of the new programme is crucially important. A question has already been raised about the lessons you have learned, so I will ask you what it is that you can do differently this time in order to ensure that these messages are made available to people as and when they need them.

Rwyf hefyd am gydnabod y ffaith eich bod wedi cyfeirio at yr angen i symud at geisiadau ar-lein erbyn 2016. Rwyf wedi dweud yn flaenorol, adeg y cyhoeddiad ehangach dan biler 1 a'r ceisiadau, y bydd hynny'n heriol ond, yn sicr, nid wyf yn gweld na all hynny weithio. Wedi dweud hynny, credaf y bydd mwy o heriau yn y cyd-destun hwn, yn enwedig pan edrychwn ar y posibilrwydd o geisiadau ar y cyd neu geisiadau sy'n ymwneud â rhwydweithiau o gynefinoedd, ac efallai y byddai angen ichi ystyried hynny wrth wthio tuag at y nod o 2016.

I also want to acknowledge the fact that you have referred to the need to move to online applications by 2016. I have said previously, at the time of the broader announcement under pillar 1 and the applications, that that will be challenging but, certainly, I do not see why it should not work. Having said that, I believe that there will be greater challenges in this context, particularly when we look at the possibility of joint applications or applications relating to networks of habitats, and perhaps you would need to consider that as you move towards the 2016 target.

16:24

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rwyf wedi dweud yn y gorffennol, hoffwn groesawu eich geiriau wrth ichi groesawu'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y ddogfen heddiw. Yn eich cyfraniad, bu ichi sôn am ansicrwydd, ac rwy'n cydnabod bod ansicrwydd. Dyna pam y cymerais ran yn y 'stock take' ddwy flynedd yn ôl—er mwyn trio ymateb i'r ansicrwydd oedd yno ar y pryd. Nid wyf yn gweld y math o ansicrwydd yn y maes ar hyn o bryd y bu ichi ei ddisgrifio. Nid yw'r niferoedd sydd wedi ceisio neu'n rhan o gynllun Glastir yn awgrymu bod ansicrwydd dwfn yn y gymuned.

As I have said in the past, I would like to welcome your comments in welcoming the majority of what is proposed in the document today. In your contribution, you mentioned uncertainty, and I acknowledge that there is uncertainty. That is why I took part in the stock take two years ago—to try to respond to the uncertainty that existed at that time. I do not see that the type of uncertainty that you describe actually exists at the moment. The numbers who have applied or who are participating in Glastir do not suggest that there is deep uncertainty in the community.

Mae rhai pobl sy'n ansicr am eu sefyllfaoedd eu hunain—rwy'n cydnabod hynny—ac mae rhai pobl wedi oedi yn y ffordd yr ydych wedi'i disgrifio, wrth wybod bod yr RDP newydd ar y ffordd ac y bydd newidiadau i Glastir. Rwy'n credu bod rhai wedi oedi oherwydd y cynllun newydd ac oherwydd eu bod am weld beth fydd y cynllun yn ei ddweud cyn iddynt wneud penderfyniad i fynd mewn i'r contract ai peidio. Rwy'n credu bod hynny'n rhan o'r broses o newid o'r hen gyfnod i'r cyfnod newydd. Fodd bynnag, rwy'n mawr obeithio bod yr ansicrwydd a oedd yno wedi mynd erbyn hyn.

There are some people who are uncertain about their own situations—I recognise that—and there are some people who have delayed matters in the way that you have mentioned, knowing that the new RDP is on the way and that, therefore, changes will be made to Glastir. I think that some have delayed because of the new scheme, as they want to see what the new scheme will say before they make a decision about entering into the contract. I think that that is part of the change process from the old period to the new. However, I do hope that the uncertainty that was there previously has now disappeared.

Rydych wedi gofyn am gysondeb dros amser. Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn creu sail ar gyfer yr RDP yn ei gyfanrwydd, ac rwy'n gobeithio y bydd y cysondeb yr ydych chi wedi gofyn amdano yno. Rwy'n cydnabod bod hon yn ddogfen fawr ac y bydd sawl elfen y bydd Aelodau yn mo'yn ei hystyried ymhellach cyn craffu ar y datganiad yr wyf wedi'i wneud. Rwy'n gweld bod Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Siambr, felly hoffwn gynnig y cyfle i'r pwyllgor gynnal sesiwn ar y Glastir newydd, os hoffai'r pwyllgor dderbyn y gwahoddiad i wneud hynny.

You have asked about consistency over time. I hope that this document will create a basis for the RDP in its entirety, and I hope that there will be that consistency that you have talked about. I recognise that this is a large document and that there are many elements that Members will want to consider further before scrutinising the statement that I have made. I see that the Chair of the Environment and Sustainability Committee is in the Chamber, and I would like to offer the committee the opportunity of a session on the new Glastir, should it wish to accept that invitation.

Rydych chi wedi gofyn amboutu'r rheini sydd am fod yn rhan o'r cynllun lefel mynediad ac a fydd hynny ar gael drwy gydol y cynllun. Fel rhywun a wrthwynebodd greu cyllideb ar gyfer y cynllun, mae'n rhaid ichi gydnabod, petaech chi wedi cael eich ffordd, y byddai llawer llai o arian ac adnoddau ar gael ar gyfer pawb sydd am fod yn rhan o Glastir. Byddai llai o arian ar gyfer yr ucheldir ac ar gyfer y cynllun lefel mynediad, a llai o impact amgylcheddol. Felly, liciwn i ddweud fy mod am sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu bod yn rhan o'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi bod yn un poblogaidd ac mae wedi cynyddu o ran y nifer sydd wedi bod yn rhan ohono. Mae'n rhaid inni fod yn garcus nad ydym yn addo rhywbeth na allwn ni ei ddelifro. Felly, mae'r cynllun ar agor i bawb—mae ar agor i bawb nawr a bydd ar agor yfory. Serch hynny, os gwelwn ni gynnydd yn nifer y bobl sydd am fod yn rhan o'r cynllun heddiw ac yfory yn debyg i'r cynnydd yr ydym eisoes wedi'i weld, bydd yn rhaid inni flaenoriaethu pobl sydd am fod yn rhan o'r cynllun ar sail yr impact amgylcheddol ar y fferm. Rwy'n credu bod hynny'n deg. Rydym ni i gyd yn gwybod na fydd adnoddau yno ar gyfer popeth. Felly, mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn hapus iawn i'w drafod.

You have asked about those who want to be part of the entry-level scheme and whether that will be available throughout the scheme. As someone who was against creating a budget just for this scheme, you have to recognise that, if you had had your way, there would be a lot less money and fewer resources available for everyone who wanted to be part of Glastir. There would be less money for the uplands and for the entry-level scheme, and less impact on an environmental level. So, I would like to say that I want to ensure that as many people as possible can become part of the scheme. However, of course, the scheme has been popular and it has increased in terms of the number of people who have participated. We have to be careful that we do not promise what we cannot deliver. So, the scheme is open to all—it is open to everyone now and it is going to be open tomorrow. However, if we see the same increase in the number of people who want to participate today and tomorrow as we have seen so far, we will have to prioritise those people who want to be part of it on the basis of the environmental impact on-farm. I think that that is fair. We all know that resources are not going to be there for everything. So, that is something that I am very happy to discuss.

Rydych chi wedi sôn am fwydlen ehangach yr RDP. Pwrpas yr RDP yw buddsoddi yn economi amgylcheddol cymunedau cefn gwlad, lle bynnag y bônt yng Nghymru. Pan fyddaf wedi gwneud y datganiad llawn ar y RDP ymhen tair wythnos, bydd gan ffermwyr a thrigolion cefn gwlad fwy o syniad am sut yn union y bydd y fwydlen ehangach yn edrych, a byddwn yn sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu'r cyfleoedd i bobl ar draws y wlad.

You have talked about the broader menu for the RDP. The purpose of the RDP is to invest in the environmental economy of rural communities, wherever they may be in Wales. Once I make the full statement on the RDP in three weeks' time, farmers and people living in rural Wales will have more of an idea of how the broader menu is going to look, and we will ensure that these opportunities are communicated to everyone.

Fe wnaethoch chi hefyd ofyn am symud i systemau ar-lein. Rydym wedi gweld bod traean o ffermwyr wedi gwneud ceisiadau ar-lein ar gyfer piler 1 yn y flwyddyn gyntaf, eleni. Mae hynny bron ddwbl y nifer a wnaeth hynny yn Lloegr, ac rwy'n credu bod hynny'n adlewyrchu llwyddiant yr hyn yr ydym wedi bod yn trio'i wneud. Felly, rwy'n credu y bydd hi'n rhwyddach gwneud y ceisiadau ar-lein nag ar bapur ac, oherwydd hynny, rwy'n hyderus y bydd ffermwyr ar draws Cymru yn blaenoriaethu ceisiadau ar-lein yn hytrach nag ar bapur.

You also asked about moving to an online system. We have seen that a third of farmers have made online applications for pillar 1 in the first year—this year. That is nearly double the number who did that in England, and I think that that reflects the success of what we have been trying to do. So, I do think, actually, that it will be easier to do online applications than paper applications and, as a result, I am confident that farmers across Wales will prioritise online applications over paper applications.

16:29 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I am interested to find out a bit more, in the debate about woodland management and the creation of new woodland, as to whether you have considered encouraging people to plant fruit trees, because that obviously provides the benefit of having new trees, as well as a source of food and diversification of economic possibilities.

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Byddai'n dda gennyf gael gwybod ychydig yn fwy, yn y drafodaeth am reoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd, am ba un a ydych wedi ystyried annog pobl i blannu coed ffrwythau, oherwydd mae hynny, wrth gwrs, yn cynnig mantais cael coed newydd, yn ogystal â bod yn ffynhonnell fwyd ac arallgyfeirio posibiliadau economaidd.

Secondly, I wonder whether you could tell us, in your desire to increase the amount of grazing on uplands, if you have considered the introduction not just of cattle that are hardy enough to withstand being outdoors all of the time, but also of lamas and alpacas. They have been successful in some parts of the uplands of north Wales, anyway, and they do not just provide meat, but also very valuable wool. I wonder whether any consideration has been given to that.

Yn ail, tybed a allwch ddweud wrthym, yn eich awydd i sicrhau bod mwy o bori ar ucheldiroedd, a ydych wedi ystyried cyflwyno nid yn unig gwartheg sy'n ddigon gwydn i wrthsefyll bod yn yr awyr agored drwy'r amser, ond hefyd lamas ac alpacas. Maent wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai rhannau o ucheldiroedd gogledd Cymru, beth bynnag, ac maent nid yn unig yn darparu cig, ond gwlân gwerthfawr iawn hefyd. Tybed a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i hynny?

16:30 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have not given any consideration to those specific creatures. Let me say this: it is important that we have mixed grazing in the uplands, for all sorts of different reasons—environmental and others. I hope that, by ensuring that we have a flexible regime available to land managers and farmers, they are able to make those choices for themselves.

Nid wyf wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r creaduriaid penodol hynny. Gadewch imi ddweud hyn: mae'n bwysig bod pori cymysg yn yr ucheldiroedd, am bob math o wahanol resymau—amgylcheddol ac eraill. Drwy sicrhau bod trefn hyblyg ar gael i reolwyr tir a ffermwyr, rwyf yn gobeithio y gallant wneud y dewisiadau hynny drostynt eu hunain.

To answer your first question about the species of trees, I have tried to avoid making value judgments on how farmers, land managers and landowners respond to the challenges or opportunities available to them. It is a matter for them how they run their businesses and the choices that they make. However, what I would say is that what we have seen in Wales has been the growth of a monoculture in some parts of the country, which I do not think is particularly healthy for the industry as a whole. I hope that we will be able to see greater diversity of both the species planted and the species grazed in the future.

O ran eich cwestiwn cyntaf am rywogaethau coed, rwyf wedi ceisio osgoi barnu'r ffordd y mae ffermwyr, rheolwyr tir a thirfeddianwyr yn ymateb i'r heriau neu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mater iddynt hwy yw sut y maent yn rhedeg eu busnesau a'r dewisiadau a wnânt. Fodd bynnag, yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw mai'r hyn yr ydym wedi ei weld yng Nghymru yw twf amaethu ungnwd mewn rhai rhannau o'r wlad, ac nid wyf yn credu bod hynny'n arbennig o iach i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd. Rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu gweld mwy o amrywiaeth o ran y rhywogaethau a gaiff eu plannu a'r rhywogaethau a fydd yn pori yn y dyfodol.

16:32 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for today's statement.

It is fair to say that the gestation of Glastir has not been an easy one and, to be fair to the Minister, he was not the midwife at the time when it was delivered. However, despite the negative perceptions that have become entrenched over the period with regard to Glastir, what we have before us today is a much stronger and a much farmer-friendlier scheme than was originally conceived. It would be churlish not to acknowledge that fact. However, a lot still needs to be done with regard to seeing how this will work in the context of the wider RDP, as the Minister has said. It is absolutely critical that the RDP as a whole is a key enabler for delivering a resilient, sustainable and, indeed, profitable rural economy.

Mae'n deg dweud nad yw cyfnod cario Glastir wedi bod yn un hawdd ac, a bod yn deg â'r Gweinidog, nid ef oedd y fydwraig pan gafodd ei eni. Fodd bynnag, er gwaethaf y canfyddiadau negyddol sydd wedi ymwreiddio dros y cyfnod o ran Glastir, yr hyn sydd gennym ger ein bron heddiw yw cynllun cryfach o lawer a mwy cyfeillgar o lawer i ffermwr nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Byddai'n anfoesgar peidio â chydnabod hynny. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy eto i weld sut y bydd hyn yn gweithio yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Gwledig ehangach, fel y dywedodd y Gweinidog. Mae'n gwbl hanfodol bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn ei gyfanrwydd yn alluogwr allweddol ar gyfer sicrhau economi wledig gydnerth, gynaliadwy ac, yn wir, broffidiol.

In these terms, it very much remains my view that the best way to achieve this is to ensure that as much of the pillar 2 funding as possible is delivered directly into the economy via the farmer and that we minimise the amount of money that is frittered away in administration fees and ill-conceived projects, particularly those that benefit highly paid consultants rather than the rural economy itself. To that end, Glastir is not the be all and end all, but it will obviously be a major contributor.

Yn hynny o beth, rwyf yn dal i fod o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw sicrhau bod cymaint o'r cyllid colofn 2 ag y bo modd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i mewn i'r economi drwy'r ffermwr a'n bod yn lleihau faint o arian sy'n cael ei wastraffu ar ffioedd gweinyddu a phrosiectau annoeth, yn enwedig y rhai sydd o fudd i ymgynghorwyr ar gyflogau uchel yn hytrach na'r economi wledig ei hun. I'r perwyl hwnnw, nid Glastir yw diwedd y gân, ond bydd, wrth gwrs, yn gyfrannwr mawr.

I turn now to some questions. The analysis document that you made available late this morning outlines the commitment to undertake a full communication strategy review of Glastir in 2014. As the year is rapidly advancing, Minister, could you please give us an indication of the timescale of that exercise and when you expect it to be completed and shared with the wider public?

Trof yn awr at rai cwestiynau. Mae'r ddogfen ddadansoddi a ddarparwyd gennych yn hwyr y bore yma yn amlinellu'r ymrwymiad i gynnal adolygiad llawn o strategaeth gyfathrebu Glastir yn 2014. Gan fod y flwyddyn yn mynd rhagddi'n gyflym, Weinidog, a wnewch chi roi syniad inni o amserlen y broses honno a phryd yr ydych yn disgwyl iddi gael ei chwblhau a'i rhannu â'r cyhoedd yn gyffredinol?

In terms of the small grant scheme, I am pleased to see that it has met with considerable support throughout the consultation process. I think that it provides much-needed support for small additional projects, which, otherwise, would be very difficult to provide funding for. Yet, as the analysis outlines, this may be more complex to administer. Minister, will you please expand on what form you expect the capital work scheme to take, and also, how it could be used on sites that are subject to land use conversion into agricultural use? Given that agri-environment and climate support is limited to land that is currently agricultural, or was previously so, this could, in my view, impact adversely on those, for example, who might wish to develop a food processing facility on a brownfield site regardless of the wider merits of such a scheme.

O ran y cynllun grantiau bach, rwyf yn falch o weld ei fod wedi cael cryn dipyn o gefnogaeth drwy gydol y broses ymgynghori. Credaf ei fod yn rhoi cymorth mawr ei angen i brosiectau bach ychwanegol, y byddai, fel arall, yn anodd iawn darparu cyllid ar eu cyfer. Eto i gyd, fel y mae'r dadansoddiad yn ei amlinellu, gallai hyn fod yn fwy cymhleth i'w weinyddu. Weinidog, a wnewch chi ymhelaethu ar ffurf ddisgwyliedig y cynllun gwaith cyfalaf, a hefyd, sut y gellid ei ddefnyddio ar safleoedd lle caiff tir ei newid i ddefnydd amaethyddol? O ystyried bod cymorth amaeth-amgylcheddol a hinsawdd wedi ei gyfyngu i dir sydd ar hyn o bryd yn amaethyddol, neu a oedd yn arfer bod yn amaethyddol, gallai hyn, yn fy marn i, gael effaith andwyol ar y rhai, er enghraifft, a fydd o bosibl yn awyddus i ddatblygu cyfleuster prosesu bwyd ar safle tir llwyd waeth beth fo rhinweddau ehangach cynllun o'r fath.

In terms of the uplands, it would be remiss of me not to put on record again, my call for a dedicated uplands area of natural constraint scheme. I see that this particular analysis tends to burke that question, given the wider RDP consultation. Related to this, it is positive to see, however, that a new stocking calculation will be developed that reflects the growing season, as other colleagues have already commented.

O ran yr ucheldir, byddai'n esgeulus imi beidio â rhoi ar goedd unwaith eto, fy ngalwad am gynllun ardal â chyfyngiadau naturiol yn yr ucheldir. Gwelaf fod y dadansoddiad penodol hwn yn tueddu i osgoi'r cwestiwn hwnnw, o ystyried yr ymgynghoriad ehangach ar y Cynllun Datblygu Gwledig. Yn gysylltiedig â hyn, mae'n gadarnhaol gweld, fodd bynnag, y bydd cyfrifiad stocio newydd yn cael ei ddatblygu sy'n adlewyrchu'r tymor tyfu, fel y mae cydweithwyr eraill eisoes wedi ei nodi.

Similarly, Minister, would you also give some commitment to wider stakeholder inclusion in terms of developing and delivering the woodland management and creation programme? We have, on many occasions, discussed the absence of forestry professionals within the NRW board, and I would argue that we have some lessons to learn there that would be valuable and timely, particularly in the context of the concerns that have been referred to the Environment and Sustainability Committee on that matter.

Yn yr un modd, Weinidog, a wnewch chi hefyd roi ymrwymiad i gynnwys rhanddeiliaid yn ehangach o ran datblygu a chyflwyno'r rhaglen rheoli a chreu coetiroedd? Rydym, ar sawl achlysur, wedi trafod absenoldeb gweithwyr proffesiynol coedwigaeth ar fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddwn yn dadlau bod gennym rai gwersi i'w dysgu yno a fyddai'n werthfawr ac amserol, yn enwedig yng nghyd-destun y pryderon y cyfeiriwyd atynt yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y mater hwnnw.

Finally, Minister, with regard to the targeted intervention proposals, would you also please clarify the timescale for the Welsh Government undertaking an evaluation of the woodland management targeting and agreements and the support of the woodland carbon code? There is reference to that within the year in terms of the former, but nothing, currently, in terms of the latter.

Yn olaf, Weinidog, o ran y cynigion ynghylch ymyrraeth wedi'i thargedu, a wnewch chi hefyd os gwelwch yn dda egluro'r amserlen ar gyfer gwerthusiad Llywodraeth Cymru o dargedu rheoli coetiroedd a chytundebau a chefnogaeth i'r cod carbon coetir? Mae cyfeiriad at hynny o fewn y flwyddyn o ran y cyntaf, ond dim byd, ar hyn o bryd, o ran yr olaf.

16:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Liberal Democrats for their recognition that the changes that are being made and the decisions taken over the last few years have strengthened and improved Glastir and made it a more resilient and central part of the range of options available for the public to deliver on sustainable land management.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu cydnabyddiaeth fod y newidiadau sy'n cael eu gwneud a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cryfhau a gwella Glastir a'i wneud yn rhan fwy cydnerth a chanolog o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i'r cyhoedd i gyflawni o ran rheoli tir yn gynaliadwy.

The Member raised the issue of communications. If he reads the relevant paragraph on page 11, he will note that the communication strategy was actually published in January of last year, and what we are doing this year is reviewing that communication strategy. I am more than happy for that to be made public, clearly, but I think that the Member believes that this is a considerably weightier task than we do. I would be concerned if he did feel that. We will be more than happy to make all that documentation public and to do so when that is completed.

Cododd yr Aelod fater cyfathrebu. Os bydd yn darllen y paragraff perthnasol ar dudalen 11, bydd yn gweld i'r strategaeth gyfathrebu gael ei chyhoeddi ym mis Ionawr y llynedd, a'r hyn yr ydym yn ei wneud eleni yw adolygu'r strategaeth gyfathrebu honno. Rwyf yn fwy na pharod i hynny gael ei gyhoeddi, wrth gwrs, ond rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn credu bod hon yn dasg drymach o lawer nag yr ydym ni. Byddwn yn poeni pe bai'n teimlo felly. Byddwn yn fwy na pharod i gyhoeddi'r holl ddogfennaeth ac i wneud hynny pan fydd wedi ei gwblhau.

In terms of the overall structures, I know that the Member has made points on food processing and on small grants. May I say that the purpose of the stocktake two years ago and the direction that I have tried to take Glastir in over the last three years have been to simplify and reduce complexity? It is not the purpose of this announcement today, this review or the new Glastir to increase complexity and the administrative burden. That is not what we are seeking to do. We have, and I think that you recognised in your remarks, strengthened the scheme by simplifying it. We will continue to look at how we do that into the future.

O ran y strwythurau cyffredinol, gwn fod yr Aelod wedi codi pwyntiau ynghylch prosesu bwyd a grantiau bach. A gaf fi ddweud mai diben y pwyso a'r mesur ddwy flynedd yn ôl a'r cyfeiriad yr wyf wedi ceisio mynd â Glastir iddo dros y tair blynedd diwethaf oedd symleiddio a lleihau cymhlethdod? Ni fwriedir i'r cyhoeddiad hwn heddiw, yr adolygiad hwn na'r Glastir newydd greu mwy o gymhlethdod a baich gweinyddol. Nid dyna'r ydym yn ceisio ei wneud. Rydym, ac rwyf yn credu eich bod wedi cydnabod yn eich sylwadau, wedi cryfhau'r cynllun drwy ei symleiddio. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gallwn wneud hynny yn y dyfodol.

You have made points on an LFA scheme, and I know that you have taken a very great personal interest in such a scheme. I will say to the Member that that is a matter for the wider RDP debate, rather than for the Glastir scheme today. However, I would invite him to look at the points that have been made on the consultation on that particular issue. It may well be that, if the Member looks again at the points that we have made about ensuring access to Glastir advanced for people in the moorland areas, particularly, he will see that much of what he is asking for has been delivered through this individual scheme.

Rydych wedi codi pwyntiau am gynllun ALFf, a gwn y bu gennych ddiddordeb personol mawr iawn mewn cynllun o'r fath. Dywedaf wrth yr Aelod fod hynny'n fater ar gyfer y ddadl ehangach ar y Cynllun Datblygu Gwledig, yn hytrach nag ar gyfer y cynllun Glastir heddiw. Fodd bynnag, rwyf yn ei wahodd i edrych ar y pwyntiau sydd wedi'u gwneud ar yr ymgynghoriad ar y mater penodol hwnnw. Mae'n ddigon posibl, os bydd yr Aelod yn edrych eto ar y pwyntiau yr ydym wedi'u gwneud ynghylch sicrhau mynediad i Glastir uwch i bobl mewn ardaloedd rhostir, yn enwedig, y gwêl fod llawer o'r hyn y mae'n gofyn amdano wedi ei gyflawni drwy'r cynllun unigol hwn.

He has asked for wider stakeholder involvement in woodland management. I hope that there is. Certainly, when I visit woodland or timber industry businesses, I recognise that that debate is taking place. I know that the committee is involved in a discussion of its own on this matter at the moment, and that has prompted a number of different questions from Members. I will take a view of the evidence that the committee receives and the scrutiny of that evidence by the committee as well, and I will reach conclusions on that. If there are weaknesses in our current approach, I will clearly give all Members an undertaking that those weaknesses will be addressed.

Mae wedi gofyn am gynnwys rhanddeiliaid yn ehangach wrth reoli coetiroedd. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n digwydd. Yn sicr, pan fyddaf yn ymweld â busnesau coetir neu'r diwydiant pren, gwelaf fod y ddadl honno'n digwydd. Gwn fod y pwyllgor yn cynnal ei drafodaeth ei hun ar y mater hwn ar hyn o bryd, ac mae hynny wedi ysgogi nifer o wahanol gwestiynau gan yr Aelodau. Byddaf yn ystyried y dystiolaeth y mae'r pwyllgor yn ei derbyn a'r craffu ar y dystiolaeth honno gan y pwyllgor, yn ogystal, a byddaf yn llunio casgliadau am hynny. Os oes gwendidau yn ein hymagwedd ar hyn o bryd, rhoddaf ymrwymiad, wrth gwrs, i bob Aelod y bydd y gwendidau hynny'n cael sylw.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I still have two Members to call. We should do it in time, but can we just have questions now and not long preambles? I call on Antoinette Sandbach.

Mae gennyf ddau Aelod i'w galw o hyd. Dylem wneud hynny'n brydlon, ond a gawn ni gwestiynau'n unig gennych yn awr yn hytrach na rhagymadroddi hir? Galwaf ar Antoinette Sandbach.

16:39

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, two years ago, at the Royal Welsh Show, in evidence to the Environment and Sustainability Committee, you said that there were 7,000 to 8,000 expressions of interest in Glastir, so it seems to me that, where you have got only 4,200 signed-up contracts on individual farms, rather than the commons element, which I accept has been a great success, you are likely to have underbudgeted in terms of what is happening with the RDP.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, ddwy flynedd yn ôl, yn Sioe Frenhinol Cymru, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, dywedasoch fod 7,000 i 8,000 wedi mynegi diddordeb yn Glastir, felly mae'n ymddangos i mi, lle nad oes gennych ond 4,200 o gontractau wedi'u llofnodi ar ffermydd unigol, yn hytrach na'r elfen tir comin, a derbyniaf fod hynny wedi bod yn llwyddiant mawr, ei bod yn debygol eich bod wedi tangyllidebu o ran yr hyn sy'n digwydd â'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Of course, you are taking from all farmers, through modulation, therefore I have some sympathy with the NFU's position that the scheme should be open to all farmers so that they can make environmental improvements on their land. So, given the communication review that you have mentioned in your summary, can you tell me whether or not that will be directed, for example, at those farmers who expressed an interest in joining Glastir, but actually did not convert that into signing a contract?

Wrth gwrs, rydych yn cymryd oddi ar bob ffermwr, drwy fodiwleiddio, felly mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â safbwynt yr NFU y dylai'r cynllun fod yn agored i bob ffermwr er mwyn iddynt allu gwneud gwelliannau amgylcheddol ar eu tir. Felly, o ystyried yr adolygiad o gyfathrebu yr ydych yn ei grybwyll yn eich crynodeb, a allwch ddweud wrthyf a fydd hynny wedi'i gyfeirio, er enghraifft, at y ffermwyr hynny sy'n mynegi diddordeb mewn ymuno â Glastir, ond nad ydynt mewn gwirionedd yn llofnodi contract, neu beidio?

In terms of the stocktake, you also gave assurances that those who had signed—the early adopters in Glastir—would not be penalised by subsequent changes. I wonder whether you could tell us whether or not that assurance still stands. In other words, I very much welcome the change that you have made for part-farm, which I think is very welcome, but will you allow people to go in on a part-farm basis, or be encouraging those who failed to get enough points to be able to join initially to come forward?

O ran y pwyso a'r mesur, rhoddasoch sicrwydd hefyd na fyddai'r rhai a oedd wedi llofnodi—mabwysiadwyr cynnar Glastir—yn cael eu cosbi drwy newidiadau'n ddiweddarach. Tybed a allwch ddweud wrthym a yw'r sicrwydd hwnnw'n dal i sefyll? Mewn geiriau eraill, rwyf yn croesawu'n fawr y newid yr ydych wedi'i wneud ar gyfer rhannau o ffermydd, sydd i'w groesawu'n fawr yn fy marn i, ond a fyddwch yn caniatáu i bobl fynd i mewn ar sail rhannau o ffermydd, neu'n annog y rheini a fethodd â chael digon o bwyntiau i allu ymuno yn y lle cyntaf i ddod ymlaen?

Finally, I also very much welcome the flexibility that you have introduced in terms of the extension of grazing times on the mountain and on the 'ffridd'. I know that the farming and wildlife advisory group raised concerns with you about the 1 October date. If I have read your document properly today—and I am not entirely certain that I have, because, regrettably, I do not have it here with me—I believe that you have given officers flexibility on the ground to look at the particular conditions on the mountain. Can you confirm that you are supporting that flexibility to allow a potential extension beyond the 1 October deadline in those areas?

Yn olaf, rwyf hefyd yn croesawu'n fawr yr hyblygrwydd yr ydych wedi'i gyflwyno o ran estyn amserau pori ar y mynydd ac ar y ffridd. Gwn fod y grŵp cynghori ar ffermio a bywyd gwyllt wedi codi pryderon â chi am ddyddiad 1 Hydref. Os wyf wedi darllen eich dogfen yn iawn heddiw—ac nid wyf yn hollol sicr fy mod, oherwydd, yn anffodus, nid yw hi yma gyda mi—credaf eich bod wedi rhoi hyblygrwydd i swyddogion ar lawr gwlad i edrych ar yr amodau penodol ar y mynydd. A allwch chi gadarnhau eich bod yn cefnogi'r hyblygrwydd hwnnw i ganiatáu estyniad posibl y tu hwnt i'r dyddiad cau ar 1 Hydref yn yr ardaloedd hynny?

16:42

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly can give that undertaking. I answered the earlier comments from Bill Powell by emphasising the need to simplify and streamline the scheme. Llyr Huws Gruffydd used the opportunity earlier to talk about the flexibility, where that is required and where that is necessary. I do give that undertaking. We do need to be flexible in the way that we address this, to meet individual needs and requirements. It is no secret that Glastir had a difficult genesis, but it is now growing quickly and strongly. It is the purpose of this statement today to ensure that it remains strong for the next RDP. We will ensure that the entry scheme is open to all farmers who wish to make an application for it. I have made that clear today on a number of occasions. However, I will say that we will be looking hard at those applications to ensure that they do meet our ambitions for environmental improvement and sustainable land management.

Gallaf yn sicr addo hynny. Atebais y sylwadau cynharach gan Bill Powell drwy bwysleisio'r angen i symleiddio a mireinio'r cynllun. Manteisiodd Llyr Huws Gruffydd ar y cyfle'n gynharach i sôn am yr hyblygrwydd, lle bo ei angen a lle bo hynny'n angenrheidiol. Rwyf yn addo hynny. Mae angen inni fod yn hyblyg yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â hyn, i fodloni anghenion a gofynion unigol. Nid yw'n gyfrinach bod Glastir wedi cael dechreuad anodd, ond mae bellach yn tyfu'n gyflym ac yn gryf. Diben y datganiad hwn heddiw yw sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Byddwn yn sicrhau bod y cynllun mynediad yn agored i bob ffermwr sy'n dymuno gwneud cais amdano. Rwyf wedi gwneud hynny'n glir heddiw ar nifer o achlysuron. Fodd bynnag, dywedaf y byddwn yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau hynny i sicrhau eu bod yn bodloni ein huchelgeisiau ar gyfer gwella'r amgylchedd a rheoli tir yn gynaliadwy.

I will finally take issue with your point about taking from all farmers. This is taxpayers' money that we are allocating in this way. This is not owned by anyone except the taxpayer. We are not taking from anyone. We are managing the budgets, effectively, and we are investing in the biggest RDP that we have ever seen. That will benefit everyone in rural Wales, including the farming community.

Yn olaf, rwyf yn anghytuno â'ch pwynt ynglŷn â chymryd oddi wrth bob ffermwr. Arian y trethdalwyr yr ydym yn ei ddyrannu yn y ffordd hon. Nid yw hyn yn eiddo i neb ond y trethdalwr. Nid ydym yn cymryd oddi wrth unrhyw un. Rydym yn rheoli'r cyllidebau, yn effeithiol, ac rydym yn buddsoddi yn y Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf yr ydym wedi ei weld erioed. Bydd hynny o fudd i bawb yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys y gymuned ffermio.

16:43 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y fydwraig a oedd yno pan aned Glastir, rwy'n croesawu datganiad y Gweinidog. Nid oeddwn fyth yn credu y byddem yn cyrraedd pwynt lle y byddai Gweinidog yn disgrifio Glastir fel cynllun poblogaidd. Fodd bynnag, dyna lle rydym wedi'i gyrraedd yn eich barn chi. Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod, yn gyntaf, yn ymateb yn ffafriol iawn i'r hyn a gododd yn yr ymgynghoriad ar y costau ychwanegol o gadw gwartheg yn yr ucheldir a'ch bod yn bwriadu ail-asesu'r cyfraddau ar gyfer y gwartheg hynny a'r taliadau. Mae hynny yn sicr i'w groesawu. Mae newidiadau yn deillio o'r ail-asesiad hwn ac o bryd i'w gilydd rwy'n clywed consýrn gan rai ffermwyr ynglŷn â'r capasiti gweinyddol i allu sicrhau bod eu cytundebau Glastir yn cael eu gweithredu mewn amser da. Felly, a ydych yn hyderus bod gennych y capasiti gweinyddol yn eich adrannau ar hyd a lled Cymru i wireddu Glastir a'r galw amdano?

As the midwife who was in attendance when Glastir was born, I welcome the Minister's statement. I never thought that we would reach a point where a Minister would describe Glastir as a popular scheme. However, that is the point that we have reached in your view. I welcome the fact that you have, first of all, responded very favourably to what was raised in the consultation on the additional costs of keeping cattle in the uplands, and that you intend to re-assess the rates for those cattle and the payments. That is certainly to be welcomed. There are changes emanating from this re-assessment work and from time to time I hear concerns raised by some farmers regarding the administrative capacity to ensure that Glastir contracts are implemented in a timely manner. Therefore, are you confident that you have the administrative capacity in your departments across Wales to achieve Glastir and to meet the demand for it?

Yn olaf, byddwch yn ymwybodol o fy niddordeb yn y rhostir. Roedd ffermwyr y rhostir yn awyddus i siarad â mi yn sioe Aberystwyth dros y penwythnos ac i godi rhai o'u consýrns am y taliadau i'r dyfodol. Yn Lloegr, mae'r taliadau ar gyfer y rhostir wedi'u cynyddu gan DEFRA i €70 yr hectar y mis diwethaf. Felly, cyn ichi gymryd eich penderfyniad terfynol ar y rhostir, a yw o fewn eich grym a'ch 'scope' i edrych eto ar y taliad hwnnw ar gyfer y rhostir, neu a ydych yn bwriadu edrych ar greu cynllun ar wahân i'r taliadau sengl ac ar wahân i Glastir a fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau ariannol penodol sy'n wynebu ffermwyr y rhostir?

Finally, you will be aware of my interest in the moorlands. Moorland farmers were very eager to speak to me in the Aberystwyth show over the weekend and to raise some of their concerns about future payments. In England, the payments for the moorland have been increased by DEFRA to €70 per hectare and that has been increased just last month. So, before you make your final decision on the moorlands, is it within your power and your remit to look again at that payment for moorland farmers, or is it your intention to look at creating a scheme that is separate to the single payment scheme, separate to Glastir and that would actually address the specific financial problems facing moorland farmers?

16:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch bod y 'midwife' penodol honno wedi cael y cyfle i ddisgrifio Glastir fel cynllun poblogaidd. Rwyf yn gwybod bod y ddau ohonom wedi cael ein trafodaethau amboutu sut y mae Glastir wedi datblygu dros y blynyddoedd. Rwy'n mawr obeithio y bydd yr Aelod dros Geredigion yn cydnabod ac yn gweld sut yr ydym wedi trio cryfhau'r cynllun, ac wedi trio sicrhau y bydd y cynllun yn cyrraedd y nod yr oedd hi wedi'i osod ar ei gyfer nôl yn 2009.

I am pleased that that specific midwife has had the opportunity to describe Glastir as a popular scheme. I know that both of us have had our discussions about how Glastir has developed over the years. I do hope that the Member for Ceredigion will recognise and see the way that we have tried to strengthen the scheme, and tried to ensure that the scheme is one that will reach the aim that she set back in 2009.

Rwyf yn hyderus bod gennym y capasiti gweinyddol. Bydd gennym fwy o gapasiti drwy systemau ar-lein ac y bydd hynny o gymorth mawr. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd gael pobl ar lawr gwlad sy'n siarad â ffermwyr, sy'n siarad â thirfeddianwyr ac sy'n sicrhau bod pobl yn deall goblygiadau'r 'scheme'. Rwy'n credu y bydd hynny'n hanfodol, a dyna'r hyn sydd y tu hwnt i lwyddiant y 'scheme' ar y 'commons'. Gwelaf fod angen cryfhau ein capasiti i sicrhau bod gennym ddigon o bobl i wneud hynny. Rwy'n siŵr nad yw'r Aelod o Blaid Cymru yn gofyn inni ddilyn arweiniad Lloegr ar bob un peth. Fodd bynnag, rwyf wedi ystyried yr hyn y mae DEFRA wedi'i ddatgan ar gyfer Lloegr, ac rwyf wedi ystyried datganiadau DEFRA mewn cyd-destun ehangach, sef y math o gymorth a chefnogaeth y mae DEFRA yn ei gynnig i ffermwyr yn Lloegr yn ei gyfanrwydd drwy'r RDP. Pan fydd Aelodau'n gweld y mathau o gynlluniau sydd gennym, pan gaiff y cynllun yn ei gyfanrwydd ei gyhoeddi mewn rhywbeth fel tair wythnos, rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod gan ffermwyr Cymru y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

I am confident that we do have the administrative capacity. We will have more capacity through online systems, which will be of great help to us. However, we also have to have the people on the ground, talking to farmers and talking to landowners, ensuring that people understand the implications of the scheme. I think that that will be vitally important and that is for the success of the scheme on the commons. I see a need to strengthen our capacity to ensure that we have enough people to do that. I am sure that the Member of Plaid Cymru would not ask us to follow England's lead on everything. However, I have considered what DEFRA has said in terms of England and I have considered DEFRA's statements in the wider context of the type of support that DEFRA gives to farmers in England through the RDP. When Members see the types of schemes that we have, when the scheme is published in three weeks' time, I hope that they will recognise the work that have been undertaken to ensure that Welsh farmers have the support that they need.

Gwelaf fod amser yn mynd yn brin, ond hoffwn ddweud hyn: rwy'n cymryd o ddifrif y problemau yn y rhostir a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn y rhostir. Mae Aelod Ceredigion yn ymwybodol fy mod i wedi cyfarfod â phobl yn ei hetholaeth hi ac mewn mannau eraill i drafod hyn. Rwyf wedi comisiynu lot fawr o waith dadansoddi ynghylch lle yn union y mae'r problemau'n gorwedd a sut y gallwn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau hynny. Byddaf yn gwneud datganiad ar hynny cyn diwedd y tymor hwn. Byddaf yn gwneud datganiad ac yn rhyddhau manylion llawn y dadansoddiadau yr ydym wedi'u gwneud. Felly, bydd pobl yn deall nid yn unig y penderfyniadau a wnaed, ond hefyd y mathau o ddata sydd y tu ôl iddynt. Pan fydd Aelodau'n gweld manylion y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud cyn diwedd y tymor, rwy'n gobeithio y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'n fodlon â'r hyn yr ydym yn ei gynnig.

I see that my time is going, but I would like to say this: I do take seriously the problems in the moorland and the challenge that people face in the moorland. The Member for Ceredigion knows that I have met people in her constituency and in other places to discuss this. I have commissioned a lot of work looking at where exactly the problems lie and how we can ensure that we respond to those problems. I will be making a statement on that before the end of this term. I will be making a statement and I will be releasing full details of the analysis that we have done, so that people do not just understand the decisions, but the data behind those decisions. When Members see the detail behind those decisions that we will be making before the end of the term, I hope that most Members will be content with what we are doing.

16:49

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Twristiaeth

## Statement: Update on the Tourism Strategy

Senedd.tv
Fideo Video

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Tourism makes a vital contribution to the economic and social wellbeing of Wales. In 2012, the sector supported 117,400, or 9%, of the workforce. The Welsh Government published its 'Partnership for Growth' strategy for tourism a year ago. The strategy provides an overall vision and sets aims for growing tourism by 10% by 2020. The first year of the strategy has seen a rate of growth above that needed to achieve our ambition, with an increase in volume and value of trips supporting thousands of additional jobs. Today, I would like to provide an update to Members on some of the actions that we have taken over the past year to support this progress. They are described in detail in an updated framework action plan, which I will publish on the Welsh Government's tourism website.

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol i les economaidd a chymdeithasol Cymru. Yn 2012, cefnogodd y sector 117,400, neu 9%, o'r gweithlu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf' ar gyfer twristiaeth flwyddyn yn ôl. Mae'r strategaeth yn darparu gweledigaeth gyffredinol ac yn gosod nodau ar gyfer tyfu twristiaeth gan 10% erbyn 2020. Mae blwyddyn gyntaf y strategaeth wedi gweld cyfradd twf uwch nag sydd ei angen i gyflawni ein huchelgais, gyda chynnydd o ran nifer a gwerth y teithiau sy'n cefnogi miloedd o swyddi ychwanegol. Heddiw, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar rai o'r camau yr ydym wedi'u cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi'r cynnydd hwn. Maent wedi eu disgrifio'n fanwl mewn cynllun gweithredu fframwaith wedi'i ddiweddaru, y byddaf yn ei gyhoeddi ar wefan twristiaeth Llywodraeth Cymru.

Visit Wales has reassessed its marketing activities and campaigns and has launched the new visitwales.com website, which is delivering higher traffic than ever before. It has re-launched its travel trade work and refocused its PR programme on key markets, achieving high-profile coverage on tv and radio, in print and online. It has aligned its capital grant programme to support the development of new and exciting products and drive up the overall quality and range of our tourism offer. It has reprioritised its investment in major events to deliver significant economic impact and raise Wales's international profile and reputation, and it has reviewed its governance and regional engagement structures.

Mae Croeso Cymru wedi ailasesu ei weithgareddau a'i ymgyrchoedd marchnata ac wedi lansio gwefan visitwales.com newydd, sy'n derbyn traffig uwch nag erioed o'r blaen. Mae wedi ail-lansio ei waith diwydiant teithio ac ail-ganolbwyntio ei raglen Cysylltiadau Cyhoeddus ar farchnadoedd allweddol, gan sicrhau sylw proffil uchel ar y teledu a radio, mewn print ac ar-lein. Mae wedi ymgyfuno ei raglen grantiau cyfalaf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnyrch newydd a chyffrous a gwella ansawdd cyffredinol ac amrywiaeth ein cynnig o ran twristiaeth. Mae wedi ail-flaenoriaethu ei fuddsoddiad mewn digwyddiadau mawr i gyflawni effaith economaidd sylweddol a chodi proffil ac enw da Cymru yn rhyngwladol, ac mae wedi adolygu ei strwythurau llywodraethu ag ymgysylltu rhanbarthol.

To start with marketing, over the last 18 months, we have invested in work to evolve a brand strategy and marketing narrative for Wales, embracing not only tourism, but also foreign investment. This is an exercise in planning for the long term, but it has already delivered high-profile brand communication campaigns, including refreshed marketing at Cardiff Airport and Just Ask Wales—Wales's first major foreign direct investment campaign in a number of years.

I ddechrau gyda marchnata, dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu strategaeth brand a naratif marchnata i Gymru, gan gofleidio nid yn unig twristiaeth, ond hefyd buddsoddi tramor. Mae hwn yn ymarfer mewn cynllunio ar gyfer y tymor hir, ond mae eisoes wedi cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu brand proffil uchel, gan gynnwys marchnata wedi'i ddiweddaru ym Maes Awyr Caerdydd a Just Ask Wales—ymgyrch fawr gyntaf buddsoddi tramor uniongyrchol Cymru ers nifer o flynyddoedd.

From a tourism perspective, the key recommendation was to place our high-quality product centre stage, which has underpinned campaigns during the year. On St David's Day 2014, Visit Wales launched a £4 million multimedia campaign targeting the UK and the Republic of Ireland, including potential growth markets in south-east England and London, and within Wales. The campaign encouraged new and lapsed visitors to re-evaluate their perception of Wales by showcasing specific product and destination experiences. While it is too early to judge the results, reactions have been positive, with campaign responses 12% higher than in the spring of 2013. Internationally, research and evaluation work has led to a new focus on three primary overseas markets: Ireland, Germany and the US. Visit Wales has a programme of PR, campaign and travel trade activity in these markets, but it has also developed some territory-specific initiatives.

O safbwynt twristiaeth, yr argymhelliad allweddol oedd blaenoriaethu tynnu sylw at ein cynnyrch o ansawdd uchel, a hyn fu sail ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn. Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2014, lansiodd Croeso Cymru ymgyrch amlgyfrwng o £4 miliwn yn targedu'r DU a Gweriniaeth Iwerddon, gan gynnwys marchnadoedd twf posibl yn ne-ddwyrain Lloegr a Llundain, ac o fewn Cymru. Roedd yr ymgyrch yn annog ymwelwyr newydd a rhai nad oedd wedi bod ers amser i ail-werthuso eu syniad o Gymru drwy arddangos profiadau cynnyrch a chyrchfannau penodol. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu'r canlyniadau, mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol, gydag ymatebion i'r ymgyrch 12% yn uwch nag yng ngwanwyn 2013. Yn rhyngwladol, mae gwaith ymchwil ac arfarnu wedi arwain at bwyslais newydd ar dair marchnad dramor sylfaenol: Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau. Mae gan Croeso Gymru raglen o gysylltiadau cyhoeddus, ymgyrchu a gweithgareddau'r diwydiant teithio yn y marchnadoedd hyn, ond mae hefyd wedi datblygu rhai mentrau penodol i diriogaeth.

In other markets, Visit Wales has undertaken a series of tactical campaigns, including activity to capitalise on new route development achieved by Cardiff Wales airport. In addition to these targeted campaigns, Visit Wales has global reach via its digital marketing. This includes the main www.visitwales.com global website, re-launched successfully a year ago, as well as specific market websites for Germany, North America, France, the Netherlands and Spain. The latest social media channels have been exploited, establishing a significant following through targeted and timely communications, for example, taking advantage of the success of the Welsh detective series 'Hinterland' to promote Ceredigion. Visit Wales's PR and media relations team hosted 300 media visits, as well as generating a stream of positive travel and lifestyle stories to present Wales as a tourism destination. Over the past year, this work has resulted in coverage worth £35 million.

Mewn marchnadoedd eraill, mae Croeso Cymru wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd tactegol, gan gynnwys gweithgarwch i fanteisio ar ddatblygu llwybrau newydd a gyflawnwyd gan faes awyr Cymru Caerdydd. Yn ogystal â'r ymgyrchoedd wedi'u targedu hyn, mae gan Croeso Cymru gyrhaeddiad byd-eang drwy ei farchnata digidol. Mae hyn yn cynnwys y brif wefan fyd-eang www.visitwales.com, a gafodd ei hail-lansio'n llwyddiannus flwyddyn yn ôl, yn ogystal â gwefannau marchnadoedd penodol ar gyfer yr Almaen, Gogledd America, Ffrainc, yr Iseldiroedd a Sbaen. Manteisiwyd ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol diweddaraf, gan sefydlu dilyniant sylweddol trwy gyfathrebiadau wedi'u targedu ac amserol, er enghraifft, manteisio ar lwyddiant y gyfres dditectif Gymreig 'Y Gwyll' i hyrwyddo Ceredigion. Cynhaliodd tîm cysylltiadau cyhoeddus a chysylltiadau cyfryngau Croeso Cymru 300 o ymweliadau cyfryngau, yn ogystal â chynhyrchu ffrwd o straeon teithio a ffordd o fyw cadarnhaol i gyflwyno Cymru fel cyrchfan dwristiaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwaith hwn wedi arwain at sylw gwerth £35 miliwn.

Visit Wales has also reprioritised its market-facing work, including exhibiting in prime locations at the 2013 World Travel Market, ITB Berlin 2014 and Best of Britain and Ireland 2014, providing platforms for numerous Wales suppliers to meet travel trade buyers. In parallel, Visit Wales had over 200 individual appointments with travel trade buyers and hosted a 'Discover Wales' in Cardiff, where local suppliers met UK inbound and international tour operators. This was underpinned by familiarisation trips for key tour operators and travel agents. Overall, around 700 leads have been generated from travel trade events and familiarisation trips, as well as Visit Wales's dedicated travel trade website and e-newsletter programme. The value of business to Wales generated by the top-100 tour operators to Wales has grown by approximately 28% since 2012.

Mae Croeso Cymru hefyd wedi ail-flaenoriaethu ei waith sy'n ymdrin â'r farchnad, gan gynnwys arddangos mewn prif leoliadau yn y World Travel Market 2013, ITB Berlin 2014 a Best of Britain and Ireland 2014, gan ddarparu llwyfannau ar gyfer nifer o gyflenwyr o Gymru i gyfarfod prynwyr y diwydiant teithio. Ar yr un pryd, roedd gan Croeso Cymru dros 200 o apwyntiadau unigol gyda phrynwyr y diwydiant teithio a chynhaliodd 'Darganfod Cymru' yng Nghaerdydd, lle'r oedd cyflenwyr lleol yn cwrdd â threfnwyr teithiau ar y ffordd i mewn i'r DU a rhai rhyngwladol. Cafodd hyn ei ategu gan deithiau ymgyfarwyddo ar gyfer trefnwyr teithiau ac asiantaethau teithio allweddol. Yn gyffredinol, mae tua 700 o gysylltiadau wedi eu creu o ddigwyddiadau'r diwydiant teithio a theithiau ymgyfarwyddo, yn ogystal â gwefan diwydiant teithio benodol Croeso Cymru a rhaglen e-gylchlythyr. Mae'r gwerth busnes i Gymru a gynhyrchir gan 100 uchaf gweithredwyr teithiau i Gymru wedi cynyddu gan tua 28% ers 2012.

Moving on to development work, we have aligned investment and partnership work more closely with the new focus on iconic, high-quality, reputation-changing products and events. In 2013-14, the tourism investment support scheme assisted 34 businesses with just over £2 million-worth of financial support. In line with the strategy, I have also provided additional funding for some innovative products, which we are confident will make a visit to Wales even more compelling for visitors. Zip World, at the Llechwedd Slate Caverns, for example, and the Royal Mint's new factory tour and museum are both high profile and high impact projects that are already attracting significant attention.

Gan symud ymlaen at waith datblygu, rydym wedi ymgyfuno buddsoddiad a gwaith partneriaeth yn agosach â'r pwyslais newydd ar gynnyrch a digwyddiadau eiconig, o ansawdd uchel, sy'n gallu creu enw da. Yn 2013-14, cynorthwyodd y cynllun cymorth buddsoddi twristiaeth 34 o fusnesau gyda gwerth ychydig dros £2 miliwn o gymorth ariannol. Yn unol â'r strategaeth, rwyf hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer rhai cynhyrchion arloesol, ac ydym yn ffyddiog y byddant yn gwneud ymweliad â Chymru hyd yn oed yn fwy anorfod i ymwelwyr. Mae Zip World, yn Chwarel Lechi Llechwedd, er enghraifft, a thaith ffatri ac amgueddfa newydd y Bathdy Brenhinol yn ddau brosiect proffil uchel ac effaith uchel sydd eisoes yn denu cryn sylw.

In developing its major events programme, Wales achieved two firsts in 2013 with the hosting of WOMEX and the World Stage Design among 38 events supported. The events programme also included the ICC Champions Trophy and the Rugby League World Cup, while successful bids were made to host future events such as an Ashes test match, the IAAF world half marathon and the Volvo Ocean Race. A year-long festival commemorating the centenary of the birth of Dylan Thomas was launched in November 2013 in partnership with the Arts Council of Wales and local authorities. It is already reaping significant returns in terms of enhanced international profile.

Wrth ddatblygu ei rhaglen digwyddiadau mawr, torrodd Gymru dir newydd ddwywaith yn 2013 wrth gynnal WOMEX a Dylunio Llwyfan y Byd ymhlith 38 o ddigwyddiadau a gefnogwyd. Roedd y rhaglen o ddigwyddiadau hefyd yn cynnwys Tlws Pencampwyr yr ICC a Chwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair, a gwnaed ceisiadau llwyddiannus i gynnal digwyddiadau yn y dyfodol megis gêm brawf cyfres y Lludw, hanner marathon byd yr IAAF a'r Volvo Ocean Race. Lansiwyd gŵyl blwyddyn o hyd yn coffáu canmlwyddiant geni Dylan Thomas ym mis Tachwedd 2013 mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol. Mae eisoes yn dod ag enillion sylweddol o ran gwell proffil rhyngwladol.

Looking ahead, investment in digital marketing will be maintained and new, robust partnerships with the industry and key stakeholders forged to support further progress. While growing our domestic market share, we will step up investment in international marketing, recognising that developing an international competitive identity is a vital task deserving energy and commitment, with benefits reaching well beyond tourism.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd buddsoddiad mewn marchnata digidol yn cael ei gynnal a bydd partneriaethau newydd, cadarn gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu meithrin i gefnogi cynnydd pellach. Wrth dyfu ein cyfran o'r farchnad ddomestig, byddwn yn cynyddu buddsoddiad mewn marchnata rhyngwladol, gan gydnabod bod datblygu hunaniaeth gystadleuol ryngwladol yn dasg hanfodol sy'n haeddu egni ac ymrwymiad, gyda manteision yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i dwristiaeth.

Although the Welsh Government is committed to supporting the tourism industry and will continue to provide the framework for the private sector to achieve strong growth and success, nothing would be possible without the energy of the industry itself. I would like to thank individuals, businesses and communities for all their hard work over the past year. While there is a lot to do, I am confident that the strategy and partnership approach are already bearing fruit.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r diwydiant twristiaeth ac y bydd yn parhau i ddarparu fframwaith ar gyfer y sector preifat i gyflawni llwyddiant a thwf cryf, ni fyddai unrhyw beth yn bosibl heb egni'r diwydiant ei hun. Hoffwn ddiolch i unigolion, busnesau a chymunedau am eu holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Er bod llawer i'w wneud, rwy'n hyderus bod y dull strategaeth a phartneriaeth eisoes yn dwyn ffrwyth.

I would also like to thank my tourism advisory board for its advice and guidance on delivering the objectives of the strategy. As part of the current review of regional support, I will ensure that there is regional representation on the board in future to support the further development of local destination management. I will also put in place new task and finish groups to deliver specific actions within the strategy, reporting to the board. With business confidence high, there is every opportunity to be optimistic that our strategy is already helping this important sector of the economy to fulfil its full potential.

Hoffwn hefyd ddiolch i fy mwrdd cynghori ar dwristiaeth am ei gyngor a'i arweiniad ar gyflawni amcanion y strategaeth. Yn rhan o'r adolygiad presennol o gymorth rhanbarthol, byddaf yn sicrhau bod cynrychiolaeth ranbarthol ar y bwrdd yn y dyfodol i gefnogi datblygu rheolaeth cyrchfannau lleol ymhellach. Byddaf hefyd yn rhoi grwpiau gorchwyl a gorffen newydd ar waith i gyflawni camau gweithredu penodol o fewn y strategaeth, a byddant yn adrodd i'r bwrdd. Gyda hyder busnesau yn uchel, mae pob cyfle i fod yn obeithiol bod ein strategaeth eisoes yn helpu'r sector pwysig hwn o'r economi i gyflawni ei lawn botensial.

16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a lot of Members who want to speak on this item. I will extend the time if necessary, but let us try to keep things as crisp as possible, please. I call Suzy Davies.

Mae gen i lawer o Aelodau sy'n dymuno siarad ar yr eitem hon. Byddaf yn estyn yr amser os oes angen, ond gadewch inni geisio cadw pethau mor gryno ag y bo modd, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Suzy Davies.

16:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thank you, Minister, for your statement and for updating us on what I hope will prove to be very useful activity. I look forward to the detailed update on that as soon as possible.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad ac am ein diweddaru ar yr hyn yr wyf yn gobeithio fydd yn profi i fod yn weithgaredd defnyddiol iawn. Edrychaf ymlaen at y diweddariad manwl ar hynny cyn gynted ag y bo modd.

I am pleased to see that it was a better year for our tourism industry, although I am not entirely sure whether your statement invites us to infer that it is down to your strategy, without supporting evidence. Much better weather, much better domestic economy, and a frustrated sector doing a bit more itself may have had something to do with it as well. However, I am pleased to congratulate you on the improved social media presence and a much-improved website, which is far more user friendly and much more fun, even though it is still perhaps struggling with a clear brand message. I cannot quite see the follow through from the tv ads.

Rwy'n falch o weld y bu'n flwyddyn well ar gyfer ein diwydiant twristiaeth, er nad wyf yn hollol siŵr a yw eich datganiad yn ein gwahodd i awgrymu bod hynny o ganlyniad i'ch strategaeth, heb dystiolaeth ategol. Gallai tywydd llawer gwell, economi domestig llawer gwell, a sector rhwystredig yn gwneud ychydig yn fwy ei hun fod wedi cael rhywbeth i'w wneud ag ef hefyd. Fodd bynnag, rwy'n falch o'ch llongyfarch chi ar bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol gwell a gwefan lawer gwell, sy'n llawer haws ei defnyddio ac yn llawer mwy o hwyl, er ei bod efallai yn dal i gael trafferth gyda neges frand clir. Ni allaf weld yn glir y dilyniant o'r hysbysebion teledu.

While I am pleased to see that the site is available in a number of languages, there are still no identifiable routes from the site to VisitBritain and its branding, the 'great' branding, which has proven very successful since the Olympics. Perhaps you can let us know what you have done to capitalise on VisitBritain's ability to get people into the UK in order to create new or repeat visits to us here in Wales, particularly with regard to the Scandinavian market, which VisitBritain has identified, because apparently it is cheaper for people from Scandinavian countries to enjoy a Scandinavian-style holiday here in Wales than in their own countries.

Er fy mod yn falch o weld bod y safle ar gael mewn nifer o ieithoedd, nid oes unrhyw lwybrau amlwg o'r safle i VisitBritain a'i brandio, y brandio 'great' sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ers y Gemau Olympaidd. Efallai y gallwch adael i ni wybod beth yr ydych wedi ei wneud i fanteisio ar allu VisitBritain i gael pobl i mewn i'r DU er mwyn creu ymweliadau newydd neu ail ymweliadau â ni yma yng Nghymru, yn enwedig o ran y farchnad Sgandinafaidd, y mae VisitBritain wedi'i nodi, oherwydd mae'n debyg ei bod yn rhatach i bobl o wledydd Llychlyn fwynhau gwyliau o fath Sgandinafaidd yma yng Nghymru nag yn eu gwledydd eu hunain.

On major events, the direct investment in the Dylan Thomas celebrations has been very welcome. I have had one or two questions from partners about quite how their views were taken into account, but generally the perception of support has been very good. However, there remains a question about what you mean by partnership, considering that this is the mainstay of the strategy and it is barely mentioned in the statement today. I can see partnerships being forged at a higher level, but I cannot see how you are working with small and medium-sized enterprises, which are the mainstay of the industry, beyond the direct investment via TISS. With the demise of the regional tourism partnerships, how are you reaching those small and medium-sized businesses to respond both to their needs and their ideas? Under the previous system, at least opposition Members were able to extend some scrutiny, formal or otherwise, to meetings with local businesses, but I have no idea how your regional representation on the advisory board gathers its information and reports to you. So far, the industry is not that clear either.

O ran digwyddiadau mawr, mae'r buddsoddiad uniongyrchol yn y dathliadau Dylan Thomas i'w groesawu'n fawr. Rwyf wedi cael un neu ddau o gwestiynau gan bartneriaid am sut yn union y cafodd eu barn ei hystyried, ond yn gyffredinol mae'r canfyddiad o gefnogaeth wedi bod yn dda iawn. Fodd bynnag, mae cwestiwn o hyd am yr hyn yr ydych yn ei olygu wrth bartneriaeth, o ystyried mai dyma brif gynhalydd y strategaeth a phrin y mae'n cael ei grybwyll yn y datganiad heddiw. Gallaf weld partneriaethau'n cael eu ffurfio ar lefel uwch, ond ni allaf weld sut yr ydych yn gweithio gyda mentrau bach a chanolig, sef prif gynheiliaid y diwydiant, y tu hwnt i'r buddsoddiad uniongyrchol drwy TISS. Gyda dirywiad y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol, sut yr ydych chi'n cyrraedd y busnesau bach a chanolig hynny i ymateb i'w hanghenion a'u syniadau? O dan y system flaenorol, o leiaf roedd Aelodau'r gwrthbleidiau'n gallu cael rhywfaint o graffu, ffurfiol neu fel arall, ar gyfarfodydd gyda busnesau lleol, ond nid oes gennyf unrhyw syniad sut mae eich cynrychiolaeth ranbarthol ar y bwrdd cynghori yn casglu ei gwybodaeth ac yn adrodd i chi. Hyd yn hyn, nid yw'r diwydiant mor glir â hynny ychwaith.

Staying with major events, we have seen the Visit Wales logo in stadium adverts on the back of sports tickets; I presume that that is about awareness raising. Are you in a position yet to measure the direct return on that spend? I am also pleased to see the renewed interest in direct engagement in the travel market. Again, I am not very clear how much of that is in partnership with VisitBritain, but I would be very keen to hear if the 700 leads have crystallised into any high-value visits.

Gan aros gyda digwyddiadau mawr, rydym wedi gweld y logo Croeso Cymru mewn hysbysebion stadiwm ar gefn tocynnau chwaraeon; rwy'n cymryd fod hynny'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth. A ydych chi mewn sefyllfa eto i fesur yr enillion uniongyrchol ar y gwariant hwnnw? Rwyf hefyd yn falch o weld y diddordeb newydd mewn ymgysylltu uniongyrchol yn y farchnad deithio. Unwaith eto, nid wyf yn glir iawn faint o hynny sydd mewn partneriaeth â VisitBritain, ond byddwn yn awyddus iawn i glywed os bydd y 700 o gysylltiadau wedi crisialu i mewn i unrhyw ymweliadau gwerth uchel.

Inevitably, I have to ask you how you plan to maximise the tourism potential of the world events that have been secured—I am very pleased that they have been secured. In particular, how do you expect to help local hospitality and accommodation providers gear up to the opportunities provided? I wonder whether you can tell us why this statement was silent on upskilling the hospitality industry to bring status to the industry, and what conversations you had with the Deputy Minister for Skills and Technology on that.

Yn anochel, mae'n rhaid i mi ofyn i chi sut yr ydych chi'n bwriadu gwneud y mwyaf o botensial twristiaeth y digwyddiadau byd sydd wedi eu sicrhau—rwy'n falch iawn eu bod wedi eu sicrhau. Yn arbennig, sut ydych chi'n disgwyl helpu darparwyr lletygarwch a llety lleol i baratoi ar gyfer y cyfleoedd a ddarperir? Tybed a allwch chi ddweud wrthym pam yr oedd y datganiad hwn yn dawel ynghylch uwchsgilio'r diwydiant lletygarwch i ddod â statws i'r diwydiant, a pha sgyrsiau yr ydych chi wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar hynny.

Finally, while I get a strong sense of more focus in Visit Wales activity, how will that, ultimately, be evaluated? That is not very clear from the statement today. How, for example, do you conclude that the campaign response is 12% higher this year than last year? I do not doubt the figure, but I am not quite sure how you reached it. Any help that you can give us on how you gather and interpret statistics would be of great interest to me.

Yn olaf, er fy mod yn cael ymdeimlad cryf o fwy o bwyslais penodol mewn gweithgarwch Croeso Cymru, sut y bydd hynny, yn y pen draw, yn cael ei werthuso? Nid yw hynny'n glir iawn o'r datganiad heddiw. Sut, er enghraifft, ydych chi'n dod i'r casgliad bod ymateb i'r ymgyrch 12% yn uwch eleni na'r llynedd? Nid wyf yn amau'r ffigur, ond nid wyf yn hollol siŵr sut yr ydych wedi ei gyrraedd. Byddai unrhyw gymorth y gallwch ei roi i ni ar sut yr ydych yn casglu a dehongli ystadegau o ddiddordeb mawr i mi.

17:00

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, in the main, for those comments. We have been very pleased by the work that we have undertaken, particularly on major events. A lot of work has gone on in attracting major events, because there is enormous competition out there in terms of attracting major events. I have no doubt in my mind that the major events that we have attracted will enable us to do further work with some of the countries that have been involved—people will come and participate in this area.

Diolch i chi, ar y cyfan, am y sylwadau hynny. Rydym wedi bod yn falch iawn gan y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn enwedig ar ddigwyddiadau mawr. Mae llawer o waith wedi mynd ymlaen i ddenu digwyddiadau mawr, oherwydd mae cystadleuaeth enfawr yn bodoli o ran denu digwyddiadau mawr. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth yn fy meddwl y bydd y digwyddiadau mawr yr ydym wedi'u denu yn ein galluogi i wneud gwaith pellach gyda rhai o'r gwledydd sydd wedi bod yn cymryd rhan—bydd pobl yn dod ac yn cymryd rhan yn y maes hwn.

I think that, in terms of skills and training, I can only give a statement of so many words to the Chamber in terms of what I need to undertake. I assure you that we are working with the Department for Education and Skills and the education and training sectors to ensure that the right training and qualification structures are in place to develop the performance of the sector and achieve the ambitions in the tourism strategy.

Credaf, o ran sgiliau a hyfforddiant, na allaf ond rhoi datganiad o hyn a hyn o eiriau i'r Siambr o ran yr hyn mae angen i mi ei wneud. Rwy'n eich sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau a'r sectorau addysg a hyfforddiant i sicrhau bod y strwythurau hyfforddiant a chymwysterau cywir ar waith i ddatblygu perfformiad y sector a chyflawni'r uchelgeisiau yn y strategaeth dwristiaeth.

We are developing a national strategic approach to the promotion of careers in the sector, which I think has been lacking over the years, because we have to see career progression in this sector in particular. Visit Wales and tourism partners will exhibit at Skills Cymru careers events for the first time this year, and have been participating in early discussions on the potential development of a hospitality school, led by the Celtic Manor Resort, as part of the Newport regeneration proposals. Through the Welsh Government’s sector priorities fund programmes, SkillsActive has developed a new level 3 apprenticeships framework entitled ‘outdoor programmes’, so there is a lot going on in that particular area.

Rydym yn datblygu dull strategol cenedlaethol i hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector, a chredaf fod hyn wedi bod yn ddiffygiol dros y blynyddoedd, gan fod yn rhaid inni weld cynnydd mewn gyrfaoedd yn y sector hwn yn arbennig. Bydd Croeso Cymru a phartneriaid twristiaeth yn arddangos yn nigwyddiadau gyrfaoedd Sgiliau Cymru am y tro cyntaf eleni, ac maent wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ar y posibilrwydd o ddatblygu ysgol letygarwch, dan arweiniad y Celtic Manor Resort, yn rhan o'r cynigion adfywio Casnewydd. Trwy raglenni cronfa blaenoriaethau sector Llywodraeth Cymru, mae SkillsActive wedi datblygu fframwaith prentisiaethau lefel 3 newydd o'r enw 'rhaglenni awyr agored', felly mae llawer yn digwydd yn y maes penodol hwnnw.

With regard to your points about the regional tourism partnerships, I have made my announcement in this area. I think that there is clarity in the sector about what this means, but perhaps some in the sector choose not to have clarity about the discussions that they have had with us about what is following on from the regional tourism partnerships. There will be levels of engagement. At a local level, each region will have a named point of contact in Visit Wales. All regions will also engage with the industry via an informal regional forum, which will take a wider view across all of the regions. At a national level, we will have representatives from the region on the tourism panel; those representatives can then host meetings in those areas. The tourism panel will be far more engaged, and I will be making further announcements later this month on the detail of some of the areas that we are dealing with.

O ran eich pwyntiau am y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol, rwyf wedi gwneud fy nghyhoeddiad yn y maes hwn. Rwy’n credu bod eglurder yn y sector am beth mae hyn yn ei olygu, ond efallai fod rhai yn y sector yn dewis peidio â chael eglurder ynghylch y trafodaethau y maent wedi eu cael gyda ni am yr hyn sy'n dilyn ymlaen o'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol. Bydd lefelau o ymgysylltu. Ar lefel leol, bydd pob rhanbarth yn cael pwynt cyswllt penodedig yn Croeso Cymru. Bydd pob rhanbarth hefyd yn ymgysylltu â'r diwydiant drwy fforwm rhanbarthol anffurfiol, a fydd yn cymryd golwg ehangach ar draws pob un o'r rhanbarthau. Ar lefel genedlaethol, bydd gennym gynrychiolwyr o'r rhanbarth ar y panel twristiaeth; yna gall y cynrychiolwyr hynny gynnal cyfarfodydd yn yr ardaloedd hynny. Bydd y panel twristiaeth yn ymgysylltu llawer mwy, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn ddiweddarach y mis hwn ar fanylion rhai o'r ardaloedd yr ydym yn ymdrin â hwy.

May I turn to marketing, because I think that that was a theme that ran through your contribution? Marketing is absolutely key for us in the development of this. Over the last 12 months, we have invested a lot of work in evolving a brand that brings together tourism and inward investment. The additional spend generated by visitors directly influenced to visit Wales through all our marketing activities was £180 million for 2013, so that is quite substantial. The Great Britain domestic market remains our primary market, because we recognise how close that is to us and there is the availability of short and long trips.

A gaf fi troi at farchnata, oherwydd bod hyn yn thema a oedd yn rhedeg drwy eich cyfraniad yn fy marn i? Mae marchnata yn gwbl allweddol i ni yn y datblygiad hwn. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi buddsoddi llawer o waith yn datblygu brand sy'n dwyn ynghyd twristiaeth a buddsoddiad mewnol. Roedd y gwariant ychwanegol a gynhyrchwyd gan ymwelwyr y dylanwadwyd arnynt yn uniongyrchol i ymweld â Chymru drwy ein holl weithgareddau marchnata yn £180 miliwn ar gyfer 2013, felly mae'n eithaf sylweddol. Marchnad ddomestig Prydain Fawr yw ein prif farchnad o hyd, gan ein bod yn cydnabod pa mor agos y mae hi atom ac mae teithiau byr a hir ar gael.

You asked particularly about our role and relationship with VisitBritain. We work closely with VisitBritain. We are in the process of recruiting a representative who will work on behalf of Visit Wales in the VisitBritain team in London, which I think will strengthen our involvement. We are feeding into the VisitBritain ‘Great’ campaign in terms of what products and experiences we have to offer visitors. I think that the NATO summit will be an opportunity to showcase Wales within the ‘Great’ campaign, and we are working with our partners on that.

Gofynasoch yn benodol am ein swyddogaeth a'n perthynas â VisitBritain. Rydym yn gweithio'n agos gyda VisitBritain. Rydym yn y broses o recriwtio cynrychiolydd a fydd yn gweithio ar ran Croeso Cymru yn y tîm VisitBritain yn Llundain, a chredaf y bydd hynny’n cryfhau ein hymglymiad. Rydym yn bwydo i mewn i ymgyrch ‘Great’ VisitBritain o ran y cynnyrch a’r profiadau sydd gennym i'w cynnig i ymwelwyr. Rwy'n credu y bydd uwchgynhadledd NATO yn gyfle i arddangos Cymru yn yr ymgyrch ‘Great’, ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar hynny.

We are also having ongoing discussions with other visit bodies about how VisitBritain can improve its strategic support for destinations in the UK other than London and the normal suspects. We are working with VisitBritain on the way that it represents Wales overseas to brand Wales clearly overseas. I think that it is important that we recognise that some of these issues were highlighted in the recent Welsh Government evidence paper to the Welsh Affairs Committee.

Rydym hefyd yn cael trafodaethau parhaus gyda chyrff ymweld eraill am sut y gall VisitBritain wella ei gefnogaeth strategol i gyrchfannau yn y DU ar wahân i Lundain a'r un hen leoedd. Rydym yn gweithio gyda VisitBritain ar y ffordd y mae'n cynrychioli Cymru dramor i frandio Cymru yn eglur dramor. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod rhai o'r materion hyn wedi'u hamlygu ym mhapur tystiolaeth diweddar Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Materion Cymreig.

17:04

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Mae hwn yn faes pwysig iawn i economi Cymru. Mewn rhai ardaloedd penodol, fel fy etholaeth i yn Ynys Môn, mae cael y strategaeth yn iawn ar dwristiaeth yn hollbwysig, wrth gwrs. Dangosodd ffigurau diweddar fod twristiaeth werth ryw £0.25 biliwn y flwyddyn i economi Ynys Môn. Rydym, yn sicr, yn credu bod llwyddiant y diwydiant twristiaeth yn ddibynnol ar fenter a gwaith caled y diwydiant ei hun, ond, wrth gwrs, mae rôl bwysig iawn i'r Llywodraeth mewn hybu buddsoddiad a marchnata Cymru fel lle i ymwelwyr ddod.

Thank you, Minister, for the statement. This is a very important area for the Welsh economy. In some specific areas, such as my constituency of Ynys Môn, getting the strategy right on tourism is crucial, of course. Recent figures demonstrated that tourism is worth some £0.25 billion a year to the Anglesey economy. We, certainly, believe that the success of the tourism industry depends upon innovation and hard work within the industry itself, but, of course, there is a crucial role for Government in promoting investment and marketing Wales as a visitor location.

Nid wyf yn sicr am feirniadu ymgyrchoedd unigol o ran hysbysebu neu hybu ymwybyddiaeth o Gymru. Mae pob menter o'r fath i'w groesawu ynddo ei hunan, ond y cwestiwn, wrth gwrs, yw: a ydynt yn gweithio yn strategol efo'i gilydd i hybu brand Cymru? Byddwn yn croesawu eich sylw ar hynny. A ydych wirioneddol yn credu ein bod yn cryfhau'r brand hwnnw i'r graddau y dylwn ei wneud erbyn hyn?

I certainly do not want to criticise individual campaigns, be they advertising campaigns or awareness-raising campaigns. All initiatives of that kind are to be welcomed in and of themselves, but the question, of course, is: do they work strategically together to promote the Wales brand? I would welcome your comment on that. Do you truly believe that we are strengthening that brand to the extent that we should be doing by now?

Hoffwn wneud sylw ar rai o'r ystadegau a roddwyd gan y Gweinidog. Dywedwyd bod 117,000 o bobl yn gweithio yn y sector dwristiaeth yng Nghymru yn 2012—neu 9% o'r gweithlu. Nid yw hynny'n dweud dim wrthym am lefel cyflogau ac ymdrechion i godi sgiliau'r unigolion hynny sy'n gweithio yn y diwydiant. Pa gynlluniau penodol sydd gennych fel Llywodraeth i fynd i'r afael â hynny?

I would like to comment on some of the statistics that the Minister gave. Some 117,000 people were working in the tourism sector in Wales in 2012—or 9% of the workforce. That tells us nothing of the level of salaries and efforts to enhance the skills of those individuals working in the industry. What specific plans do you have as a Government to tackle that?

Mae'n hanfodol ein bod nid yn unig yn anelu at gynyddu niferoedd ymwelwyr a niferoedd y bobl sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant ac ati, ond ein bod hefyd yn cynyddu gwerth pob ymwelydd a ddaw i Gymru—hynny yw, cynyddu lefel gwariant pobl pan maent yn dod i Gymru. Gallwn grybwyll y sector 'cruises', sy'n tyfu yn Ynys Môn fel sector sy'n dod â thwristiaeth gwerth uchel i Gymru.

It is crucial that we not only aim to increase the number of visitors and the number of people who are employed in the industry and so on, but also increase the value that each visitor brings to Wales—that is, increase the spend of visitors when they come to Wales. We can mention to the cruises sector, which is becoming increasingly important in Anglesey as a sector that brings high-value tourism to Wales.

Os yw hybu twristiaeth yn hwb i dwf economaidd, byddai rhannu manteision twristiaeth yn hwb i rannu twf economaidd. Fel y byddwn yn disgwyl o brifddinas mor hyfryd a'r un sydd gennym, mae Caerdydd wedi bod yn perfformio yn gryf iawn yn ddiweddar. Mae'n werth nodi bod £1 biliwn o'r £5.8 biliwn a gafodd ei wario yng Nghymru yn 2011 wedi ei wario yn y brifddinas. Mae'n wych o beth gweld twristiaeth yng Nghaerdydd yn tyfu, ond mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio'n strategol i sicrhau bod y rheiny sy'n cael eu denu i Gaerdydd yn cael eu temtio hefyd fwy byth i ymweld â rhannau eraill o'r wlad. Hoffwn glywed barn y Gweinidog ar hynny.

If promoting tourism boosts economic growth, then sharing the benefits of tourism would also boost disseminating economic growth. As we would expect from such a wonderful capital city as that which we have, Cardiff has been performing very strongly recently. It is worth noting that £1 billion of the £5.8 billion spent in Wales in 2011 was spent in our capital. It is an excellent thing to see tourism in Cardiff blossoming, but it is important that we work strategically to ensure that those attracted to Cardiff are also tempted further to visit other parts of the country. I would like the Minister's view on that.

Mae nifer o fentrau rydym wedi galw amdanynt. Yn gyntaf, rydym wedi galw am wario mwy ar y cynllun i gefnogi buddsoddiad mewn twristiaeth. Nodaf yn eich datganiad bod £2 filiwn wedi ei wario ar 34 prosiect yn 2013-14. Gofynnaf i'r Gweinidog am gynlluniau i ehangu'r cynllun hwn. Rydym hefyd yn cefnogi'n frwd y galwad am dorri treth ar werth ar y diwydiant twristiaeth—rhywbeth nad yw o fewn grym y Cynulliad, wrth gwrs; mae gwaith caled yn cael ei wneud gan Aelodau Seneddol Plaid Cymru ar hyn. Byddai'n dda gallu cael ymrwymiad y Gweinidog i gefnogi'r ymgyrch honno.

There are number of initiatives that we have called for. First, we have called for enhanced spend on the scheme to support investment in tourism. I note from your statement that £2 million has been allocated to 34 projects in 2013-14. I ask the Minister about plans to expand this scheme. We are also very supportive of demands to cut VAT on the tourism industry—something that is not within the Assembly's power, of course; hard work is being done by Plaid Cymru MPs on this. It would be good to have a ministerial commitment to support that campaign.

Yn olaf, o ran yr uchelgais, mae'n rhaid gofyn a ydym yn ddigon uchelgeisiol. Y nod yw 10% o gynnydd erbyn 2020. Roedd arbenigwr academaidd ar dwristiaeth o flaen y Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar, a dywedodd y byddwn yn disgwyl, mewn difrif, y 10% hwnnw o gynnydd prin heb roi strategaeth yn ei lle o gwbl. Felly, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn ar y cynnydd, ond rwyf am gloi fy nghyfraniad drwy ofyn a ydym efallai yn anelu'n rhy isel.

Finally, in terms of the ambition, we must ask whether we are being ambitious enough. The target is a 10% increase by 2020. An academic expert on tourism appeared before the Enterprise and Business Committee recently, and said that we would expect an increase of 10% in any case without having hardly any strategy in place. So, I welcome the report on progress, but I would conclude by asking whether we are perhaps aiming too low.

17:09

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will certainly give some consideration with the tourism panel to whether we should look at our targets again. I appreciate that you are taking evidence and I look forward to the committee's report, which might give me some further guidance on how I might wish to review my tourism strategy.

Byddaf yn sicr yn rhoi rhywfaint o sylw gyda'r panel twristiaeth ar ba un a ddylem ni edrych ar ein targedau eto. Rwy'n sylweddoli eich bod yn cymryd tystiolaeth ac rwy'n edrych ymlaen at adroddiad y pwyllgor, a allai roi rhywfaint o arweiniad pellach i mi ar sut y gallwn ddymuno adolygu fy strategaeth dwristiaeth.

May I say that, like you, I think that it is a question of resource? If I had more resource available, I think I could use it imaginatively within the tourism sector and certainly support some further projects. However, of course, there will be a budgetary settlement that I will have to work within, and I have to get a balance across my whole portfolio in terms of the cash that is available.

A gaf fi ddweud fy mod i, fel chithau, yn credu mai cwestiwn o adnoddau yw hwn? Pe byddai gen i fwy o adnoddau ar gael, rwy'n credu y gallwn i ei ddefnyddio'n llawn dychymyg o fewn y sector twristiaeth a gallwn yn sicr gefnogi rhai prosiectau eraill. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd setliad cyllidebol y bydd yn rhaid i mi weithio oddi mewn iddo, ac mae'n rhaid i mi gael cydbwysedd ar draws fy mhortffolio cyfan o ran yr arian sydd ar gael.

You made a good point about the success of the capital city, and capital cities generally are places that people flock to. It is a matter then of enticing them outwards from the capital city and of how we market in the capital city the rest of Wales. When you look at some of the Sunday newspapers and the articles that we have put in about Wales outside Cardiff, and how beautiful it is with the coastal path and our heritage and everything—I certainly think that it does target an audience. There is always more to do in that area.

Gwnaethoch bwynt da am lwyddiant y brifddinas, ac mae prif ddinasoedd yn gyffredinol yn lleoedd y mae pobl yn heidio iddynt. Mae'n fater wedyn o'u denu allan o'r brifddinas a sut yr ydym yn marchnata gweddill Cymru yn y brifddinas. Pan fyddwch yn edrych ar rai o'r papurau Sul a'r erthyglau yr ydym wedi eu rhoi ynddynt am Gymru y tu allan i Gaerdydd, a pha mor hardd yw hi gyda'r llwybr arfordirol a'n treftadaeth a phopeth—rwyf yn sicr yn credu ei bod yn targedu cynulleidfa. Mae bob amser fwy i'w wneud yn y maes hwnnw.

I think I covered, in responding to Suzy Davies, the issue about skills. This is very much a live agenda with the tourism panel, and it is about the quality of what you get and your first response, if you are a tourist. If you have a good response at that first stage and you have good service and you have everything, you know what you want to do. The trouble in this country is that people see the hospitality sector as a sector that can be largely run by part-time employees, and students sometimes, and they do not recognise as people do in Europe the quality of that sector and what it requires in terms of skills. I think that what we are looking at in terms of the development of hospitality schools and such things is to get to that upper end and really have career progression, which you can have, particularly on the continent.

Rwy'n credu fy mod wedi cynnwys, wrth ymateb i Suzy Davies, y mater am sgiliau. Mae hon yn sicr yn agenda fyw gyda'r panel twristiaeth, ac mae'n ymwneud ag ansawdd yr hyn yr ydych yn ei gael a'ch ymateb cyntaf, os ydych yn dwristiaid. Os ydych yn cael ymateb da ar y cam cyntaf a'ch bod yn cael gwasanaeth da a bod gennych bopeth, rydych yn gwybod beth yr ydych eisiau ei wneud. Y drafferth yn y wlad hon yw bod pobl yn gweld y sector lletygarwch fel sector y gellir ei redeg i raddau helaeth gan weithwyr rhan-amser, a myfyrwyr weithiau, ac nid ydynt yn cydnabod fel y mae pobl yn ei wneud yn Ewrop ansawdd y sector hwnnw a'r hyn y mae ei angen o ran sgiliau. Rwy'n meddwl mai'r hyn yr ydym yn edrych arno o ran datblygiad ysgolion lletygarwch a phethau o'r fath yw cyrraedd y pen uchaf hwnnw a chael dilyniant gyrfa gwirioneddol, y gallwch ei gael, yn enwedig ar y cyfandir.

I think that there is a good strategic alignment between what we are doing in terms of Visit Wales and the Just Ask Wales campaign in terms of inward investment. I think that we are getting stronger on that brand in terms of what we are focusing on. We are certainly getting stronger in terms of what we are doing on digital tourism, which also helps us to brand Wales globally. Digital tourism is very important. However, in terms of money and growth, we have been working with several EU projects, as you are probably aware. Visit Wales has been a partner in the delivery of the environment for growth programme, which has a total of some £37 million for coastal and sustainability tourism projects. These again will provide new iconic tourism projects that will raise our profile. So, when we look at the structural funds, there are opportunities there for the tourism industry.

Rwy’n meddwl y ceir ymgyfuno strategol da rhwng yr hyn yr ydym yn ei wneud o ran Croeso Cymru a'r ymgyrch Just Ask Wales o ran mewnfuddsoddi. Rwy’n meddwl ein bod yn mynd yn gryfach o ran y brand hwnnw ynglŷn â’r hyn yr ydym yn canolbwyntio arno. Rydym yn sicr yn mynd yn gryfach o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud ar dwristiaeth ddigidol, sydd hefyd yn ein helpu i frandio Cymru yn fyd-eang. Mae twristiaeth ddigidol yn bwysig iawn. Fodd bynnag, o ran arian a thwf, rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o brosiectau’r UE, fel yr ydych yn gwybod yn ôl pob tebyg. Mae Croeso Cymru wedi bod yn bartner yn y gwaith o ddarparu’r amgylchedd ar gyfer twf y rhaglen, sydd â chyfanswm o ryw £37 miliwn ar gyfer prosiectau twristiaeth arfordirol a chynaladwyedd. Bydd y rhain eto yn darparu prosiectau twristiaeth eiconig newydd a fydd yn codi ein proffil. Felly, pan edrychwn ar y cronfeydd strwythurol, mae cyfleoedd ar gael ar gyfer y diwydiant twristiaeth.

In terms of what we are undertaking, this is a massive task to be on the ball on all the time in terms of tourism because there is so much being offered. You always want to offer more and you always want to help businesses to offer more. However, the role of Government, really, is to enable where it can. So, overall, we have made good progress in terms of the policy agenda, but I will be looking forward to the report to see whether we can enhance the strategy further.

O ran yr hyn yr ydym yn ei wneud, mae hon yn dasg enfawr i fod yn barod i ymateb drwy'r amser o ran twristiaeth oherwydd bod cymaint yn cael ei gynnig. Mae rhywun bob amser yn awyddus i gynnig mwy ac mae rhywun bob amser yn awyddus i helpu busnesau i gynnig mwy. Fodd bynnag, swyddogaeth y Llywodraeth, mewn gwirionedd, yw galluogi lle y mae’n gallu. Felly, ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran yr agenda polisi, ond byddaf yn edrych ymlaen at yr adroddiad i weld a allwn ni wella'r strategaeth ymhellach.

17:12

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, just to echo some of the points you made with regard to resources, what is clear is that this is an intensely competitive industry. There are enormous amounts of money being spent in promoting places, whether it be Ireland, Scotland, France or New Zealand, across the world. We have the resources we have. However, one of the issues may be whether we utilise those resources as well as we can and where we look for the opportunities in terms of digital advertising through social media and so on. Of course, VisitBritain is important because it is a site that attracts many, many hits. However, I do wonder sometimes whether we are talking up Wales as much as we could and using our influence with bodies like that as strongly as we could. I am just looking at the website in front of me and at how countries are described. For example, Northern Ireland is:

Weinidog, dim ond i adleisio rhai o'r pwyntiau a wnaethoch o ran adnoddau, yr hyn sy'n glir yw bod hwn yn ddiwydiant hynod gystadleuol. Mae symiau enfawr o arian yn cael eu gwario ar hybu lleoedd, boed yn Iwerddon, yr Alban, Ffrainc neu Seland Newydd, ar draws y byd. Mae gennym yr adnoddau sydd gennym. Fodd bynnag, efallai mai un o'r materion yw pa un a ydym ni’n defnyddio’r adnoddau hynny gystal ag y gallwn a lle'r ydym yn chwilio am y cyfleoedd o ran hysbysebu digidol trwy gyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen. Wrth gwrs, mae VisitBritain yn bwysig oherwydd ei bod yn safle sy'n denu llawer iawn, iawn o drawiadau. Fodd bynnag, rwyf yn ystyried weithiau pa un a ydym yn canmol Cymru gymaint ag y gallem ac yn defnyddio ein dylanwad gyda chyrff o’r fath mewn modd mor gryf ag y gallem. Rwy’n edrych ar y wefan o fy mlaen ar hyn o bryd ac ar sut mae gwledydd yn cael eu disgrifio. Er enghraifft, mae Gogledd Iwerddon yn:

‘Vibrant cities, with shopping, nightlife and festivals, outdoor activities, fabulous food, unspoilt retreats’

Dinasoedd bywiog, gyda siopa, bywyd nos a gwyliau, gweithgareddau awyr agored, bwyd gwych, enciliadau heb eu difetha

et cetera. Scotland is:

et cetera. Mae'r Alban yn:

‘everything you imagine—whisky, golf, romance of the clans, a wealth of castles’

bopeth y byddech yn ei ddychmygu—wisgi, golff, rhamant y llwythau, cyfoeth o gestyll

and so on and so on. Wales is:

ac yn y blaen ac yn y blaen. Mae Cymru yn:

‘different from other parts of Britain and just 2 hours from Heathrow Airport. With 400 castles, yet only one official motorway, you have to take things at a gentle pace.’

wahanol i rannau eraill o Brydain a dim ond 2 awr o Faes Awyr Heathrow. Gyda 400 o gestyll, ond dim ond un draffordd swyddogol, mae’n rhaid i chi gymryd pethau’n araf deg.

I do think that we can probably be selling ourselves a bit better than that and I think that, if I was looking at that, I would not necessarily be choosing to go to Wales. So, there may be issues there, where we can actually utilise what we have and perhaps fight our corner.

Rwyf yn credu y gallem yn ôl pob tebyg werthu ein hunain ychydig yn well na hynny ac rwy’n meddwl, pe byddwn yn edrych ar hynny, na fyddwn i o reidrwydd yn dewis mynd i Gymru. Felly, gall fod problemau yn hynny o beth, lle y gallwn mewn gwirionedd ddefnyddio’r hyn sydd gennym ac efallai ymladd ein cornel.

One of the issues I wanted to raise is that we have people going to the major heritage and tourism sites. We have Cardiff castle nearby. We have Castell Coch nearby. They are fantastic sites. I wonder what your thoughts are in terms of how we utilise what I suppose we could call the second-level historic sites that, in many ways, ought to be feeding off tourists who go to one major site when there are many other smaller ones around. For example, in my constituency, there are the thermal springs in Taffs Well and the Nantgarw pottery. I think that all of our constituencies have those sorts of sites, and sometimes I think that we do not necessarily utilise the narrative around the major historic sites to properly explore them and encourage people into the rest of our constituencies. I wonder what your thoughts might be on that, Minister.

Un o'r materion yr oeddwn eisiau ei godi yw bod gennym bobl yn mynd at y prif safleoedd treftadaeth a thwristiaeth. Mae gennym gastell Caerdydd gerllaw. Mae gennym Gastell Coch gerllaw. Maent yn safleoedd gwych. Tybed beth yw eich syniadau chi o ran sut yr ydym yn defnyddio’r hyn y gellid eu galw yn safleoedd hanesyddol ail lefel, y dylent, mewn sawl ffordd, fod yn bwydo oddi ar dwristiaid sy'n mynd i un safle o bwys pan fo llawer o rai eraill llai ar gael. Er enghraifft, yn fy etholaeth i, ceir ffynhonnau thermol yn Ffynnon Taf a chrochenwaith Nantgarw. Credaf fod y mathau hynny o safleoedd ym mhob un o'n hetholaethau, ac weithiau rwy’n meddwl nad ydym o reidrwydd yn defnyddio'r naratif o amgylch y safleoedd hanesyddol o bwys i'w harchwilio yn briodol ac annog pobl i mewn i weddill ein hetholaethau. Tybed beth allai eich barn fod ar hynny, Weinidog.

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Yes, on your last point, there is, of course, a role and function for local government in looking at the major sites in its areas and at how it is able to link to its tourism budgets and link things. There is obviously a role and function for us at some of the major sites. I recall that Peter Black raised with me some time ago the issue of the Cistercian way and how the major sites along that way could be linked historically, and we are now doing some work in that particular area. Caerleon is probably one of the best sites in the world in terms of what is there, but there are also several other Roman sites across Wales; how should those be intrinsically linked in? So, there is a role and function for local government and us to work harder on that particular agenda.

Oes, ar eich pwynt olaf, mae, wrth gwrs, rhan a swyddogaeth ar gyfer llywodraeth leol mewn edrych ar y prif safleoedd yn ei hardaloedd ac ar sut y mae’n gallu cysylltu â'i chyllidebau twristiaeth a chysylltu pethau. Mae'n amlwg bod rhan a swyddogaeth i ni yn rhai o'r prif safleoedd. Rwy’n cofio bod Peter Black wedi codi gyda mi beth amser yn ôl y mater o'r ffordd Sistersaidd a sut y gallai'r prif safleoedd ar hyd y ffordd honno gael eu cysylltu’n hanesyddol, ac yr ydym erbyn hyn yn gwneud rhywfaint o waith yn y maes penodol hwnnw. Caerllion mae'n debyg, yw un o'r safleoedd gorau yn y byd o ran yr hyn sydd yno, ond ceir hefyd nifer o safleoedd Rhufeinig eraill ledled Cymru; sut y dylid cysylltu’r rhain yn y bôn? Felly, mae rhan a swyddogaeth ar gyfer llywodraeth leol a ninnau i weithio'n galetach ar yr agenda benodol honno.

In terms of digital marketing, I do not disagree with your comments about VisitBritain. There is a very vigorous discussion going on about VisitBritain, because we are currently reviewing the digital policy there. It is a big issue, because there are more questions to be asked about why more prominence is not given to Wales on that particular site. The review has been in train for quite a while and I can assure you that we have taken a very strong line in our discussion with VisitBritain. I have been very pleased to have Baroness Randerson’s support on the role of VisitBritain and she will assist us more in terms of the delivery there. I am sure that more information on this particular issue will come out in due course.

O ran marchnata digidol, nid wyf yn anghytuno â'ch sylwadau am VisitBritain. Mae trafodaeth fywiog iawn yn mynd ymlaen am VisitBritain, oherwydd yr ydym ar hyn o bryd yn adolygu'r polisi digidol yno. Mae'n fater pwysig, oherwydd mae mwy o gwestiynau i'w gofyn ynghylch pam nad oes mwy o amlygrwydd yn cael ei roi i Gymru ar y safle penodol hwnnw. Mae'r adolygiad wedi bod ar y gweill ers cryn amser a gallaf eich sicrhau ein bod wedi cymryd safiad cryf iawn yn ein trafodaeth gyda VisitBritain. Rwyf wedi bod yn falch iawn o gael cefnogaeth y Farwnes Randerson ar swyddogaeth VisitBritain a bydd hi’n ein helpu’n fwy o ran y cyflawni yno. Rwy’n siŵr y bydd mwy o wybodaeth am y mater penodol hwn yn dod allan maes o law.

It has not been easy over the last few weeks. We had a UK Government decision, to which we were not alerted until the last minute, about the establishment of a tourism organisation; the devolved administrations did not like it, as it is now an English-only body. So, there are questions about relationships, but I have to say that we have a very positive relationship, in terms of our inter-governmental working, with Baroness Randerson on these tourism issues and I am sure that we will have a stronger lead on the digital issue.

Nid yw wedi bod yn hawdd yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Cawsom benderfyniad Llywodraeth y DU, lle na chawsom wybod tan y funud olaf, ynghylch sefydlu sefydliad twristiaeth; nid oedd y gweinyddiaethau datganoledig yn ei hoffi, gan ei fod erbyn hyn yn gorff Lloegr yn unig. Felly, ceir cwestiynau am berthnasoedd, ond mae'n rhaid i mi ddweud bod gennym berthynas gadarnhaol iawn, o ran ein gwaith rhynglywodraethol, gyda'r Farwnes Randerson ar y materion twristiaeth hyn, ac rwy'n siŵr y bydd gennym arweiniad cryfach ar y mater digidol.

On our own side of the house, we are doing very well on the digital offer—the number of tweets that we get and the number of responses that we have had. We also have a dedicated Facebook page and Twitter feed with over 450,000 followers. I think that is pretty good indeed for us.

Ar ein hochr ein hunain o'r tŷ, rydym yn gwneud yn dda iawn ar y cynnig digidol—y nifer o negeseuon trydar yr ydym yn eu cael a nifer yr ymatebion a gawsom. Mae gennym hefyd dudalen benodedig Facebook a Twitter gyda dros 450,000 o ddilynwyr. Credaf fod hynny'n dda iawn yn wir i ni.

17:16

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that very broad statement. You noted the critical importance of tourism to the Welsh economy, and as someone who worked for many years in destination marketing for Wales and Welsh institutions, I am never going to argue with that. Of the Welsh workforce, 9% is obviously supported by the sector, but, historically, jobs in tourism, as we have said, seem to be seasonal, low paid, perhaps low valued, and this is linked not only to the skills agenda, but also to the market that Wales is traditionally pitched to for its tourism business. The challenge, I think, if we want to see those high-value, high-skilled and highly regarded jobs created in this sector for Wales, is to achieve a rebalancing of that market to address these issues. So, we need not only a broader offer in order to give us a high-yielding offer, but also a more year-round offer to make sure that we have sustainability throughout the year for local areas, particularly those that are very dependent on tourism.

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad eang iawn yna. Nodwyd pwysigrwydd hanfodol twristiaeth i economi Cymru gennych, ac fel rhywun a oedd yn gweithio am flynyddoedd lawer mewn marchnata cyrchfan ar gyfer Cymru a sefydliadau Cymru, nid wyf byth yn mynd i ddadlau â hynny. O weithlu Cymru, mae 9% yn amlwg yn cael eu cefnogi gan y sector, ond, yn hanesyddol, mae swyddi ym maes twristiaeth, fel yr ydym wedi dweud, yn ymddangos i fod yn rhai tymhorol, cyflog isel, efallai ddim yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac mae hyn yn gysylltiedig nid yn unig â'r agenda sgiliau, ond hefyd â'r farchnad y mae Cymru wedi'i gosod ynddi'n draddodiadol am ei busnes twristiaeth. Yr her, yr wyf yn credu, os ydym am weld y swyddi gwerth uchel, medrau uchel ac uchel eu parch yn cael eu creu yn y sector hwn ar gyfer Cymru, yw sicrhau ail-gydbwyso'r farchnad honno i fynd i'r afael â'r materion hyn. Felly, mae angen nid yn unig cynnig ehangach er mwyn rhoi cynnig cynnyrch uchel i ni, ond hefyd cynnig mwy gydol y flwyddyn i wneud yn siŵr bod gennym gynaladwyedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ardaloedd lleol, yn enwedig y rhai sy'n ddibynnol iawn ar dwristiaeth .

Critical to that, of course, is the issue of brand, which we have raised on many occasions previously, and also making sure that everyone involved not only in marketing, but also in those tourism products themselves within Wales understands what it is that we are trying to communicate and what we are trying to say about ourselves.

Yn hollbwysig i hynny, wrth gwrs, y mae'r mater o frand, yr ydym wedi'i godi droeon o'r blaen, a hefyd gwneud yn siŵr bod pawb sy'n cymryd rhan, nid yn unig ym maes marchnata, ond hefyd yn y cynhyrchion twristiaeth hynny eu hunain o fewn Cymru yn deall beth yr ydym yn ceisio ei gyfathrebu a'r hyn yr ydym yn ceisio ei ddweud amdanom ni ein hunain.

The Wales brand website is a very interesting and welcome development, Minister, but it is not, at this point in time, finished. Can you tell us, for example, why there are only regional sections for north Wales, mid Wales and Cardiff at the moment? When will the other parts of Wales be covered, because, clearly, tourism is a huge part of the economy in many other parts of Wales as well? May I also ask how many hits the tourism part of this website has had and what else the Welsh Government has done to communicate our brand values to tourism businesses in Wales so that they can understand what we are trying to say about ourselves and reflect things as we would wish? May I also ask how the brand strategy reflects the stated aim in the tourism strategy of growing tourism earnings by 10% by 2020? How will the brand attributes that you have selected in that brand strategy move us towards that higher yield, higher value tourism that we say we are trying to gain?

Mae'r wefan brand Cymru yn ddatblygiad diddorol iawn ac i'w groesawu, Weinidog, ond nid yw, ar hyn o bryd, wedi'i gorffen. A allwch chi ddweud wrthym, er enghraifft, pam nad oes adrannau rhanbarthol heblaw ar gyfer y gogledd, canolbarth Cymru a Chaerdydd ar hyn o bryd? Pryd y bydd y rhannau eraill o Gymru yn cael eu cynnwys, oherwydd, yn amlwg, mae twristiaeth yn rhan fawr o'r economi mewn llawer o rannau eraill o Gymru hefyd? A gaf fi ofyn hefyd faint o drawiadau y mae rhan dwristiaeth y wefan hon wedi'u cael a beth arall y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyfleu ein gwerthoedd brand i fusnesau twristiaeth yng Nghymru er mwyn iddynt allu deall yr hyn yr ydym yn ceisio ei ddweud amdanom ein hunain ac adlewyrchu pethau fel byddem yn dymuno? A gaf fi hefyd ofyn sut y mae'r strategaeth brand yn adlewyrchu'r nod a ddatgenir yn y strategaeth dwristiaeth o dyfu enillion twristiaeth gan 10% erbyn 2020? Sut fydd y nodweddion brand yr ydych wedi'u dewis yn y strategaeth brand yn ein symud tuag at y dwristiaeth cynnyrch uwch, gwerth uwch yr ydym yn dweud ein bod yn ceisio ei gyrraedd?

As I have mentioned this target, you have given a figure in your statement on growth from the top 100 tour operators since 2012. I note the Member for Anglesey's comments on what our target ought to be, but could you tell us, across the sector, in the same time period, what the increase in earnings has actually been to date?

Gan fy mod wedi crybwyll y targed hwn, rydych wedi rhoi ffigur yn eich datganiad ar dwf gan y 100 gweithredwr teithiau uchaf ers 2012. Nodaf sylwadau'r Aelod dros Ynys Môn ar yr hyn y dylai ein targed fod, ond a allech chi ddweud wrthym, ar draws y sector, yn yr un cyfnod o amser, beth fu'r cynnydd mewn enillion mewn gwirionedd hyd yn hyn?

As well as high yield, as I said, we also need to develop a broader base for the industry so that those higher value jobs are sustainable throughout the year. In aligning your capital grant programme that you mentioned in your statement, have you prioritised businesses with the potential to bring visitors all year round, as well as those businesses that want to drive quality improvements forward? Similarly, may I ask how the major events team is working to develop and support projects that encourage 12-month tourism? Many of the major events that we have seen have previously been concentrated in the summer months.

Yn ogystal ag arenillion uchel, fel y dywedais, mae angen inni hefyd ddatblygu sylfaen ehangach ar gyfer y diwydiant fel bod y swyddi gwerth uwch hynny'n gynaliadwy drwy gydol y flwyddyn. Wrth ymgyfuno eich rhaglen grant cyfalaf a grybwyllwyd gennych yn eich datganiad, a ydych chi wedi blaenoriaethu busnesau sydd â'r potensial i ddod ag ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â'r busnesau hynny sydd eisiau sbarduno gwelliannau ansawdd? Yn yr un modd, a gaf fi ofyn sut mae'r tîm digwyddiadau mawr yn gweithio i ddatblygu a chefnogi prosiectau sy'n annog twristiaeth 12 mis? Mae nifer o'r digwyddiadau mawr yr ydym wedi'u gweld o'r blaen wedi eu crynhoi yn ystod misoedd yr haf.

Obviously, developing profitable niche markets is a real opportunity for Wales, not only in terms of faith tourism, such as this Cistercian Way, as you mentioned, but also in terms of film and TV locations such as those for 'Hinterland', as was mentioned, but many others too. The action plan mentions raising the profile of Wales via broadcast programming and film. Could you elaborate how this broadcast profile is then being followed up? You know, if Wales is used as a backdrop in films, how are you going to ensure that the audience that is watching it knows that it is Wales and knows where in Wales it is as well? Are you developing, for example, a locations website or a map so that tourists coming into Wales can go to visit the fan areas of their choice based on the programmes that they watch?

Yn amlwg, mae datblygu marchnadoedd arbenigol proffidiol yn gyfle gwirioneddol i Gymru, nid yn unig o ran twristiaeth ffydd, fel y Ffordd Sistersaidd, y soniasoch amdani, ond hefyd o ran lleoliadau ffilm a theledu megis y rhai ar gyfer 'Y Gwyll', fel y crybwyllwyd, ond llawer o rai eraill hefyd. Mae'r cynllun gweithredu yn sôn am godi proffil Cymru trwy gyfrwng rhaglenni darlledu a ffilm. A allech chi ymhelaethu ar sut y dilynir y proffil darlledu hwn wedyn? Wyddoch chi, os yw Cymru'n cael ei defnyddio fel cefndir mewn ffilmiau, sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod y gynulleidfa sy'n gwylio yn gwybod mai Cymru ydyw ac yn gwybod ble yng Nghymru hefyd? A ydych chi'n datblygu, er enghraifft, gwefan lleoliadau neu fap fel y gall twristiaid sy'n dod i Gymru fynd i ymweld â'r ardaloedd dilynwyr o'u dewis yn seiliedig ar y rhaglenni y maent yn eu gwylio?

You have mentioned the link between Visit Wales and VisitBritain and how important that is. Obviously, the 'Great' campaign is running in 144 countries worldwide. It is not something that, with our budgets, we can compete with, so it is absolutely crucial that the co-ordination between those two sites is as good as it can possibly be.

Rydych wedi sôn am y cysylltiad rhwng Croeso Cymru a VisitBritain a pha mor bwysig yw hynny. Yn amlwg, mae'r ymgyrch 'Great' yn rhedeg mewn 144 o wledydd ledled y byd. Nid yw'n rhywbeth, gyda'n cyllidebau ni, y gallwn gystadlu ag ef, felly mae'n gwbl hanfodol bod y cydgysylltu rhwng y ddau safle hynny cystal ag y gall fod.

Finally, in that spirit of co-operation, I understand that the Welsh Affairs Select Committee is conducting an inquiry into tourism at present. I understand that you have submitted written evidence. I wonder whether representatives of the Welsh Government or Visit Wales will be giving evidence in person to that committee.

Yn olaf, yn yr ysbryd o gyd-weithio, rwy'n deall bod y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn cynnal ymchwiliad i dwristiaeth ar hyn o bryd. Rwy'n deall eich bod wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Tybed a fydd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru neu Croeso Cymru yn rhoi tystiolaeth yn bersonol i'r pwyllgor hwnnw.

17:21

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As far as I am aware, we have submitted written evidence; that is the extent of the evidence that we are likely to submit. There were a number of points raised there, and I do not have all the statistics to hand in terms of the issues that you raised with me.

Cyn belled ag y gwn i, rydym wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig; dyna faint y dystiolaeth yr ydym yn debygol o'i chyflwyno. Roedd nifer o bwyntiau a godwyd yno, ac nid yw'r holl ystadegau gennyf wrth law o ran y materion a godwyd gennych gyda mi.

May I say that I think that you made an exceptionally good point in your introductory remarks about how we see the industry and its development? I, like you, am concerned about the seasonal nature of the industry, the pay levels within the industry and the fact that it is not an all-year industry. I think that some of the resources into all-year attractions and making destinations satisfactory all year—. At the end of the day, you have to ensure that it is a 12-month-long industry. When I speak to the sector or the industry, it says that that is what it is aiming to do in terms of what attractions it has, but also the quality of what it can offer, whether it would be in the summer, autumn, winter or spring.

A gaf fi ddweud fy mod yn credu eich bod wedi gwneud pwynt arbennig o dda yn eich sylwadau agoriadol ynghylch sut yr ydym yn gweld y diwydiant a'i ddatblygiad? Yr wyf fi, yr un fath â chithau, yn bryderus am natur dymhorol y diwydiant, y lefelau cyflog o fewn y diwydiant a'r ffaith nad yw'n ddiwydiant sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn. Rwy'n credu bod rhai o'r adnoddau i mewn i atyniadau drwy gydol y flwyddyn a gwneud cyrchfannau yn foddhaol gydol y flwyddyn—. Yn y pen draw, mae'n rhaid i chi sicrhau ei fod yn ddiwydiant 12 mis. Pan fyddaf yn siarad â'r sector neu'r diwydiant, mae'n dweud mai dyna yw ei nod o ran pa atyniadau sydd ganddo, ond hefyd ansawdd yr hyn y gall ei gynnig, pa un a fyddai yn yr haf, yr hydref, y gaeaf neu'r gwanwyn.

In terms of the brand and the development of the brand, we are getting a better understanding of the brand and the linkages within the brand. I was particularly interested in what you said about how we are going to develop the creative aspect. We will be considering how we link all these areas in terms of the creative industries, because people will want to visit Pinewood studios. They will wish to go down to see where 'Da Vinci's Demons' is made. They will want to go to Monmouthshire to see 'Atlantis'. They will want to see the locations of 'Hinterland'. So, for me, there is another link for our website by saying, 'This was made in Wales. You can now visit this in Wales, and this is where it is and what you can do.' These are the types of discussions that the tourism arm is definitely having.

O ran y brand a datblygiad y brand, mae gennym well dealltwriaeth o'r brand a'r cysylltiadau o fewn y brand. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn yr hyn a ddywedasoch am sut yr ydym yn mynd i ddatblygu'r agwedd greadigol. Byddwn yn ystyried sut yr ydym yn cysylltu'r holl ardaloedd hyn o ran y diwydiannau creadigol, oherwydd bydd pobl eisiau ymweld â stiwdios Pinewood. Byddant yn dymuno mynd i lawr i weld lle mae 'Da Vinci's Demons ' yn cael ei wneud. Byddant eisiau mynd i Sir Fynwy i weld 'Atlantis'. Byddant am weld lleoliadau 'Y Gwyll'. Felly, i mi, mae cyswllt arall ar gyfer ein gwefan drwy ddweud, 'Gwnaed hwn yng Nghymru. Nawr, gallwch ymweld â hwn yng Nghymru, a dyma ble y mae a'r hyn y gallwch chi ei wneud.' Dyma'r mathau o drafodaethau y mae'r gangen dwristiaeth yn bendant yn eu cael.

In terms of major events, there are only so many major events that you can go for, in many ways. Some of them are quite seasonal in their particular nature. Obviously, there are music festivals that are held indoors, where being out of season is not a problem, but it is in other events. We try to look at the widest breadth that we can in terms of these events. However, you are quite right that, in the main, they tend to be events that are held in the spring, summer or autumn and very rarely in the winter. I think that the success of the Dylan Thomas event that we have has indicated what you can do with a very big event and how you can take it through the whole year. I think that it is important that we look for events that we can bring in more often than just one season, but it is a very difficult world that we are in, in terms of competing for major events, because there are other parts of the UK that are becoming very competitive in terms of the offer that they can give financially, and you have to be quite sure that you are getting value for money in terms of what is coming into the economy at the time of the event and what happens in the long run. I think that the Wales Rally GB has been very good, because we have had a lot of industrial involvement in that, with companies afterwards. I think that the fact that Toyota allowed its plant to be used for the cars and so on reinforces some of the links across the piece.

O ran digwyddiadau mawr, dim ond hyn a hyn o ddigwyddiadau mawr y gallwch fynd amdanynt, mewn llawer o ffyrdd. Mae rhai ohonynt yn eithaf tymhorol o ran eu natur arbennig. Yn amlwg, mae yna wyliau cerddoriaeth sy'n cael eu cynnal dan do, lle nad yw bod allan o dymor yn broblem, ond mae hynny'n wir am ddigwyddiadau eraill. Rydym yn ceisio edrych ar yr ehangder ehangaf y gallwn ni o ran y digwyddiadau hyn. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle eu bod, ar y cyfan, yn tueddu i fod yn ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y gwanwyn, yr haf neu'r hydref ac yn anaml iawn yn y gaeaf. Credaf fod llwyddiant y digwyddiad Dylan Thomas sydd gennym wedi nodi'r hyn y gallwch ei wneud gyda digwyddiad mawr iawn a sut y gallwch ei gynnal drwy'r flwyddyn gyfan. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn chwilio am ddigwyddiadau y gallwn ddod â nhw i mewn yn fwy aml na dim ond yn ystod un tymor, ond mae'n fyd anodd iawn yr ydym ynddo, o ran cystadlu am ddigwyddiadau mawr, oherwydd mae rhannau eraill o'r DU sy'n dod yn gystadleuol iawn o ran y cynnig y gallant ei roi yn ariannol, ac mae'n rhaid i chi fod yn hollol siŵr eich bod yn cael gwerth am arian o ran yr hyn sy'n dod i mewn i'r economi ar adeg y digwyddiad a beth fydd yn digwydd yn y tymor hir. Rwy'n credu bod Rali Cymru Prydain Fawr wedi bod yn dda iawn, gan ein bod wedi cael llawer o gyfranogiad diwydiannol yn hynny, gyda chwmnïau wedyn. Rwy'n credu bod y ffaith fod Toyota wedi caniatáu i'w ffatri gael ei defnyddio ar gyfer y ceir ac ati yn atgyfnerthu rhai o'r cysylltiadau ar draws y darn.

Also, I think that it is very important, in terms of the numbers that we look at, that we start to look at some of the creation that we have done in terms of jobs and investments, including capital projects and cruise developments. We have this year created 256 jobs, safeguarded 101 with jobs investment and created 5,000 indirect jobs, and £250 million investment was induced by some of the work that we have undertaken. I think that we have to recognise, in that case, that what we invest sometimes in good projects in terms of capital support increases the flow into Wales. A very good example of that would be the Royal Mint, where there is a £7.6 million in total project costs, with 147 safeguarded jobs, some created, and an investment of another £2.3 million—I think that that will bring tremendous potential into Wales to see what is available with the Mint. This is ongoing.

Hefyd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn, o ran y niferoedd yr ydym yn edrych arnynt, ein bod yn dechrau edrych ar rywfaint o'r creu yr ydym wedi'i wneud o ran swyddi a buddsoddiadau, gan gynnwys prosiectau cyfalaf a datblygiadau ym maes mordeithiau. Eleni, rydym wedi creu 256 o swyddi, diogelu 101 gyda buddsoddiad swyddi a chreu 5,000 o swyddi anuniongyrchol, ac anogwyd buddsoddiad o £250 miliwn gan rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud. Rwy'n credu bod yn rhaid inni gydnabod, yn yr achos hwnnw, bod yr hyn yr ydym yn ei fuddsoddi weithiau mewn prosiectau da o ran cymorth cyfalaf yn cynyddu'r llif i mewn i Gymru. Enghraifft dda iawn o hynny fyddai'r Bathdy Brenhinol, lle y ceir £7.6 miliwn mewn cyfanswm costau prosiect, gyda 147 o swyddi wedi'u diogelu, rhai wedi'u creu, a buddsoddiad o £2.3 miliwn arall—rwy'n credu y bydd yn dod â photensial aruthrol i Gymru i weld beth sydd ar gael gyda'r Bathdy. Mae hyn yn parhau.

What is also ongoing is the support, quality grading and promotion of what we have, because we have to up our game in terms of what we offer, but, at the same time, we have to recognise that we give a very good offer in other sectors: the more traditional bucket-and-spade market, camping and caravanning. We also have to keep that very much as an offer, I think, so that we attract the maximum number of people.

Beth sy'n parhau hefyd yw'r gefnogaeth, graddio ansawdd a hyrwyddo'r hyn sydd gennym, oherwydd mae'n rhaid inni gynyddu'n hymdrechion o ran yr hyn yr ydym yn ei gynnig, ond, ar yr un pryd, mae'n rhaid inni gydnabod ein bod yn rhoi cynnig da iawn mewn sectorau eraill: y farchnad bwced-a-rhaw fwy traddodiadol, gwersylla a charafanio. Mae'n rhaid i ni hefyd gadw hynny yn bendant fel cynnig, rwy'n credu, fel ein bod yn denu'r cymaint â phosib o bobl.

Obviously, I think that it would be very useful, Deputy Presiding Officer, to review the Record in terms of this discussion, and if there are any points that I have not addressed, I will certainly address them to Members across the piece.

Yn amlwg, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn, Ddirprwy Lywydd, i adolygu'r Cofnod o ran y drafodaeth hon, ac os oes unrhyw bwyntiau nad wyf wedi rhoi sylw iddynt, byddaf yn sicr rhoi sylw iddynt i'r Aelodau ar draws y darn.

17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are not through it yet. This is an important statement, and tourism is our largest industry. I did say that I would extend the time. I have three speakers now, and I will allow them just one minute each to put their questions. I call Sandy Mewies.

Nid ydym wedi gorffen eto. Mae hwn yn ddatganiad pwysig, a thwristiaeth yw ein diwydiant mwyaf. Dywedais y byddwn yn ymestyn yr amser. Mae gennyf dri o siaradwyr yn awr, a byddaf yn caniatáu dim ond un munud yr un iddynt roi eu cwestiynau. Galwaf ar Sandy Mewies.

17:25 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be as brief as I can, and I will get my question in first. [Laughter.]

Byddaf mor gryno ag y gallaf, a byddaf yn gofyn fy nghwestiwn yn gyntaf. [Chwerthin.]

It was a very comprehensive statement, and absolutely marvellous. I do support many of the refocusing things that have been done. We do have to look at big events, and we do have to look at things like Cardiff Airport, but we cannot leave out the smaller things either. You recently visited with me, in my Delyn constituency, where tourism is hugely important to the economy and to the wellbeing of the area, Basingwerk Abbey—a gem that sits in a gem itself, Greenfield heritage park. We visited that, and we were able to talk about the attractions and the deficiencies, such as the lack of brown signage and interpretation centres. St Winefride's Well—sometimes called the Lourdes of Wales—is still, after centuries, attracting pilgrims from all over the world. We met with caravan park owners from throughout the area, and they told us how they—. We also saw some very high-end caravans, which were unbelievable as caravans, costing £150,000. I would not mind living in one of those. The whole spectrum attracts people who come into our area, spend money and enjoy what we have.

Roedd yn ddatganiad cynhwysfawr iawn, ac yn gwbl wych. Rwy'n cefnogi llawer o'r pethau newid pwyslais sydd wedi eu gwneud. Mae'n rhaid i ni edrych ar ddigwyddiadau mawr, ac mae'n rhaid i ni edrych ar bethau fel Maes Awyr Caerdydd, ond ni allwn adael allan y pethau llai ychwaith. Fe wnaethoch ymweld gyda mi yn ddiweddar, yn fy etholaeth Delyn, lle mae twristiaeth yn hynod bwysig i'r economi ac i les yr ardal, ag Abaty Dinas Basing —gem sy'n eistedd mewn gem ei hun, parc treftadaeth Maes Glas. Fe wnaethom ymweld â hwnnw, ac roeddem yn gallu siarad am yr atyniadau a'r diffygion, megis diffyg arwyddion brown a chanolfannau dehongli. Mae ffynnon y Santes Gwenffrewi—a elwir weithiau yn Lourdes Cymru—yn parhau, ar ôl canrifoedd, i ddenu pererinion o bob cwr o'r byd. Fe wnaethom gyfarfod â pherchnogion parciau carafanau o bob rhan o'r ardal, ac roeddent yn dweud wrthym sut y maent—. Gwelsom rai carafanau drudfawr hefyd, a oedd yn anghredadwy fel carafanau, yn costio £150,000. Mi fyddwn i'n fodlon byw yn un o'r rheiny. Mae'r sbectrwm cyfan yn denu pobl sy'n dod i mewn i'n hardal, yn gwario arian ac yn mwynhau'r hyn sydd gennym.

You have already touched on the fact, Minister, that it is important to get partners working in this, but how do we get our partners, like local government, local businesses—and Abercarn was one that you visited? You saw how they promoted tourism themselves. How can we do it? How can we fit this into this bigger strategy on a regional basis to see that these people who work so hard to promote the tourist industry get the support that they deserve from others?

Rydych chi eisoes wedi cyfeirio at y ffaith, Weinidog, ei bod yn bwysig i gael partneriaid yn gweithio yn hyn, ond sut ydym ni'n cael ein partneriaid, fel llywodraeth leol, busnesau lleol—ac roedd Abercarn yn un y gwnaethoch chi ymweld ag ef? Gwelsoch sut y maent yn hyrwyddo twristiaeth eu hunain. Sut y gallwn ni wneud hynny? Sut y gallwn ni wneud hyn yn rhan o'r strategaeth fwy hon ar sail ranbarthol i weld bod y bobl hyn sy'n gweithio mor galed i hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu gan eraill?

17:27 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start with your last point. I have never seen such an incredibly hard-working industry in terms of individuals and businesses. Some of the businesses operate from dawn to dusk, and their commitment to what they want to produce is even more than that. There are also some small businesses that signpost people to other businesses within their area. It is also quite remarkable because they are there with a brochure, saying, 'You must go here; you must go there; and you must link in'. I think that that is very good.

Dechreuaf gyda'ch pwynt olaf. Nid wyf erioed wedi gweld diwydiant sy'n gweithio mor anhygoel o galed o ran unigolion a busnesau. Mae rhai o'r busnesau'n gweithredu o doriad gwawr hyd at fachlud haul, ac mae eu hymrwymiad i'r hyn y maent am ei gynhyrchu hyd yn oed yn fwy na hynny. Mae yna hefyd rai busnesau bach sy'n cyfeirio pobl at fusnesau eraill yn eu hardal. Mae hefyd yn dra rhyfeddol oherwydd eu bod yno gyda llyfryn, gan ddweud, 'mae'n rhaid i chi fynd i'r fan yma; mae'n rhaid i chi fynd i'r fan acw; ac mae'n rhaid i chi gysylltu'. Rwy'n meddwl fod hynny'n dda iawn.

In terms of the caravan parks, it was a pleasure to go to such wonderfully kept caravan parks. I have also seen them in my own constituency. Of course, at the time they were very concerned about possible legislation emanating from Darren Millar's Bill and those benches, but, as the Minister, I think that I have made my views known in the particular committee. I was happy to see, when we went to visit some of the historic sites—. I think that there is a lot more that we can do on interpretation. There is technology out there. There is a lot more to be done in terms of how we sell. Some of them are just not linked properly. They are not really very well accessible, and there is nothing for people to do when they get there. I think that it is a responsibility for local authorities, even if Cadw—dare I say it—owns them, to make them more vibrant in terms of what we require from them. I visited Strata Florida during Easter. It was in the most quiet and beautiful location, but there is so much more that could be done with that, as a location, in the context of where it is and the historic trail around the churches in north Ceredigion and south Ceredigion, and the work that has been done. This is the type of partnership that is emerging, with very different people taking an interest now. A Bishop was at a launch in Ceredigion recently, and I was very interested about how they were dealing with the churches and the religious tourism trail. We can use all of this energy, I think, to make communities vibrant and to create employment opportunities.

O ran y meysydd carafanau, roedd yn bleser i fynd i barciau carafanau sy'n cael eu cadw i edrych mor rhyfeddol. Rwyf hefyd wedi eu gweld yn fy etholaeth i. Wrth gwrs, ar y pryd roeddent yn bryderus iawn am ddeddfwriaeth bosibl yn deillio o Fil Darren Millar a'r meinciau hynny, ond, fel y Gweinidog, rwy'n meddwl fy mod wedi gwneud fy marn yn hysbys yn y pwyllgor penodol. Roeddwn yn falch o weld, pan aethom i ymweld â rhai o'r safleoedd hanesyddol—. Credaf fod llawer mwy y gallwn ei wneud ar ddehongli. Mae'r dechnoleg ar gael. Mae llawer mwy i'w wneud o ran sut yr ydym yn gwerthu. Mae rhai ohonynt nad ydynt wedi'u cysylltu'n iawn. Nid ydynt yn wir yn hygyrch iawn, ac nid oes dim i bobl wneud pan fyddant yn cyrraedd yno. Credaf ei bod yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol, hyd yn oed os mai Cadw—os meiddiaf ei ddweud —sy'n berchen arnynt, i'w gwneud yn fwy bywiog o ran yr hyn yr ydym ei eisiau ganddynt. Ymwelais ag Ystrad Fflur yn ystod y Pasg. Yr oedd yn lleoliad hynod dawel a hardd, ond mae cymaint mwy y gellid ei wneud â hynny, fel lleoliad, yng nghyd-destun ble y mae wedi'i leoli a'r llwybr hanesyddol o amgylch yr eglwysi yng ngogledd Ceredigion a de Ceredigion, a'r gwaith sydd wedi ei wneud. Dyma'r math o bartneriaeth sy'n dod i'r amlwg, gyda phobl wahanol iawn yn cymryd diddordeb erbyn hyn. Roedd Esgob mewn lansiad yng Ngheredigion yn ddiweddar, ac yr oedd gennyf ddiddordeb mawr mewn sut y maent yn ymdrin â'r eglwysi a'r llwybr twristiaeth grefyddol. Gallwn ddefnyddio'r holl egni hwn, mi gredaf, er mwyn gwneud cymunedau'n fywiog ac i greu cyfleoedd cyflogaeth.

17:29

## William Graham [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I congratulate the Minister on her statement, particularly the initiatives to attract more overseas visitors. They account for 10% of the numbers, but they account for 20% of the spend, which is valuable to us. Could the Minister, particularly, outline her ideas on brand development? Clearly, the Visit Wales experience is extremely important for the tourism industry in Wales. That, in particular, must show itself so that it would be absolutely obvious to anyone wishing to visit Wales that there is something for everyone at once.

Rwy'n llongyfarch y Gweinidog ar ei datganiad, yn enwedig y mentrau i ddenu mwy o ymwelwyr tramor. Maent yn cynrychioli 10% o'r niferoedd, ond maent yn cyfrif am 20% o'r gwariant, sy'n werthfawr i ni. A allai'r Gweinidog, yn benodol, amlinellu ei syniadau ar ddatblygu brand? Yn amlwg, mae'r profiad Croeso Cymru yn hynod o bwysig i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid i hynny, yn benodol, ddangos ei hun fel y byddai'n hollol amlwg ar unwaith i unrhyw un sy'n dymuno ymweld â Chymru bod rhywbeth at ddant pawb.

17:29

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Following on from your question, there are plans to further develop specific sites for Germany and the USA in 2014, supporting our marketing programmes in the markets, and to refresh Wales's brochure sites by establishing European markets as well. That is key in dealing with this.

Yn dilyn ymlaen o'ch cwestiwn, mae cynlluniau i ddatblygu ymhellach safleoedd penodol ar gyfer yr Almaen a'r Unol Daleithiau yn 2014, gan gefnogi ein rhaglenni marchnata yn y marchnadoedd, ac i ailwampio safleoedd llyfrynnau Cymru trwy sefydlu marchnadoedd Ewropeaidd yn ogystal. Mae hynny'n allweddol wrth ymdrin â hyn.

In terms of overseas marketing campaigns, we are now marketing investment in a small number of key markets, which I think is important. Based on research and evaluation work, three key markets have been identified. These markets will allow us to really focus on what we are required to do to get people in. Trips to Wales by international visitors have increased substantially, but I think that we have to look for further increases over the years. The point that Rhun ap Iorwerth made in his contribution about cruises indicates the success that we are having now in attracting cruise ships. They particularly like going into Holyhead. That also bodes well for the spend that they undertake and the fact that we are able to target them to come back for further visits if they like what they have seen in Welsh terms. Like you, I think it is very important that we brand correctly.

O ran ymgyrchoedd marchnata tramor, rydym erbyn hyn yn marchnata buddsoddi mewn nifer fechan o farchnadoedd allweddol, sy'n bwysig rwy'n meddwl. Yn seiliedig ar ymchwil a gwaith gwerthuso, mae tair marchnad allweddol wedi eu nodi. Bydd y marchnadoedd yn ein galluogi i ganolbwyntio o ddifrif ar yr hyn y mae'n ofynnol i ni ei wneud i gael pobl i mewn. Mae teithiau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol wedi cynyddu'n sylweddol, ond credaf fod yn rhaid inni edrych am gynnydd pellach dros y blynyddoedd. Mae'r pwynt a wnaeth Rhun ap Iorwerth yn ei gyfraniad am fordeithiau yn dangos y llwyddiant yr ydym yn ei gael erbyn hyn i ddenu llongau pleser. Maent yn arbennig o hoff o fynd i mewn i Gaergybi. Mae hynny hefyd yn argoeli'n dda ar gyfer y gwariant y maent yn ei wneud a'r ffaith ein bod yn gallu eu targedu i ddod yn ôl am ymweliadau pellach os ydynt yn hoffi'r hyn y maent wedi ei weld yn nhermau Cymru. Fel chithau, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn brandio'n gywir.

On the back of the experience that we have had with cruise ships, we have had TUI, a very large German firm, and we have now marketed into Germany on the back of that. Also, we chose—because we knew that we were having it in—to advertise for German speakers. So, when they went to the streets of Holyhead, they found people who lived in Wales but were German speakers, not just the tour guide. Therefore, they could ask about everything: if they wanted to find a pharmacy, or if they wanted to do this, that or the other. That proved to be very popular. That is something that we will try to do, in that we will encourage people who live here to use their skills to help us, in terms of attracting tourists, keeping them, and making Wales a very welcoming place.

Yn sgil y profiad a gawsom gyda llongau mordeithio, rydym wedi cael TUI, cwmni Almaeneg mawr iawn, ac rydym bellach wedi marchnata i'r Almaen yn sgil hynny. Hefyd, fe wnaethom ddewis—oherwydd ein bod yn gwybod ein bod yn ei gael i mewn—hysbysebu am siaradwyr Almaeneg. Felly, pan aethant i strydoedd Caergybi, daethant o hyd i bobl a oedd yn byw yng Nghymru ond a oedd yn siarad Almaeneg, nid dim ond y tywysydd taith. Felly, gallent ofyn ynglŷn â phopeth: os oeddent eisiau dod o hyd i fferyllfa, neu os oeddent eisiau gwneud yr hyn neu'r llall. Profodd hyn i fod yn boblogaidd iawn. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ceisio ei wneud, sef annog pobl sy'n byw yma i ddefnyddio eu sgiliau i'n helpu ni, o ran denu twristiaid, eu cadw, a gwneud Cymru yn lle croesawgar iawn.

17:31 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would just like to say that I welcome and like this statement because there is quite a lot in there. Certainly, it is about getting the message across to the grass-roots workers, and people working on the front line in the tourism industry. It is fair to say that, in my constituency, sometimes they can seem to be quite far removed from Welsh Government policy. It is fair to say that, when I have sat in meetings with Suzy Davies, Visit Wales has not always come across as strongly or as well as it might. When you look at some of the initiatives that you have taken upon yourself to work with it and deliver, I think that that is really commendable. I would like to pay tribute to you also for the support that you have given my constituency, and certainly in north Wales, with Zip World and Surf Snowdonia, where you will be coming up to cut the soil quite shortly. However, you make reference to the marketing focus on the overseas markets of Germany, Ireland and the US. The twenty-first century is often referred to as the Asian century, with China's middle class growing enormously. Some 97 million Chinese citizens travelled abroad in 2014, with 202,000 of them coming to the UK up to 2013. Yesterday, the Home Secretary, Theresa May, announced an easing of the visa rules for Chinese visitors. I just wondered, Minister, what the Welsh Government is doing to ensure that Wales is tapping into the increasing number of Chinese tourists that are coming to the UK.

Hoffwn ddweud fy mod yn croesawu ac yn hoffi'r datganiad hwn oherwydd mae cryn dipyn ynddo. Yn sicr, mae'n ymwneud â chyflwyno'r neges i'r gweithwyr ar lawr gwlad, a phobl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn y diwydiant twristiaeth. Mae'n deg dweud, yn fy etholaeth i, weithiau gallant ymddangos i fod yn eithaf pell oddi wrth bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'n deg dweud, pan fy mod wedi eistedd mewn cyfarfodydd gyda Suzy Davies, nad yw Croeso Cymru wedi dod ar draws bob amser mor gryf neu cystal ag y gallai. Pan fyddwch yn edrych ar rai o'r mentrau yr ydych wedi penderfynu gweithio gyda nhw a'u cyflwyno, rwy'n credu bod hynny wir yn ganmoladwy. Hoffwn dalu teyrnged i chi hefyd am y gefnogaeth yr ydych wedi'i rhoi i fy etholaeth i, ac yn sicr yng ngogledd Cymru, gyda Zip World a Surf Snowdonia, lle byddwch yn dod i fyny i dorri'r dywarchen yn eithaf buan. Fodd bynnag, rydych yn cyfeirio at bwyslais marchnata ar farchnadoedd tramor yr Almaen, Iwerddon a'r Unol Daleithiau. Cyfeirir at y unfed ganrif ar hugain yn aml fel y ganrif Asiaidd, gyda dosbarth canol Tsieina yn tyfu'n aruthrol. Teithiodd tua 97 miliwn o ddinasyddion Tsiena dramor yn 2014, gyda 202,000 ohonynt yn dod i'r DU hyd at 2013. Ddoe, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May y byddai'n llacio rheolau fisa ar gyfer ymwelwyr Tsieineaidd. Roeddwn ond yn meddwl, Weinidog, tybed beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Cymru yn manteisio ar y nifer cynyddol o dwristiaid Tsieineaidd sy'n dod i'r DU.

17:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is not only China that we are looking at; we are looking at increases elsewhere, where people are now starting to be free in the Asian market. It is one of the focuses of discussion within my tourism group, and we will continue to discuss that. One way in is to meet Chinese tourism operators when they come in. We have gone to London to do these things—to encourage them not just to stop at London, but to come to Wales. Therefore, that is definitely in hand. I have to say that there are some very exciting developments in terms of tourism opportunities in north Wales. You are very fortunate in your constituency in that you have Llandudno, which, I have to say, the people off the cruise ships adore visiting.

Nid ar Tsieina yn unig yr ydym yn edrych; rydym yn edrych ar gynnydd mewn mannau eraill, lle mae pobl yn awr yn dechrau bod yn rhydd yn y farchnad Asiaidd. Mae'n un o'r pethau yr ydym yn canolbwyntio arno yn y drafodaeth o fewn fy ngrŵp twristiaeth, a byddwn yn parhau i drafod hynny. Un ffordd yw cwrdd â gweithredwyr twristiaeth Tseiniaidd pan fyddant yn dod i mewn Rydym wedi mynd i Lundain i wneud y pethau hyn—i'w hannog nhw i beidio ag aros yn Llundain yn unig, ond i ddod i Gymru. Felly, mae hynny'n bendant yn digwydd. Mae'n rhaid i mi ddweud bod rhai datblygiadau cyffrous iawn o ran cyfleoedd twristiaeth yn y gogledd. Rydych yn ffodus iawn yn eich etholaeth bod gennych Llandudno, sydd yn lle, mae'n rhaid i mi ddweud, y mae pobl oddi ar y llongau pleser wrth eu boddau yn ymweld ag ef.

17:33

## Datganiad: Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf

## Statement: Delivering Families First

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister for Tackling Poverty, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, Vaughan Gething.

17:33 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. We are now in the third year of the full roll-out of Families First across Wales. With the publication of the second annual report from the evaluation team last week, now is a good time to reflect on what we have achieved through Families First, and to take stock of where we are.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Yr ydym yn awr yn nhrydedd flwyddyn cyflwyno llawn Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru. Gyda chyhoeddi ail adroddiad blynyddol gan y tîm gwerthuso yr wythnos diwethaf, mae nawr yn amser da i fyfyrio ar yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni drwy Teuluoedd yn Gyntaf, a phwyso a mesur lle yr ydym erbyn hyn.

Families First was, and is, a direct response to the need to improve the way we support families. While we had made some progress in improving alignment around the delivery of services to families through previous programmes, we recognised the challenges arising from the small size of many of those projects that supported families and the lack of strategic oversight. For example, there were approximately 900 projects running under the predecessor Cymorth programme. In contrast, as the current evaluation of Families First points out, there are fewer than 200 projects in existence, with a significantly increased budget.

Roedd, ac mae, Teuluoedd yn Gyntaf yn ymateb uniongyrchol i'r angen i wella'r ffordd yr ydym yn cefnogi teuluoedd. Er ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella cyfuno sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i deuluoedd drwy raglenni blaenorol, rydym wedi cydnabod yr heriau sy'n deillio o faint bach llawer o'r prosiectau hynny a oedd yn cefnogi teuluoedd a'r diffyg trosolwg strategol. Er enghraifft, roedd tua 900 o brosiectau yn rhedeg o dan y rhaglen Cymorth rhagflaenol. Mewn cyferbyniad, fel y mae'r gwerthuso presennol o Teuluoedd yn Gyntaf yn ei nodi, mae llai na 200 o brosiectau yn bodoli, gyda chyllideb sylweddol fwy.

Families First is, of course, part of our response to the strategic objectives within the Welsh Government's child poverty strategy, in particular the aim to reduce inequalities in health and education. Essentially, Families First was, and is, about changing and improving the way we deliver support and services to children, young people and their families. We have implemented a multi-agency approach to providing family support that meets the needs of families, including simplifying the support process, so that families have one point of contact. We are improving the delivery of preventative, early interventions, particularly for families living in poverty, and we expect to reduce the number of families developing more complex needs that require more intensive and costly interventions.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf, wrth gwrs, yn rhan o'n hymateb i'r amcanion strategol yn strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru, yn arbennig y nod o leihau anghydraddoldebau mewn iechyd ac addysg. Yn y bôn, roedd, ac mae, Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â newid a gwella'r ffordd yr ydym yn darparu cymorth a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym wedi gweithredu dull amlasiantaeth i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n diwallu anghenion teuluoedd, gan gynnwys symleiddio'r broses gymorth, fel bod teuluoedd yn cael un pwynt cyswllt. Rydym yn gwella darparu ymyraethau ataliol, yn gynnar, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ac rydym yn disgwyl lleihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth sydd angen ymyraethau mwy dwys a chostus.

The most recent evaluation report indicated that the commissioning process now better reflects the needs of families than those projects prior to Families First. There is also strong evidence that this programme has facilitated an improvement in multi-agency working to support families. The evaluation also found that a family-focused approach to assessing and tailoring family support, through the joint assessment family framework and the team around the family, is very much welcomed by those who deliver this. Almost 1,800 families signed up to a team-around-the-family action plan between April and December 2013 to help to address their specific family needs. Most importantly, we know that, in more than 50% of those occasions, they ended with a successful outcome. When looking specifically at families with needs relating to disability, the success rate was even higher, at 71%.

Nododd yr adroddiad gwerthuso diweddaraf bod y broses gomisiynu yn awr yn adlewyrchu'n well anghenion teuluoedd na'r prosiectau hynny cyn Teuluoedd yn Gyntaf. Mae tystiolaeth gref hefyd bod y rhaglen hon wedi hwyluso gwelliant mewn gweithio amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod yr ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y teulu i asesu a theilwra cymorth i deuluoedd, drwy'r fframwaith asesu'r teulu ar y cyd a'r tîm o amgylch y teulu, yn cael ei chroesawu'n fawr gan y rhai sy'n darparu hyn. Mae bron i 1,800 o deuluoedd wedi ymrwymo i gynllun gweithredu tîm o amgylch y teulu rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2013 er mwyn helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion teuluol penodol. Yn bwysicaf oll, rydym yn gwybod, mewn mwy na 50% o'r achlysuron hynny, eu bod wedi diweddu gyda chanlyniad llwyddiannus. Wrth edrych yn benodol ar deuluoedd ag anghenion sy'n ymwneud ag anabledd, roedd y gyfradd lwyddiant hyd yn oed yn uwch, sef 71%.

It is worth reflecting here that language matters. The UK Government talks about getting to grips with troubled families in a thoroughly negative and antagonistic way. That is hardly the language to help, engage and work with families, and we do not take that approach here in Wales. It is pleasing to see the positive movement that has been reported in relation to a whole range of outcomes for families here in Wales, around parenting, health, relationships, and well-being with Families First. In addition, the evaluation report tells us that during those nine months—April to December 2013—about 3,000 families were supported by Families First projects providing a range of additional support, including services on advocacy, domestic abuse, substance misuse, education and employment. While I am happy with the overall progress being made by the programme, I recognise that there are areas that require further attention in order to make more progress.

Mae'n werth ystyried yma bod iaith yn bwysig. Mae Llywodraeth y DU yn siarad am fynd i'r afael â theuluoedd cythryblus mewn ffordd hollol negyddol a gelyniaethus. Go brin mai dyna'r iaith i helpu, ymgysylltu a gweithio gyda theuluoedd, ac nid ydym yn gweithredu felly yma yng Nghymru. Mae'n braf gweld y symudiad cadarnhaol sydd wedi ei adrodd ynglŷn ag ystod gyfan o ganlyniadau ar gyfer teuluoedd yma yng Nghymru, ynghylch magu plant, iechyd, perthnasoedd, a lles gyda Theuluoedd yn Gyntaf. Yn ogystal, mae'r adroddiad gwerthuso yn dweud wrthym yn ystod y naw mis—mis Ebrill i fis Rhagfyr 2013—y cafodd tua 3,000 o deuluoedd eu cefnogi gan brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf sy'n darparu amrywiaeth o gefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys gwasanaethau ar eiriolaeth, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, addysg a chyflogaeth. Er fy mod yn hapus â'r cynnydd cyffredinol a wneir gan y rhaglen, rwy'n cydnabod bod meysydd sydd angen sylw pellach er mwyn gwneud mwy o gynnydd.

The first area to highlight is the development of shared learning right across Families First. The report suggests that progress here has been mixed. Some local authorities have embraced shared learning, organising learning sets within their authority and with neighbouring authorities, and they have then, importantly, put that learning into practice to improve delivery. However, others have made less progress, and I recognise that these authorities need more support in this respect. We will take the opportunity of a second Families First national learning event this autumn to further embed the need for shared learning throughout the programme.

Y maes cyntaf i dynnu sylw ato yw datblygiad dysgu a rennir ar draws Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod cynnydd yma wedi bod yn gymysg. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cofleidio dysgu ar y cyd, gan drefnu setiau dysgu o fewn eu hawdurdod a chydag awdurdodau cyfagos, ac maent wedyn, yn bwysig, wedi rhoi'r dysgu ar waith i wella darpariaeth. Fodd bynnag, mae eraill wedi gwneud llai o gynnydd, ac rwy'n cydnabod bod angen mwy o gefnogaeth yn hyn o beth ar yr awdurdodau hyn. Byddwn yn cymryd y cyfle o ail ddigwyddiad dysgu cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf yr hydref hwn i ymwreiddio ymhellach yr angen am ddysgu a rennir ym mhob rhan o'r rhaglen.

The joint assessment family framework and the team around the family have now been put in place throughout all local authorities, but, again, some authorities have progressed further than others. Working with the evaluation team, we want to see what lessons can be learned from those authorities with the best practice. I am especially interested in how they have involved other sectors and agencies in developing a genuine multi-agency approach and how they have embedded a team around the family approach in their services for children, young people, and families.

Mae'r fframwaith asesu'r teulu ar y cyd a'r tîm o amgylch y teulu wedi cael eu rhoi ar waith ar draws yr holl awdurdodau lleol, ond, unwaith eto, mae rhai awdurdodau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill. Gan weithio gyda'r tîm gwerthuso, rydym am weld pa wersi y gellir eu dysgu oddi wrth yr awdurdodau hynny sydd â'r arfer gorau. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y ffordd y maent wedi cynnwys sectorau ac asiantaethau eraill i ddatblygu ymagwedd amlasiantaeth wirioneddol a sut y maent wedi ymsefydlu dull tîm o amgylch y teulu yn eu gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc, a theuluoedd.

One of the most important challenges facing Families First is the same one facing Flying Start, and Communities First: how do we further align our anti-poverty programmes to deliver a more co-ordinated, coherent and effective tackling poverty approach?

Mae un o'r heriau pwysicaf sy'n wynebu Teuluoedd yn Gyntaf yr un her ag sy'n wynebu Dechrau'n Deg, a Chymunedau yn Gyntaf: sut yr ydym yn mynd i ymgyfuno ymhellach ein rhaglenni gwrthdlodi i gyflwyno dull trechu tlodi mwy cydgysylltiol, cydlynol ac effeithiol?

We have made considerable progress in developing Families First from its fairly recent beginnings. We now have a programme that is delivering more effective support for people and having life-changing outcomes. Some of these, of course, are reported in the annual report. I have, on visits around Wales, met a number of families who can describe the huge impact that Families First has made for them. I have met parents who have been supported and are now more confident as adults and parents, and can describe the fact that their family now functions as a unit and a team again. I have met children who have been able to describe the significant impact that it has had for them, in terms of school achievement and social success as a result of the individual counselling and support that they have had.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu Teuluoedd yn Gyntaf o'i ddechreuad cymharol ddiweddar. Erbyn hyn mae gennym raglen sy'n darparu cymorth mwy effeithiol i bobl ac sy’n cael canlyniadau sy'n newid bywydau. Adroddir am rai o'r rhain, wrth gwrs, yn yr adroddiad blynyddol. Rwyf fi, ar ymweliadau o gwmpas Cymru, wedi cwrdd â nifer o deuluoedd sy'n gallu disgrifio effaith enfawr y mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi ei chael iddyn nhw. Rwyf wedi cyfarfod â rhieni sydd wedi cael cymorth ac sy’n awr yn fwy hyderus fel oedolion a rhieni, ac sy’n gallu disgrifio'r ffaith fod eu teulu bellach yn gweithredu fel uned a thîm unwaith eto. Rwyf wedi cyfarfod â phlant sydd wedi gallu disgrifio'r effaith sylweddol y mae wedi'i chael iddyn nhw, yn nhermau cyflawniad ysgol a llwyddiant cymdeithasol o ganlyniad i'r cwnsela a’r cymorth unigol y maen nhw wedi’i gael.

In conclusion, Families First has delivered a significant change in the way that every local authority delivers family support. Multi-agency working is now recognised as essential, and not optional. The process change in commissioning, tailoring and delivering support in a team-around-the-family manner is making a real difference to family outcomes. Life chances are being improved and the preventative focus of Families First remains in place. Despite the clear success of Families First, we recognise that there is more to do and more to improve upon. The shared learning and process improvements we wish to see are all clearly directed at improving outcomes for families. I look forward to the continuing success and improvement of Families First as part of the wider commitment of this Government to tackle poverty.

I gloi, mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi cyflawni newid sylweddol yn y ffordd y mae pob awdurdod lleol yn darparu cymorth i deuluoedd. Mae gweithio amlasiantaeth erbyn hyn yn cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol, ac nid dewisol. Mae'r newid proses mewn comisiynu, teilwra a darparu cymorth mewn modd tîm o amgylch y teulu yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau teulu. Mae cyfleoedd bywyd yn cael eu gwella ac mae pwyslais ataliol Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i fod ar waith. Er gwaethaf llwyddiant clir Teuluoedd yn Gyntaf, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud a mwy i wella arno. Mae'r gwelliannau dysgu a rennir a’r broses yr ydym yn awyddus i’w gweld i gyd yn wedi eu cyfeirio’n amlwg at wella canlyniadau i deuluoedd. Edrychaf ymlaen at lwyddiant parhaus a gwelliant Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o ymrwymiad ehangach y Llywodraeth hon i drechu tlodi.

17:40

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. I know from my own region that Families First has made a difference to individual families. Very often, it is down to the charismatic nature of the individuals involved in the team around the family, or the co-ordinators there. I want to acknowledge the success that they have brought. My first question today is: what implications do you think the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will have on your plans for Families First in the future? I assume that, as a result of the Act, more families will be aware that Families First exists, and that adult services are more likely to realise that they can refer to this programme as well. I do not know whether you are planning to put more money towards Families First in the future or whether there might be, shall we say, more of an emphasis on the strategic planning at a local authority level, rather than the individual support that is given to families? There are always going to be individual families who do not fit a particular pattern or specification who could still benefit from Families First at the moment.

Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n gwybod o fy rhanbarth fy hun bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi gwneud gwahaniaeth i deuluoedd unigol. Yn aml iawn, mae'n ymwneud â natur garismatig yr unigolion sy’n ymwneud â’r tîm o amgylch y teulu, neu’r cydgysylltwyr yno. Hoffwn gydnabod y llwyddiant y maent wedi’i gyflwyno. Fy nghwestiwn cyntaf heddiw yw: pa oblygiadau ydych chi'n meddwl y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn eu cael ar eich cynlluniau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol? Rwy’n tybio y bydd mwy o deuluoedd o ganlyniad i'r Ddeddf yn ymwybodol bod Teuluoedd yn Gyntaf yn bodoli, a bod gwasanaethau i oedolion yn fwy tebygol o sylweddoli y gallant atgyfeirio i’r rhaglen hon hefyd. Nid wyf yn gwybod a ydych yn bwriadu rhoi mwy o arian tuag at Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol, neu ba un a allai fod, ddywedwn ni, mwy o bwyslais ar gynllunio strategol ar lefel awdurdod lleol, yn hytrach na'r cymorth unigol a roddir i deuluoedd? Fe fydd bob amser deuluoedd unigol nad ydynt yn ffitio patrwm neu fanyleb arbennig a allai ddal i elwa ar Teuluoedd yn Gyntaf ar hyn o bryd.

Thank you very much also for the year 2 report. I hear what you say about the fact that the joint assessment family framework has been rolled out everywhere. I think that there was still a concern in the evaluation report about some pockets, in that it was perhaps not hitting all corners of a particular region, shall we say? The evaluation report talks about initial assessments of refinements that might be made to the Families First delivery in the future. I wonder if you can give us some sort of indication as to what kind of refinement local authorities might be anticipating at the moment. It rather suggests that they have come across barriers that they are not entirely sure how to deal with at the moment. Perhaps you can give us an idea of how serious that might be, or whether that is genuinely tweaking or something more fundamental that needs to happen.

Diolch yn fawr iawn hefyd am yr adroddiad blwyddyn 2. Rwy’n deall yr hyn a ddywedwch am y ffaith fod y fframwaith asesu’r teulu ar y cyd wedi cael ei gyflwyno ym mhob man. Credaf fod pryder o hyd yn yr adroddiad gwerthuso am rai pocedi, yn yr ystyr nad oedd efallai yn taro bob cwr o ranbarth penodol, ddywedwn ni? Mae'r adroddiad gwerthuso yn sôn am asesiadau cychwynnol o welliannau y gellid eu gwneud i gyflawniad Teuluoedd yn Gyntaf yn y dyfodol. Tybed a allwch roi rhyw fath o syniad ynghylch pa fath o fireinio y gallai awdurdodau lleol fod yn ei ragweld ar hyn o bryd. Mae’n awgrymu braidd eu bod wedi dod ar draws rhwystrau nad ydynt yn hollol siŵr sut i ymdrin â nhw ar hyn o bryd. Efallai y gallwch chi roi syniad i ni o ba mor ddifrifol y gallai hynny fod, neu a yw hynny yn addasu gwirioneddol neu rywbeth mwy sylfaenol y mae angen iddo ddigwydd.

The year 2 report notes that 4,673 families were referred to Families First to be considered through the joint assessment family framework, but less than half of those actually got through the process. Even then, only two thirds of those who signed up to a team-around-the-family action plan were successful in getting that plan, and then only 50% of those got a successful outcome. How do you plan to help those—the majority of families—who ultimately do not get through the existing process for an intervention that works for them?

Mae'r adroddiad blwyddyn 2 yn nodi bod 4,673 o deuluoedd wedi eu hatgyfeirio i Teuluoedd yn Gyntaf i gael eu hystyried drwy'r fframwaith asesu’r teulu ar y cyd, ond roedd llai na hanner y rhain mewn gwirionedd wedi llwyddo i fynd drwy'r broses. Hyd yn oed wedyn, dim ond traean o'r rhai a wnaeth ymrwymo i gynllun gweithredu tîm o amgylch y teulu wnaeth lwyddo i gael y cynllun hwnnw, a dim ond 50% o'r rheiny gafodd ganlyniad llwyddiannus. Sut yr ydych chi'n bwriadu helpu'r rhain—y rhan fwyaf o deuluoedd—nad ydynt yn y pen draw yn cael drwy'r broses bresennol ar gyfer ymyrraeth sy'n gweithio iddyn nhw?

I noted your comments about the disability element of the ring-fenced money and the slow progress on that. The evaluation report suggested that that was due to inconsistent development of local needs assessment criteria. Was that due to everyone’s disability being particular to them, the effect it has on them being particular to them, and the effect it has on their family being particular to them? That would actually make it quite difficult for exact-fit services to incorporate these families into mainstream provision. I wonder if you have already considered ways of overcoming the difficulty that local authorities have in using that disability ring-fenced money.

Nodais eich sylwadau am elfen anabledd yr arian wedi'i neilltuo a'r cynnydd araf ar hynny. Awgrymodd yr adroddiad gwerthuso bod hynny oherwydd datblygiad anghyson o feini prawf asesu anghenion lleol. A oedd hynny oherwydd bod anabledd pawb yn benodol iddyn nhw, yr effaith mae'n ei gael arnynt yn benodol iddyn nhw, a'r effaith a gaiff ar eu teulu yn benodol iddyn nhw? Byddai hynny mewn gwirionedd yn ei gwneud yn eithaf anodd ar gyfer gwasanaethau union-ffit i gynnwys teuluoedd mewn darpariaeth brif ffrwd. Tybed os ydych chi eisoes wedi ystyried ffyrdd o oresgyn yr anhawster a gaiff awdurdodau lleol o ran defnyddio'r arian sydd wedi'i neilltuo i bobl anabl.

Finally, on the learning sets, you have been quite frank in your statement today that there is, shall we say, mixed reviews on how that is going at the moment? I understand that you have a conference coming up and that it will also be the focus of the next evaluation plan. However, I have a general concern that, when we are talking about partnerships between public sector bodies or public sector funded bodies and the third sector, the partnership does not always produce a level playing field. It is quite often the public sector partner, usually a local authority or local health board, that dominates the pitch, if you like. I accept the need for leadership in these partnerships, but leaders need to look around them as well as in front of them on this. I think that there is concern, which I hope that you will be able to talk about a little bit in your response, about how the third sector might be missing out on opportunities for its own sustainability here at the same time as missing out on opportunities to contribute to what Families First can do. I certainly regret the demise of Save the Family in north Wales, and I also regret the fact that Communities First and Flying Start, for example, may not be tying up as well as they might to deliver the aims that you want to be delivered through Families First. I wonder whether you can give us a bit more information about the plans that you have to link these different programmes together effectively.

Yn olaf, ar y setiau dysgu, rydych wedi bod yn eithaf gonest yn eich datganiad heddiw bod, ddywedwn ni, adolygiadau cymysg ar sut y mae hynny'n mynd ar hyn o bryd? Rwy'n deall bod gennych gynhadledd ar fin digwydd ac y bydd honno hefyd yn creu pwyslais y cynllun gwerthuso nesaf. Fodd bynnag, mae gennyf bryder cyffredinol, pan fyddwn yn sôn am bartneriaethau rhwng cyrff yn y sector cyhoeddus neu gyrff a ariennir gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, nad yw'r bartneriaeth bob amser yn cyflawni maes chwarae gwastad. Yn eithaf aml, partner y sector cyhoeddus, fel arfer awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol, sy'n dominyddu'r cae, os mynnwch chi. Rwy'n derbyn yr angen am arweinyddiaeth yn y partneriaethau hyn, ond mae angen i arweinwyr edrych o'u cwmpas yn ogystal ag o'u blaenau ar hyn. Rwy'n meddwl bod pryder, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu siarad ychydig amdano yn eich ymateb, ynghylch sut y gallai'r trydydd sector fod yn colli cyfleoedd ar gyfer ei gynaladwyedd ei hunan yma ar yr un pryd â cholli cyfleoedd i gyfrannu at yr hyn y gall Teuluoedd yn Gyntaf ei wneud. Rwy'n sicr yn gresynu tranc Save the Family yng ngogledd Cymru, ac rwyf hefyd yn gresynu at y ffaith efallai na fydd Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, er enghraifft, yn ymglymu mewn modd cystal ag y gallent i gyflawni'r amcanion yr ydych am iddynt gael eu darparu drwy Teuluoedd yn Gyntaf. Tybed a allwch chi roi ychydig mwy o wybodaeth i ni am y cynlluniau sydd gennych i gysylltu'r gwahanol raglenni hyn at ei gilydd yn effeithiol.

I suppose that the overall question on this is whether you are worried that the outstanding concern about the learning set may hamper you in your pervasive tackling-poverty aims, especially those for child poverty and especially when the most recent evaluation of Flying Start was, perhaps, less than fulsome.

Mae'n debyg mai'r cwestiwn cyffredinol am hyn yw pa un a ydych yn poeni y gall y pryder eithriadol ynglŷn â'r set ddysgu eich rhwystro yn eich nodau trechu tlodi treiddiol, yn enwedig y rhai ar gyfer tlodi plant ac yn enwedig pan oedd gwerthusiad mwyaf diweddar Dechrau'n Deg ddim yn dda iawn efallai.

17:46

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions; I think that there were about 10, and I will try to ensure that I get through all of them. I welcome the point that you made at the start about the commitment of the key workers, about their role in supporting a family and, again, about having a single point of contact.

Diolch i chi am y cwestiynau yna; rwy'n meddwl bod tua 10 ohonynt, a byddaf yn ceisio sicrhau fy mod yn cael drwy bob un ohonynt. Rwy'n croesawu'r pwynt a wnaethoch ar y dechrau am ymrwymiad y gweithwyr allweddol, am eu swyddogaeth wrth gefnogi teulu ac, unwaith eto, am gael un pwynt cyswllt.

On the Social Services and Well-being Act, I think that the approach that Families First takes is consistent with the approach taken in the Act around having support designed around a whole family. I do not see any inconsistencies between the design and implementation of Families First and the Act that this place has recently passed. The integrated family support team, which sits with the Deputy Minister for Social Services, for example, is a pan-Wales agency now, and it is helping to identify families to refer to Families First for support. So, there is consistency across Government. Our challenge is how that is consistently and effectively delivered.

O ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rwy'n meddwl bod y dull y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gymryd yn gyson â'r dull a gymerwyd yn y Ddeddf o gwmpas gael cefnogaeth cynllunio o amgylch teulu cyfan. Dydw i ddim yn gweld unrhyw anghysondebau rhwng llunio a gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf yn y Ddeddf honno y mae'r lle hwn wedi ei phasio'n ddiweddar. Mae'r tîm integredig cymorth i deuluoedd, sy'n eistedd gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft, yn asiantaeth i Gymru gyfan erbyn hyn, ac mae'n helpu i nodi teuluoedd i'w hatgyfeirio i Teuluoedd yn Gyntaf am gymorth. Felly, ceir cysondeb ar draws y Llywodraeth. Ein her yw sut mae hynny'n cael ei gyflawni yn gyson ac yn effeithiol.

Some of this comes out of what the evaluation report tells us about the engagement of services for children and adults. In some authorities, the children's service is better engaged, developed and linked into Families First, and in others the adult services are more engaged. So, there is a challenge about ensuring that different parts of the statutory services functions are engaged, but let us not forget that this is a preventative programme; it is not simply an add-on to social services functions.

Mae rhywfaint o hyn yn dod allan o'r hyn y mae'r adroddiad gwerthuso yn ei ddweud wrthym am ymgysylltu â gwasanaethau i blant ac oedolion. Mewn rhai awdurdodau, mae'r gwasanaeth i blant wedi ei ymgysylltu, ei ddatblygu a'i gysylltu'n well i mewn i Teuluoedd yn Gyntaf, ac mewn eraill mae'r gwasanaethau i oedolion yn chwarae mwy o ran. Felly, ceir her yn ymwneud â sicrhau bod gwahanol rannau o'r swyddogaethau gwasanaethau statudol yn cael eu cynnwys, ond gadewch inni beidio ag anghofio mai rhaglen ataliol yw hon; nid dim ond ychwanegiad at swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ydyw.

That brings me on to your question around the assessment of local need, how that is done and the varying nature of local need. It is left to each local authority to make an assessment of local need and then to commission services properly to meet that local need. Given that Families First exists in every local authority in every part of Wales, there is coverage to support families in every part of Wales, so it is not like Communities First and Flying Start in that regard. However, where those programmes overlap, there should be a consistent relationship.

Daw hynny â mi at eich cwestiwn ynghylch yr asesiad o angen lleol, sut mae hynny'n cael ei wneud a natur amrywiol angen lleol. Mae'n cael ei adael i bob awdurdod lleol wneud asesiad o angen lleol ac yna i gomisiynu gwasanaethau yn briodol i fodloni'r angen lleol. O ystyried bod Teuluoedd yn Gyntaf yn bodoli ym mhob awdurdod lleol ym mhob rhan o Gymru, ceir gwasanaeth i gefnogi teuluoedd ym mhob rhan o Gymru, felly nid yw fel Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn hynny o beth. Fodd bynnag, lle mae'r rhaglenni hynny'n gorgyffwrdd, dylid cael perthynas gyson.

I will just deal with the point that you made toward the end about outcomes and alignment here; that is the focus of the work that I am doing. In questions that I have answered and each statement that I have made, I have made this point: this is something that this Government wants to see happen. There must, and there should, be greater alignment between the outcomes that those programmes have to deliver and the practical working relationships on the ground. There should be more to come on what we are doing on that over coming months. It is not something that is going to fall off the radar.

Rwyf am ymdrin â'r pwynt a wnaethoch tuag at y diwedd ynghylch canlyniadau a chyfuno yma; dyna bwyslais y gwaith yr wyf yn ei wneud. Mewn cwestiynau yr wyf wedi'u hateb ac ym mhob datganiad yr wyf wedi'i wneud, rwyf wedi gwneud y pwynt hwn: mae hyn yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon am ei weld yn digwydd. Mae'n rhaid, a dylai, fod mwy o gyfuno rhwng y canlyniadau y mae'n rhaid i'r rhaglenni hynny eu darparu a'r berthynas waith ymarferol ar lawr gwlad. Dylai fod mwy i ddod ar yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hynny dros y misoedd nesaf. Nid yw'n rhywbeth sydd yn mynd i ddiflannu oddi ar y radar.

You made a point around the budget. I know that the Minister for Finance is now here; this is a programme that has a significant commitment from the Welsh Government. However, you will be perfectly well aware of the challenges facing every single programme that the Welsh Government has, regarding how they are funded and the reality that we will have less money to allocate to Welsh public services in the next year. This is a programme that will sustain a commitment, but I cannot tell you, in the here and now, exactly what that budgetary framework will be.

Gwnaethoch bwynt ynghylch y gyllideb. Gwn fod y Gweinidog Cyllid yma erbyn hyn; mae hon yn rhaglen sydd ag ymrwymiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddwch yn gwbl ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu pob un rhaglen sydd gan Lywodraeth Cymru, ynghylch sut y cânt eu hariannu a'r realiti y bydd gennym lai o arian i'w ddyrannu i wasanaethau cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hon yn rhaglen a fydd yn cynnal ymrwymiad, ond ni allaf ddweud wrthych, ar y funud hon, yn union beth fydd y fframwaith cyllidebol.

On the refinement of the team-around-the-family approach and the joint-assessment-family-framework approach, this is a matter of tweaking. It is also partly a point around refining the way that authorities commission, because, in the first round of commissioning that went ahead, some authorities were, I think, content with the approach that they took, and others want to look again now at the sort of projects that they commission—not just the type of support that they commission on the assessment of need but the process that they went through as well. I think that it is important that there is an element of self-reflection from local authorities that lead on Families First right across Wales.

Ynglŷn â mireinio'r ymagwedd tîm o amgylch y teulu a'r ymagwedd ar y fframwaith asesu'r teulu ar y cyd, mater o addasu yw hwn. Mae hefyd yn rhannol yn bwynt yn ymwneud â mireinio'r ffordd y mae awdurdodau'n comisiynu, oherwydd, yn y rownd gyntaf o gomisiynu a aeth yn ei blaen, roedd rhai awdurdodau, rwy'n credu, yn fodlon â'r dull a gymerasant, a bydd eraill am edrych eto erbyn hyn ar y math o brosiectau y maent yn eu comisiynu—nid dim ond y math o gefnogaeth y maent yn ei gomisiynu ar yr asesiad o angen ond y broses yr aethant drwyddi hefyd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yna elfen o hunan-fyfyrio gan awdurdodau lleol sy'n arwain ar Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru.

There is an area for improvement in focusing on disability, particularly on the engagement and involvement of the family. Again, that is recognised by local authorities and it is in the evaluation report as well. I recognise the point that you made around leadership, and whether the leadership that local authorities provide might exclude the third sector. This comes back to the point about recognising what the local need is and then commissioning appropriately for that local need. When you see the most successful examples of Families First, they are those that commission projects from a range of different partners, including the health service, but also a range of people in the third sector. When I have visited families accessing Families First support, I see that almost all of them have a third sector partner that is a crucial part of delivering an effective service to improve outcomes for that family.

Ceir maes ar gyfer gwelliant mewn canolbwyntio ar anabledd, yn enwedig ar ymgysylltiad a chyfranogiad y teulu. Unwaith eto, mae hynny'n cael ei gydnabod gan awdurdodau lleol ac y mae yn yr adroddiad gwerthuso yn ogystal. Rwy’n cydnabod y pwynt a wnaethoch yn ymwneud ag arweinyddiaeth, a pha un a allai’r arweiniad y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu eithrio’r trydydd sector. Daw hyn yn ôl at y pwynt ynglŷn â chydnabod beth yw’r angen lleol ac yna comisiynu’n briodol ar gyfer yr angen lleol. Pan fyddwch yn gweld enghreifftiau mwyaf llwyddiannus Teuluoedd yn Gyntaf, maent yn rhai sy'n comisiynnu prosiectau gan ystod o wahanol bartneriaid, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, ond hefyd ystod o bobl yn y trydydd sector. Pan fy mod wedi ymweld â theuluoedd a oedd yn defnyddio cymorth Teuluoedd yn Gyntaf, rwy’n gweld fod gan bron bob un ohonynt bartner trydydd sector sy'n rhan hanfodol o ddarparu gwasanaeth effeithiol i wella canlyniadau ar gyfer y teulu hwnnw.

I will finish on a point you made on learning. This is a point that I have made in relation to the other programmes that I have day-to-day responsibility for as well. I expect to see a greater emphasis on the benefit that shared learning provides and on the recognition that no one authority is so unique that it cannot learn lessons from another local authority in Wales. Therefore, the opportunity for regional learning is one that I expect to see taken up, and at the national learning event, I will certainly be reinforcing the message that this is not just an option within the programme; it is a clear expectation that people take advantage of successful practice in other parts of Wales and look to roll it out for the benefit of the families that they are in business to serve and support.

Rwyf am orffen ar bwynt a wnaethoch am ddysgu. Mae hwn yn bwynt yr wyf wedi ei wneud mewn perthynas â'r rhaglenni eraill y mae gennyf gyfrifoldeb amdanynt o ddydd i ddydd hefyd. Rwyf yn disgwyl gweld mwy o bwyslais ar y budd y mae dysgu a rennir yn ei gynnig ac ar y gydnabyddiaeth nad oes yr un awdurdod mor unigryw na all ddysgu gwersi oddi wrth awdurdod lleol arall yng Nghymru. Felly, mae'r cyfle ar gyfer dysgu rhanbarthol yn un yr wyf yn disgwyl ei weld yn cael ei dderbyn, ac yn y digwyddiad dysgu cenedlaethol, byddaf yn sicr yn atgyfnerthu'r neges nad opsiwn yn unig yw hyn o fewn y rhaglen; mae'n ddisgwyliad clir bod pobl yn manteisio ar arfer llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru ac yn ceisio’i gyflwyno er budd y teuluoedd y maent yno i’w gwasanaethu a’u cefnogi.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is a commendable practice answering all 10 questions, but you need not follow it every time. [Laughter.] I call on Mick Antoniw.

Mae'n arfer clodwiw ateb pob un o'r 10 cwestiwn, ond nid oes angen ichi ei ddilyn bob tro. [Chwerthin.] Galwaf ar Mick Antoniw.

17:51 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I recently read again Alan Milburn's report on poverty and social mobility. I have never been a great fan of his over the years, but it is, surprisingly, a very interesting report, which contains some valuable analysis and information that is directly relevant to the issues that you are talking about and attempting to deal with. Of course, what he does say in the report is that, over the past 15 years, there has been considerable progress in Wales in alleviating poverty and in terms of people getting work, and so on. The biggest challenge now, for me, and this is one of the points that he really highlights in the report, is that when it comes to dealing with poverty and a whole range of the family issues that arise, being able to get into work is very dependent on things like childcare. We know that the impact on us of the austerity measures from the UK Government, which have been passed down to local authorities, has been significant, particularly on those authorities that were providing well above the statutory minimum. The impact is that the progress that was being made with regard to alleviating poverty by getting people into work and by having a comprehensive range of childcare provision has now led to the rug being pulled from under those people, to some extent. To what extent do you see opportunities to somehow deal with that particular issue? It seems to me that, until we can deal with that particular issue, we can provide all sorts of backup, support and help—and all of it is very important and progressive, and so on—the reality is that, for many families, and particularly single mothers, unless they have that level of support, they may never be able to get out of poverty. Should we be looking more at whether we can focus additional support in those particular areas?

Ddirprwy Weinidog, yn ddiweddar darllenais eto adroddiad Alan Milburn ar dlodi a symudedd cymdeithasol. Nid wyf wedi bod yn edmygydd mawr iawn ohono dros y blynyddoedd, ond y mae, er syndod, yn adroddiad diddorol iawn, sy'n cynnwys rhywfaint o ddadansoddi gwerthfawr a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r materion yr ydych yn sôn amdanynt ac yn ceisio ymdrin â hwy. Wrth gwrs, yr hyn y mae'n ei ddweud yn yr adroddiad yw y bu cynnydd sylweddol yng Nghymru, dros y 15 mlynedd diwethaf, o ran lliniaru tlodi ac o ran pobl yn cael gwaith, ac yn y blaen. Yr her fwyaf yn awr, i mi, ac mae hyn yn un o'r pwyntiau yr oedd mewn gwirionedd yn tynnu sylw atynt yn yr adroddiad, yw hyn—pan ddaw'n fater o ymdrin â thlodi ac ystod gyfan y materion teuluol sy'n codi, mae gallu mynd i weithio'n ddibynnol iawn ar bethau fel gofal plant. Rydym yn gwybod bod effaith mesurau darbodaeth Llywodraeth y DU arnom, sydd wedi eu trosglwyddo i lawr i awdurdodau lleol, wedi bod yn sylweddol, yn enwedig i'r awdurdodau hynny a oedd yn darparu llawer mwy na'r isafswm statudol. Effaith hynny yw bod y cynnydd a oedd yn digwydd o ran lleddfu tlodi trwy gael pobl i mewn i waith a thrwy gael ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth gofal plant bellach yn golygu bod y carped yn cael ei dynnu o dan y bobl hynny, i ryw raddau. I ba raddau ydych chi'n gweld cyfleoedd i ymdrin rywsut â'r mater penodol hwnnw? Mae'n ymddangos i mi, hyd nes y gallwn ddelio â'r mater penodol hwnnw, y gallwn ddarparu pob math o gymorth wrth gefn, cefnogaeth a help—ac mae'r cyfan yn bwysig iawn ac yn flaengar, ac yn y blaen—mai'r realiti yw, i lawer o deuluoedd, ac yn enwedig mamau sengl, oni bai bod ganddynt y lefel honno o gefnogaeth, efallai na fyddant byth yn gallu dod allan o dlodi. A ddylem fod yn edrych i raddau mwy ar ba un a allwn ganoli cymorth ychwanegol yn y meysydd arbennig hynny?

17:53 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question and the points made. The Social Mobility and Child Poverty Commission's report, and, in particular, its analysis of the UK Government's draft child poverty strategy, is impressive in the depth that it goes into and the extent of the evidence it has to support it. It asks some questions of us about what we do with devolved areas of function. The point you made on childcare has been well made by a number of Members in the Chamber on previous occasions with regard to what we could and should do. Families First is not set up to provide that, but it is set up to provide support to families that are having trouble in their successful functioning. It is about intervening early enough to prevent those problems from becoming larger.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn a'r pwyntiau a wnaed. Mae adroddiad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, ac, yn arbennig, ei ddadansoddiad o strategaeth tlodi plant drafft Llywodraeth y DU, yn drawiadol o ran ei drylwyredd a graddfa'r dystiolaeth sy'n ei ategu. Mae'n gofyn rhai cwestiynau inni am yr hyn yr ydym yn ei wneud â meysydd datganoledig. Mae'r pwynt a wnaethoch am ofal plant wedi ei wneud yn dda gan nifer o Aelodau yn y Siambr o'r blaen o ran yr hyn y gallem ac y dylem ei wneud. Nid yw Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i sefydlu i ddarparu hynny, ond mae wedi'i sefydlu i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n cael trafferth o ran gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n ymwneud ag ymyrryd yn ddigon cynnar i atal y problemau hynny rhag mynd yn fwy.

However, I do not want to avoid or soft-soap the point you raised, and it is not just the impact of spending cuts on what we can do and the very real consequence it has for a range of public services; it is also the reality of tax and benefit choices. With regard to the point you made about the progress made over 15 years, this was largely because of the tax and benefit choices that were made to put money into supporting families with children, especially poorer families with children—low-income families. A really big challenge for us now is the reality that the tax and benefit choices made by the UK Government are putting more people into in-work poverty. People are doing the right thing and are going out to work, but they are still coming home and facing the reality of living a life in poverty. So, a number of the families—in fact the majority—that Families First works with and supports are families where an adult is in work. It is a really significant challenge. We should never be afraid to point out the very real impact that the Conservative-led UK Government is having on families in Wales, but it should not prevent us doing what we could and should do here, and that will be the continued focus of the work we do through Families First.

Fodd bynnag, nid wyf am osgoi neu wanhau'r pwynt a godwyd gennych, ac mae'n ymwneud â mwy na dim ond effaith y toriadau gwariant ar yr hyn y gallwn ei wneud a'r canlyniad gwirioneddol i amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus; mae hefyd yn ymwneud â realiti dewisiadau treth a budd-daliadau. O ran y pwynt a wnaethoch am y cynnydd a wnaed dros 15 mlynedd, roedd hyn i raddau helaeth oherwydd y dewisiadau treth a budd-daliadau a wnaed i roi arian i gefnogi teuluoedd â phlant, yn enwedig teuluoedd tlotach â phlant—teuluoedd ar incwm isel. Un her fawr iawn inni yn awr yw'r realiti bod y dewisiadau treth a budd-daliadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn gosod mwy o bobl mewn tlodi mewn gwaith. Mae pobl yn gwneud y peth iawn ac yn mynd allan i weithio, ond maent yn dal i ddod adref i wynebu realiti byw mewn tlodi. Felly, mae nifer o'r teuluoedd—yn wir y rhan fwyaf—y mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda hwy ac yn eu cefnogi yn deuluoedd lle mae oedolyn mewn gwaith. Mae'n her sylweddol. Ni ddylem fod ag ofn tynnu sylw at yr effaith wirioneddol iawn y mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr yn ei chael ar deuluoedd yng Nghymru, ond ni ddylai ein hatal rhag gwneud yr hyn y gallwn ac y dylem ei wneud yma, a dyna fydd canolbwynt y gwaith yr ydym yn ei wneud drwy Teuluoedd yn Gyntaf o hyd.

17:55

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the other report, Minister, and your statement this afternoon. I think that it is refreshing to see an evaluation being undertaken while the programme is in its early days so that adjustments can be made on an ongoing basis and better outcomes can be achieved. Being prepared to learn from mistakes is important and a better way forward than defending any aspect that is not quite best practice. I look forward to seeing the improvement following the shared learning exercise in the autumn that you mentioned earlier. However, beware, because best practice has not been the best traveller, certainly in my experience anyway. I just have a few questions but, before I ask those, I would like to endorse your comment about being careful about the language we use, because, of course, telling families that they are troubled sounds like you are starting from the point of view where they are trouble, which is not the most positive start.

Rwyf yn croesawu'n fawr yr adroddiad arall, Weinidog, a'ch datganiad y prynhawn yma. Credaf ei bod yn braf gweld gwerthusiad yn cael ei wneud yn nyddiau cynnar y rhaglen er mwyn gallu gwneud addasiadau parhaus a sicrhau canlyniadau gwell. Mae bod yn barod i ddysgu o gamgymeriadau yn bwysig ac yn ffordd well ymlaen nag amddiffyn unrhyw agwedd nad yw'n arfer gorau yn hollol. Edrychaf ymlaen at weld y gwelliannau yn sgil yr ymarfer dysgu a rennir yn yr hydref a grybwyllwyd gennych yn gynharach. Fodd bynnag, byddwch yn ofalus, oherwydd nid yw arfer gorau wedi teithio'n dda iawn, yn sicr yn fy mhrofiad i beth bynnag. Mae gennyf rai cwestiynau ond, cyn imi eu gofyn, hoffwn gymeradwyo eich sylwadau am fod yn ofalus ynghylch yr iaith a ddefnyddiwn, oherwydd, wrth gwrs, mae dweud wrth deuluoedd eu bod yn gythryblus yn swnio fel petaech yn dechrau o safbwynt lle maent yn drafferth, ac nid dyna yw'r cychwyn mwyaf cadarnhaol.

Coming to the report, it does say that there is patchy service provision for families with disabled children and, of course, these families are often most in need of support, especially in the face of the austerity measures being taken by the UK Government, as you mentioned. So, I do not know how you intend to improve the Families First approach to these families and how Families First will tackle the more entrenched problems, such as children's health, education and home environment in future, and how you are going to focus on those aspects in future. Are you confident that those local differences that were mentioned earlier are because the needs are different and not because the provision is different? So, I would like to know how confident you are that the assessment processes are consistent across the country.

O ran yr adroddiad, mae'n dweud bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd tameidiog i deuluoedd â phlant anabl ac, wrth gwrs, y teuluoedd hyn yn aml y mae angen cefnogaeth fwyaf arnynt, yn enwedig yn wyneb y mesurau darbodaeth sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU, fel y soniasoch. Felly, nid wyf yn gwybod sut yr ydych yn bwriadu gwella ymagwedd Teuluoedd yn Gyntaf tuag at y teuluoedd hyn a sut y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd i'r afael â'r problemau sydd wedi ymwreiddio'n ddyfnach, megis iechyd plant, addysg ac amgylchedd y cartref yn y dyfodol, a sut yr ydych yn mynd i ganolbwyntio ar yr agweddau hynny yn y dyfodol. A ydych yn hyderus mai'r rheswm dros y gwahaniaethau lleol hynny y soniwyd amdanynt yn gynharach yw bod anghenion yn wahanol ac nid bod y ddarpariaeth yn wahanol? Felly, hoffwn wybod pa mor hyderus yr ydych fod y prosesau asesu yn gyson ar draws y wlad.

Following on from Suzy Davies's comments, I noticed that there is a suggestion in the report that the narrow definition of the family could be hampering the effectiveness of the programme. How do you plan to overcome that? I do not recall that being highlighted as a difficulty in the first evaluation report, so has the definition of family changed slightly in the last year or is it just that it has now become obvious that this definition might have been a bit narrow to start with? My last point is on information sharing, really, and how you are going to ensure that there are appropriate and effective protocols in place for information sharing and whether there are specific issues around the third sector that you are addressing, especially in relation to information sharing.

Yn sgil sylwadau Suzy Davies, sylwaf fod awgrym yn yr adroddiad y gallai diffiniad cul o'r teulu lesteirio effeithiolrwydd y rhaglen. Sut ydych chi'n bwriadu goresgyn hynny? Nid wyf yn cofio i hynny gael ei amlygu fel anhawster yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf, felly a yw'r diffiniad o'r teulu wedi newid ychydig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, neu ai dim ond yn awr y mae wedi dod yn amlwg fod y diffiniad hwn o bosibl wedi bod braidd yn gul i ddechrau? Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â rhannu gwybodaeth, mewn gwirionedd, a sut yr ydych yn mynd i sicrhau bod protocolau priodol ac effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth a pa un a oes materion penodol sy'n ymwneud â'r trydydd sector yr ydych yn rhoi sylw iddynt, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth .

17:58 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions, and I welcome what you had to say about the importance of language. I think that we have a shared position there. I think that the point you made on best practice goes through a number of the other points that you make. When you ask whether the needs are different or whether it is simply that local practice is different in terms of commissioning and the support being provided, that is part of what is to be looked at in those shared learning events, in order to understand how effectively the commissioning takes place after identification of the majority of needs that local authorities want to address.

Diolch am y cwestiynau hynny, a chroesawaf yr hyn yr oedd gennych i'w ddweud am bwysigrwydd iaith. Credaf ein bod yn rhannu'r un safbwynt yn hynny o beth. Credaf fod y pwynt a wnaethoch am arfer gorau yn mynd trwy nifer o'r pwyntiau eraill a wnewch. Pan ofynnwch a yw anghenion yn wahanol ynteu a yw arferion lleol yn wahanol o ran comisiynu a'r cymorth a ddarperir, mae hynny'n rhan o'r hyn i'w ystyried yn y digwyddiadau dysgu a rennir hynny, er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r comisiynu ar ôl nodi'r rhan fwyaf o'r anghenion y mae awdurdodau lleol yn awyddus i fynd i'r afael â hwy.

I have to say that my approach to best practice and information sharing is relatively similar. There are challenges on information sharing and the evaluation recognises that, in some authorities, the practice is more effective and more consistent, and the feedback from stakeholders was that, broadly, two thirds of stakeholders felt that information sharing was effective, but that also means that a third of people have a challenge around it. So, there is no point trying to say that this is an area of perfection, because it is not. Again, that is some of what I want to see carried through in shared learning. The approach that I take to best practice is that we should all be much more demanding around best practice. It should come from here, from the leadership that Ministers have to provide. It should also come from people on the ground as well. We should be much more ready to recognise where there is better practice, and that should be local practice rather than local practice not being best practice. A point I make regularly when I go out and about and meet people working on a range of projects—not just Families First, but Flying Start and Communities First—is that I am really not very interested in hearing somebody say, 'But, this is local practice, it is the way we do it here'. If it does not work or it is not as effective as a comparable part of that authority or another part of Wales, then I want an explanation why. You have to justify the difference in the approach. That means that everyone involved in that engagement should take that approach as well, especially at these times when every pound really counts and we will have less money in the future. We just cannot go on simply tolerating different ways of working that are not effective.

Rhaid imi ddweud bod fy ymagwedd at arfer gorau a rhannu gwybodaeth yn gymharol debyg. Mae heriau o ran rhannu gwybodaeth ac mae'r gwerthusiad yn cydnabod bod yr arfer, mewn rhai awdurdodau, yn fwy effeithiol ac yn fwy cyson, a'r adborth gan randdeiliaid oedd, yn gyffredinol, fod dwy ran o dair o'r rhanddeiliaid o'r farn bod gwybodaeth yn cael ei rannu'n effeithiol, ond mae hynny hefyd yn golygu bod traean o bobl yn teimlo her yn hyn o beth. Felly, nid oes diben ceisio dweud bod hwn yn faes lle ceir perffeithrwydd, oherwydd nid dyna'r sefyllfa. Unwaith eto, mae hynny'n elfen o'r hyn yr oeddwn am ei weld yn cael ei gyflawni drwy ddysgu a rennir. Fy ymagwedd i at arfer gorau yw y dylem i gyd fod yn disgwyl mwy o lawer o ran arfer gorau. Dylai ddod o'r fan yma, o'r arweinyddiaeth y mae'n rhaid i Weinidogion ei darparu. Dylai hefyd ddod oddi wrth bobl ar lawr gwlad. Dylem fod yn fwy parod o lawer i gydnabod lle mae arfer gwell, a dylai hynny fod yn arfer lleol yn hytrach nag yn arfer lleol nad yw'r arfer gorau. Un pwynt yr wyf yn ei wneud yn gyson pan fyddaf yn mynd allan i gwrdd â phobl sy'n gweithio ar amrywiaeth o brosiectau—nid dim ond Teuluoedd yn Gyntaf, ond Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf—yw nad oes gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed rhywun yn dweud, 'Ond, mae hyn yn arfer lleol, dyma'r ffordd yr ydym yn ei wneud yma'. Os na fydd yn gweithio, neu os nad yw mor effeithiol â rhan arall gymharol o'r awdurdod hwnnw neu ran arall o Gymru, yna rwyf am gael gwybod pam. Mae'n rhaid ichi gyfiawnhau'r gwahaniaeth yn yr ymagwedd. Mae hynny'n golygu y dylai pawb sy'n rhan o'r ymgysylltu gymryd yr ymagwedd honno, yn ogystal, yn enwedig ar yr adegau hynny pan fydd pob punt yn cyfrif ac y bydd gennym lai o arian yn y dyfodol. Ni allwn barhau i oddef ffyrdd gwahanol o weithio nad ydynt yn effeithiol.

I will just deal with the point that you make about the definition of a family. This arose from a number of examples where they believe that the key worker tried to too narrowly define 'family'. For example, are absent fathers included in the definition of the family? It is an issue for us to deal with in practice, but it is not a design issue within Families First. There has not been a narrowing down of the design of the definition of 'family', it is simply a point of practice and ironing out that unevenness.

Rwyf am ddelio â'r pwynt a wnewch am y diffiniad o'r teulu. Cododd hyn o nifer o enghreifftiau lle maent yn credu bod y gweithiwr allweddol wedi ceisio diffinio 'teulu' yn rhy gul. Er enghraifft, a yw tadau absennol yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o'r teulu? Mae'n fater y mae angen inni ymdrin ag ef yn ymarferol, ond nid yw'n fater sy'n ymwneud â dyluniad Teuluoedd yn Gyntaf. Nid yw'r diffiniad o'r 'teulu' wedi ei gulhau, mae'n fater o ymarfer a llyfnhau'r anwastadrwydd hwnnw.

18:01

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I also thank you for the statement this afternoon and the evaluation report? As Jocelyn Davies said, I found that report quite healthy, really, in that it actually acknowledged some issues that need to be addressed as well as extolling the virtues. Certainly, when I was in Wrexham, we were very pleased to be one of the pilot authorities. I think that this approach, I have to concede, is much healthier than the approach that is being adopted in England, where I think that the language that is being used, as you said, does not actually help what we are trying to do.

A gaf fi hefyd ddiolch ichi am y datganiad y prynhawn yma a'r adroddiad gwerthuso? Fel y dywedodd Jocelyn Davies, rwyf o'r farn bod yr adroddiad yn eithaf iach, mewn gwirionedd, gan ei fod yn cydnabod rhai materion y mae angen mynd i'r afael â hwy, yn ogystal â chanmol y rhinweddau. Yn sicr, pan oeddwn i yn Wrecsam, roeddem yn falch iawn o fod yn un o'r awdurdodau peilot. Credaf fod yr ymagwedd hon, mae'n rhaid imi gyfaddef, yn llawer iachach na'r ymagwedd sy'n cael ei mabwysiadu yn Lloegr, lle nad wyf yn meddwl fod yr iaith sy'n cael ei defnyddio, fel y dywedasoch, mewn gwirionedd yn helpu'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.

I want to concentrate on a few things. There is reference to the fact that the number of agencies involved has been reduced from about 900 under the previous Cymorth arrangements to 200. That is a step forward, but is there a danger here? You mentioned that some local authorities adopted very prescriptive practices, where they required projects to be bundled together, and that excluded some of the local agencies that had been delivering on the ground previously. Is there anything in the learning sessions that will encourage them to re-look at those practices that they adopted and perhaps learn from other authorities that were somewhat more flexible in their arrangements?

Rwyf am ganolbwyntio ar rai pethau. Cyfeirir at y ffaith bod nifer yr asiantaethau sy'n gysylltiedig wedi gostwng o tua 900 o dan drefniadau blaenorol Cymorth i 200. Mae hynny'n gam ymlaen, ond a oes perygl yma? Soniasoch fod rhai awdurdodau lleol wedi mabwysiadu arferion caeth iawn, lle'r oeddent yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau gael eu bwndelu gyda'i gilydd, ac roedd hynny'n cau allan rai o'r asiantaethau lleol a oedd wedi bod yn cyflawni ar lawr gwlad cyn hynny. A oes unrhyw beth yn y sesiynau dysgu a fydd yn eu hannog i edrych eto ar yr arferion a fabwysiadwyd ganddynt ac efallai ddysgu oddi wrth awdurdodau eraill a oedd ychydig yn fwy hyblyg eu trefniadau?

Given that we are moving to a situation where there will probably be continued austerity for way beyond the next UK general election, are you convinced that health boards and local authorities are not reverting to bunker and, perhaps, protecting their own services and decommissioning services without an overall strategic oversight being taken by the multi-agency approach that you refer to in your statement?

Ac ystyried ein bod yn symud at sefyllfa lle bydd darbodaeth yn ôl pob tebyg yn parhau ymhell y tu hwnt i etholiad cyffredinol nesaf y DU, a ydych yn argyhoeddedig nad yw byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn dychwelyd i'r byncer ac, efallai, yn diogelu eu gwasanaethau eu hunain ac yn datgomisiynu gwasanaethau heb drosolwg strategol gyffredinol drwy'r ymagwedd amlasiantaeth yr ydych yn cyfeirio ati yn eich datganiad?

I would also ask whether you feel, given that there is reference in the statement to the opportunities that will be provided by the second Families First national learning event, that lessons that perhaps should have been learnt at the first event have not been addressed in full as far as this evaluation report is concerned.

Rwyf hefyd am ofyn a ydych o'r farn, ac ystyried bod y datganiad yn cyfeirio at y cyfleoedd a fydd yn cael eu darparu drwy ail ddigwyddiad dysgu cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf, nad yw gwersi y dylid efallai fod wedi eu dysgu yn y digwyddiad cyntaf wedi cael sylw llawn o ran yr adroddiad gwerthuso hwn.

Finally, given the point that has already been made on the narrow definition of 'families', which has been found in the practice of some authorities, the evaluation report also highlights that the findings suggest that more could be done to support the third sector in delivering the programme than has been the case to date. What steps is the Welsh Government taking to provide that support or, alternatively, to ensure that that support is given to the third sector?

Yn olaf, ac ystyried y pwynt sydd eisoes wedi ei wneud ynghylch y diffiniad cul o 'deuluoedd', sydd wedi ei nodi yn arfer rhai awdurdodau, mae'r adroddiad gwerthuso hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y canfyddiadau'n awgrymu y gellid gwneud mwy i gynorthwyo'r trydydd sector i gyflwyno'r rhaglen nag a wnaed hyd yma. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddarparu'r cymorth hwnnw neu, fel arall, i sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r trydydd sector?

Given that education is considered to be a vital factor in lifting many of these families out of poverty, although I accept what you say regarding the difficulties that in-work poverty provides in some instances, is there any scope for you to have discussions with the Minister for education with regard to the role that extending the pupil deprivation grant to under-fives might provide, given the tightness of the overall budgetary situation, particularly with your department?

A chofio yr ystyrir bod addysg yn ffactor hanfodol er mwyn codi llawer o'r teuluoedd hyn allan o dlodi, er fy mod yn derbyn yr hyn a ddywedwch ynghylch yr anawsterau y mae tlodi mewn gwaith yn eu darparu mewn rhai achosion, a oes unrhyw gyfle i chi gael trafodaethau â'r Gweinidog addysg o ran y rôl y gallai estyn y grant amddifadedd disgyblion i rai dan bump ei darparu, ac ystyried pa mor dynn yw'r sefyllfa gyllidebol gyffredinol, yn enwedig gyda'ch adran chi?

18:04

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those questions. On your final point around extending the pupil deprivation grant to under-fives, I do not really think that that is a matter that is directly under the Families First statement, but there are obviously ongoing conversations between myself, the Minister for Communities Tackling Poverty and the Minister for Education and Skills about how the family support programmes support educational achievement.

Diolch am y cwestiynau hynny. O ran eich pwynt olaf ynghylch estyn y grant amddifadedd disgyblion i ran dan bump, nid wyf yn meddwl mewn gwirionedd fod hynny'n fater sy'n dod yn uniongyrchol o dan y datganiad Teuluoedd yn Gyntaf, ond mae sgyrsiau'n parhau, wrth gwrs, rhyngof fi, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch sut y mae'r rhaglenni cymorth i deuluoedd yn cynorthwyo cyflawniad addysgol.

On your first point about the move from 900 agencies to 200 and the point that you made later around supporting the third sector, obviously, those partners are mostly third sector partners, because there are only a couple of large, statutory agencies involved. So, the partnerships that are put together are largely about how leadership by one of the statutory partners then leads to engagement of the right mix of third sector partners to deliver an effective strategy for the identified local need. There is some work in looking at how you design those commissioning strategies and which have been the most effective ones.

O ran eich pwynt cyntaf ynghylch y symudiad o 900 o asiantaethau i 200 a'r pwynt a wnaethoch yn nes ymlaen ynghylch cefnogi'r trydydd sector, yn amlwg, mae'r partneriaid hynny yn bennaf yn bartneriaid yn y trydydd sector, oherwydd nad oes ond un neu ddau o asiantaethau mawr, statudol ynghlwm wrth hyn. Felly, mae'r partneriaethau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd i raddau helaeth yn ymwneud â'r modd y mae arweinyddiaeth gan un o'r partneriaid statudol wedyn yn arwain at ymgysylltiad y gymysgedd iawn o bartneriaid yn y trydydd sector i gyflwyno strategaeth effeithiol ar gyfer yr angen lleol a nodwyd. Mae rhywfaint o waith ynghylch edrych ar sut yr ydych yn cynllunio'r strategaethau comisiynu hynny a pha rai sydd wedi bod fwyaf effeithiol.

The report highlights that there has been some reflection and recognition that not every authority has done everything it would have wanted to do the first time around. There is recognition when going forward with commissioning that they want to improve upon that. But, I do think that it is a positive that we have moved from 900 different agencies to a couple of hundred. Part of our challenge was duplication between a number of different agencies and products not being of a sufficient scale and size to be able to deliver the sorts of changes that we want to see and the wide range of multi-agency support that we want to see. Having a different range of partners as part of one commissioned service to deal with one particular need has been broadly effective. My interest is how we see that rolled out more effectively, both in terms of commissioning and then the delivery on the ground.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y bu rhywfaint o fyfyrio a chydnabod nad yw pob awdurdod wedi gwneud popeth y byddai arno wedi bod eisiau ei wneud y tro cyntaf. Ceir cydnabyddiaeth wrth symud ymlaen â chomisiynu eu bod am wella hynny. Ond credaf ei bod yn gadarnhaol ein bod wedi symud o 900 o wahanol asiantaethau i gwpl o gannoedd. Rhan o'r her inni oedd dyblygu rhwng nifer o wahanol asiantaethau a chynnyrch nad oedd ar raddfa ac o faint digonol i allu cyflawni'r mathau o newidiadau yr ydym am eu gweld a'r ystod eang o gymorth amlasiantaeth yr ydym am ei weld. Mae cael ystod wahanol o bartneriaid yn rhan o un gwasanaeth a gomisiynir i ymdrin ag un angen penodol wedi bod yn effeithiol at ei gilydd. Mae gennyf fi ddiddordeb yn sut y gallwn weld hynny'n cael ei gyflwyno'n fwy effeithiol, o ran comisiynu ac yna'r cyflwyno ar lawr gwlad.

That goes back to the point around the multi-agency approach where health and local government have to be involved. It is consistent with the approach that we are taking in other areas too. There is recognition that we want health and local government to be partners with other parts of both housing and the wider third sector in what they could and should do together. They all have an interest in supporting and sustaining these families. Otherwise, they become broadly more expensive and more entrenched for the major statutory services to deal with at a later point.

Mae hynny'n mynd yn ôl at y pwynt ynghylch yr ymagwedd amlasiantaeth lle mae'n rhaid i iechyd a llywodraeth leol fod yn rhan o'r broses. Mae'n gyson â'n hymagwedd mewn meysydd eraill hefyd. Mae cydnabyddiaeth ein bod am i iechyd a llywodraeth leol fod yn bartneriaid â rhannau eraill o'r sector tai a'r trydydd sector ehangach yn yr hyn y gallent ac y dylent ei wneud gyda'i gilydd. Mae ganddynt i gyd ddiddordeb mewn cefnogi a chynnal y teuluoedd hyn. Fel arall, maent at ei gilydd yn mynd yn fwy drud ac yn ymwreiddio ymhellach i'r gwasanaethau statudol mawr ymdrin â hwy yn nes ymlaen.

I will make a point around the second learning event to deal with the rest of your question. For the first national learning event, the programme was especially new. This evaluation report is looking at a point in time, so we are looking at several months ago. There has already been progress since then as well, as we are broadly looking at the situation as it was about six months ago. By the time we get to the second learning event, we will have the additional progress that we think is already being made, and authorities will have made further steps to progress. This will help to inform the areas where we recognise there have been gaps and inconsistencies and a need to deliver improvement. That will certainly be what we take up at that second shared learning event. I expect to see further progress made when we have more figures in the future about the numbers of families involved and how many of those are seeing a real benefit of being engaged with Families First.

Byddaf yn gwneud pwynt ynghylch yr ail ddigwyddiad dysgu er mwyn ymdrin â gweddill eich cwestiwn. Yn y digwyddiad dysgu cenedlaethol cyntaf, roedd y rhaglen yn arbennig o newydd. Mae'r adroddiad gwerthuso yn edrych ar adeg benodol, felly rydym yn edrych ar nifer o fisoedd yn ôl. Mae cynnydd wedi bod eisoes ers hynny hefyd, gan ein bod yn edrych yn fras ar y sefyllfa fel ag yr oedd tua chwe mis yn ôl. Erbyn inni gyrraedd yr ail ddigwyddiad dysgu, bydd gennym y cynnydd ychwanegol yr ydym yn meddwl sydd eisoes yn cael ei wneud, a bydd awdurdodau wedi cymryd camau pellach i symud ymlaen. Bydd hyn yn helpu i lywio'r meysydd lle'r ydym yn cydnabod y bu bylchau ac anghysondebau ac angen i sicrhau gwelliant. Dyna'n sicr yr hyn y byddwn yn ymdrin ag ef yn yr ail ddigwyddiad dysgu a rennir. Rwyf yn disgwyl gweld bod cynnydd pellach wedi'i wneud pan fydd gennym fwy o ffigurau yn y dyfodol am nifer y teuluoedd dan sylw a faint o'r rheini sy'n gweld budd go iawn o ymgysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf.

18:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have two speakers left. I am not going to just let statements be between the Ministers and the spokespeople; others have a right to be called. But, be lightning quick now. I call Mike Hedges.

Mae gennyf ddau siaradwr ar ôl. Nid wyf yn mynd i adael i ddatganiadau fod rhwng y Gweinidogion a'r llefarwyr yn unig; mae gan eraill hawl i gael eu galw. Ond, byddwch yn gyflym iawn yn awr. Galwaf ar Mike Hedges.

18:07

## Mike Hedges [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am always expected to be lightning quick. I never prepare for more than a minute.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mae disgwyl imi bob amser fod yn gyflym iawn. Nid wyf byth yn paratoi ar gyfer mwy na munud.

I also welcome the statement on delivering Families First. It is working in my constituency. It is another example of how a Labour Government is working to help to reduce poverty and inequality. I am also pleased that the support process has been simplified. My question is: we have Families First, we have Flying Start, we have Communities First and, in my constituency, we also have Faith in Families; what can be done to make all those organisations work more closely together than they are doing now?

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad ar gyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'n gweithio yn fy etholaeth i. Mae'n enghraifft arall o'r ffordd y mae Llywodraeth Lafur yn gweithio i helpu i leihau tlodi ac anghydraddoldeb. Rwyf hefyd yn falch bod y broses gymorth wedi ei symleiddio. Fy nghwestiwn yw: mae gennym Teuluoedd yn Gyntaf, mae gennym Dechrau'n Deg, mae gennym Cymunedau yn Gyntaf ac, yn fy etholaeth i, mae gennym hefyd Faith in Families; beth y gellir ei wneud i sicrhau bod yr holl sefydliadau hynny'n gweithio'n agosach gyda'i gilydd nag y maent yn ei wneud yn awr?

18:08

## Vaughan Gething [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

That is work that we are actively engaged with. I want to see shared outcomes wherever possible, not just to enable people to work more closely together, but to require and expect people to work more closely together, so that there will not be duplication between Welsh Government programmes. I also hope to engage more effectively with other partners like local authorities and housing providers to deliver real, tangible benefits for the families they are in business to serve. I am pleased to say that there has been, in principle, a positive response from partners on the ground. We now need to see that happening in practice. It is fair to say that, for the direction we are setting, people are trying to get ahead of that and demonstrate that they are effectively working together in those local authorities and wider settings.

Mae hwnnw'n waith yr ydym yn ymwneud yn weithredol ag ef. Rwyf am weld canlyniadau a rennir lle bynnag y bo modd, nid yn unig er mwyn galluogi pobl i weithio'n agosach gyda'i gilydd, ond i'w gwneud yn ofynnol ac i ddisgwyl i bobl weithio'n agosach gyda'i gilydd, fel na fydd dyblygu rhwng rhaglenni Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn gobeithio ymgysylltu'n fwy effeithiol â phartneriaid eraill fel awdurdodau lleol a darparwyr tai i sicrhau buddion go iawn, pendant i'r teuluoedd y maent yno i'w gwasanaethu. Rwyf yn falch o ddweud y bu, mewn egwyddor, ymateb cadarnhaol gan bartneriaid ar lawr gwlad. Mae angen inni yn awr weld hynny'n digwydd yn ymarferol. Mae'n deg dweud, o ran y cyfeiriad yr ydym yn ei osod, fod pobl yn ceisio mynd ar y blaen i hynny a dangos eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn yr awdurdodau lleol hynny a'r lleoliadau ehangach.

18:09 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What consideration did the Welsh Government give to the early parental intervention pilot schemes carried out by five third sector bodies, including Barnardo's in Flintshire with its Family Matters programme, which preceded the launch of the two pioneer consortia in 2010, long before any change of Government, because of the complex needs of families? How is the Welsh Government ensuring, on the basis of that third sector expertise, that it is co-designing and co-delivering with the third sector to ensure that it gets it right?

Pa ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i'r cynlluniau peilot ymyrraeth gynnar â rhieni a gynhaliwyd gan bum corff yn y trydydd sector, gan gynnwys Barnardo's yn Sir y Fflint a'i raglen Family Matters, a ragflaenodd lansio'r ddau gonsortiwm arloesi yn 2010, ymhell cyn unrhyw newid yn y Llywodraeth, oherwydd anghenion cymhleth y teuluoedd? Sut y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau, ar sail yr arbenigedd hwnnw yn y trydydd sector, ei bod yn cydgynllunio ac yn cydgyflwyno â'r trydydd sector i sicrhau ei bod yn gwneud pethau'n iawn?

18:09 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The co-design and co-delivery of Families First is something that most third sector bodies talk about in very positive terms. That is not to say that it is perfect in every instance. Whenever a commissioning decision is made, there are some third sector partners that do not have the opportunity to take part in delivering the commissioned service. I have dealt with that as a constituency Member, and I see that in my position now, as well. However, in terms of the co-delivery and the co-design of needs, there is no significant body of opinion that says that the needs that are being commissioned are the wrong ones. In addition, I have had very positive engagement with each third sector partner that I have dealt with about the way in which they are delivering services alongside statutory partners. Therefore, I am very pleased with where we are now. I recognise that there is a need for and space for further improvement, and I look forward to delivering that in the future.

Mae cydgynllunio a chydgyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o gyrff y trydydd sector yn sôn amdano mewn modd cadarnhaol iawn. Nid yw hynny'n golygu ei fod yn berffaith bob amser. Pryd bynnag y gwneir penderfyniad comisiynu, mae rhai partneriaid yn y trydydd sector nad ydynt yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth a gomisiynir. Rwyf wedi ymdrin â hynny fel Aelod etholaeth, ac rwyf yn gweld hynny yn fy swydd yn awr, yn ogystal. Fodd bynnag, o ran cydgyflwyno a chydgynllunio anghenion, nid oes barn sylweddol bod yr anghenion sy'n cael eu comisiynu'n rhai anghywir. Yn ogystal, rwyf wedi cael cyswllt cadarnhaol iawn â phob partner yn y trydydd sector yr wyf wedi ymdrin â hwy ynghylch y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau ochr yn ochr â phartneriaid statudol. Felly, rwyf yn falch iawn â lle'r ydym yn awr. Rwyf yn cydnabod bod angen a lle i wella ymhellach, ac edrychaf ymlaen at gyflawni hynny yn y dyfodol.

18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister.

Diolch ichi, Ddirprwy Weinidog.

18:10

## Datganiad: Creu'r Amgylchiadau ar gyfer Twf Gwyrdd

## Statement: Creating the Conditions for Green Growth

Senedd.tv Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

This afternoon, I will set out some of the opportunities that green growth presents to our communities and businesses as well as the investment currently planned and taking place. In the same way that the availability of our natural resources put Wales at the forefront of the first industrial revolution, the sustainable use of our natural resources can create a new economic model that puts us at the forefront of the next one, delivering wealth creation, wellbeing and sustainable economic growth, both today and into the future.

Y prynhawn yma, byddaf yn nodi rhai o'r cyfleoedd y mae twf gwyrdd yn eu creu i'n cymunedau a'n busnesau yn ogystal â'r buddsoddi sydd wedi'i gynllunio ac sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn yr un modd ag y rhoddodd yr adnoddau naturiol a oedd ar gael yma Gymru ar flaen y gad yn y chwyldro diwydiannol cyntaf, drwy ddefnyddio ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gallwn greu model economaidd newydd i'n rhoi ar flaen y gad yn yr un nesaf, gan greu cyfoeth a sicrhau lles a thwf economaidd cynaliadwy, heddiw ac yn y dyfodol.

Wales is already making great strides in its transition to a low-carbon, green economy. The green economy is an established and growing sector of the economy in Wales, contributing £5.5 billion to the economy in 2011-12. The opportunities are considerable, with the global market worth £3.4 trillion. The food and drink sector is one sector in particular that offers significant opportunities. Last week, I launched 'Towards Sustainable Growth: an Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020'. The action plan has green growth at its core, encouraging integration on tackling poverty, managing our natural resources and using resources efficiently, and encouraging a sustainable industry based on productivity and profitability. The opportunities in this sector are significant and highlighted by our commitment to deliver a 30% increase in turnover to £7 billion by 2020.

Mae Cymru eisoes yn cymryd camau breision i newid i economi garbon isel, werdd. Mae'r economi werdd yn sector sefydledig sydd ar gynnydd yn economi Cymru, a chyfrannodd £5.5 biliwn at yr economi yn 2011-12. Mae'r cyfleoedd yn sylweddol; mae'r farchnad fyd-eang yn werth £3.4 triliwn. Mae'r sector bwyd a diod yn un sector penodol sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol. Yr wythnos diwethaf, lansiais 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'. Mae twf gwyrdd yn ganolog i'r cynllun gweithredu; mae'n annog integreiddio ar drechu tlodi, rheoli ein hadnoddau naturiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac yn annog diwydiant cynaliadwy sy'n seiliedig ar gynhyrchiant a phroffidioldeb. Mae cyfleoedd mawr yn y sector hwn ac mae ein hymrwymiad i sicrhau 30% o gynnydd mewn trosiant i £7 biliwn erbyn 2020 yn dangos hynny.

Together, the Welsh Government and business are already making significant investments in Wales to secure green growth jobs and ensure the resilience of our communities and businesses against climate change and resource scarcity. The 'Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs' is our key vehicle to deliver our strategic investment decisions. Additional capital allocations and innovative financial incentives will deliver new capital investment in the Welsh green economy. Up to £750 million of waste infrastructure investment is being made through a Welsh Government-led programme to support local authorities delivering next-generation treatment facilities. This year alone, through our energy efficiency programme, we are investing £36 million to make homes in some of Wales's poorest communities more energy efficient, alongside an additional capital investment of £70 million to improve the energy efficiency of Welsh homes over the next two years.

Gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Cymru a busnesau eisoes yn gwneud buddsoddiadau sylweddol yng Nghymru i sicrhau swyddi twf gwyrdd ac i sicrhau cydnerthedd ein cymunedau a'n busnesau yn wyneb newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau. 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi' yw ein cyfrwng allweddol i gyflawni ein penderfyniadau buddsoddi strategol. Bydd dyraniadau cyfalaf ychwanegol a chymhellion ariannol blaengar yn sicrhau y ceir buddsoddi cyfalaf newydd yn economi werdd Cymru. Mae hyd at £750 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn seilwaith gwastraff drwy raglen dan arweiniad Llywodraeth Cymru i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau trin y genhedlaeth nesaf. Eleni, drwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, rydym yn buddsoddi £36 miliwn i wneud cartrefi yn rhai o gymunedau tlotaf Cymru'n fwy effeithlon o ran ynni, ynghyd â buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £70 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

We are focused on increasing the underlying resilience of Wales through investment in green infrastructure. As a Government, we are investing £245 million in flood and coastal erosion risk management over the term of this Government, supported by £50 million investment from the European Union. Successful markets need a strong clear strategic vision and an effective regulatory regime. Through the environment Bill, we will legislate to establish a modern and joined-up statutory framework for natural resource management, helping to simplify and streamline regulatory approaches and to help identify untapped potential green growth opportunities.

Rydym yn canolbwyntio ar gynyddu cydnerthedd sylfaenol Cymru drwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd. Fel Llywodraeth, rydym yn buddsoddi £245 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod tymor y Llywodraeth hon, gyda chymorth buddsoddiad o £50 miliwn gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae ar farchnadoedd llwyddiannus angen gweledigaeth strategol glir, gref a threfn reoleiddio effeithiol. Drwy Fil yr amgylchedd, byddwn yn deddfu i sefydlu fframwaith statudol modern a chydgysylltiedig i reoli adnoddau naturiol, a fydd yn helpu i symleiddio dulliau rheoleiddio ac yn helpu i ganfod cyfleoedd newydd posibl o ran twf gwyrdd.

Green growth needs the active support of Government. I am committed to help drive this change. These will be detailed in the launch of my green growth prospectus at the Mansion House in the City of London on 23 June. I believe there is significant potential for more locally driven, distributed energy generation and I will be setting out my proposals in this area in December. In the autumn, I will be launching resource efficient Wales, which will provide a single point of advice on energy, waste and water resources, working with our advisory services to businesses, farmers and landowners. We are also developing options to support and encourage investment in energy and resource-efficient infrastructure in Wales that aims to promote low-carbon energy generation and improve the effectiveness of resource utilisation in Wales; create sustainable employment; and generate returns for investors to support further initiatives.

Mae ar dwf gwyrdd angen cefnogaeth weithredol gan y Llywodraeth. Rwyf wedi ymrwymo i helpu i sbarduno'r newid hwn. Rhoddir manylion am hyn pan gaiff fy mhrosbectws twf gwyrdd ei lansio yn Mansion House yn Ninas Llundain ar 23 Mehefin. Credaf fod cryn botensial i yrru a dosbarthu cynhyrchu ynni'n fwy lleol a byddaf yn amlinellu fy nghynigion yn hyn o beth ym mis Rhagfyr. Yn yr hydref, byddaf yn lansio Cymru effeithlon o ran adnoddau, a fydd yn un man cynghori ar adnoddau ynni, gwastraff a dŵr, ac yn gweithio gyda'n gwasanaethau cynghori i fusnesau, ffermwyr a thirfeddianwyr. Rydym hefyd yn datblygu opsiynau i gynorthwyo ac annog buddsoddi mewn seilwaith effeithlon o ran ynni ac adnoddau yng Nghymru er mwyn hyrwyddo cynhyrchu ynni carbon isel a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yng Nghymru; creu cyflogaeth gynaliadwy; a chreu elw i fuddsoddwyr i gefnogi mentrau pellach.

I am committed to developing markets for ecosystem services in Wales around carbon and water. Wales is well-placed to develop these markets and I will be providing an update in my oral statement on the climate change policy refresh in July, as well as publishing a more detailed route map in the autumn. The new £6 million nature fund will help to kick-start this work.

Rwyf wedi ymrwymo i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru sy'n ymwneud â charbon a dŵr. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r marchnadoedd hyn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fy natganiad llafar am adnewyddu'r polisi newid yn yr hinsawdd ym mis Gorffennaf, ac yn cyhoeddi trywydd manylach yn yr hydref. Bydd y gronfa natur newydd £6 miliwn yn helpu i roi hwb i'r gwaith hwn.

Our coastline offers significant opportunity for blue growth. I want to ensure that the use of the seas in long-established sectors, such as fisheries and tourism, and newer sectors, such as renewable energy, add sustainable economic value. We are committed to developing a Welsh national marine plan to provide a proper governance regime for our seas and to support blue growth as part of our green growth agenda. Deputy Presiding Officer, as a Government, we are committed to working collectively to maximise the opportunities that green growth presents. We will report separately on the work being undertaken through the green growth steering group jointly commissioned with the Minister for the Economy, Science and Transport.

Mae ein harfordir yn cynnig cyfleoedd mawr o ran twf glas. Rwyf am sicrhau bod y moroedd yn cael eu defnyddio mewn sectorau sefydledig, megis pysgodfeydd a thwristiaeth, ac mewn sectorau mwy newydd, megis ynni adnewyddadwy, mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth economaidd cynaliadwy. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun morol cenedlaethol Cymru i ddarparu trefn lywodraethu briodol ar gyfer ein moroedd ac i gefnogi twf glas fel rhan o'n hagenda twf gwyrdd. Ddirprwy Lywydd, rydym ni yn y Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae twf gwyrdd yn eu cynnig. Byddwn yn adrodd ar wahân am y gwaith a wneir drwy'r grŵp llywio twf gwyrdd a gomisiynwyd ar y cyd â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

18:15

## Russell George [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Minister for his second statement this afternoon. To be honest, when I first saw the statement scheduled, I wondered what we were going to get. I was hoping that we were going to get a robust statement regarding how the Government was going to develop a coherent and structured green growth strategy for Wales, with clear measurable objectives. However, you have done your best, I think, to put on your cheerleading outfit and have given us a mash-up of activities that you have undertaken over the past few months and will be doing over the next few months ahead. You have tantalised us with your green growth prospectus, but you are not going to be telling us elected Members about that on the floor of the Chamber in the National Assembly for Wales; you are going to be launching it in London next week. So, if there is any chance that you might give us a summary of that perspective this afternoon, that would be appreciated.

Diolch i'r Gweinidog am ei ail ddatganiad y prynhawn yma. A dweud y gwir, pan welais gyntaf fod y datganiad wedi'i drefnu, nid oeddwn yn siŵr beth yr oeddem yn mynd i'w gael. Roeddwn yn gobeithio ein bod yn mynd i gael datganiad cadarn ynghylch sut yr oedd y Llywodraeth yn bwriadu datblygu strategaeth gydlynol a strwythuredig ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru, ag amcanion mesuradwy, clir. Fodd bynnag, rydych wedi gwneud eich gorau, yn fy marn i, i wisgo'ch gwisg codi hwyl ac wedi rhoi cymysgedd inni o weithgareddau yr ydych wedi eu cynnal dros y misoedd diwethaf ac y byddwch yn eu cynnal dros yr ychydig fisoedd nesaf. Rydych wedi ein cyffroi â'ch prosbectws twf gwyrdd, ond nid ydych yn mynd i ddweud wrthym ni, yr Aelodau etholedig, am hynny ar lawr y Siambr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru; rydych yn mynd i'w lansio yn Llundain yr wythnos nesaf. Felly, os oes unrhyw siawns y gallech roi crynodeb o'r safbwynt hwnnw inni y prynhawn yma, byddem yn gwerthfawrogi hynny.

We had a statement last week on fuel poverty, and we know that, with the housing stock we have here in Wales, there are huge opportunities for making our housing warmer, drier and more comfortable and efficient to live in. I have long argued for an expansion of what are successful Government-led energy efficiency programmes in Wales by harnessing Green Deal investment. We have recently seen the launch of the Green Deal home improvement fund. So, how is the Government capitalising on this opportunity with small business suppliers?

Cawsom ddatganiad yr wythnos diwethaf am dlodi tanwydd, a gwyddom, â'r stoc dai sydd gennym yma yng Nghymru, fod cyfleoedd aruthrol i wneud ein tai'n gynhesach, yn sychach ac yn fwy cyfforddus ac effeithlon i fyw ynddynt. Rwyf yn dadlau ers peth amser o blaid ehangu'r rhaglenni effeithlonrwydd ynni llwyddiannus a arweinir gan y Llywodraeth yng Nghymru drwy harneisio buddsoddi'r Fargen Werdd. Mae cronfa gwella cartrefi'r Fargen Werdd wedi ei lansio'n ddiweddar. Felly, sut y mae'r Llywodraeth yn manteisio ar y cyfle hwn gyda chyflenwyr busnesau bach?

In relation to waste and Government funding, the Wales Audit Office made an observation in the report it published two years ago on public participation in waste recycling regarding the monitoring processes that the Welsh Government may or may not have attached to central grant funding given to local authorities to increase their recycling facilities. Given the growing constraints on local authority budgets, what robust assessment has the Welsh Government made of how local authorities have used grant money to provide value for money as well as meeting your wider management strategic objectives? Given the comments made by the chair of the Climate Change Commission for Wales yesterday, what is the Government's long-term vision for recycling and waste management in Wales? I hope that, like me, you believe in local determination. Where councils are getting it right and doing it well, they should be allowed to continue with that. It is also important to ensure that we gain the best public returns on recycling materials, so we need collection processes that ensure that the end waste product is fit to be used again.

O ran gwastraff a chyllid y Llywodraeth, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru sylw yn yr adroddiad a gyhoeddodd ddwy flynedd yn ôl am gyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu gwastraff ynglŷn â'r prosesau monitro y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi eu rhoi ynghlwm wrth gyllid grant canolog a roddir i awdurdodau lleol i gynyddu eu cyfleusterau ailgylchu. Ac ystyried y cyfyngiadau cynyddol ar gyllidebau awdurdodau lleol, pa asesiad cadarn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio arian grant i ddarparu gwerth am arian yn ogystal â bodloni eich amcanion rheoli strategol ehangach? Ac ystyried y sylwadau a wnaethpwyd gan gadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ddoe, beth yw gweledigaeth hirdymor y Llywodraeth ar gyfer ailgylchu a rheoli gwastraff yng Nghymru? Rwyf yn gobeithio eich bod chi, fel finnau, yn credu mewn penderfyniadau lleol. Lle mae cynghorau'n gwneud pethau'n iawn ac yn eu gwneud yn dda, dylent gael parhau â hynny. Mae hefyd yn bwysig sicrhau ein bod yn cael yr enillion cyhoeddus gorau wrth ailgylchu defnyddiau, felly mae arnom angen prosesau casglu sy'n sicrhau bod y cynnyrch gwastraff terfynol yn addas i'w ddefnyddio eto.

Community energy generation is another area the Government could do more on. Again, I have long called for a community energy strategy for Wales. You say that you have one in Ynni'r Fro, but that is an incentive scheme, not a strategy. One of the key challenges highlighted in the Ynni'r Fro mid-term review was the difficulty of obtaining planning permission and consent, with local planning authorities and Natural Resources Wales being perceived as resistant to community renewable energy and the benefits of such projects to local communities. This is still a problem, so how are you rectifying this to make the planning process easier to navigate? So, sorry if I was a bit negative in my opening comments, Minister, but I was a little bit disappointed with the statement.

Mae cynhyrchu ynni cymunedol yn faes arall lle y gallai'r Llywodraeth wneud mwy. Unwaith eto, rwyf yn galw ers peth amser am strategaeth ynni cymunedol i Gymru. Rydych yn dweud bod gennych un yn Ynni'r Fro, ond cynllun cymhelliant yw hwnnw, nid strategaeth. Un o'r heriau allweddol a nodwyd yn adolygiad canol tymor Ynni'r Fro oedd anhawster cael caniatâd a chydsyniad cynllunio; ystyrid bod awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu ynni adnewyddadwy cymunedol a buddion prosiectau o'r fath i gymunedau lleol. Mae hyn yn dal i fod yn broblem, felly sut ydych chi'n unioni hyn er mwyn ei gwneud yn haws dilyn y broses gynllunio? Felly, mae'n ddrwg gennyf os oeddwn ychydig yn negyddol yn fy sylwadau agoriadol, Weinidog, ond roeddwn braidd yn siomedig â'r datganiad.

18:19

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, that is the first time I have seen the leader walk out while their spokesperson is asking questions, I have to say. [Laughter.] That is quite an endorsement and a vote of confidence in the spokesperson on these matters. I have to say that I am somewhat disappointed by the Conservatives' approach to this. We all remember the 'vote blue, go green' agenda that David Cameron once promoted when he was told to do so by somebody who told him that it would detoxify his brand. You do not recognise it and you do not recognise it because you do not understand the concepts behind sustainable growth and the sustainable agenda that we are trying to promote here.

Wel, dyna'r tro cyntaf imi weld yr arweinydd yn cerdded allan tra bod ei lefarydd yn gofyn cwestiynau, rhaid imi ddweud. [Chwerthin.] Mae hynny'n dipyn o gymeradwyaeth ac yn bleidlais o hyder yn y llefarydd ar y materion hyn. Rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig braidd ag agwedd y Ceidwadwyr at hyn. Rydym i gyd yn cofio'r agenda 'pleidlais las, troi'n wyrdd' y bu David Cameron yn ei hyrwyddo unwaith ar ôl i rywun ddweud wrtho am wneud hynny gan y byddai'n dadwenwyno ei frand. Nid ydych yn ei adnabod, ac nid ydych yn ei adnabod oherwydd nad ydych yn deall y cysyniadau y tu ôl i dwf cynaliadwy a'r agenda gynaliadwy yr ydym yn ceisio ei hyrwyddo yma.

I really do not know how to address your issue about a cheerleader's outfit. You Tories do not change, do you? May I just say this? Part of what we are about here is creating the conditions for the creation of wealth and for the eradication of poverty and doing that in a way that is sustainable both today and in the future. We are already doing that. We have made commitments. Anybody who listened to the 'Today programme' this morning on Radio 4, putting aside the BBC's failure to understand the constitution of the United Kingdom, will have understood the impact on people's lives if you are not making an investment in green infrastructure. We are making those investments and, as a consequence of that, we are not only creating jobs and wealth, but also protecting people in their homes. That is the difference that a green growth agenda makes in Wales—it delivers in Wales today and tomorrow, in contrast to what is happening on the other side of Offa's Dyke.

Nid wyf yn gwybod sut i fynd i'r afael â'ch sylw ynghylch gwisg codi hwyl. Nid ydych chi Doriaid yn newid, yn nac ydych? A gaf fi ddweud hyn? Rhan o'r hyn yr ydym yn ei wneud yma yw creu amodau ar gyfer creu cyfoeth ac ar gyfer dileu tlodi a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gynaliadwy heddiw ac yn y dyfodol. Rydym eisoes yn gwneud hynny. Rydym wedi gwneud ymrwymiadau. Bydd unrhyw un a wrandawodd ar raglen 'Today' y bore yma ar Radio 4, a rhoi o'r neilltu fethiant y BBC i ddeall cyfansoddiad y Deyrnas Unedig, wedi deall yr effaith ar fywydau pobl os nad ydych yn buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd. Rydym yn gwneud y buddsoddiadau hynny ac, o ganlyniad i hynny, rydym nid yn unig yn creu swyddi a chyfoeth, ond rydym hefyd yn amddiffyn pobl yn eu cartrefi. Dyna'r gwahaniaeth y mae agenda twf gwyrdd yn ei wneud yng Nghymru—mae'n cyflawni pethau yng Nghymru heddiw ac yfory, yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yr ochr arall i Glawdd Offa.

Let me say this: we are going to continue to be driving green growth. You talked about the assessment of local government's work on the waste management agenda, I believe that local government has responded well and is doing a good job. I understand what Peter Davies said in his remarks on recycling and I do have some sympathy for his observations. However, I believe that local government is delivering on the waste management agenda and I believe that it is best placed to do so and I will continue to work with it.

Gadewch imi ddweud hyn: rydym yn mynd i barhau i yrru twf gwyrdd. Soniasoch am asesu gwaith llywodraeth leol ar yr agenda rheoli gwastraff; credaf fod llywodraeth leol wedi ymateb yn dda a'i bod yn gwneud gwaith da. Rwyf yn deall yr hyn a ddywedodd Peter Davies yn ei sylwadau am ailgylchu ac mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'i sylwadau. Fodd bynnag, credaf fod llywodraeth leol yn cyflawni ar yr agenda rheoli gwastraff ac rwyf yn credu mai hi sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny a byddaf yn parhau i weithio gyda hi.

I also understand the points that have been made on the planning issues, which were identified in the Ynni'r Fro mid-term evaluation. Of course, the purpose of the mid-term evaluation is to ensure that we are on track to deliver. If you understand that evaluation report, what you will read is an evaluation of the first community energy project of its kind in the United Kingdom and how we are improving the way that it operates to ensure that it delivers today and tomorrow. The planning issues that you raised are a part of that and you will be aware that my friend the Minister for planning will be addressing many of those issues in the planning Bill, which we publish next month.

Rwyf hefyd yn deall y pwyntiau a wnaethpwyd ynghylch materion cynllunio, a nodwyd yng ngwerthusiad canol tymor Ynni'r Fro. Wrth gwrs, pwrpas y gwerthusiad canol tymor yw sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni. Os ydych yn deall yr adroddiad gwerthuso hwnnw, yr hyn a ddarllenwch yw gwerthusiad o'r prosiect ynni cymunedol cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig a'r ffordd yr ydym yn gwella'r ffordd y mae'n gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni heddiw ac yfory. Mae'r materion cynllunio a godasoch yn rhan o hynny a byddwch yn ymwybodol y bydd fy ffrind y Gweinidog cynllunio'n rhoi sylw i lawer o'r materion hynny yn y Bil cynllunio y byddwn yn ei gyhoeddi y mis nesaf.

18:22

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A gaf i ddiolch i chi, Weinidog, am eich datganiad? Rwyf yn nodi eich bod yn dweud bod camau breision yn cael eu cymryd i greu economi carbon isel a nid oes amheuaeth bod llawer o waith da yn digwydd. Fodd bynnag, byddwch chi, fel fi, wedi cael eich siomi gan yr ystadegau a ymddangosodd yr wythnos diwethaf a oedd yn dangos fod allyriadau carbon ar gynnydd. Maent i fyny 5%, a hynny ar draws ystod o sectorau pwysig—sectorau a fyddai'n cynnig cyfleoedd twf economaidd hefyd, ond sectorau sydd i fod yn destun yr hyn sy'n cael eu disgrifio fel 'sectoral adaptation plans', sydd wedi bod yn araf iawn yn gweld golau dydd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech, yn enwedig ar ôl trafodaeth yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yr wythnos diwethaf, ein diweddaru ar bryd y gwelwn y rheiny yn eu lle.

May I thank you, Minister, for your statement? I note that you say that major steps are being taken to create a low-carbon economy and there is no doubt that there is much good work going on. However, you, like me, will have been disappointed by the statistics published last week that show that carbon emissions are on the increase. They are up 5%, and have increased across a range of important sectors—sectors that would offer opportunities for economic growth too, but sectors that are supposed to be subject to what are described as sectoral adaptation plans, which have been very slow in seeing the light of day. I would be grateful, particularly given the discussion in the Environment and Sustainability Committee had last week, if you could give us an update on when we will see those in place.

Fel rhan o'ch diweddariad neu'ch 'refresh' chi o'r strategaeth ar newid hinsawdd, a allwch ddweud wrthym os bydd hynny'n cynnwys gwerthusiad o'r ffordd y gweithredwyd strategaeth 2010 er mwyn i ni allu canfod lle y bu'r llwyddiannau a lle y bu'r methiannau efallai y mae angen i ni ddysgu oddi wrthynt?

As part of your update or refresh of the strategy on climate change, can you tell us whether that will include an evaluation of the way that the 2010 strategy was implemented so that we can discover where there were successes and where there were perhaps failures that we need to learn from?

Byddwch hefyd, fel rhan o'r broses honno, yn asesu polisïau'r Llywodraeth o ran eu heffaith ar leihau allyriadau carbon a faint o gyfraniad maent yn ei wneud at ostwng allyriadau gan 3%, sef y nod y rydym yn ymgyrraedd ato o flwyddyn i flwyddyn. Os ydych chi yn gwneud hynny, a wnewch gyhoeddi'r rhain gyda'r diweddariad, pan fydd y diweddariad yn cael ei gyhoeddi mewn ychydig wythnosau, neu os na chant eu cyhoeddi, sut y gallwch wybod felly beth sydd angen ei newid? Efallai y bu i chi fy nghlywed yn gynharach yn gofyn i'r Prif Weinidog ynghylch targedau statudol ar newid hinsawdd. Cymru, wrth gwrs, yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig bellach sydd heb dargedau o'r fath hwn. Mae pwyllgor y Deyrnas Unedig ar newid hinsawdd a Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi dweud y dylem gael targedau statudol. Liciwn glywed beth yw eich barn chi ynghylch y posibilrwydd o symud i'r cyfeiriad hwnnw.

You will also, as part of that process, be assessing Government policies in terms of their impact on reducing carbon emissions and what contribution they make to reducing emissions by 3%, which is the target that we are aiming for year on year. If you are assessing them, will the assessments be made public with the update, when that update is made available in a few weeks' time, or, If not, how can you know what actually needs to be changed? You may have heard me earlier asking the First Minister about statutory targets on climate change. Wales is the only part of the UK, of course, that currently does not have such targets. The UK Committee on Climate Change and the Climate Change Commission for Wales have stated that we should have statutory targets and I would like to hear your view on the possibility of moving in that direction.

Mae cyfeiriad yn eich datganiad chi at raglenni effeithlonrwydd ynni. Cawsom ddatganiad gennych yr wythnos diwethaf a oedd yn amlinelli llawer yn y maes hwnnw ac edrychaf ymlaen at weld y gwaith y byddwch yn ei wneud dros y misoedd nesaf, fel y bu i chi grybwyll, i edrych ar gryfhau, gobeithio, Arbed a Nyth i'r dyfodol. Mi wnes i holi nifer o gwestiynau'r adeg honno, felly ni wnaf eu hailadrodd, ond gwnaf ofyn i chi a wnewch chi ymrwymo i droi pob carreg i drio tyfu 'scale' y rhaglenni hynny, neu'r rhaglenni a fydd yn eu dilyn, beth bynnag a fyddant, oherwydd, wrth edrych ar ddatblygu cynaliadwy go iawn, mae'r canlyniadau amgylcheddol o safbwynt lleihau allyriadau carbon yn cael eu cyflawni, mae canlyniadau cymdeithasol o safbwynt taclo tlodi tanwydd a gwella canlyniadau iechyd, hefyd, wrth gwrs, yn ogystal â chanlyniadau economaidd pan mae'n dod at greu swyddi yn sgîl y gwaith sydd angen ei gyflawni ar y tai hynny. Dyna'r union fath o dwf gwyrdd yr ydym am ei weld mewn gwirionedd.

There is reference in your statement to energy efficiency programmes. We had a statement from you last week, of course, which outlined much of what is happening in that area. I look forward to seeing the work that you will undertake over the next few months, as you mentioned, in looking at strengthening Arbed and Nest for the future. I did ask a number of questions at that point, so I will not rehearse those questions, but I will ask you whether you will commit to turn every stone in order to develop the scale of those programmes, or the ensuing programmes, whatever shape they may take, because, when we look at truly sustainable development, the environmental outcomes in terms of reducing carbon emissions are achieved, there are social outcomes in terms of tackling fuel poverty and improving health outcomes too, of course, as well as impacts on the economy when it comes to creating jobs as a result of the work that needs to be done on those homes and properties. That is exactly the kind of green growth that we want to see.

Mae eich datganiad yn sôn am ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau. Soniwyd llawer am hynny ac rydym yn ei groesawu. Mae twf glas hefyd i'w groesawu yn ogystal. Rwy'n nodi dau beth newydd yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich datganiad, sef lansio effeithlonrwydd adnoddau Cymru, os mai hwnnw a fydd teitl Cymraeg 'resource efficient Wales' yn yr hydref, a mwy o fanylion ynglŷn ag annog cynhyrchu ynni lleol ym mis Rhagfyr. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am hynny.

Your statement mentions developing markets for ecosystem services. We have discussed that at length and we have welcomed it. Blue growth is also to be welcomed. I note two new things that you referred to in your statement, namely the launch of resource efficient Wales, which is to be launched in the autumn, and further details on encouraging local energy developments in December. We look forward to hearing more on those issues.

Roeddwn innau, fel llefarydd y Ceidwadwyr, wedi disgwyl mwy na rhyw fath o ddiweddariad ar nifer o raglenni sydd eisoes yn digwydd, ac roeddwn hefyd yn nodi y bydd, mae'n debyg, fwy o sylwedd yn cael ei ddatgelu gennych ymhen ychydig ddyddiau yn Llundain. Mi fyddwn i hefyd wedi hoffi pe baech chi wedi cyhoeddi hynny heddiw yn y fan hon, i'r Senedd, yn enwedig gan fod gennych ddatganiad ar yr union un pwnc. Felly, dyna gyfle a gollwyd. Felly, gwnaf innau achub ar y cyfle, gyda fy nghwestiwn olaf, i ofyn i chi a allwn ni eich temtio i rannu ychydig o'r cynnwys hwnnw gyda ni heddiw.

Like the Conservative spokesperson, I had expected more than simply an update on a number of programmes that are already in situ, and I also noted that there will, apparently, be more of substance made public by you in a few days' time in London. I would also have liked you to have announced that here today, to the Senedd, particularly as you have a statement on the very same issue. So, it has been an opportunity lost. I will, therefore, also take the opportunity of my final question to ask whether we could you tempt you to share some of that content with us today.

18:26 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mi fyddaf yn gwneud datganiad ddydd Llun ar y prospectws hwnnw, ac mi fydd y datganiad yn cyrraedd Aelodau cyn iddo gyrraedd y ddinas yn Llundain—rwy'n gallu gwneud yr ymrwymiad hwnnw i chi'r prynhawn yma.

I will be making a statement on Monday on that prospectus. The statement will come to Members before it reaches the city of London—I can make that commitment to you this afternoon.

Rydych yn iawn i nodi'r ffaith ein bod yn gwybod bod allyriadau carbon wedi cynyddu yn y ffordd a ddisgrifiwyd gennych y prynhawn yma. Rwyt yn 'optimist' ofnadwy os ydych wir yn meddwl y byddaf yn rhoi ateb gwahanol i'r un y mae'r Prif Weinidog wedi'i gynnig i chi yn barod y prynhawn yma. Roeddwn yn gwrando yn astud i'r drafodaeth gawsoch chi yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ddechrau'r prynhawn, ac rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi esbonio lle yr ydym ni yn hyn o beth. Felly, nid wyf am ychwanegu at hynny, heblaw i ddweud bod diweddariad ar bolisi newid hinsawdd yn mynd i gael ei gyhoeddi dros yr haf. Roeddwn yn gobeithio gallu gwneud hynny cyn y 'recess', ond os nad ydym yn gwneud hynny, byddaf yn ei gyhoeddi'r wythnos gyntaf ein bod yn dychwelyd o 'recess' yr haf.

You are right to note the fact that carbon emissions have increased in the way that you described earlier this afternoon. You are very optimistic if you think that I am going to give a different answer to the one that the First Minister has already given you this afternoon. I was listening very carefully to the discussion that you had during questions to the First Minister at the start of this afternoon and I think that the First Minister did explain where we are at with this. So, I do not want to add anything to that, other than to say that an update on the climate change policy will be issued over the summer. We were hoping to do it before the recess, but if we cannot do that, then we will publish it the first week that we come back after the summer recess.

Mae'n ffordd o ymateb i'r lle roeddem ni gyda'r IPCC. Rwy'n credu bod yr adroddiadau yr ydym wedi eu gweld dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod bwysig o ran gosod sylfaen i'r modd yr ydym yn cael trafodaethau rhyngwladol ynghylch dyfodol polisi newid hinsawdd. Rwy'n credu bod rhaid i ni yng Nghymru ymateb i hynny. Felly, dyna bwrpas y diweddariad ar newid hinsawdd, ac rwyf yn bendant am gyhoeddi hynny unwaith y gallaf, a chynnal a dechrau sbarduno trafodaeth bellach ar sut yr ydym yn datblygu polisi ar hynny.

It is a way of responding to where we were with the IPCC. I think that the reports that we have seen over the last year have been very important in terms of setting a basis for how we have international discussions about the future of climate change policy. I think that we in Wales have to respond to that. So, that is the purpose of the update on climate change. I certainly want to issue that as soon as I can so that we can start to ignite a debate on how we develop policy in this area.

O ran y taliadau ar gyfer ecosystemau, rwyf wedi sôn am hyn sawl gwaith yn y Siambr hon. Rwyf wedi derbyn yr adroddiad yr wyf wedi ei drafod yn barod. Rwy'n mynd i gyhoeddi hynny cyn 'recess' yr haf, ac rwy'n awyddus i gynnal trafodaeth ar sut yr ydym yn creu marchnad yng ngwasanaethau ecosystem. Rwy'n credu ei bod yn ffordd bwysig o greu marchnad. Mae'n digwydd mewn rhannau gwahanol o'r byd, ac nid oes rheswm nad yw hynny'n gallu digwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fan hyn dderbyn y cyfrifoldeb am greu'r fframwaith i alluogi'r farchnad i weithio, a byddaf yn gwneud hynny cyn diwedd y tymor hwn.

In terms of ecosystem payments, I have talked about this many times in the Chamber. I have accepted the report that I have discussed it already. I will be publishing that before the summer recess and I am keen to hold discussions on how we create a market in ecosystem services. I think that it is an important way of creating a market. It happens in other parts of the world and there is no reason why it cannot happen in Wales. However, we have to accept the responsibility of creating the framework to enable the market to work, and I will be doing that before the end of this term.

Gwnaethoch sôn am ynni cymunedol a 'resource efficient Wales'—nid wyf yn siŵr pa enw yr ydym ni'n ei ddefnyddio yn Gymraeg eto—a bydd datganiadau pellach ar hyn yn yr hydref. Rwy'n awyddus iawn i'w gwneud yn glir y prynhawn yma nad yw hyn yn bolisi y byddaf yn gwneud datganiad arno unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn fframwaith lle rydym yn datblygu 'approach' polisi yn ei gyfanrwydd.

You mentioned community energy and resource sufficient Wales—I am not quite sure what the title for that will be in Welsh as yet—and there will be further statements on this in the autumn. I am very keen to make it clear this afternoon that this is not a policy that I will be making a statement on once a year. This is a framework where we will be developing a policy approach in its entirety.

18:30 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I congratulate you on keeping going with the energy efficiency programmes, which certainly, to people in my constituency, are incredibly important in terms of getting people's homes insulated so that they are not spending far too much of their hard-earned income on their energy bills. So, the Arbed scheme and the Nest scheme continue to be very important, and I am glad that you have committed yourself to that. I wanted to look at what we can do to get industry to increase its contribution to reducing our carbon footprint, particularly as during the recession, it was very difficult to get large and medium-sized businesses to do things differently because of the financial challenges involved. However, what can be done in terms of those large and medium-sized businesses in particular that use a lot of energy? What are they doing to have microgeneration on-site, which would reduce their energy bills? What are they doing to use greywater if they need to use water in their industrial processes? How are they capturing and harvesting rainwater? It does not need to be clean, drinking water. How can we get all of our industry behind it because, at the moment, in the current European programme, we have relied a lot on small businesses to deliver these environmental targets? Now that businesses are feeling less of the pinch—businesses are having an increase in growth—even if individuals are not, how we can ensure that they are doing what is the right thing for them to conserve our resources?

Rwyf yn eich llongyfarch am ddal ati â'r rhaglenni effeithlonrwydd ynni, sydd yn sicr, i bobl yn fy etholaeth i, yn aruthrol o bwysig o ran inswleiddio cartrefi pobl fel nad ydynt yn gwario gormod o lawer o'r incwm y maent wedi gweithio'n galed amdano ar eu biliau ynni. Felly, mae'r cynllun Arbed a'r cynllun Nyth yn dal i fod yn bwysig iawn, ac rwyf yn falch eich bod wedi ymrwymo i hynny. Roedd arnaf eisiau edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i ddarbwyllo diwydiant i gynyddu ei gyfraniad i leihau ein hôl troed carbon, yn enwedig gan ei bod, yn ystod y dirwasgiad, yn anodd iawn darbwyllo busnesau mawr a chanolig i wneud pethau'n wahanol oherwydd yr heriau ariannol sydd ynghlwm â hynny. Fodd bynnag, beth y gellir ei wneud ynglŷn â'r busnesau mawr a chanolig hynny'n benodol sy'n defnyddio llawer o ynni? Beth y maent yn ei wneud i ficrogynhyrchu ar eu safleoedd, a fyddai'n lleihau eu biliau ynni? Beth y maent yn ei wneud i ddefnyddio dŵr llwyd os oes arnynt angen defnyddio dŵr yn eu prosesau diwydiannol? Sut y maent yn dal ac yn cynaeafu dŵr glaw? Nid oes raid iddo i gyd fod yn ddŵr yfed glân. Sut y gallwn wneud yn siŵr bod diwydiant yn cefnogi hyn oherwydd, ar hyn o bryd, yn y rhaglen Ewropeaidd gyfredol, rydym wedi dibynnu'n gryf ar fusnesau bach i gyflawni'r targedau amgylcheddol hyn? Yn awr nad yw mor gyfyng ar fusnesau—mae busnesau'n gweld cynnydd yn eu twf—hyd yn oed os nad yw hynny'n wir i unigolion, sut y gallwn sicrhau eu bod yn gwneud y peth iawn iddynt hwy i warchod ein hadnoddau?

18:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of energy efficiency, we are committed to developing Arbed and Nest. We are absolutely committed to the schemes as they are today. We are reviewing them at present and we will look towards how we can reshape them for the future. Llyr Huws Gruffydd in his earlier question asked whether we would leave no stone unturned in seeking to develop these programmes. The answer is 'yes, we will'. We will work hard to ensure that not only do we continue the programme that is currently in place, but we will look towards how we can improve that for the future and use the technology that is available to us today, which was not available to us a decade ago, to ensure that we are able to do that in a way that meets the needs of people today and tomorrow.

O ran effeithlonrwydd ynni, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Arbed a Nyth. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r cynlluniau fel y maent heddiw. Rydym yn eu hadolygu ar hyn o bryd a byddwn yn edrych i weld sut y gallwn eu hail-lunio ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd Llyr Huws Gruffydd yn ei gwestiwn yn gynharach a fyddwn yn sicrhau nad oes yr un garreg heb ei throi wrth geisio datblygu'r rhaglenni hyn. Yr ateb yw 'byddwn'. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod nid yn unig yn parhau â'r rhaglen sydd ar waith ar hyn o bryd, ond byddwn yn edrych ar sut y gallwn ei gwella at y dyfodol a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael inni heddiw, nad oedd ar gael inni ddegawd yn ôl, i sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni anghenion pobl heddiw ac yfory.

In terms of your wider questions on business, resource efficient Wales, when it is launched in the autumn, will be providing advice and support to business, as well as to others, in terms of how they can meet these ambitions. However, I must say that, in terms of where we are today in Wales, it is the large businesses that are, in many ways, leading the way. It is large businesses that recognise the importance of resource efficiency, both in terms of their bottom line, but also in terms of the importance of sustainability as a core part of their corporate functioning, not simply as a brand, or as a marketing tool, but as a core business discipline. So, in many ways, Governments and the public sector are struggling, if you like, to keep up and to catch up with major multinational businesses that have recognised the importance of sustainability as an economic model that works today and in the future.

O ran eich cwestiynau ehangach am fusnesau, bydd Cymru effeithlon o ran adnoddau, pan gaiff ei lansio yn yr hydref, yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau, ac i eraill, ynghylch sut y gallant gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, o ran lle'r ydym heddiw yng Nghymru, mai'r busnesau mawr sydd, mewn sawl ffordd, yn arwain y ffordd. Busnesau mawr sy'n cydnabod pwysigrwydd effeithlonrwydd o ran adnoddau, o ran eu llinell waelod, ond hefyd o ran pwysigrwydd cynaliadwyedd fel rhan greiddiol o'u gweithredu corfforaethol, nid yn unig fel brand, neu fel arf marchnata, ond fel disgyblaeth fusnes graidd. Felly, mewn sawl ffordd, mae Llywodraethau a'r sector cyhoeddus yn ei chael yn anodd, os hoffwch, cynnal y cyflymdra a chystadlu â busnesau rhyngwladol mawr sydd wedi cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd fel model economaidd sy'n gweithio heddiw ac yn y dyfodol.

So, we are looking at developing stronger relationships with business and my friend the Minister for Economy, Science and Technology and I have jointly sponsored a green growth strategy group within Government to emphasise that anchor point within the business community.

Felly, byddwn yn ceisio datblygu perthynas gryfach â busnesau ac mae fy ffrind, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a minnau ar y cyd wedi noddi grŵp strategaeth twf gwyrdd yn y Llywodraeth i bwysleisio'r pwynt angori hwnnw yn y gymuned fusnes.

18:34

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister very much for bringing forward this statement today, and indeed for teasing us a little as to what Monday will also reveal. The need for green growth is something about which there is little disagreement in the Chamber, and indeed it is something that I have personally championed on behalf of my group in the Chamber on a number of occasions. Indeed, this time tomorrow, or hopefully a little earlier, I shall be opening a debate on community energy, where I hope we will be able to give further focus to that sector and enable more to be added to the £5.5 billion contribution that low-carbon generation has been quoted to bring to the economy in the coming years.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw, ac yn wir am ein pryfocio ychydig am yr hyn a gaiff ei ddatgelu ddydd Llun hefyd. Nid oes llawer o anghytuno yn y Siambr ynglŷn â'r angen am dwf gwyrdd, ac yn wir mae'n rhywbeth yr wyf wedi dadlau o'i blaid yn bersonol ar ran fy ngrŵp yn y Siambr ar nifer o achlysuron. Yn wir, yr adeg hon yfory, neu, rwyf yn gobeithio, ychydig yn gynharach, byddaf yn agor dadl am ynni cymunedol, lle'r wyf yn gobeithio y gallwn roi rhagor o sylw i'r sector hwnnw a sicrhau y gellir ychwanegu mwy at y cyfraniad £5.5 biliwn y dywedwyd y bydd cynhyrchu carbon isel yn ei wneud i'r economi yn y blynyddoedd i ddod.

I am pleased also that the Minister referred to last week's launch of the action plan for food and drink. It was my privilege to attend that event, and I was particularly impressed with the contribution that was made by Tara McCarthy of Bord Bia, the Irish food and drink agency. Clearly, when taking forward such a plan as this, it is critical that we learn from experiences elsewhere, and, as such, it was good to see an international aspect to that event—from her, and from Scotland Food and Drink. Minister, will you expand on the importance that you attribute to drawing upon international best practice in the field of green growth, and also outline any ways in which you feel, in the future, it will be possible for us to bring to the table our own examples of Welsh best practice in this particular area?

Rwyf hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi cyfeirio at lansio'r cynllun gweithredu ar gyfer bwyd a diod yr wythnos diwethaf. Roedd yn fraint gennyf fod yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw, ac roeddwn yn llawn edmygedd o gyfraniad Tara McCarthy o Bord Bia, asiantaeth bwyd a diod Iwerddon. Wrth gwrs, wrth fwrw ymlaen â chynllun fel hwn, mae'n hollbwysig ein bod yn dysgu oddi wrth brofiadau mewn mannau eraill, ac, felly, roedd yn dda gweld agwedd ryngwladol i'r digwyddiad hwnnw—ganddi hi, a chan Scotland Food and Drink. Weinidog, a wnewch chi ymhelaethu ar y pwys yr ydych yn ei roi ar ddefnyddio arfer gorau rhyngwladol ym maes twf gwyrdd, a hefyd amlinellu unrhyw ffyrdd yr ydych o'r farn y bydd yn bosibl inni, yn y dyfodol, ddod â'n henghreifftiau ein hunain at y bwrdd o arfer gorau Cymru yn y maes penodol hwn?

I understand that green growth has to be shaped in a number of ways, such as through energy efficiency, renewables, waste management, and, indeed, logistics. Relating that to the infrastructure plan, will you please expand on any discussions that you have had with the Minister for transport regarding the imperative to improve the infrastructure for the alternative fuelling of vehicles, which can be used either on farms or, indeed, as part of the wider public transport network, and which would provide, potentially, a considerable additional boost for this sector?

Rwyf yn deall bod yn rhaid llunio twf gwyrdd mewn nifer o ffyrdd, megis drwy effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, rheoli gwastraff, ac, yn wir, logisteg. A chysylltu hynny â'r cynllun seilwaith, a wnewch chi ymhelaethu ar unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Gweinidog trafnidiaeth ynghylch y rheidrwydd i wella'r seilwaith ar gyfer tanwydd amgen i gerbydau, y gellir ei ddefnyddio naill ai ar ffermydd neu, yn wir, fel rhan o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ehangach, ac a fyddai, o bosibl, yn rhoi hwb sylweddol ychwanegol i'r sector?

In terms of waste infrastructure, there is clear potential for further growth in anaerobic digestion facilities. However, it is becoming increasingly apparent to me and others that more consideration needs to be given in terms of the size of such facilities, and their impact upon surrounding communities. Indeed, perhaps there is a case for a buffer-zone approach to be adopted, as elsewhere.

O ran seilwaith gwastraff, mae potensial clir ar gyfer twf pellach ym maes cyfleusterau treulio anaerobig. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy amlwg i mi ac i eraill fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i faint cyfleusterau o'r fath, a'u heffaith ar gymunedau cyfagos. Yn wir, efallai fod achos dros ddefnyddio clustogfeydd, fel mewn mannau eraill.

In terms of eradicating fuel poverty through green growth, I think that we had a fairly full discussion on these topics last week. However, one issue that I failed to raise is the opportunity that is presented by new technologies, such as hybrid or gas-powered heat pumps. Minister, will you please outline the role that you envisage these to play within energy efficiency programmes in the future, and also detail any action that the Welsh Government will be looking to take to support the development and the marketing of such technologies, so as to further reduce fuel poverty?

O ran dileu tlodi tanwydd trwy dwf gwyrdd, rwyf yn meddwl ein bod wedi cael trafodaeth eithaf llawn am y pynciau hyn yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, un mater na wneuthum ei godi yw'r cyfle y mae technolegau newydd yn ei gynnig, megis pympiau gwres hybrid neu bŵer nwy. Weinidog, a wnewch chi amlinellu'r rhan yr ydych yn rhagweld y bydd y rhain yn ei chwarae mewn rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn y dyfodol, a hefyd roi manylion unrhyw gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio eu cymryd i gefnogi datblygu a marchnata technolegau o'r fath, er mwyn lleihau tlodi tanwydd ymhellach?

Finally, I want to touch upon the reference that you make in the statement to blue growth, through the marine plan. Last week, we had the welcome news of a £1 million European Union boost to support collaborative research projects in marine science between businesses and universities. Will you please expand on the potential impact of such funding in relation to marine projects, such as the demonstration zones that I focused upon in a recent Liberal-Democrat-sponsored debate, and also detail what further EU funding streams are currently being explored in relation to marine renewables, so as to further boost this highly important sector?

Yn olaf, rwyf am sôn am eich cyfeiriad yn y datganiad at dwf glas, drwy'r cynllun morol. Yr wythnos diwethaf, cawsom newyddion da am hwb gwerth £1 miliwn gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi prosiectau ymchwil ar y cyd ym maes gwyddoniaeth forol rhwng busnesau a phrifysgolion. A wnewch chi ymhelaethu os gwelwch yn dda ar effaith bosibl cyllid o'r fath o ran prosiectau morol, megis y parthau arddangos y bûm yn canolbwyntio arnynt mewn dadl ddiweddar dan nawdd y Democratiaid Rhyddfrydol, a hefyd roi manylion am ba rai eraill o ffrydiau cyllid yr UE sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd o ran ynni adnewyddadwy morol, er mwyn rhoi hwb pellach i'r sector pwysig iawn hwn?

18:38

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Liberal Democrats for their positive approach to these issues. I will say to Bill Powell that I think that we will be in agreement on most of these matters tomorrow afternoon, when we discuss again some of these issues. In terms of the issues that he has raised on energy generation, fuel poverty, and low-carbon community generation, I will address these during our discussions tomorrow, so if the Member would be as kind as to wait, perhaps I can avoid trying the patience of Members by discussing those things twice in two days.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu hymagwedd gadarnhaol at y materion hyn. Dywedaf wrth Bill Powell fy mod yn meddwl y byddwn yn cytuno ar y rhan fwyaf o'r materion hyn brynhawn yfory, pan fyddwn yn trafod rhai o'r materion hyn unwaith eto. O ran y materion y mae wedi eu codi ynghylch cynhyrchu ynni, tlodi tanwydd, a chynhyrchu cymunedol carbon isel, rhoddaf sylw i'r rheini yn ystod ein trafodaethau yfory, felly pe bai'r Aelod gystal ag aros, efallai y gallaf osgoi profi amynedd yr Aelodau drwy drafod y pethau hynny ddwywaith mewn deuddydd.

Regarding what William Powell spoke about in terms of the international aspect and where Wales stands in a wider scale, in many ways his final questions answered that original question. We are absolutely a part of the Organisation for Economic Co-operation and Development and the EU debate and discussions on green growth, and we have been, not just today and yesterday, but going back over many years. The Member will remember some of the conversations that we had over the creation of the new European strategic investment funds, and the whole Europe 2020 agenda was an agenda that we agreed three or four years ago. That is a green growth agenda. It is committed to a low-carbon economy, it is committed to using the tools that are available to us to deliver a low-carbon economy, and the very good examples quoted by the Member in terms of blue growth and funding are a consequence, both of that acceptance of that agenda and also of Wales's part in leading that agenda. Quite often I hear Members asking in questions, 'Will Wales learn from these other nations, these other territories or these other countries?' I have to say to the Member that, quite often, those places are learning from us in terms of what we are delivering in energy efficiency and community energy generation. Those places are learning from us, and our place in that wider international debate is secure and we are playing a leading role.

O ran yr hyn y soniodd William Powell amdano o safbwynt yr agwedd ryngwladol a ble mae Cymru'n sefyll ar raddfa ehangach, mewn sawl ffordd roedd ei gwestiynau olaf yn ateb y cwestiwn gwreiddiol hwnnw. Rydym yn bendant yn rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a dadl a thrafodaethau'r UE am dwf gwyrdd, ac rydym wedi bod yn rhan ohonynt, nid dim ond heddiw a ddoe, ond yn mynd yn ôl dros flynyddoedd lawer. Bydd yr Aelod yn cofio rhai o'r sgyrsiau a gawsom ynglŷn â'r cronfeydd buddsoddi strategol Ewropeaidd newydd, ac roedd holl agenda Ewrop 2020 yn agenda y cytunasom arni dair neu bedair blynedd yn ôl. Mae honno'n agenda twf gwyrdd. Mae wedi ymrwymo i economi carbon isel, mae wedi ymrwymo i ddefnyddio'r offer sydd ar gael inni i ddarparu economi carbon isel, ac mae'r enghreifftiau da iawn y soniodd yr Aelod amdanynt o ran twf glas a chyllid yn ganlyniad i dderbyn yr agenda honno, a hefyd yn ganlyniad i gyfraniad Cymru i arwain yr agenda honno. Yn aml iawn byddaf yn clywed Aelodau'n gofyn mewn cwestiynau, 'A wnaiff Cymru ddysgu oddi wrth y cenhedloedd eraill hyn, y tiriogaethau eraill hyn neu'r gwledydd eraill hyn?' Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod fod y lleoedd hynny, yn aml iawn, yn dysgu oddi wrthym ni o ran yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ym maes effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni cymunedol. Mae'r lleoedd hynny'n dysgu oddi wrthym ni, ac mae ein lle yn y drafodaeth ryngwladol ehangach honno'n ddiogel ac rydym yn chwarae rhan flaenllaw.

I will conclude by saying how grateful I am to the Member for his kind remarks about the food action plan launch last week. He is absolutely right to draw attention to the contribution from Tara McCarthy from Bord Bia and Bord Bia's commitment to Origin Green as part of its overall approach to food. It is absolutely essential that we do that in exactly the same way here in Wales, namely that we make the arguments that we can create wealth, jobs and a great product, and that we can do that in a sustainable way that benefits, not just us today, but future generations as well. That is exactly what she was saying last week and that is exactly what we are saying today.

Rwyf am gloi drwy ddweud pa mor ddiolchgar yr wyf i'r Aelod am ei sylwadau caredig am lansio'r cynllun gweithredu ar fwyd yr wythnos diwethaf. Mae'n gwbl gywir i dynnu sylw at gyfraniad Tara McCarthy o Bord Bia ac at ymrwymiad Bord Bia i Origin Green fel rhan o'u hymagwedd gyffredinol at fwyd. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwneud hynny yn union yr un ffordd yma yng Nghymru, sef cyflwyno'r dadleuon y gallwn greu cyfoeth, swyddi a chynnyrch gwych, ac y gallwn wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy sydd o fudd, nid yn unig i ni heddiw, ond i genedlaethau'r dyfodol hefyd. Dyna'n union yr oedd hi'n ei ddweud yr wythnos diwethaf a dyna'n union yr ydym ni'n ei ddweud heddiw.

18:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

18:41

# Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Tai (Cymru)

# Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Housing (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Housing and Regeneration to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5526 Lesley Griffiths

Motion NDM5526 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Tai (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Housing (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 2-13

a) sections 2-13

b) Atodlen 1

b) Schedule 1

c) adrannau 14-52

c) sections 14-52

d) adrannau 54-61

d) sections 54-61

e) Atodlen 2

e) Schedule 2

f) adrannau 62-141

f) sections 62-141

g) Atodlen 3

g) Schedule 3

h) adrannau 142-146

h) sections 142-146

i) adran 1

i) section 1

j) adran 53

j) section 53

k) Teitl hir

k) Long title.

18:41

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

18:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers, therefore the proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr eraill, felly y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:41.*

*The meeting ended at 18:41.*